Cynnig i gau Ysgol Carwe

Dogfen Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

Geirfa o Fyrfoddau 3

1. Cyflwyniad 4

2. Cefndir 4

3. Yr Ysgol sy'n Destun Cynnig 9

4. Y Cynnig – Cau Ysgol Carwe 48

5. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion 61

6. Yr ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt 66

7. Yr Effaith ar ansawdd a safonau addysg 70

8. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 78

9 Cyllid 79

10 Tir ac Adeiladau 86

11 Teithio a Chludiant 87

12 Trefniadau Derbyn 92

13 Y Broses Ymgynghori 95

Asesiadau Effaith 102

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned 103

Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg 114

Atodiad C – Asesiad Effaith Integredig 134

Atodiad D – Ffurflen Ymateb 174

Geirfa o Fyrfoddau

ACEHI – Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is

AD – Adnoddau Dynol

ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol

ALl – Awdurdod Lleol

ALNCo – Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

CDLl – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

CDU – Cynllun Datblygu Unigol

CGCB – Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

CRhAF – Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau

CSCA – Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

CYBLD – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

eFSM – Prydau Ysgol Am Ddim

AEI – Asesiad Effaith Integredig

LIC – Llywodraeth Cymru

MALIC – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

APP – Asesiad Perfformiad Panel

RhMA – Rhaglen Moderneiddio Addysg

RhYLl – Rheolaeth Ysgolion yn Lleol

SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol

TGCh – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

UPFSM – Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn egluro cynnig yr Awdurdod Lleol i newid y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Carwe ward Llangyndeyrn, gan gynnwys y bwriad i gau Ysgol Carwe o 31 Rhagfyr 2027, gan ddisgwyl trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn, Heol y Meinciau, Pontiets, Llanelli, SA15 5SN o 1 Ionawr 2028.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd y canlynol yn berthnasol o 1 Ionawr 2028:

- Byddai'r holl ddisgyblion presennol yn parhau i fynychu Ysgol Gwynfryn (yn amodol ar ddewis y rhieni).
- Bydd unrhyw ddisgyblion presennol a brodyr a chwiorydd a fydd wedi cyflwyno cais cyn 31 Rhagfyr 2027 i fynychu Ysgol Carwe yn gymwys i fynychu Ysgol Gwynfryn (yn amodol ar Bolisi Derbyn i Ysgolion yr Awdurdod Lleol).
- Byddai dalgylch presennol Ysgol Carwe yn trosglwyddo i ddalgylch Ysgol Gymunedol Trimsaran ac yn uno â'r dalgylch hwnnw.

Rhoddodd Ysgol Carwe y gorau i weithredu o'i hadeilad ysgol ym mis Medi 2025 yn dilyn pryderon iechyd a diogelwch sylweddol oherwydd problemau strwythurol yr adeilad a arweiniodd at farnu nad oedd yn addas nac yn ddiogel i ddisgyblion a staff ddefnyddio'r safle.

Ers mis Medi 2025, mae disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn, Pontiets, o dan drefniadau a sefydlwyd gan yr Awdurdod Lleol a chorff llywodraethu'r ysgolion ffederal. Mae'r Cylch Meithrin a oedd yn Ysgol Carwe wedi symud i Neuadd Carwe.

Mae'r ddogfen yn cynnig cyfle i rieni/gofalwyr, staff ysgol ac unrhyw un arall sydd â diddordeb gyflwyno unrhyw sylwadau neu opsiynau eraill yr hoffent iddynt gael eu hystyried. Ar ôl ymgynghori ar y newid arfaethedig, bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid gweithredu'r cynigion hyn.

Bydd y Cyfnod Ymgynghori ar gyfer y cynnig yn cael ei gynnal rhwng 10 Tachwedd 2026 a 22 Rhagfyr 2026. Ni fydd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Bydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)

2. Cefndir

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr Awdurdod Lleol i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo ac a yw'n llwyddo i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyfleusterau er mwyn cyflawni ei ddyheadau addysgol ar gyfer holl blant Sir Gaerfyrddin.

Cafodd Strategaeth Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ar 18 Tachwedd 2024, a'i diben yw cyflawni dyheadau'r Awdurdod Lleol o ran moderneiddio ac ad-drefnu ysgolion. Fe'i hategir gan set o **amcanion strategol** ac **egwyddorion addysg gynradd.** Pedwar o'r amcanion yw:

- Datblygu rhwydwaith o ysgolion sy'n effeithiol yn addysgol ac sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gynaliadwy yn y tymor hir;
- Datblygu seilwaith ym mhob ysgol sy'n eu galluogi i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif, gan hwyluso'r gwaith o wireddu'r amcanion craidd ar gyfer codi safonau addysgol a chynnal perfformiad o safon uchel;
- Darparu dull strategol o ran buddsoddiadau cyfalaf, ac integreiddio hynny â rhaglen i resymoli'r ddarpariaeth ledled y rhwydwaith ysgolion er mwyn cyflenwi'r galw yn effeithiol;
- Gwella effeithlonrwydd a dichonoldeb addysgol y sector ysgolion drwy leihau nifer y lleoedd gwag hyd at lefel resymol, a hwyluso, lle bo hynny'n ymarferol, y dewisiadau a fynega'r rhieni gan ymateb yn effeithiol i newidiadau demograffig.
- Darparu dull strategol o fuddsoddiad cyfalaf, wedi'i integreiddio â rhaglen ar gyfer rhesymoli darpariaeth ar draws rhwydwaith yr ysgolion i gyd-fynd â'r cyflenwad â'r galw yn effeithiol.
- Datblygu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac integredig sy'n cyd-fynd â pholisïau trafnidiaeth lleol a chenedlaethol, gan sicrhau mynediad effeithlon i ddisgyblion tra'n cydbwyso gofynion statudol ag ystyriaethau fforddiadwyedd. Mae hyn yn cynnwys optimeiddio lleoliadau ysgolion, cysylltiadau trafnidiaeth a llwybrau teithio llesol i gefnogi hygyrchedd, cynaliadwyedd amgylcheddol a chost-effeithiolrwydd.
- Anelu at ailadeiladu, ailfodelu, adnewyddu neu foderneiddio pob safle ysgol sy'n cael eu cadw yn yr hirdymor, fel eu bod yn cydymffurfio mor agos ag sy'n ymarferol â'r safonau dylunio mabwysiedig.
- Datblygu seilwaith mewn ysgolion sy'n gwbl hygyrch i bob unigolyn ac sy'n galluogi pob dysgwr i gael mynediad at addysg o ansawdd uchel, waeth beth fo'u hanghenion unigol.

Mae'r amcanion strategol yn cyd-fynd â set o **Egwyddorion Addysg Gynradd** sy'n nodau uchelgeisiol ar gyfer rhwydwaith ysgolion cynradd yr Awdurdod. Yr egwyddorion yw:

- Anelu at gael arweinyddiaeth gynaliadwy, gydag arweinwyr sy'n rhydd i arwain a rheoli, heb unrhyw ymrwymiad addysgu parhaol amser llawn.
- Anelu at sefyllfa lle na fydd mwy na 2 grŵp blwyddyn ym mhob dosbarth addysgu.
- Ymdrechu i gynnal nifer disgyblion sy'n ddigonol i gefnogi'r trefniadau strwythurol uchod.
- Bod yn ddichonol yn ariannol o dan fframwaith ariannu Rheoli Ysgolion yn Lleol a gweithredu yn y tymor hir heb ddiffyg cyllidebol.
- Cael mynediad at gyfleusterau addysgu awyr agored addas i wella dysgu a chefnogi llesiant corfforol ar draws yr ysgol.
- Bod yn gwbl gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.
- Cael cyfleusterau modern sy'n cefnogi dysgu digidol.
- Creu amgylchedd dysgu o safon uchel sy'n cefnogi llesiant yr holl ddysgwyr ac sy'n gwella eu cynnydd a'u cyflawniadau ar draws ystod eang o sgiliau a meysydd cwricwlwm.

Yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion strategol hyn, gall pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin gael ei gwerthuso yn erbyn cyfres o feini prawf seiliedig ar dystiolaeth, sy'n caniatáu

gwneud asesiad o hyfywedd gweithredol yr ysgol, a gwneud penderfyniadau ar sail angen buddsoddi cymharol pob ysgol. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu rhaglen yn wrthrychol ar gyfer yr adolygiad strategol o'r rhwydwaith ysgolion a buddsoddi mewn moderneiddio'r ystad ysgolion mewn modd sy'n dryloyw ac yn amlwg yn deg.

Mae safle o fewn continwwm hyfywedd yn cael ei neilltuo i bob un o ysgolion yr Awdurdod, er mwyn cadarnhau'r prognosis ar gyfer yr ysgol honno. Mae'r crynodeb o'r asesiad hyfywedd yn sail ar gyfer nodi prosiectau moderneiddio a chynigion rhesymoli o fewn y rhaglen gyffredinol.

Defnyddir y **meini prawf hyfywedd** i asesu hyfywedd ysgol neu grŵp o ysgolion mewn ardal benodol, ac i benderfynu a fyddem am gynnal adolygiad o hyfywedd yr ysgol. Mae cyd-destun pob ysgol yn wahanol a gallai ysgol unigol brofi heriau gan unrhyw un o'r meini prawf hyfywedd, neu gyfuniad ohonynt.
Y meini prawf hyfywedd yw:

- Ansawdd a safonau addysg
- Arweinyddiaeth
- Nifer y disgyblion, tueddiadau a rhagolygon
- Lleoedd gwag
- Hyfywedd ariannol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgol
- Cyfleoedd cyllido/adfywio cydweithredol

Rhaid i benderfyniadau a wneir gan y Cyngor o fewn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg ymateb i dirwedd addysg sy'n newid. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn wynebu pwysau ariannol cynyddol, ynghyd â chyfraddau genedigaethau gostyngol, gostyngiad yn nifer y disgyblion, cynnydd mewn lleoedd ysgol gwag, heriau recriwtio, a chostau adeiladu a chynnal a chadw cynyddol. Mae gostyngiad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr yn duedd allweddol sy'n wynebu'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, a rhagwela ffigurau Llywodraeth Cymru ostyngiad o 15% yn nifer y disgyblion erbyn 2041. Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy difrifol yn y sector cynradd ar hyn o bryd, ac yn Ionawr 2026 roedd mwy na 1000 yn llai o ddysgwyr cynradd oedran statudol yn Sir Gaerfyrddin nag yn 2021. Mae'n ofynnol i bob ysgol feddu ar gapasiti disgyblion sydd wedi'i gyfrifo'n ffurfiol, ac yn Ionawr 2026 roedd mwy na 3,500 o leoedd gwag ar draws y 94 o ysgolion cynradd sydd yn y sir. Mae hyn gyfystyr â thros 20 y cant o gyfanswm capasiti disgyblion cynradd ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Mae gan hyn oblygiadau ar gynaliadwyedd ariannol y rhwydwaith ysgolion, gan fod cyllidebau ysgolion yn gysylltiedig yn uniongyrchol â niferoedd disgyblion, a hynny o ran cyfanswm y cyllid a gaiff Sir Gaerfyrddin gan Lywodraeth Cymru, ac o ran sut caiff y cyllid hwn ei ddirprwyo wedyn gan yr Awdurdod Lleol i ysgolion unigol drwy'r fformiwla gyllido.

Mae rhwydwaith ysgolion y Sir wedi wynebu pwysau ariannol cynyddol ers 2024. Mae mwy a mwy o ysgolion mewn diffyg ariannol eisoes, gan fod nifer y lleoedd gwag ar draws yr ystad ysgolion wedi cynyddu. Mae llai o ddisgyblion mewn ysgolion, a'r cynnydd mewn lleoedd gwag wedi lleihau hyfywedd ariannol llawer mwy o ysgolion.

Gall pwysau ariannol mewn ysgolion gael effaith sylweddol ar eu gallu i ddarparu addysg o safon i blant. Yn naturiol, mae effaith hyn yn amlycach mewn ysgolion lle mae niferoedd y disgyblion yn llai neu'n gostwng. Yn Ionawr 2024 roedd gan 18 o ysgolion Sir Gaerfyrddin 50 neu lai o ddisgyblion. Erbyn Ionawr 2026 roedd y rhif hwn wedi cynyddu i 22 o ysgolion.

Y gyllideb o £158.9m ar gyfer ysgolion yw'r fwyaf o blith holl wasanaethau'r Cyngor. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26, roedd y gyllideb hon mewn diffyg o £9.5m. Mae'r straen ariannol cynyddol sydd ar ysgolion yn peri risg sylweddol i allu'r Cyngor i ddarparu ei holl wasanaethau eraill i drigolion y sir. O ganlyniad, mae'r Cabinet wedi cytuno bod cynnydd tuag at foderneiddio a rhesymoli ysgolion y sir yn hanfodol, os yw cyllidebau ysgolion yn mynd i aros yn fforddiadwy. Mae angen lleihau nifer y safleoedd ysgol er mwyn gwneud hyn, yn ogystal ag arbedion eraill. Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad strategaeth y gyllideb refeniw yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2025. Cafodd ei gymeradwyo wedyn gan y cyngor llawn ar 26 Chwefror 2025.

Yn ogystal â hyn, mae'r naratif rheoleiddio dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn fwyfwy clir. Y neges gyson yn arolygiad Estyn (2023), ymweliad Estynedig Arolygwyr Arweiniol Awdurdodau Lleol Estyn (Mehefin 2025) a'r Asesiad Perfformiad gan Banel (2025) yw bod gan Sir Gaerfyrddin strategaeth moderneiddio ysgolion gredadwy, ond bod y gwaith o'i gweithredu wedi bod yn rhy araf o ystyried y pwysau demograffig ac ariannol mae'r system addysg yn ei wynebu. Mae Estyn wedi dod i'r casgliad ddwywaith fod oedi wedi atal yr awdurdod rhag cyflawni ei gynlluniau ad-drefnu i'r graddau sydd ei angen. Mae Estyn hefyd wedi gwneud cysylltiad penodol rhwng ad-drefnu ysgolion a lleoedd gwag, diffygion cynyddol ysgolion, a risgiau ariannol i'r Cyngor. Bu i'r Asesiad Perfformiad Panel atgyfnerthu'r angen am newid trawsnewidiol amserol mewn ymateb i ddirywiad demograffig a phwysau ariannol. Mae rheoleiddwyr yn unfryd nad diffyg strategaeth yw'r risg fwyaf mwyach, ond arafwch wrth ei chyflawni.

Mae'n bwysig felly ystyried y cynnig a gyflwynir yn y Ddogfen Ymgynghori hon yn y cyd-destun ehangach a amlinellir uchod.

Roedd rhaid cau adeilad Ysgol Carwe ar ddechrau tymor academaidd Medi 2025 ar ôl nodi pryderon iechyd a diogelwch sylweddol ynglŷn â chyflwr strwythurol rhan o adeilad yr ysgol. Yn gynharach yn 2025, tynnodd arolwg cyflwr arferol a gomisiynwyd gan yr Awdurdod Lleol sylw at ddiffygion strwythurol posibl ym Mloc 3 yr ysgol. Mewn ymateb i'r canfyddiadau cychwynnol hyn, comisiynwyd ymchwiliad strwythurol mwy cynhwysfawr i gadarnhau maint a difrifoldeb y materion a nodwyd. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn yn ystod cyfnod gwyliau'r haf 2025, pan nad oedd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio, gan alluogi archwiliadau ac asesiadau manwl i gael eu cynnal heb darfu ar y ddarpariaeth addysgol.

Cafwyd canlyniadau'r ymchwiliad ym mis Awst 2025 a'r casgliad oedd na ellid gwarantu cyfanrwydd strwythurol Bloc 3. Nododd yr asesiad bryderon a oedd yn peri risg annerbyniol i ddiogelwch disgyblion, staff ac ymwelwyr, ac felly barnwyd bod yr adeilad yn anaddas i'w ddefnyddio'n barhaus. O ystyried difrifoldeb y canfyddiadau a chyfrifoldeb statudol yr Awdurdod Lleol i sicrhau amgylcheddau dysgu diogel, penderfynwyd ddiwedd mis Awst 2025 i beidio ag ailagor adeilad Ysgol Carwe ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

I leihau'r tarfu ar ddysgwyr a chynnal parhad addysg, gwnaed trefniadau i bob disgybl symud dros dro o fis Medi 2025 i Ysgol Gwynfryn ym Mhontiets. Gan fod Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Carwe yn rhan o'r un ffederasiwn, roedd hyn yn ateb ymarferol a oedd yn galluogi disgyblion a staff i barhau i addysgu a dysgu o fewn strwythur addysgol cyfarwydd. Roedd symud y dysgwyr dros dro yn sicrhau y gallai dysgwyr gael mynediad at gyfleusterau priodol a pharhau â'u haddysg wrth i ymchwiliadau, asesiadau ac ystyriaethau pellach gael eu cynnal ynghylch dyfodol safle Ysgol Carwe.

Yn ogystal â chau'r ysgol, roedd yn rhaid i'r Cylch Meithrin a oedd yn gweithredu o safle Ysgol Carwe hefyd symud. Cafwyd hyd i adeilad amgen yn Neuadd Carwe, gan ganiatáu i'r ddarpariaeth barhau i wasanaethu teuluoedd lleol wrth i drefniadau tymor hwy ar gyfer safle'r ysgol gael eu harchwilio.

Mae Ysgol Carwe wedi'i nodi fel ysgol sy'n wynebu problemau yn dilyn yr Asesiad Hyfywedd ac o ganlyniad fe'i dewiswyd ar gyfer adolygiad pellach.

2.1 Trafodaethau Llunio (Cam 0)

Cynhaliwyd sawl cyfarfod â'r Pennaeth, cynrychiolwyr y Corff Llywodraethu a'r Aelodau Lleol i drafod sefyllfa bresennol Ysgol Carwe ar ôl nodi materion strwythurol sylweddol yn adeilad yr ysgol. Ystyriodd y trafodaethau hyn ganfyddiadau'r ymchwiliadau strwythurol, y goblygiadau o ran gweithrediad yr ysgol yn y dyfodol ac effaith y penderfyniad i beidio ag ailagor adeilad yr ysgol ym mis Medi 2025.

Ystyriwyd hefyd y costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â dymchwel y bloc yr effeithir arno a darparu adeilad newydd. Trafododd swyddogion ddichonoldeb buddsoddi cyllid cyfalaf i ailddatblygu'r safle ac asesodd a fyddai buddsoddiad o'r fath yn defnyddio adnoddau cyhoeddus mewn modd effeithiol a chynaliadwy.

Drwy gydol y trafodaethau hyn, ystyriwyd amrywiaeth o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol darpariaeth addysgol, gan gynnwys parhau â'r trefniadau sydd eisoes wedi'u sefydlu drwy'r ffederasiwn ag Ysgol Gwynfryn. Rhoddwyd sylw arbennig i lesiant addysgol dysgwyr, parhad addysg cyfrwng Cymraeg, goblygiadau staffio, ystyriaethau cymunedol a chynaliadwyedd tymor hir y ddarpariaeth yn yr ardal.

Yn ystod y cyfarfodydd hyn, rhoddwyd cyfle i gynrychiolwyr y Corff Llywodraethu gyflwyno unrhyw gynigion neu opsiynau amgen a allai, yn eu barn nhw, ddarparu ateb hyfyw i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Roedd hyn yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i gyfrannu at y gwaith o ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael cyn i'r cynnig gael ei ddatblygu ymhellach. Mae opsiynau amgen a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu wedi'u hystyried fel rhan o'r Ddogfen Ymgynghori hon.

Mae barn a sylwadau'r rhai sy'n gysylltiedig â'r mater wedi llywio datblygiad y cynnig ac wedi helpu i lunio'r opsiwn sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer ymgynghori. Bydd ymgysylltu pellach yn digwydd drwy'r broses ymgynghori statudol, gan roi cyfle i ddisgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr, trigolion lleol a rhanddeiliaid eraill fynegi eu barn cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud.

3. Yr Ysgol sy'n Destun Cynnig

Mae Ysgol Carwe yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 4-11 ym mhentref Carwe. Dangosodd data diweddaraf Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (2026) fod 58 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Llun o'r ysgol - Ysgol Carwe	**Map o'r lleoliad**
	

Roedd yn rhaid cau adeilad Ysgol Carwe ar ddechrau tymor ysgol Medi 2025 yn dilyn pryderon iechyd a diogelwch difrifol am gyflwr rhan o adeilad yr ysgol. Yn gynnar yn 2025, nododd arolwg cyflwr arferol a gynhaliwyd broblemau strwythurol posibl ym Mloc 3 yr ysgol. Ysgogodd hyn ymchwiliad strwythurol manylach, a gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r haf 2025 pan nad oedd y safle yn cael ei ddefnyddio. Yn dilyn canfyddiadau'r ymchwiliad hwn, a ddaeth i law ym mis Awst 2025, daethpwyd i'r casgliad na ellid sicrhau cyfanrwydd strwythurol yr adeilad ac felly nad oedd yn ddiogel i'w ddefnyddio'n barhaus. O ganlyniad, gwnaed penderfyniad ffurfiol ddiwedd Awst 2025 i beidio ag ailagor adeilad yr ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. O fis Medi 2025 ymlaen, cafodd yr holl ddisgyblion eu symud dros dro i Ysgol Gwynfryn ym Mhontiets, sydd yn yr un ffederasiwn ag Ysgol Carwe, er mwyn sicrhau parhad addysg tra bod asesiadau a phenderfyniadau pellach ynglŷn â dyfodol safle Ysgol Carwe yn cael eu cynnal. Symudwyd y Cylch Meithrin, a oedd hefyd yn Ysgol Carwe, i Neuadd Carwe.

Mae Ysgol Carwe yn rhan o ffederasiwn ffurfiol sy'n cynnwys Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Ponthenri. Mae'r ffederasiwn yn cael ei oruchwylio gan un corff llywodraethu, pennaeth parhaol a threfniadau rhannu arweinyddiaeth. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y trefniadau hyn yn effeithiol ac yn gynaliadwy. Mae capasiti arweinyddiaeth wedi'i wella drwy'r trefniadau ffedereiddio, ac mae hyn wedi bod yn arbennig o fuddiol ers cau'r adeilad. Mae'r Awdurdod Lleol yn credu bod y ffederasiwn wedi chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau parhad addysg yn ystod cyfnod heriol.

Cafodd Ysgol Carwe ei nodi ar gyfer adolygiad yn dilyn Asesiad Hyfywedd o bob Ysgol Gynradd. Aseswyd yr ysgol yn erbyn y Meini Prawf Hyfywedd a nodir yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg sydd wedi'i diweddaru, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 yn diffinio "ysgol wledig" drwy gyfeirio at restr ysgolion gwledig dynodedig Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar feini prawf penodol fel lleoliad, dwysedd poblogaethau a phatrwm anheddiad. Dim ond yr ysgolion hynny

a nodwyd yn ffurfiol ar y rhestr hon sy'n ddarostyngedig i'r rhagdybiaeth yn erbyn cau a'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol, gan gynnwys asesiadau effaith manylach ac ystyried dewisiadau eraill.

Nid yw Ysgol Carwe wedi'i chynnwys ar restr ysgolion gwledig dynodedig Llywodraeth Cymru ac felly nid yw'n cael ei dosbarthu'n ysgol wledig at ddibenion y Cod. O ganlyniad, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol gymhwyso'r darpariaethau ychwanegol a'r camau gweithdrefnol sy'n ymwneud yn benodol ag ysgolion gwledig wrth ddatblygu cynigion sy'n effeithio ar yr ysgol ac ymgynghori yn eu cylch.

3.1 Gwybodaeth am yr ysgol

		Ysgol Carwe
Lleoliad yr Ysgol		Carwe, Sir Gaerfyrddin, SA17 3HE
Ystod Oedran		4 – 11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol
Categori laith		3 – Cyfrwng Cymraeg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2026)	**Oedran Meithrin**	4
	Derbyn – B.6	54
	Cyfanswm	58
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys Meithrin) (CYBLD)	**Ionawr 2025**	59
	Ionawr 2024	59
	Ionawr 2023	68
	Chwefror 2022	63
Amcanestyniadau o nifer y disgyblion (ac eithrio Meithrin) (2026)	**Ionawr 2027**	55
	Ionawr 2028	54
	Ionawr 2029	59
	Ionawr 2030	56
	Ionawr 2031	56
Capasiti Meithrin 2025/2026		14
Capasiti Derbyn-B6 2025/2026		104
Cyfanswm Capasiti 2025/2026		118
% y lleoedd gwag yn CYBLD 2026		51%
Capasiti Meithrin 2026/2027		14
Capasiti Derbyn-B6 2026/2027		104
Cyfanswm Capasiti 2026/2027		118
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2025/26)		£5,773
Cyllideb Ysgol (2025/2026)		£340,607
Sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd 2025/26		££4,706 gwarged
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2026/2027)		£5,978
Cyllideb Ysgol (2026/2027)		£346,743
Rhagolygon diwedd sefyllfa gyllideb 26/27		£23,143
Canlyniad Arolygiad Estyn (2024)		Nid mewn categori gweithgarwch dilynol Adroddiad arolygiad Ysgol Gynradd Carwe 2025

Categori Cyflwr Adeilad (2026)	C
Addasrwydd Adeilad yr Ysgol (2026)	C

(CYBLD) - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

Graddau Categori Cyflwr Adeilad		**Addasrwydd**	
Gradd A	Fel newydd	Gradd A	Cyfleusterau da sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol.
Gradd B	Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig	Gradd B	Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm mewn rhai meysydd.
Gradd C	Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.	Gradd C	Gwael, mae dulliau addysgu yn rhwystro/cael effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol.
Gradd D	Anweithredol neu risg ddifrifol o fethiant mawr	Gradd D	Gwael, mae'r adeiladau'n rhwystro gallu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm yn ddifrifol.

3.2 Trefniadau Cyfredol – Y Status Quo yn Ysgol Carwe

Mae Ysgol Carwe yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 4-11 ym mhentref Carwe. Mae'r ysgol yn cael ei harwain gan bennaeth sy'n goruchwylio ffederasiwn sy'n cynnwys Ysgol Carwe, Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Ponthenri. Mae'r strwythur arweinyddiaeth ffederal hwn yn galluogi cydweddiad strategol ar draws y tair ysgol, gan gefnogi cydweithio, adnoddau a rennir a chysondeb wrth ddarparu addysg.

Mae gan yr ysgol dri athro, ynghyd â 3 Chynorthwyydd Addysgu a phennaeth nad yw'n addysgu.

Mae gan yr ysgol dri dosbarth. Un dosbarth ar gyfer disgyblion Meithrin, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, yr ail ystafell ddosbarth ar gyfer Blwyddyn 3 a 4 a'r drydedd ystafell ddosbarth ar gyfer Blwyddyn 5 a 6.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2024 ac yn unol â Deddf Addysg 2025, roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn nad oedd angen mesurau dilynol mewn perthynas â'r ysgol.

Dangosodd data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (2026) fod 58 o ddisgyblion ar y gofrestr, 4 disgybl o dan oedran ysgol statudol (Meithrin) a 54 o oedran ysgol statudol (Derbyn ac uwch).

O blith y 58 o ddisgyblion ar y gofrestr yn CYBLD 2026, roedd 37 o'r disgyblion yn dod o ddalgylch Ysgol Carwe tra bod y 21 disgybl arall yn dod o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Carwe. Yn ogystal, roedd 120 o ddisgyblion a oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Carwe yn mynychu ysgolion eraill.

Capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-2026 oedd 118 o leoedd. Nid yw capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2026-2027 wedi newid o'r flwyddyn flaenorol, sef 118 o leoedd.

Er bod Ysgol Carwe yn parhau i fod yn ysgol a gynhelir, nid yw'r ddarpariaeth addysgol wedi gweithredu o safle'r ysgol ers mis Medi 2025. Yn dilyn pryderon iechyd a

diogelwch sylweddol oherwydd materion strwythurol adeilad yr ysgol, rhoddwyd trefniadau ar waith i bob disgybl fynychu Ysgol Gwynfryn.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod hyn wedi creu sefyllfa unigryw lle mae goblygiadau addysgol adleoli eisoes wedi digwydd cyn dechrau'r broses ymgynghori statudol.

Felly, mae'r Awdurdod Lleol wedi gallu gwerthuso llesiant y disgyblion, parhad addysgol, presenoldeb, trefniadau cludiant, trefniadau arweinyddiaeth a chyflwyno'r cwricwlwm sy'n seiliedig ar brofiad gwirioneddol yn hytrach na chanlyniadau a ragwelir.

O ran integreiddio a lles disgyblion, mae'r trawsnewidiad wedi bod yn llwyddiannus i raddau helaeth. Mae nifer fach o ddisgyblion wedi trosglwyddo o Ysgol Carwe ac wedi cofrestru yn Ysgol Gwynfryn er mwyn aros o fewn y grwpiau cyfeillgarwch a sefydlwyd yn dilyn y berthynas waith agosach rhwng yr ysgolion. Er bod rhai pryderon wedi'u codi ynghylch diogelwch y trefniadau trafnidiaeth, mae'r ddarpariaeth trafnidiaeth wedi chwarae rhan hanfodol wrth alluogi disgyblion o'r ddwy ysgol i aros gyda'i gilydd a datblygu perthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol. Ar ben hynny, mae presenoldeb a phrydlondeb rhai disgyblion o Ysgol Carwe wedi gwella o ganlyniad i'r ddarpariaeth drafnidiaeth.

Mae staff ar draws y ddwy ysgol wedi dangos lefel uchel o broffesiynoldeb, hyblygrwydd ac ymrwymiad trwy gydol y cyfnod pontio, gan weithio ar y cyd i gefnogi disgyblion a sicrhau parhad y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn nifer y disgyblion wedi rhoi pwysau ar y llety sydd ar gael. Mae'r heriau yn cynnwys capasiti dosbarth cyfyngedig, digon o le i gefnogi disgyblion a allai fod angen mynediad i ardaloedd tawelach neu gymorth emosiynol ychwanegol, a diffyg storfa ddigonol ar gyfer adnoddau ac offer. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Ysgol I fynd I'r afael â rhai o'r heriau hyn.

Mae'r ysgol wedi profi cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion o fewn cyfnod cymharol fyr o amser. O ganlyniad, mae lletya pob disgybl mewn un adeilad wedi cyflwyno rhai heriau, yn enwedig i'r rhai a oedd yn arfer â maint dosbarthiadau llai, amgylcheddau dysgu tawelach a mwy o le personol. Er bod y trawsnewidiad wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol, mae'r gofynion cynyddol ar yr amgylchedd ffisegol wedi effeithio ar allu disgyblion i addasu i'r trefniadau newydd.

Mae'r ysgol yn wynebu sawl her y mae angen mynd i'r afael â nhw, ochr yn ochr â ffactorau demograffig ehangach y mae'n rhaid eu hystyried, er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei ddarpariaeth ysgolion cynradd, gan gynnwys:

Nifer isel o ddisgyblion

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae nifer y disgyblion yn Ysgol Carwe wedi amrywio rhywfaint ond yn gyffredinol mae'r niferoedd wedi aros yn sefydlog. Yn 2021, cyfanswm nifer y disgyblion oedd 58 (gyda 53 o oedran ysgol statudol), gan godi i 63 yn 2022 a chyrraedd y nifer uchaf, sef 68, yn 2023. Fodd bynnag, ar ôl hynny gostyngodd y niferoedd i 59 yn 2024 a 2025. Mae'r data diweddaraf ar gyfer CYBLD

2026 yn dangos gostyngiad bach eto i 58 o ddisgyblion, gyda 54 o oedran ysgol statudol. Ar draws y cyfnod, mae amrywiadau yn amlwg o fewn grwpiau blwyddyn unigol, yn enwedig yn y blynyddoedd cynradd (Blynyddoedd 1–6), tra bod y ddarpariaeth feithrin (M1 a M2) wedi parhau i fod yn gymharol fach ond yn gyson. Ar y cyfan, er gwaethaf newidiadau o flwyddyn i flwyddyn, mae'r cyfanswm ar gofrestr yr ysgol wedi parhau'n gyffredinol gyson rhwng diwedd y 50au a chanol y 60au.

Blwyddyn CYBLD	Meithrin Amser Llawn	Derbyn	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
2026	4	7	8	8	11	3	20	7	58
2025	6	8	6	12	4	9	7	7	59
2024	3	6	12	4	11	8	7	8	59
2023	2	14	6	12	9	8	8	9	68
2022	7	6	11	10	6	8	6	9	63

Data Dalgylchoedd

Yn seiliedig ar y data a ddangosir ar gyfer CYBLD 2026, mae gan Ysgol Carwe gyfanswm o 37 o ddisgyblion yn byw yn ei dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, ynghyd â 21 o ddisgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ond sy'n mynychu Ysgol Carwe. Mewn cyferbyniad, mae nifer sylweddol uwch o ddisgyblion, sef 120, yn byw yn nalgylch Ysgol Carwe ond yn dewis mynychu ysgolion eraill. Mae hyn yn dangos, er bod yr ysgol yn denu rhai disgyblion o'r tu allan i'w hardal ddynodedig, bod cyfran sylweddol o ddisgyblion lleol yn dewis lleoliadau addysgol amgen.

Cyfanswm nifer y disgyblion	Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon	Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon	Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill
58	37	21	120*
*Bancffosfelen, Porth Tywyn, Cross Hands, Dewi Sant, Ffwrnes, Gwenllian, Gwynfryn, Tre Ioan, Llangynnwr, Llechyfedach, Model, Mynyddygarreg, Myrddin, Nantgaredig, Hen Heol, Parc y Tywyn, Pen-bre, Ponthenri, Pontiets, Pontyberem, Pum Heol, Parc Waundew, Stebonheath, Swiss Valley, Trimsaran, y Bedol, y Castell			

Nifer uchel o leoedd gwag

Mae canran y lleoedd gwag yn Ysgol Carwe wedi aros yn gyson uchel rhwng 2021 a 2026, gan amrywio ychydig yn unig yn ystod y cyfnod. Yn 2021, roedd canran y lleoedd gwag yn 53.2%, cyn gostwng i 49.2% yn 2022 a chyrraedd lefel isaf o 49% yn 2023. Ar ôl hynny cynyddodd i 52.4% yn 2024 a 2025. Yn 2026, er gwaethaf gostyngiad yn y capasiti cyffredinol o 124 i 118 o leoedd, arhosodd canran y lleoedd gwag yn gymharol sefydlog ar 50.8%. Yn gyffredinol, mae'r data yn dangos bod tua hanner

capasiti'r ysgol wedi aros heb ei lenwi drwy gydol y cyfnod hwn, sy'n awgrymu patrwm parhaus o leoedd gwag.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) (Adran 1.21 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill) yn nodi:

"Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, ***dylai*** *awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a* ***dylent*** *ystyried pa un ai i wneud cynigion i'w gwaredu os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol (fel y'i diffinnir yng Nghylchlythyr 21/2011) ac o leiaf 30 o leoedd gwag."*

Ar hyn o bryd mae 60 o leoedd gwag yn yr ysgol sy'n cyfateb i 50.8% o'r capasiti lleoedd gwag.

	CYBLD Hanesyddol				
	2022	**2023**	**2024**	**2025**	**2026**
Cyfanswm nifer y lleoedd	124	124	124	124	118
Cyfanswm Cyfrif Pennau	63	68	59	59	58
Lleoedd gwag	61	56	65	65	60
% y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r 1% agosaf)	49%	45%	52%	52%	51%

Amcanestyniadau Disgyblion ac Amcanestyniadau o Gapasiti Lleoedd Gwag

Mae'r amcanestyniadau disgyblion ar gyfer Ysgol Carwe yn dangos patrwm sefydlog fwy neu lai yn y niferoedd cyffredinol rhwng 2027 a 2031, gyda dim ond mân amrywiadau. Yn ystod y cyfnod hwn, mae canran y lleoedd gwag yn parhau i fod yn gyson uchel, gan amrywio rhwng 50.0% a 46.6%. Yn benodol, rhagwelir bod capasiti lleoedd gwag yn 50.0% yn 2027, gan godi ychydig i 50.8% yn 2028, cyn gostwng i 46.6% yn 2029. O 2030 ymlaen, bydd cyfran y lleoedd gwag yn sefydlogi ar oddeutu 49.2% hyd at 2031. Mae hyn yn dangos, er gwaethaf newidiadau bach yn nifer y disgyblion, bod disgwyl i'r ysgol barhau i weithredu gyda thua hanner ei lleoedd heb eu llenwi, gan adlewyrchu lefel barhaus o gapasiti lleoedd gwag.

Blwyddyn	**Ionawr 2027**	**Ionawr 2028**	**Ionawr 2029**	**Ionawr 2030**	**Ionawr 2031**
Amcanestyniadau o nifer y disgyblion gan gynnwys disgyblion Meithrin	59	58	63	60	60
Cyfanswm nifer y lleoedd	118	118	118	118	118
Lleoedd gwag	59	60	55	58	58
% y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r 1% agosaf)	50.0%	50.8%	46.6%	49.2%	49.2%

*Mae'r fethodoleg o ran amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn defnyddio cyfartaledd treigl o ddisgyblion 5, 6, 7 ac 8 oed ar gyfer ysgolion cynradd. Felly, mae unrhyw newidiadau sydyn ym mhoblogaeth y disgyblion yn cymryd tua phedair blynedd cyn i'r anghysondebau hyn gael eu normaleiddio a bydd dewis rhieni yn penderfynu sut mae'r niferoedd gwirioneddol yn newid

flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd amrywiadau rhifiadol bach, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol yn cael mwy o effaith gyfrannol mewn ysgolion gyda niferoedd isel o ddisgyblion.

Data Cyfraddau Genedigaethau

Yn ogystal â data CYBLD ac amcanestyniadau disgyblion, dadansoddwyd data genedigaethau lleol i asesu'r galw posibl yn y dyfodol am leoedd ysgol gynradd yn nalgylch Ysgol Carwe.

Mae data genedigaethau diweddar ar gyfer y dalgylch yn dangos niferoedd cymharol isel ond amrywiol o enedigaethau byw dros y cyfnod. Er bod rhywfaint o amrywiaeth, gan gynnwys y nifer uchaf o 27 genedigaeth yn 2027, nid yw'r patrwm cyffredinol yn dangos twf parhaus a fyddai'n cynyddu'n sylweddol y galw am leoedd ysgol yn y tymor hwy.

Mae'r tabl isod yn cymharu data genedigaethau ar lefel cod post yn nalgylch Ysgol Carwe â nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y Derbyn, fel y cofnodwyd hynny yn CYBLD, **ar gyfer y blynyddoedd academaidd cyfatebol.**

Tabl Data Genedigaethau

Disgyblion a anwyd mewn cod post dalgylch yn erbyn disgyblion ar y gofrestr yn PLASC yn y dderbynfa ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol								
Carwe	**Blwyddyn Geni**	**2020**	**2021**	**2022**	**2023**	**2024**	**2025**	**2026**
	Blwyddyn Derbyn	**2024**	**2025**	**2026**	**2027**	**2028**	**2029**	**2030**
	Genedigaethau	11	16	18	27	22	25	22
	CYBLD	6	8	7	-	-	-	-

O gymharu'r data genedigaethau a CYBLD sydd ar gael dangosir nad yw pob plentyn a anwyd yn y dalgylch yn ymddangos wedyn yng ngharfanau Derbyn yn yr ysgol leol. Gallai hyn adlewyrchu ffactorau fel dewis y rhieni, symudedd disgyblion, neu fynychu darpariaeth amgen. Er gwaethaf hyn, byddai hyd yn oed y blynyddoedd genedigaethau uwch yn arwain at garfanau cymharol fach.

Ar y cyfan, nid yw'r data genedigaethau sydd ar gael yn darparu tystiolaeth gref y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Carwe yn adfer yn barhaus. Er y gallai nifer y disgyblion gynyddu yn y tymor byr, mae'r proffil demograffig cyffredinol yn awgrymu bod nifer y disgyblion yn debygol o aros yn isel, gan gefnogi'r amcanestyniadau a nodir yn y ddogfen hon sy'n rhagweld pwysau parhaus sy'n gysylltiedig â chapasiti lleoedd gwag dros y blynyddoedd nesaf.

Materion ynghylch Cyllideb yr Ysgol

Er bod nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi bod yn isel, mae'r ysgol wedi cynnal gwarged yn y gyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac nid yw wedi wynebu'r heriau ariannol sy'n aml yn gysylltiedig â gostyngiad yn y nifer sydd ar y gofrestr.

Mae pob ysgol yn cael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod 70% o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail niferoedd disgyblion.

Mae'r tablau isod yn dangos sefyllfa ariannol hanesyddol a phresennol yr ysgol a'r hyn a ragwelir.

Balans diwedd blwyddyn	**(gwarged / diffyg) £**
2021/22	£40,829 (Gwarged)
2022/23	£24,996 (Gwarged)
2023/24	£35,868 (Gwarged)
2024/25	£15,680 (Gwarged)
2025/26	£4,706 (Gwarged)

2026/27

Swm cyllid yr ysgol	£346,743
Nifer y disgyblion (cyllid yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2026)	58
Cyllid fesul disgybl	£5,978
Cyllid prif ffrwd cyfartalog (ysgol gynradd) fesul disgybl	£5,969
Gwarged / diffyg a ragwelir hyd at ddiwedd 2026/2027	£23,143 diffyg

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhagweld gwarged/diffyg yn y gyllideb o £23,143 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/2027.

Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl

Yn seiliedig ar Ddatganiad Cyllideb Addysg Adran 52 y Cyngor ar gyfer 2026/27, cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl yn ystod 2026/27 yw £5,978. Mae hyn yn agos at gyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Caerfyrddin o £5,969 ar gyfer 2026/27.

Oherwydd nifer isel y disgyblion, yn ystod 2026/27 bydd yr ysgol yn derbyn Tâl Atodol Ffederasiwn o £12,000 a Thâl Atodol Lleoedd Gwag o £1,127.

Mae'r tâl atodol o ran nifer y disgyblion yn seiliedig ar fformiwla sy'n nodi gwahanol feintiau ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn eu rhoi dan anfantais o gymharu ag ysgolion eraill. Mae'r tâl atodol yn darparu canran deg o gyllid ar draws y costau allweddol a nodwyd.

Ansawdd a Safonau Addysg

Cafodd Ysgol Carwe ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2024. Roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn nad oedd angen mesurau dilynol mewn perthynas â'r ysgol hon. Nododd yr arolygwyr sawl cryfder yn yr ysgol a'r ffederasiwn, gan argymell bod yr ysgol yn parhau i gryfhau agweddau ar ddarpariaeth rhifedd, adborth i ddysgwyr a phrosesau hunanwerthuso.

Roedd yr argymhellion fel a ganlyn:

A1 Sicrhau ystod lawn o weithgareddau rhifedd i'r disgyblion hynaf sy'n cynnig her briodol iddynt wneud cynnydd hyd eithaf eu gallu.
A2 Sicrhau bod adborth gan athrawon yn cefnogi'r disgyblion i wella eu gwaith.
A3 Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Heriau gyda darpariaeth addysgol oherwydd nifer o grwpiau blwyddyn yn yr un dosbarth

Nid yw'r adolygiad addysgol wedi nodi pryderon ynglŷn ag ansawdd yr addysg a ddarperir yn Ysgol Carwe. Mae'r ysgol yn elwa o fod yn rhan o ffederasiwn ag Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Ponthenri sydd wedi'i hen sefydlu ac mae'n gweithredu o fewn fframwaith a rennir ar gyfer arweinyddiaeth, cynllunio'r cwricwlwm, addysgu, dysgu a gwella'r ysgolion. Cydnabu Estyn effaith gadarnhaol cydweithio ar draws y ffederasiwn a chysondeb profiadau disgyblion ar draws yr ysgolion.

Fodd bynnag, mae maint bach yr ysgol yn creu heriau wrth sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y ddarpariaeth addysgol. Cyn adleoli'r disgyblion dros dro, cawsant eu dysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg ac mewn carfanau cymharol fach. Er y gall hyn ddarparu rhai manteision, gall carfanau bach gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu a rhyngweithio â grwpiau cyfoedion mwy o oedran a chyfnod datblygiad tebyg. Gall carfanau mwy ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, trafodaeth, gwaith tîm, arweinyddiaeth dysgwyr a datblygiad cymdeithasol.

Byddai'r cynnig yn galluogi dysgwyr i barhau â'u haddysg o fewn y trefniant ffederal presennol yn Ysgol Gwynfryn, lle maent eisoes wedi cael eu haddysgu am y flwyddyn ddiwethaf. Byddai hyn yn darparu parhad o ran cyflwyno'r cwricwlwm, cymorth llesiant a threfniadau arweinyddiaeth wrth ddarparu mynediad i grwpiau cyfoedion mwy ac amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol. Byddai'r cynnig hefyd yn cefnogi model mwy cynaliadwy o ddarpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024 yn nodi bod yr Awdurdod Lleol yn anelu at gael dim mwy na 2 grŵp blwyddyn fesul dosbarth addysgu.

Arweinyddiaeth

Dyhead yr Awdurdod Lleol yw sicrhau trefniadau arweinyddiaeth gynaliadwy sy'n galluogi arweinwyr ysgolion i ganolbwyntio'n effeithiol ar godi safonau, cefnogi llesiant dysgwyr, arwain y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm a hyrwyddo gwelliant parhaus.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Carwe, Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Ponthenri yn gweithredu fel ffederasiwn caled o dan arweinyddiaeth un pennaeth a chorff llywodraethu. Roedd arolygiad Estyn o Ysgol Carwe ym mis Tachwedd 2024 yn cydnabod effaith gadarnhaol arweinyddiaeth ar draws y ffederasiwn, gan nodi bod gan y pennaeth weledigaeth gadarn ar gyfer yr ysgolion a'i fod yn cael ei gefnogi'n effeithiol gan y tîm uwch-arweinwyr. Tynnodd arolygwyr sylw at y diwylliant cryf o gydweithio ar draws y ffederasiwn, gan nodi bod staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd a bod yr ysgolion yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned ddysgu broffesiynol. Daeth Estyn i'r casgliad, at ei gilydd, bod arweinwyr yn nodi'n briodol gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella ac nad oedd angen cymryd camau dilynol.

Fodd bynnag, nododd Estyn hefyd y cyfle i gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella. Canfu arolygwyr nad oedd y cysylltiad rhwng gweithgareddau hunanwerthuso a gwella ansawdd bob amser yn ddigon clir, nad oedd camau gweithredu sy'n deillio o weithgareddau monitro bob amser yn arwain at welliannau mesuradwy ac nad oedd rhai meysydd pwysig ar gyfer datblygu wedi'u nodi drwy drefniadau hunanwerthuso'r ysgol. O ganlyniad, argymhellodd Estyn fod yr ysgol yn miniogi ei phrosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Byddai'r cynnig yn cynnal parhad o ran trefniadau arweinyddiaeth, llywodraethu a gwella ysgol wrth leihau nifer y safleoedd yn y ffederasiwn o dri i ddau. Byddai hyn yn lleihau'r gofynion gweithredol a gweinyddol sy'n gysylltiedig ag arwain y ddarpariaeth ar draws sawl lleoliad ac yn golygu bod modd cyfeirio arbenigedd ac amser arweinyddiaeth yn fwy effeithiol at weithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys hunanwerthuso, cynllunio gwella'r ysgol, datblygu'r cwricwlwm, monitro safonau, dysgu proffesiynol a mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n deillio o arolygiadau Estyn.

Byddai'r cynnig hefyd yn helpu i ddefnyddio adnoddau arweinyddiaeth, staffio ac ariannol yn fwy effeithiol ar draws y ffederasiwn. Drwy grynhoi'r ddarpariaeth ar lai o safleoedd, byddai'r arweinwyr mewn sefyllfa well i gynnal goruchwyliaeth o'r ddarpariaeth addysgol, cryfhau trefniadau sicrhau ansawdd, cefnogi datblygiad staff a sicrhau mwy o gysondeb ym mhrofiadau'r dysgwyr. Byddai mwy o gapasiti arweinyddiaeth yn gwella gallu'r ffederasiwn i ysgogi gwelliant, ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr.

Gan fod disgyblion o Ysgol Carwe eisoes wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn am y flwyddyn ddiwethaf, byddai'r cynnig yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus ac ni fyddai angen cyflwyno strwythurau arweinyddiaeth neu drefniadau llywodraethu newydd. Byddai'r parhad hwn yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd wrth ddarparu model mwy cynaliadwy ar gyfer arweinyddiaeth a gwella'r ysgol yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar ddysgu ac arweinyddiaeth. Byddai'n cadw'r cryfderau a nodwyd gan Estyn yn y ffederasiwn presennol wrth gynyddu capasiti arweinyddiaeth a chreu mwy o gyfleoedd i gryfhau hunanwerthuso, cynllunio gwella a chyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol, gan gefnogi deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Cyflwr ac Addasrwydd yr Adeilad

Ym mis Mawrth 2025 cynhaliwyd arolwg arferol cynhwysfawr o gyflwr adeilad Ysgol Gynradd Carwe gan dîm o Swyddogion Cyflwr Eiddo o Uned Cydymffurfiaeth Cyngor Sir Caerfyrddin. Cynhaliwyd yr arolwg fel rhan o raglen arolygon cyflwr dreigl a gymeradwywyd yn gorfforaethol ar draws ystad yr awdurdod, gan gynnwys pob ysgol. Cyhoeddwyd yr adroddiad manwl, sy'n cynnwys y canfyddiadau, rhagolygon costau, ac argymhellion strategol, ym mis Mai 2025.

Prif amcan yr arolwg oedd cynnal archwiliad gweledol nad yw'n ymwthiol o ffabrig mewnol ac allanol adeiladau a chwrtil yr ysgol. Y pwrpas oedd asesu eu cyflwr presennol, ystyried costau adnewyddu dros y cylch oes, a nodi unrhyw risgiau ar hyn o bryd neu yn y dyfodol i weithrediad yr adeilad ac iechyd a diogelwch y rhai sy'n ei ddefnyddio.

Cafodd gradd gyffredinol yr eiddo, sef C (Gwael gyda diffygion mawr) ei chyfrifo drwy bwysoli sgôr pob bloc yn ôl ei Arwynebedd Mewnol Gros. Bloc 3, sef y bloc mwyaf sydd mewn cyflwr gwael, oedd prif reswm y sgôr gyffredinol hon. Bloc 3 yw'r bloc sy'n cynnwys holl ystafelloedd dosbarth yr ysgol hefyd. Daeth arolwg strwythurol pellach a mwy manwl o Floc 3 yn ystod Awst 2025 i'r casgliad na ellid sicrhau cyfanrwydd strwythurol y rhan hon o'r adeilad a'i fod yn anniogel ei ddefnyddio'n barhaus. O ganlyniad, gwnaed penderfyniad ffurfiol ddiwedd mis Awst 2025 i beidio ag ailagor adeilad yr ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2025.

Yn sgil hyn, cafodd yr holl ddisgyblion eu symud dros dro o fis Medi 2025 i Ysgol Gwynfryn ym Mhontiets, sef ysgol yn yr un ffederasiwn, i sicrhau parhad addysg. Yn ogystal, roedd yn rhaid i'r Cylch Meithrin a oedd yn gweithredu o safle Ysgol Carwe hefyd symud i Neuadd Carwe.

Mae diffygion strwythurol yr adeilad sy'n golygu bod angen gweithredu ar unwaith yn arwain at ystyriaethau pwysig ar gyfer cynaliadwyedd ystad yr ysgol yn y tymor hir. Er y gallai rhan o'r adeilad aros mewn cyflwr da, gallai'r angen am ymyrraeth frys mewn un man arwain at gostau cynnal a chadw uwch, gwaith monitro parhaus, ac o bosibl yr angen am godi adeilad newydd yn ei le neu ei adnewyddu'n rhannol. Mae hyn hefyd yn arwain at gwestiynau ehangach am wydnwch a lefel y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau bod y safle yn parhau i fod yn ddiogel ac yn addas i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Ers hynny mae penderfyniad wedi'i wneud nad oes modd atgyweirio Bloc 3 ac y bydd angen ei ddymchwel. Amcangyfrifwyd mai cost ailadeiladu o leiaf ddwy ystafell ddosbarth fydd £1.2m yn ychwanegol at gost dymchwel Bloc 3.

Wrth ystyried hyn ochr yn ochr â'r lefel uchel o leoedd gwag yn yr ysgol, mae goblygiadau pellach ynghylch effeithlonrwydd cynnal yr adeilad presennol. Os yw rhannau o'r adeilad yn cael eu tanddefnyddio ac angen buddsoddiad, gallai hyn greu heriau o ran gwerth am arian a chynllunio strategol hirdymor.

I grynhoi, er yr aseswyd bod cyflwr ac addasrwydd adeilad Ysgol Carwe yn wael yn gyffredinol, mae cau adeilad yr ysgol oherwydd materion strwythurol yn 2025 yn creu elfen o risg ac ansicrwydd. Mae hyn yn dangos yr angen am fuddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu a rheoli'r ased yn ofalus i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd ac i sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn ddiogel, yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

3.3 Cryfderau a gwendidau cadw'r Status Quo

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys asesiad o gryfderau a gwendidau cynnal y status quo, gan gynnwys unrhyw fygythiadau a chyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o sut y gall yr opsiwn hwn effeithio ar ansawdd a safonau addysg yr ysgol, effeithio ar y gymuned leol ac effeithio ar drefniadau teithio.

Cryfderau	**Gwendidau**
Mae disgyblion a staff yn gallu parhau â'u haddysg a'u gwaith gan achosi cyn lleied o darfu â phosibl.	Mae adeilad yr ysgol yn parhau i fod ar gau ar ôl pryderon sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch a nodwyd ym mis Awst 2025.
Mae parhad y ddarpariaeth yn cefnogi llesiant dysgwyr, sefydlogrwydd ac arferion sefydledig.	Ar hyn o bryd mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad amgen yn hytrach na'u hadeilad ysgol gwreiddiol.
Mae'r ysgol yn aros yn y gymuned ac yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y bywyd lleol.	Byddai cadw'r status quo yn golygu bod angen buddsoddiad cyfalaf i fynd i'r afael â'r diffygion strwythurol a sicrhau bod modd defnyddio adeilad yr ysgol yn ddiogel unwaith eto.
Nid oes angen unrhyw newidiadau i drefniadau cludiant ysgol a dim costau ychwanegol.	Amcangyfrifir y byddai angen gwariant cyfalaf o oddeutu £1.2m i ymgymryd â'r gwaith adfer angenrheidiol o ddymchwel a darparu llety symudol a/neu ymgymryd â gwaith i'r adeilad Fictoraidd.
Gallai'r amgylchedd dysgu cyfarwydd gefnogi disgyblion sy'n cael budd o gysondeb a threfn.	Byddai angen buddsoddiad er gwaethaf niferoedd cymharol isel o ddisgyblion a lleoedd gwag parhaus.
Cadw'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y lleoliad cymunedol lleol.	Mae'r sefyllfa bresennol yn cyfyngu ar sicrwydd ynghylch addasrwydd a chynaliadwyedd safle'r ysgol yn y tymor hir.
Mae rhieni yn cadw eu dewis presennol o ddarpariaeth addysgol leol.	Gallai dosbarthiadau oedran cymysg ar draws sawl grŵp blwyddyn gyfyngu ar allu'r ysgol i gyflwyno ehangder llawn Cwricwlwm i Gymru yn gyson ac i herio pob dysgwr yn briodol.
Bydd effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau teithio cyfredol yn aros yr un fath.	Byddai lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau heb eu datrys, gan effeithio ar ddefnydd effeithlon o adnoddau.

Mae'r disgyblion yn aros mewn ysgol Gymraeg â darpariaeth Gymraeg lawn, gan gefnogi uchelgeisiau Cymraeg 2050 a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.	Ni fydd y lefelau uchel o leoedd gwag yn cael eu datrys, gan barhau i effeithio ar y defnydd effeithlon o adnoddau.
Byddai addysg yn cael ei chynnal ar safle presennol yr ysgol.	Ni fyddai'r opsiwn yn darparu'r un cyfleoedd o ran grwpiau cyfoedion mwy a phrofiadau addysgol ehangach sydd ar gael drwy gyfuno o fewn y ffederasiwn.
Gallai Cylch Meithrin aros ar safle presennol yr ysgol.	Byddai cadw'r trefniadau presennol yn parhau i osod gofynion gweithredol a gweinyddol ar arweinwyr y ffederasiwn sy'n gysylltiedig â goruchwylio tri safle ysgol, gan gyfyngu o bosib ar yr amser sydd ar gael i ganolbwyntio'n uniongyrchol ar godi safonau a hyrwyddo gwelliant.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Rhoi cynllun gwella wedi'i dargedu ar waith i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â'r adeilad a gwella cyfleusterau i'r disgyblion.	Gallai niferoedd disgyblion ostwng, gan effeithio ymhellach ar gynaliadwyedd tymor hir, a gallai arwain at bwysau ariannol ychwanegol.
Y potensial i gynnwys y gymuned mewn codi arian a gwirfoddoli i gryfhau gweithrediadau'r ysgol a lleihau cyllidebau diffyg.	Gallai cyfyngiadau'r gyllideb gyfyngu ar fuddsoddiad.
Er y gallai buddsoddiad cyfalaf wella cyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol, byddai angen gwariant amcangyfrifedig o oddeutu £1.2m i fynd i'r afael â'r materion strwythurol a nodwyd. O ystyried niferoedd isel y disgyblion yn yr ysgol, nid oes digon o dystiolaeth i awgrymu y byddai'r lefel hon o fuddsoddiad yn arwain at gynnydd parhaus yn nifer y disgyblion neu'n darparu ateb i heriau cynaliadwyedd yr ysgol yn y tymor hir.	Gallai lleoedd gwag parhaus gynyddu pryderon ynghylch gwerth am arian.
	Gallai costau adeiladu a deunyddiau uwch gynyddu cost amcangyfrifedig gwaith adfer y tu hwnt i'r amcanestyniadau cyfredol.
	Gallai oedi wrth gwblhau'r gwaith adeiladu beri i'r tarfu ar ddisgyblion, teuluoedd a staff bara'n hirach.
	Efallai y bydd materion strwythurol pellach yn cael eu nodi ar ôl i'r gwaith

	atgyweirio ddechrau, gan gynyddu costau ac amserlenni'r prosiect.
	Gallai'r angen am fuddsoddiad cyfalaf effeithio ar allu'r Awdurdod i flaenoriaethu prosiectau gwella ysgolion eraill ledled y Sir.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Byddai cadw'r trefniadau presennol yn cadw hunaniaeth yr ysgol, yn cadw'r trefniadau llywodraethu presennol ac yn cadw Ysgol Carwe fel sefydliad addysgol ar wahân. Daeth arolygiad Estyn o Ysgol Carwe ym mis Tachwedd 2024 i'r casgliad nad oedd angen cymryd camau dilynol a nododd sawl cryfder, gan gynnwys effaith gadarnhaol arweinyddiaeth ar draws y ffederasiwn, cydweithio effeithiol rhwng staff, agweddau cadarnhaol at ddysgu a'r profiadau cyson a ddarperir i ddysgwyr ar draws yr ysgolion ffederal. Nododd yr arolygwyr hefyd fod staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ar draws y ffederasiwn a bod yr ysgolion yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned ddysgu broffesiynol.

Mae'r trefniadau ffederal sefydledig, cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd ac arferion gweithio ar y cyd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynnal safonau addysgol. Fodd bynnag, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r ffactorau allweddol sydd wedi arwain at yr adolygiad. Ers mis Medi 2025, mae disgyblion wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn yn dilyn cau adeilad Ysgol Carwe oherwydd pryderon ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch. Er bod y ddarpariaeth addysgol yn parhau, nid yw'r dysgwyr bellach yn cael eu haddysgu ar safle gwreiddiol yr ysgol ac mae ansicrwydd o hyd ynghylch addasrwydd a hyfywedd yr adeilad yn y dyfodol.

Byddai cadw'r status quo yn golygu bod angen buddsoddiad cyfalaf amcangyfrifedig o oddeutu £1.2 miliwn i sicrhau bod modd defnyddio adeilad yr ysgol yn ddiogel unwaith eto. Byddai angen ystyried y lefel hon o fuddsoddiad yng nghyswllt niferoedd cymharol isel y disgyblion, lleoedd gwag parhaus a chynaliadwyedd y ddarpariaeth yn y tymor hir. Er y gallai buddsoddiad wella cyflwr yr adeilad, prin yw'r dystiolaeth y byddai'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy ar y safle.

Nododd Estyn angen i gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella, gan nodi nad oedd y cysylltiad rhwng gweithgareddau hunanwerthuso a gwella ansawdd bob amser yn ddigon clir ac nad oedd camau gweithredu sy'n deillio o weithgareddau monitro bob amser yn arwain at welliannau mesuradwy. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r cyfrifoldebau arwain yn parhau i gael eu rhannu ar draws tri safle ysgol, gan olygu y byddai'n rhaid i'r pennaeth a'r tîm arweinwyr gydbwyso cyfrifoldebau gweithredol, trefniadaethol a gwella ysgol ar draws ystad ehangach. O ganlyniad, byddai'r cyfleoedd i gynyddu capasiti arweinyddiaeth a chanolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar hunanwerthuso, cynllunio gwella, datblygu'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol, monitro safonau a chodi safonau yn fwy cyfyngedig nag o dan yr opsiwn a ffefrir. Byddai cadw'r trefniadau presennol hefyd yn golygu bod angen parhau i rannu capasiti arweinyddiaeth ar draws tri safle ysgol yn hytrach na dau, gan leihau'r cyfle i amser arweinyddiaeth ac arbenigedd ganolbwyntio ar y gweithgareddau sy'n fwyaf tebygol o wella deilliannau i

ddysgwyr. Mae argymhelliad Estyn i gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella yn cefnogi ymhellach fanteision posibl model sy'n galluogi arweinwyr i roi mwy o sylw i waith gwella'r ysgol.

Byddai cadw'r ddarpariaeth ar wahân yn Ysgol Carwe hefyd yn golygu efallai na fydd dysgwyr yn elwa ar rai o'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â charfanau disgyblion mwy o faint a mwy cynaliadwy. Er y byddai disgyblion yn parhau i dderbyn addysg addas, gallai cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ehangach â chyfoedion, dysgu ar y cyd, arweinyddiaeth disgyblion, profiadau dysgu mewn grwpiau a chyfranogiad cwricwlaidd ac allgyrsiol ehangach fod yn fwy cyfyngedig na'r rhai sydd ar gael drwy'r trefniadau presennol yn Ysgol Gwynfryn.

Er y byddai cydweithio ar draws y ffederasiwn yn parhau, ni fyddai cadw'r trefniadau presennol yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gryfhau capasiti arweinyddiaeth ymhellach, adeiladu ar y trefniadau dysgu proffesiynol effeithiol a nodwyd gan Estyn, gwneud arbedion effeithlonrwydd ar draws y ffederasiwn neu wella profiadau dysgwyr drwy garfanau disgyblion mwy o faint a mwy cynaliadwy.

Yn gyffredinol, byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod modd cynnal safonau addysgol a byddai'n cadw hunaniaeth yr ysgol a'i rôl yn y gymuned. Fodd bynnag, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion strwythurol sylweddol sy'n effeithio ar adeilad yr ysgol, byddai angen buddsoddiad cyfalaf ac ni fyddai'n datrys pryderon sy'n ymwneud â lleoedd gwag, cynaliadwyedd yn y tymor hir neu ddefnyddio adnoddau yn effeithiol. Hefyd, ni fyddai'n darparu'r un cyfleoedd i gryfhau capasiti arweinyddiaeth, cefnogi prosesau hunanwerthuso a gwella'r ysgol, nac yn ehangu'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael i ddysgwyr drwy garfanau disgyblion mwy o faint a mwy cynaliadwy. O ganlyniad, er y gallai'r opsiwn hwn gynnal safonau addysgol o hyd, credir ei fod yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran mynd i'r afael â'r ffactorau a ysgogodd yr adolygiad ac yn llai abl i sicrhau darpariaeth addysgol Gymraeg gynaliadwy o ansawdd uchel a gwella'r ysgol yn barhaus ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Disgwylir yr effaith leiaf posibl gan y byddai'r ysgol yn parhau i fod ar agor ac yn parhau i weithredu ar ei ffurf bresennol.

Byddai'r ysgol yn parhau i fod yn ganolbwynt yn y gymuned ac yn cefnogi hunaniaeth leol, gweithgareddau Cymraeg a diwylliannol a digwyddiadau cymunedol. Byddai'r cysylltiadau presennol rhwng yr ysgol a'r gymuned yn cael eu cynnal.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ragwelir unrhyw effaith gan y byddai'r trefniadau teithio presennol yn aros yr un peth.

Byddai'r disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol bresennol ac ni fyddai unrhyw ofynion neu gostau cludiant newydd. Byddai'r amseroedd teithio presennol a'r effeithiau amgylcheddol cysylltiedig yn aros yr un peth i raddau helaeth.

3.4 Pam y bernir bod angen newid

Mae'r angen am newid yn Ysgol Carwe wedi codi ar ôl nodi diffygion strwythurol mewn rhan o adeilad yr ysgol. Arweiniodd y diffygion hyn at bryderon iechyd a diogelwch difrifol a'r penderfyniad na allai'r ysgol ailagor ym mis Medi 2025. Yn dilyn ymchwiliadau dilynol penderfynwyd y byddai angen dymchwel y bloc yr effeithir arno ac y byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i ddarparu adeilad newydd.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn ofalus y costau sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu'r safle. Amcangyfrifir y byddai angen tua £1.2 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf i ddymchwel yr adeilad yr effeithir arno a darparu un newydd, yn ogystal â chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Ar ôl ystyried y ddarpariaeth amgen sydd ar gael yn y ffederasiwn presennol, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai buddsoddi'r lefel hon o gyllid mewn ailadeiladu rhan o'r ysgol yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol neu gynaliadwy o adnoddau cyhoeddus.

Yn bwysig ddigon, nid yw'r cynnig yn cael ei gyflwyno o ganlyniad i bryderon ynghylch safonau addysgol yn Ysgol Carwe. Nododd arolygiad Estyn o'r ysgol ym mis Tachwedd 2024 sawl cryfder a daeth i'r casgliad nad oedd angen cymryd camau dilynol. Yn yr un modd, er bod nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi bod yn gymharol isel, mae'r ysgol wedi cynnal gwarged yn y gyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae'r rhesymeg dros y cynnig yn ymwneud yn bennaf â chyflwr adeilad yr ysgol a chynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol yn y tymor hir yn hytrach na pherfformiad addysgol neu hyfywedd ariannol.

Ers mis Medi 2025, mae disgyblion Ysgol Carwe wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ar ôl i adeilad yr ysgol gau. Mae'r ddwy ysgol eisoes yn rhan o'r un ffederasiwn ac mae'r dysgwyr wedi gallu parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn sgil symud, gyda pharhad o ran arweinyddiaeth, cyflwyno'r cwricwlwm, polisïau a threfniadau cymorth. Gan fod y disgyblion eisoes wedi sefydlu perthynas â staff a chyfoedion ac wedi addasu'n llwyddiannus i'w hamgylchedd dysgu newydd, mae llawer o'r heriau sy'n gysylltiedig fel arfer â chau ysgol a throsglwyddo disgyblion eisoes wedi'u lliniaru.

Byddai'r cynnig yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus a byddai'n darparu ateb tymor hir i'r problemau yn ymwneud â'r adeilad sy'n effeithio ar Ysgol Carwe. Byddai'n golygu bod yr adnoddau yn canolbwyntio ar addysgu, dysgu a chefnogi disgyblion yn hytrach na mynd i'r afael â diffygion yr adeilad a rhwymedigaethau cynnal a chadw yn y dyfodol. Byddai'r dysgwyr hefyd yn parhau i elwa ar gael mynediad at grŵp cyfoedion mwy ac amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol, diwylliannol, chwaraeon ac allgyrsiol sydd ar gael drwy Ysgol Gwynfryn.

Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y byddai'r cynnig yn arwain at golli ysgol hirsefydlog yng nghymuned Carwe, mae o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r ateb mwyaf priodol a chynaliadwy yng ngoleuni'r diffygion strwythurol sylweddol sy'n effeithio ar yr adeilad, y costau cyfalaf sylweddol sy'n gysylltiedig ag ailadeiladu'r adeilad a pharhad llwyddiannus y ddarpariaeth addysgol yn y ffederasiwn ers mis Medi 2025.

3.5 Asesu'r Opsiynau Amgen

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026, ystyriwyd pob dewis arall rhesymol yn erbyn yr heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol a'i asesu am ei effaith debygol ar:

- Safonau addysgol a chanlyniadau dysgwyr;
- Cynaliadwyedd ariannol;
- Effaith gymunedol;
- Trefniadau teithio i ddysgwyr;
- Capasiti ysgolion a lleoedd dros ben;
- Addasrwydd a chyflwr adeiladu.

Ceisiodd yr asesiad benderfynu a allai unrhyw un o'r dewisiadau amgen ddarparu ateb hirdymor cynaliadwy i'r heriau a nodwyd. Er bod nifer o opsiynau yn cynnig rhai manteision posibl, naill ai'n unigol neu gyda'i gilydd, ystyriwyd nad oedd yr un ohonynt yn gallu mynd i'r afael yn ddigonol â'r cyfuniad o faterion addysgol, ariannol, sefydliadol ac ystadau sy'n wynebu'r ysgol.
Mae amrywiaeth o opsiynau amgen yn lle'r cynnig wedi'u hystyried yn ofalus. Mae'r rhesymau dros ddiystyru neu ffafrio pob opsiwn wedi'u hamlinellu yn y tabl isod.

Cynhaliwyd dadansoddiad SWOT ar wahân (gan edrych ar gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) ar gyfer pob opsiwn i helpu i nodi'r ffordd fwyaf addas ymlaen. Mae'r asesiad hwn wedi'i gynnwys yn y tablau canlynol.

Opsiwn Amgen 1 - Cadw'r trefniadau presennol (Status Quo) yn Ysgol Carwe	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae disgyblion a staff yn gallu parhau â'u haddysg a'u gwaith gan achosi cyn lleied o darfu â phosibl.	Mae adeilad yr ysgol yn parhau i fod ar gau ar ôl pryderon sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch a nodwyd ym mis Awst 2025.
Mae parhad y ddarpariaeth yn cefnogi llesiant dysgwyr, sefydlogrwydd ac arferion sefydledig.	Ar hyn o bryd mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad amgen yn hytrach na'u hadeilad ysgol gwreiddiol.
Mae'r ysgol yn aros yn y gymuned ac yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y bywyd lleol.	Byddai cadw'r status quo yn golygu bod angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i fynd i'r afael â'r diffygion strwythurol a sicrhau bod modd defnyddio adeilad yr ysgol yn ddiogel unwaith eto.
Nid oes angen unrhyw newidiadau i drefniadau cludiant ysgol a dim costau ychwanegol.	Amcangyfrifir y byddai angen gwariant cyfalaf o oddeutu £1.2m i ymgymryd â'r gwaith adfer angenrheidiol o ddymchwel a darparu llety symudol a/neu ymgymryd â gwaith i'r adeilad Fictoraidd.
Gallai'r amgylchedd dysgu cyfarwydd gefnogi disgyblion sy'n cael budd o gysondeb a threfn.	Byddai angen buddsoddiad er gwaethaf niferoedd cymharol isel o ddisgyblion a lleoedd gwag parhaus.

Cadw'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y lleoliad cymunedol lleol.	Mae'r sefyllfa bresennol yn cyfyngu ar sicrwydd ynghylch addasrwydd a chynaliadwyedd safle'r ysgol yn y tymor hir.
Mae rhieni yn cadw eu dewis presennol o ddarpariaeth addysgol leol.	Gallai dosbarthiadau oedran cymysg ar draws sawl grŵp blwyddyn gyfyngu ar allu'r ysgol i gyflwyno ehangder llawn Cwricwlwm i Gymru yn gyson ac i herio pob dysgwr yn briodol.
Bydd effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau teithio cyfredol yn aros yr un fath.	Byddai lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau heb eu datrys, gan effeithio ar ddefnydd effeithlon o adnoddau.
Mae'r disgyblion yn aros mewn ysgol Gymraeg â darpariaeth Gymraeg lawn, gan gefnogi uchelgeisiau Cymraeg 2050 a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.	Ni fydd y lefelau uchel o leoedd gwag yn cael eu datrys, gan barhau i effeithio ar y defnydd effeithlon o adnoddau.
Byddai addysg yn cael ei chynnal ar safle presennol yr ysgol.	Ni fyddai'r opsiwn yn darparu'r un cyfleoedd o ran grwpiau cyfoedion mwy a phrofiadau addysgol ehangach sydd ar gael drwy gyfuno o fewn y ffederasiwn.
Gallai Cylch Meithrin aros ar safle presennol yr ysgol.	Byddai cadw'r trefniadau presennol yn parhau i osod gofynion gweithredol a gweinyddol ar arweinwyr y ffederasiwn sy'n gysylltiedig â goruchwylio tri safle ysgol, gan gyfyngu o bosib ar yr amser sydd ar gael i ganolbwyntio'n uniongyrchol ar godi safonau a hyrwyddo gwelliant.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Rhoi cynllun gwella wedi'i dargedu ar waith i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â'r adeilad a gwella cyfleusterau i'r disgyblion.	Gallai niferoedd disgyblion ostwng, gan effeithio ymhellach ar gynaliadwyedd tymor hir, a gallai arwain at bwysau ariannol ychwanegol.
Y potensial i gynnwys y gymuned mewn codi arian a gwirfoddoli i gryfhau gweithrediadau'r ysgol a lleihau cyllidebau diffyg.	Gallai cyfyngiadau'r gyllideb gyfyngu ar fuddsoddiad.
Er y gallai buddsoddiad cyfalaf wella cyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol, byddai angen gwariant amcangyfrifedig o oddeutu £1.2m i fynd i'r afael â'r materion strwythurol a nodwyd. O ystyried niferoedd isel y disgyblion yn yr ysgol, nid oes digon o dystiolaeth i awgrymu y byddai'r lefel hon o fuddsoddiad yn arwain at gynnydd parhaus yn nifer y	Gallai lleoedd gwag parhaus gynyddu pryderon ynghylch gwerth am arian.

disgyblion neu'n darparu ateb i heriau cynaliadwyedd yr ysgol yn y tymor hir.	
	Gallai costau adeiladu a deunyddiau uwch gynyddu cost amcangyfrifedig gwaith adfer y tu hwnt i'r amcanestyniadau cyfredol.
	Gallai oedi wrth gwblhau'r gwaith adeiladu beri i'r tarfu ar ddisgyblion, teuluoedd a staff bara'n hirach.
	Efallai y bydd materion strwythurol pellach yn cael eu nodi ar ôl i'r gwaith atgyweirio ddechrau, gan gynyddu costau ac amserlenni'r prosiect.
	Gallai'r angen am fuddsoddiad cyfalaf effeithio ar allu'r Awdurdod i flaenoriaethu prosiectau gwella ysgolion eraill ledled y Sir.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Byddai cadw'r trefniadau presennol yn cadw hunaniaeth yr ysgol, yn cadw'r trefniadau llywodraethu presennol ac yn cadw Ysgol Carwe fel sefydliad addysgol ar wahân. Daeth arolygiad Estyn o Ysgol Carwe ym mis Tachwedd 2024 i'r casgliad nad oedd angen cymryd camau dilynol a nododd sawl cryfder, gan gynnwys effaith gadarnhaol arweinyddiaeth ar draws y ffederasiwn, cydweithio effeithiol rhwng staff, agweddau cadarnhaol at ddysgu a'r profiadau cyson a ddarperir i ddysgwyr ar draws yr ysgolion ffederal. Nododd yr arolygwyr hefyd fod staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ar draws y ffederasiwn a bod yr ysgolion yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned ddysgu broffesiynol.

Mae'r trefniadau ffederal sefydledig, cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd ac arferion gweithio ar y cyd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynnal safonau addysgol. Fodd bynnag, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r ffactorau allweddol sydd wedi arwain at yr adolygiad. Ers mis Medi 2025, mae disgyblion wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn yn dilyn cau adeilad Ysgol Carwe oherwydd pryderon sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch. Er bod y ddarpariaeth addysgol yn parhau, nid yw'r dysgwyr bellach yn cael eu haddysgu ar safle gwreiddiol yr ysgol ac mae ansicrwydd o hyd ynghylch addasrwydd a hyfywedd yr adeilad yn y dyfodol.

Byddai cadw'r status quo yn golygu bod angen buddsoddiad cyfalaf amcangyfrifedig o oddeutu £1.2 miliwn i sicrhau bod modd defnyddio adeilad yr ysgol yn ddiogel unwaith eto. Byddai angen ystyried y lefel hon o fuddsoddiad yng nghyswllt niferoedd cymharol isel y disgyblion, lleoedd gwag parhaus a chynaliadwyedd y ddarpariaeth yn y tymor hir. Er y gallai buddsoddiad wella cyflwr yr adeilad, prin yw'r dystiolaeth y byddai'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy ar y safle.

Nododd Estyn angen i gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella, gan nodi nad oedd y cysylltiad rhwng gweithgareddau hunanwerthuso a gwella ansawdd bob amser yn ddigon clir ac nad oedd camau gweithredu sy'n deillio o

weithgareddau monitro bob amser yn arwain at welliannau mesuradwy. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r cyfrifoldebau arwain yn parhau i gael eu rhannu ar draws tri safle ysgol, gan olygu y byddai'n rhaid i'r pennaeth a'r tîm arweinwyr gydbwyso cyfrifoldebau gweithredol, trefniadaethol a gwella ysgol ar draws ystad ehangach. O ganlyniad, byddai'r cyfleoedd i gynyddu capasiti arweinyddiaeth a chanolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar hunanwerthuso, cynllunio gwella, datblygu'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol, monitro safonau a chodi safonau yn fwy cyfyngedig nag o dan yr opsiwn a ffefrir. Byddai cadw'r trefniadau presennol hefyd yn golygu bod angen parhau i rannu capasiti arweinyddiaeth ar draws tri safle ysgol yn hytrach na dau, gan leihau'r cyfle i amser arweinyddiaeth ac arbenigedd ganolbwyntio ar y gweithgareddau sy'n fwyaf tebygol o wella deilliannau i ddysgwyr. Mae argymhelliad Estyn i gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella yn cefnogi ymhellach fanteision posibl model sy'n galluogi arweinwyr i roi mwy o sylw i waith gwella'r ysgol.

Byddai cadw'r ddarpariaeth ar wahân yn Ysgol Carwe hefyd yn golygu efallai na fydd dysgwyr yn elwa ar rai o'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â charfanau disgyblion mwy o faint a mwy cynaliadwy. Er y byddai disgyblion yn parhau i dderbyn addysg addas, gallai cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ehangach â chyfoedion, dysgu ar y cyd, arweinyddiaeth disgyblion, profiadau dysgu mewn grwpiau a chyfranogiad cwricwlaidd ac allgyrsiol ehangach fod yn fwy cyfyngedig na'r rhai sydd ar gael drwy'r trefniadau presennol yn Ysgol Gwynfryn.

Er y byddai cydweithio ar draws y ffederasiwn yn parhau, ni fyddai cadw'r trefniadau presennol yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gryfhau capasiti arweinyddiaeth ymhellach, adeiladu ar y trefniadau dysgu proffesiynol effeithiol a nodwyd gan Estyn, gwneud arbedion effeithlonrwydd ar draws y ffederasiwn neu wella profiadau dysgwyr drwy garfanau disgyblion mwy o faint a mwy cynaliadwy.

Yn gyffredinol, byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod modd cynnal safonau addysgol a byddai'n cadw hunaniaeth yr ysgol a'i rôl yn y gymuned. Fodd bynnag, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion strwythurol sylweddol sy'n effeithio ar adeilad yr ysgol, byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ac ni fyddai'n datrys pryderon sy'n ymwneud â lleoedd gwag, cynaliadwyedd yn y tymor hir neu ddefnyddio adnoddau yn effeithiol. Hefyd, ni fyddai'n darparu'r un cyfleoedd i gryfhau capasiti arweinyddiaeth, cefnogi prosesau hunanwerthuso a gwella'r ysgol, nac yn ehangu'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael i ddysgwyr drwy garfanau disgyblion mwy o faint a mwy cynaliadwy. O ganlyniad, er y gallai'r opsiwn hwn gynnal safonau addysgol o hyd, credir ei fod yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran mynd i'r afael â'r ffactorau a ysgogodd yr adolygiad ac yn llai abl i sicrhau darpariaeth addysgol Gymraeg gynaliadwy o ansawdd uchel a gwella'r ysgol yn barhaus ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Disgwylir yr effaith leiaf posibl gan y byddai'r ysgol yn parhau i fod ar agor ac yn parhau i weithredu ar ei ffurf bresennol.

Byddai'r ysgol yn parhau i fod yn ganolbwynt yn y gymuned ac yn cefnogi hunaniaeth leol, gweithgareddau Cymraeg a diwylliannol a digwyddiadau

cymunedol. Byddai'r cysylltiadau presennol rhwng yr ysgol a'r gymuned yn cael eu cynnal.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ragwelir unrhyw effaith sylweddol gan y byddai'r trefniadau teithio presennol yn aros yr un peth.

Byddai'r disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol bresennol ac ni fyddai unrhyw ofynion neu gostau cludiant newydd. Byddai'r amseroedd teithio presennol a'r effeithiau amgylcheddol cysylltiedig yn aros yr un peth i raddau helaeth.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r pryderon sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch a arweiniodd at gau adeilad yr ysgol ym mis Medi 2025.
- Byddai cadw'r status quo yn golygu bod angen i'r Awdurdod Lleol fuddsoddi oddeutu £1.2 miliwn i fynd i'r afael â'r diffygion strwythurol a sicrhau bod modd defnyddio adeilad yr ysgol yn ddiogel unwaith eto.
- Byddai angen buddsoddiad cyfalaf er gwaethaf pryderon parhaus ynghylch nifer y disgyblion, lleoedd gwag a chynaliadwyedd y ddarpariaeth yn y tymor hir.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r nifer gymharol isel o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol na'r lefel uchel o leoedd gwag a fyddai'n parhau.
- Ni fyddai'n gwella cynaliadwyedd ariannol y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal yn y tymor hir nac yn mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol fach iawn.
- Ni fyddai'n darparu mwy o sicrwydd ynghylch hyfywedd, addasrwydd a chynaliadwyedd safle'r ysgol yn y dyfodol.
- Nododd Estyn fod angen cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella. Ni fyddai cadw'r trefniadau presennol yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gynyddu capasiti arweinyddiaeth a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau gwella hyn.
- Ni fyddai'r opsiwn yn darparu'r un cyfleoedd i ddysgwyr elwa ar grwpiau cyfoedion mwy, rhyngweithio cymdeithasol ehangach ac amrywiaeth ehangach o brofiadau cwricwlaidd, diwylliannol, chwaraeon ac allgyrsiol sydd ar gael drwy'r trefniadau presennol yn Ysgol Gwynfryn.
- Er y gellid cynnal safonau addysgol o dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a ysgogodd yr adolygiad a phrin fyddai'r cyfle i gryfhau capasiti arweinyddiaeth, gwella cynaliadwyedd tymor hir neu wella cyfleoedd addysgol i ddysgwyr.
- O ganlyniad, credir bod yr opsiwn yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth addysgol Gymraeg gynaliadwy o ansawdd uchel a chefnogi'r gwaith o wella'r ysgol yn barhaus ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Opsiwn Amgen 2 - Newid ystod oedran Ysgol Carwe o 4-11 i 3-11	
Cryfderau	**Gwendidau**
Gwella cynaliadwyedd yr ysgol yn y tymor hir drwy gynyddu nifer y disgyblion.	Mae'r disgyblion yn parhau i ddefnyddio adeilad ysgol sydd wedi cael problemau strwythurol diweddar a allai gyfyngu ar ei allu i gefnogi'r

	gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol yn y tymor hir.
Mae'r ysgol yn aros yn yr ardal heb unrhyw effaith ar y gymuned.	Os yw'r galw lleol am leoedd y blynyddoedd cynnar eisoes yn cael ei ddiwallu mewn mannau eraill, efallai na fydd llawer yn derbyn y lleoedd.
Mae'n cryfhau'r trefniadau pontio rhwng addysg feithrin ac addysg statudol.	Yn dibynnu ar y nifer sy'n derbyn y lleoedd, byddai staff addysgu o bosibl yn wynebu'r her barhaus o gynllunio a chyflwyno gwersi i ddwy ystafell ddosbarth sy'n cynnwys disgyblion o oedran a galluoedd cymysg, ar draws yr ysgol gyfan.
Carfan ychwanegol yn derbyn addysg drwy'r Gymraeg.	Gallai effeithio ar fusnesau lleol sy'n darparu addysg y blynyddoedd cynnar.
Gallai ymgysylltu'n gynharach â theuluoedd gryfhau'r berthynas rhwng y cartref a'r ysgol.	Gallai gael effaith niweidiol ar y Cylch Meithrin hirsefydledig sy'n gweithredu yn yr ysgol ar hyn o bryd.
Gallai ddarparu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o oedran cynharach a chryfhau parhad rhwng addysg feithrin ac addysg statudol.	Gallai danseilio hyfywedd a chynaliadwyedd y Cylch Meithrin presennol.
Gallai gryfhau'r trefniadau pontio ar gyfer plant sy'n symud i addysg amser llawn.	Costau sy'n gysylltiedig â gwella cyflwr yr adeilad i safon dderbyniol a diogel.
Gallai ymgysylltu'n gynharach â theuluoedd gefnogi partneriaethau cryfach rhwng y cartref a'r ysgol.	Gallai dosbarthiadau oedran cymysg ar draws sawl grŵp blwyddyn gyfyngu ar allu'r ysgol i gyflwyno ehangder llawn Cwricwlwm i Gymru yn gyson ac i herio pob dysgwr yn briodol.
Gallai ddarparu opsiwn ychwanegol i rieni ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar leol.	Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r diffyg presennol yn y gyllideb a gallai roi pwysau pellach ar y cyllid pe bai darpariaeth ychwanegol yn cael ei chyflwyno heb ddefnydd digonol.
	Nid yw'n mynd i'r afael â'r pryder sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch sy'n effeithio ar adeilad yr ysgol.
	Byddai angen buddsoddiad cyfalaf o hyd i wella adeilad yr ysgol i safon dderbyniol a diogel.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gallai'r opsiwn hwn ddiwallu anghenion cymunedol a rhoi mwy o opsiynau i rieni ar gyfer addysg Blynyddoedd Cynnar.	Cystadleuaeth leol mewn lleoliadau preifat presennol
Cyfle i ddatblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar a chynradd gwbl integredig.	Os na fydd llawer yn derbyn y lleoedd, efallai na fydd yn cael effaith

	gadarnhaol ar leoedd gwag neu'r gyllideb.
Potensial i gryfhau caffael y Gymraeg yn gynnar a chefnogi parodrwydd plant ar gyfer yr ysgol.	Cau'r Cylch Meithrin neu ostyngiad yn y nifer sy'n ei fynychu.
Cyfle i wella parhad o ran asesu, cymorth a chynnydd i ddysgwyr.	Colli sefydliad cymunedol gwerthfawr a darpariaeth dan arweiniad gwirfoddolwyr yn y pentref.
Potensial i ddenu teuluoedd ychwanegol sy'n chwilio am leoliad blynyddoedd cynnar a chynradd yn yr un man.	Canfyddiad cymunedol negyddol os credir bod y newid yn tanseilio'r Cylch Meithrin.
Cyfle i wella cydweithio rhwng gwasanaethau gofal plant ac addysg os gellir sefydlu trefniadau partneriaeth.	Risg i gyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r Cylch Meithrin presennol.
Gallai parhad y ddarpariaeth yn y tymor byr gefnogi iechyd a llesiant disgyblion a staff, ond mae risgiau'n dod i'r amlwg os bydd problemau o ran yr adeilad yn parhau.	Risg y bydd pwysau ariannol yn cynyddu oherwydd gofynion o ran staffio a'r adeilad.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Gallai'r cynnig ddarparu manteision addysgol drwy gyflwyno darpariaeth feithrin mewn un lleoliad addysgol. Gallai'r plant gael budd o ymgysylltu'n gynharach â'r ysgol, trefniadau pontio mwy hwylus i addysg statudol, mwy o barhad mewn profiadau dysgu a nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gynharach. Gallai ymgysylltu'n gynharach â theuluoedd hefyd gryfhau'r berthynas rhwng y cartref a'r ysgol a chefnogi llesiant, parodrwydd i ddysgu a chynnydd plant. Cydnabu Estyn gryfderau o fewn darpariaeth y ffederasiwn, gan gynnwys cydweithio effeithiol, perthnasoedd cadarnhaol a diwylliant cryf o gymorth i ddysgwyr.

Fodd bynnag, mae manteision addysgol posibl yr opsiwn hwn yn ansicr a byddai'n dibynnu i raddau helaeth ar lefel y galw am ddarpariaeth feithrin. Prin yw'r dystiolaeth y byddai ymestyn yr ystod oedran ar ei ben ei hun yn arwain at ddigon o ddisgyblion ychwanegol i fynd i'r afael â'r heriau ehangach sy'n wynebu'r ysgol. O ganlyniad, er y gallai'r cynnig gryfhau parhad rhwng addysg y blynyddoedd cynnar ac addysg statudol, mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar leihau nifer y lleoedd gwag, gwella cynaliadwyedd ariannol neu sicrhau hyfywedd y ddarpariaeth yn y tymor hir.

Hefyd, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r pryderon sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch a arweiniodd at gau adeilad yr ysgol, na'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol sydd ei angen i sicrhau bod modd defnyddio'r adeilad yn ddiogel unwaith eto. Byddai hefyd yn methu â mynd i'r afael â'r heriau ehangach yn ymwneud â nifer y lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol a defnyddio staff ac adnoddau yn effeithlon.

Nododd arolygiad Estyn o Ysgol Carwe ym mis Tachwedd 2024 sawl cryfder, gan gynnwys arweinyddiaeth gadarnhaol ar draws y ffederasiwn a chydweithio effeithiol rhwng staff. Fodd bynnag, nododd Estyn hefyd yr angen i gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella, gan nodi nad oedd y cysylltiad

rhwng gweithgareddau hunanwerthuso a gwella ansawdd bob amser yn ddigon clir ac nad oedd camau gweithredu sy'n deillio o weithgareddau monitro bob amser yn arwain at welliannau mesuradwy.

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r cyfrifoldebau arwain yn parhau i gael eu rhannu ar draws tri safle ysgol, gan olygu y byddai'n rhaid i'r pennaeth a'r tîm arweinwyr gydbwyso cyfrifoldebau gweithredol, trefniadaethol a gwella ysgolion ar draws ystad ehangach. O ganlyniad, byddai'r cyfleoedd i gynyddu capasiti arweinyddiaeth a chanolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar weithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau dysgwyr, gan gynnwys hunanwerthuso, cynllunio gwella, datblygu'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol, monitro safonau a chodi safonau, yn fwy cyfyngedig nag o dan yr opsiwn a ffefrir. Byddai cadw'r trefniadau presennol hefyd yn cyfyngu ar gyfleoedd i adeiladu ar ganfyddiadau Estyn drwy gynyddu capasiti arweinyddiaeth. Drwy barhau i weithredu ar draws tri safle ysgol, byddai arbenigedd ac amser arweinyddiaeth yn parhau i fod wedi'u gwasgaru'n ehangach, gan leihau'r cyfleoedd i ganolbwyntio ar weithgarwch gwella strategol a hyrwyddo gwelliant parhaus ar draws y ffederasiwn.

Yn ogystal, gallai'r cynnig achosi canlyniadau anfwriadol i'r Cylch Meithrin presennol, sydd ar hyn o bryd yn darparu darpariaeth blynyddoedd cynnar Gymraeg sefydledig yn y gymuned. Gallai unrhyw ostyngiad mewn cyfranogiad effeithio ar gynaliadwyedd y Cylch ac o bosibl lleihau manteision addysgol cyffredinol y cynnig drwy greu ansicrwydd ynghylch dyfodol y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar bresennol. Mae'r opsiwn felly yn creu'r risg o ailddosbarthu'r dysgwyr presennol yn hytrach na chreu digon o alw newydd i sicrhau gwelliant ystyrlon yng nghynaliadwyedd yr ysgol yn y tymor hir.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod disgyblion o Ysgol Carwe eisoes yn cael eu haddysgu yn Ysgol Gwynfryn ar ôl i adeilad yr ysgol gau. O ganlyniad, mae dysgwyr eisoes yn elwa ar fynediad at grwpiau cyfoedion mwy, profiadau dysgu ehangach ac amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cwricwlaidd, diwylliannol ac allgyrsiol drwy'r trefniadau ffederal presennol. Mae hyn yn cyfyngu ar y manteision addysgol ychwanegol y gellid eu sicrhau drwy gyflwyno darpariaeth feithrin, o gymharu â'r sefyllfa bresennol.

Yn gyffredinol, er y gallai'r opsiwn sicrhau rhai manteision mewn perthynas â pharhad addysg blynyddoedd cynnar a chryfhau'r trefniadau pontio rhwng y cyfnod meithrin a'r cyfnod cynradd, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a ysgogodd yr adolygiad. Ni fyddai'n datrys yr heriau yn ymwneud â'r adeilad sy'n wynebu'r ysgol nac yn darparu ateb credadwy i bryderon ynghylch lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth neu hyfywedd tymor hir. Hefyd, ni fyddai'n darparu'r un cyfleoedd â'r opsiwn a ffefrir i gryfhau capasiti arweinyddiaeth, gwella prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella, cefnogi'r gwaith o wella'r ysgol yn barhaus neu wneud y mwyaf o'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â charfanau disgyblion mwy o faint a mwy cynaliadwy. O ganlyniad, er y gellid cynnal safonau addysgol, credir nad yw'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn ddigonol i fod yn drech na'r heriau o ran yr adeilad, materion ariannol a chynaliadwyedd a nodwyd. Yn gyffredinol, credir bod yr opsiwn yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth

addysgol Gymraeg gynaliadwy o ansawdd uchel a chefnogi'r gwaith o wella'r ysgol yn barhaus ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Gallai'r cynnig gael effaith ar y gymuned leol. Er y byddai rhai teuluoedd o bosib yn croesawu cael mynediad uniongyrchol at addysg feithrin yn yr ysgol o 3 oed, gallai cyflwyno darpariaeth feithrin yn Ysgol Carwe gael effaith andwyol ar gynaliadwyedd y Cylch Meithrin sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r Cylch yn chwarae rôl bwysig yn y gymuned ac yn cyfrannu at y Gymraeg, cyfleoedd cyflogaeth lleol ac ymgysylltu cymunedol. Gallai unrhyw ostyngiad yn y nifer sy'n ei fynychu beryglu ei hyfywedd tymor hir ac o bosibl arwain at golli ased cymunedol gwerthfawr.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Mae'r cynnig yn annhebygol o arwain at newidiadau i drefniadau teithio gan y byddai'r rhan fwyaf o blant yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth yn eu cymuned leol. Efallai y bydd gostyngiad bach mewn teithio i rai teuluoedd sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad at ddarpariaeth feithrin mewn mannau eraill. I'r gwrthwyneb, efallai y bydd angen i deuluoedd y mae'n well ganddynt ddarpariaeth Cylch Meithrin deithio ymhellach pe bai'r ddarpariaeth bresennol yn mynd yn anghynaladwy.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Mae'n annhebygol o gael effaith ar nifer y disgyblion yn yr ysgol
- Mae'n annhebygol o leihau'r lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb yn yr ysgol
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad
- Gallai'r cynnig gael effaith andwyol ar gynaliadwyedd y Cylch Meithrin presennol sy'n gweithredu o safle'r ysgol ar hyn o bryd a'i hyfywedd yn y dyfodol.

Opsiwn Amgen 3 – Cydweithio ag ysgolion eraill	
Cryfderau	**Gwendidau**
Cyfleoedd i rannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da ar draws ysgolion.	Mae'r disgyblion yn parhau i ddefnyddio adeilad ysgol sydd wedi cael problemau strwythurol diweddar a allai gyfyngu ar ei allu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol yn y tymor hir.
Mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol staff a chydweithio.	Ni fyddai cydweithio yn mynd i'r afael â niferoedd disgyblion yn yr ysgol na'r lefelau uchel o leoedd gwag.
Gallai disgyblion elwa ar amrywiaeth ehangach o brofiadau addysgol, chwaraeon a diwylliannol.	Ni fyddai'r opsiwn yn datrys y diffyg presennol yn y gyllideb ac efallai na fyddai'n sicrhau digon o arbedion i wella cynaliadwyedd ariannol.
Gallai wella'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm drwy fynediad at adnoddau a staff arbenigol.	Byddai'r trefniadau dysgu oedran cymysg yn parhau, a allai gyfyngu ar y gallu i gyflwyno ehangder llawn y Cwricwlwm i Gymru.

Gall gryfhau cynaliadwyedd yr ysgol heb newid ei ystod oedran neu'i drefniadau llywodraethu.	Mwy o ddibyniaeth ar ysgolion eraill ar gyfer darparu rhai gweithgareddau a mentrau.
Byddai'r disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac uchelgeisiau Cymraeg 2050.	Angen amser ychwanegol ar gyfer cynllunio, cydgysylltu a theithio rhwng ysgolion.
Mae'r trefniadau cydweithio presennol eisoes wedi darparu mynediad at amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu, cyfleoedd allgyrsiol, gweithgareddau chwaraeon ac ymweliadau addysgol na fyddent wedi bod yn bosibl fel arall efallai i ysgol o'r maint hwn.	Gallai gwahaniaethau mewn blaenoriaethau ac arferion ysgol wneud cydweithio yn heriol.
Mae'r ysgol eisoes yn elwa ar gydweithio drwy ei ffederasiwn ffurfiol ag Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Ponthenri, sydd wedi galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau a rennir, ymweliadau addysgol a phrofiadau dysgu ehangach. Mae'r trefniadau hyn wedi cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chyfoethogi.	Efallai na fydd y manteision yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws yr holl ysgolion sy'n cymryd rhan.
	Gallai effeithiolrwydd trefniadau cydweithio amrywio ac efallai na fyddent yn arwain at welliant parhaus mewn safonau.
	Efallai na fydd cydweithio ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â'r heriau tymor hir sy'n ymwneud â'r nifer sydd ar y gofrestr yn yr ysgol neu gynaliadwyedd ariannol.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cyfle i ddatblygu prosiectau cwricwlwm a rennir sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru.	Efallai na fydd yn gwella niferoedd disgyblion yn yr ysgol na nifer y lleoedd gwag
Cyfle i gryfhau trefniadau pontio rhwng ysgolion.	Gallai trefniadau cydweithio fynd yn anodd eu cynnal pe bai cyllid yn cael ei leihau.
Potensial i rannu adnoddau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy gydweithio.	Gallai pellteroedd daearyddol gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cydweithio rheolaidd.
Cyfle i ddarparu profiadau cymdeithasol ehangach i ddisgyblion drwy weithgareddau a digwyddiadau ar y cyd.	Byddai llwyddiant y trefniant yn dibynnu ar ymrwymiad parhaus yr holl ysgolion sy'n cymryd rhan.
Cyfle i gydweithio ar weithgareddau Cymraeg a phrosiectau ymgysylltu â'r gymuned.	Gallai unrhyw ganfyddiad ynghylch colli unigoliaeth yr ysgol greu pryder yn y gymuned.

	Risg bod adnoddau yn cael eu buddsoddi heb fynd i'r afael â'r materion strwythurol sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Gallai cydweithio ag ysgolion eraill ddarparu manteision addysgol drwy rannu arbenigedd, adnoddau ac ymarfer effeithiol. Gallai dysgwyr elwa ar gael mynediad at amrywiaeth ehangach o brofiadau addysgol, diwylliannol, chwaraeon ac allgyrsiol, a gallai staff elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwell, datblygu'r cwricwlwm ar y cyd a mwy o gydweithio proffesiynol. Gallai'r trefniadau hyn gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm, cyfoethogi profiadau dysgwyr a chryfhau cyfleoedd ar gyfer dylunio'r cwricwlwm a chynnydd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod Ysgol Carwe eisoes yn elwa ar drefniadau cydweithio helaeth drwy ei ffederasiwn sefydledig ag Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Ponthenri. Cydnabu arolygiad Estyn o Ysgol Carwe ym mis Tachwedd 2024 effaith gadarnhaol cydweithio ar draws y ffederasiwn gan nodi bod staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddarparu profiadau cyson i ddysgwyr. Nododd yr arolygwyr hefyd fod athrawon yn cael cyfleoedd rheolaidd i gynllunio ar y cyd a chraffu ar waith disgyblion gyda'i gilydd a daeth i'r casgliad bod y ffederasiwn yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned ddysgu broffesiynol. O ganlyniad, mae llawer o'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â chydweithio eisoes yn cael eu gwireddu drwy'r trefniadau presennol.

Er y gallai cydweithio ychwanegol ddarparu cyfleoedd i gyfoethogi profiadau disgyblion ymhellach, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch a arweiniodd at gau adeilad yr ysgol, na'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol sydd ei angen i sicrhau bod modd defnyddio'r adeilad yn ddiogel unwaith eto. Byddai'r opsiwn hefyd yn methu â mynd i'r afael â'r heriau ehangach sy'n ymwneud â nifer y disgyblion, nifer y lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol a hyfywedd y ddarpariaeth addysgol yn y tymor hir.

Nododd Estyn gryfderau mewn arweinyddiaeth ar draws y ffederasiwn yn ogystal ag argymell y dylid cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r cyfrifoldebau arwain yn parhau i gael eu rhannu ar draws tri safle ysgol, gan olygu y byddai'n rhaid i'r arweinwyr gydbwyso cyfrifoldebau gweithredol, trefniadaethol a gwella ysgolion ar draws ystad ehangach. O ganlyniad, byddai'r cyfleoedd i gynyddu capasiti arweinyddiaeth a chanolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar hunanwerthuso, cynllunio gwella, datblygu'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol, monitro safonau a chodi safonau yn parhau'n fwy cyfyngedig nag o dan yr opsiwn a ffefrir. Byddai parhau i weithredu ar draws tri safle ysgol hefyd yn lleihau cyfleoedd i adeiladu ar ganfyddiadau Estyn drwy alluogi arweinwyr i neilltuo amser a sylw ychwanegol i waith gwella ysgol strategol a chyflawni blaenoriaethau gwella.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod disgyblion o Ysgol Carwe eisoes yn cael eu haddysgu yn Ysgol Gwynfryn ar ôl i adeilad yr ysgol gau. O ganlyniad, mae dysgwyr eisoes yn elwa ar grwpiau cyfoedion mwy, mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a mynediad at amrywiaeth ehangach o brofiadau cwricwlaidd, diwylliannol ac allgyrsiol drwy'r trefniadau ffedereiddio presennol.

Mae hyn yn lleihau'r manteision addysgol ychwanegol posibl sy'n debygol o godi o gyflwyno model cydweithio pellach yn unig.

Er y byddai gweithio ar y cyd yn parhau i gynnig manteision addysgol gwerthfawr, prin yw'r dystiolaeth y byddai'r opsiwn hwn yn gwella'r ddarpariaeth addysgol yn y tu hwnt i'r cyfleoedd sydd eisoes ar gael drwy'r ffederasiwn. Hefyd, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau o ran yr adeilad a materion ariannol a threfniadaethol a ysgogodd yr adolygiad.

Yn gyffredinol, gellid cynnal safonau addysgol o dan yr opsiwn hwn a byddai dysgwyr yn parhau i elwa ar drefniadau gweithio ar y cyd. Fodd bynnag, mae llawer o'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â chydweithio eisoes wedi'u sefydlu yn y ffederasiwn presennol. Ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r materion strwythurol sy'n effeithio ar yr ysgol, yn gwella cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir, yn cryfhau capasiti arweinyddiaeth i'r un graddau â'r opsiwn a ffefrir nac yn darparu mwy o sicrwydd ynghylch hyfywedd y ddarpariaeth yn y dyfodol. O ganlyniad, er y gallai'r opsiwn hwn gynnal safonau addysgol, credir ei fod yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth addysgol Gymraeg gynaliadwy o ansawdd uchel a chefnogi'r gwaith o wella'r ysgol yn barhaus ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Gallai'r cynnig gryfhau'r berthynas rhwng ysgolion a chymunedau cyfagos wrth ganiatáu i Ysgol Carwe gadw ei hunaniaeth a'i rôl yn y gymuned leol. Gallai cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau ar y cyd gynyddu ymgysylltu cymunedol ac ehangu profiadau i ddisgyblion a theuluoedd. Ychydig iawn o effaith uniongyrchol y byddai'r opsiwn hwn yn ei chael ar gyfleusterau a sefydliadau cymunedol presennol, gan gynnwys y Cylch Meithrin.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

O dan y cynnig hwn, efallai y bydd angen i ddisgyblion a staff deithio'n achlysurol i fynd i weithgareddau ar y cyd, digwyddiadau chwaraeon, prosiectau o ran y cwricwlwm neu gyfleoedd dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, byddai trefniadau teithio o ddydd i ddydd i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe yn aros yr un peth, ac ni fyddai unrhyw newidiadau sylweddol i'r trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael eu disgwyl.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch sy'n effeithio ar adeilad yr ysgol nac yn dileu'r angen am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol i sicrhau bod modd defnyddio'r adeilad yn ddiogel unwaith eto.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r nifer gymharol isel o ddisgyblion ar y gofrestr na'r lefel uchel o leoedd gwag a fyddai'n parhau yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n gwella cynaliadwyedd ariannol y ddarpariaeth yn y tymor hir nac yn mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol fach iawn.
- Mae'r rhan fwyaf o'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â chydweithio eisoes yn cael eu gwireddu drwy'r trefniadau ffedereiddio presennol ag Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Ponthenri. Cydnabu Estyn effaith gadarnhaol cydweithio ar draws y ffederasiwn a'r trefniadau dysgu proffesiynol effeithiol sydd eisoes ar waith.

- Nododd Estyn angen i gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella. Ni fyddai'r opsiwn yma yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gynyddu capasiti arweinyddiaeth a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau gwella hyn.
- Er y gallai cydweithio ychwanegol gyfoethogi profiadau dysgwyr ymhellach, ni fyddai'n darparu ateb cynaliadwy i'r heriau o ran yr adeilad a materion ariannol a threfniadaethol a ysgogodd yr adolygiad.
- Ni fyddai'n darparu mwy o sicrwydd ynghylch hyfywedd tymor hir, addasrwydd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal.
- O ganlyniad, er y gallai'r opsiwn hwn gynnal safonau addysgol, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol a chredir ei fod yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth addysgol Gymraeg gynaliadwy o ansawdd uchel, cryfhau capasiti arweinyddiaeth a chefnogi'r gwaith o wella'r ysgol yn barhaus ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Opsiwn Amgen 4 - Cau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion i'r ysgol agosaf	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai disgyblion yn cael budd o adeiladau gwell o gymharu â'r adeilad ysgol presennol.	Tarfu a chyfnod ansefydlog i ddisgyblion a'u teuluoedd.
Byddai disgyblion yn gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol sy'n derbyn, gan sicrhau parhad y ddarpariaeth iaith yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod.	Cau'r ysgol a cholli darpariaeth addysg yn y gymuned.
Mae'n lleihau'r gwariant cyfalaf sydd ei angen i fynd i'r afael â'r materion strwythurol difrifol a nodwyd yn Ysgol Carwe.	Tarfu ar staff a'r posibilrwydd o ddileu swyddi
Efallai y bydd disgyblion yn elwa ar fynychu ysgol fwy gyda charfan o ddisgyblion o oedran tebyg yn dibynnu ar ba ysgol maen nhw'n ei mynychu.	Colli ased cymunedol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl leol.
Efallai y bydd disgyblion yn elwa ar well cyfleoedd i ddisgyblion drwy weithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion newydd	Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddarparu cludiant i'r disgyblion yr effeithir arnynt a fydd yn cynyddu costau cludiant.
Byddai'r arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol yn helpu i leddfu'r pwysau cyllidebol cyffredinol y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hwynebu. Byddai cyllid nifer y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol newydd gyda'r disgybl a thrwy hynny wella cyllideb yr ysgol honno.	Gall pellteroedd teithio gynyddu gan gael effaith negyddol ar rieni a'r amgylchedd.

Dileu'r angen i fuddsoddi oddeutu £1.2m mewn gwella ac atgyweirio adeilad yr ysgol.	Effaith bosibl ar lesiant disgyblion a'u hymdeimlad o berthyn yn sgil newid ysgol.
Mae'n darparu mwy o sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol yn y tymor hir.	Bydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar y Cylch Meithrin sydd wedi'i leoli yn yr ysgol.
Gan fod y disgyblion eisoes wedi trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn, efallai y bydd llai o darfu nag y byddai fel arfer yn gysylltiedig â chynnig i gau ysgol.	Mae'n bosibl y byddai'r garfan o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol yn cael ei rhannu pe bai'r disgyblion yn mynychu ysgolion eraill.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Potensial i wella hyfywedd addysg ar draws y sir.	Gwrthwynebiad gan rieni a rhanddeiliaid i'r cynnig.
Potensial i sicrhau derbyniad cyfalaf drwy werthu'r adeilad ysgol presennol.	Gwrthwynebiad gan y gymuned i'r cynigion
Cyfle i fuddsoddi adnoddau'n fwy effeithiol mewn darpariaeth addysgol gynaliadwy.	Risg y bydd cydlyniant cymunedol yn dirywio ar ôl colli'r ysgol.
Cyfle i ddisgyblion elwa ar amrywiaeth ehangach o gyfleoedd dysgu, allgyrsiol a chymdeithasol.	Gallai cau'r ysgol gael effaith andwyol ar hyfywedd y Cylch Meithrin sy'n gweithredu o'r ysgol ar hyn o bryd.
Arbedion posibl yn sgil lleihau costau cynnal a chadw ac atgyweirio yn y dyfodol.	Colli presenoldeb addysgol Cymraeg sefydledig yn y pentref.
Cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth addysgol drwy integreiddio i leoliad ysgol mwy o faint a mwy cynaliadwy.	Ansicrwydd posibl ynghylch dyfodol safle'r ysgol a'r cyfleusterau cysylltiedig.
Cyfle i gefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod drwy atgyfnerthu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau ysgol cynaliadwy.	Gallai pellteroedd teithio hirach effeithio ar lesiant, presenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion os nad yw hyn yn cael ei reoli'n effeithiol.
	Risg na fydd trefniadau pontio yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, yn enwedig i ddysgwyr sy'n agored i niwed.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Gallai'r opsiwn hwn gynnig nifer o fanteision addysgol. Byddai'r disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a byddent yn cael eu haddysgu mewn adeilad sy'n addas i'r diben, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer dysgu. Yn dibynnu ar yr ysgol sy'n derbyn y mae'r dysgwyr yn ei mynychu, gallent gael mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cwricwlaidd, diwylliannol, chwaraeon ac allgyrsiol, adnoddau arbenigol a phrofiadau dysgu gwahanol. Gallai'r ffactorau hyn helpu o ran ymgysylltiad a llesiant y disgyblion a'u cyfranogiad ym mywyd yr ysgol.

Fodd bynnag, er bod y disgyblion eisoes wedi trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn ar ôl i adeilad Ysgol Carwe gau, mae'r opsiwn hwn yn wahanol i'r opsiwn a ffefrir gan y gallai dysgwyr fynychu amrywiaeth o ysgolion amgen yn y pen draw yn hytrach

nag aros gyda'i gilydd yn eu cymuned ffederal bresennol. O ganlyniad, mae mwy o botensial ar gyfer tarfu ar grwpiau cyfeillgarwch, perthnasoedd a rhwydweithiau cymorth sefydledig. Felly gallai'r opsiwn arwain at golli parhad i ddisgyblion a theuluoedd ac efallai y bydd angen i ddysgwyr addasu i amgylcheddau, diwylliannau, disgwyliadau ac arferion ysgol gwahanol.

Daeth arolygiad Estyn o Ysgol Carwe ym mis Tachwedd 2024 i'r casgliad nad oedd angen cymryd camau dilynol gan nodi cryfderau mewn arweinyddiaeth, cydweithio a chysondeb profiadau dysgwyr ar draws y ffederasiwn. Byddai'r opsiwn a ffefrir yn galluogi disgyblion i aros yn y trefniadau ffederal sefydledig hyn. Mewn cyferbyniad, gallai'r opsiwn hwn leihau parhad o ran trefniadau arweinyddiaeth, llywodraethu, cynllunio'r cwricwlwm a gwella'r ysgol yn dibynnu ar yr ysgolion sy'n derbyn y mae'r disgyblion yn eu mynychu.

Gallai'r cynnig hefyd arwain at wahanu disgyblion oddi wrth eu grŵp cyfoedion presennol. Er bod y disgyblion yn debygol o wneud ffrindiau newydd ac addasu'n llwyddiannus i'w lleoliad newydd, mae perygl y gallai'r parhad a'r ymdeimlad o berthyn sydd eisoes wedi'u sefydlu drwy'r ffederasiwn presennol ddirywio. Felly byddai trefniadau gofal, cymorth ac arweiniad priodol yn hanfodol, yn enwedig i ddysgwyr iau a'r rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Byddai'r opsiwn yn dileu'r angen am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol yn adeilad Ysgol Carwe ac yn darparu mwy o sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd darpariaeth addysgol yn y dyfodol. Fodd bynnag, gellid cyflawni'r manteision hyn drwy'r opsiwn a ffefrir i raddau helaeth wrth gynnal parhad i ddysgwyr yn y ffederasiwn presennol a chadw perthnasoedd a threfniadau addysgol sefydledig.

Ar y cyfan, er y gellid cynnal safonau addysgol ac y byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg addas, byddai'r opsiwn hwn yn darparu llai o barhad na'r opsiwn a ffefrir a gallai arwain at fwy o darfu i ddysgwyr a theuluoedd. Er y byddai'r opsiwn yn sicrhau mynediad at adeilad diogel ac addas ac yn dileu'r angen am fuddsoddiad cyfalaf yn adeilad Ysgol Carwe, gellid cyflawni'r manteision hyn i raddau helaeth drwy'r opsiwn a ffefrir wrth gynnal y parhad sydd eisoes wedi'i sefydlu drwy'r ffederasiwn presennol. O ystyried bod y disgyblion eisoes wedi'u hintegreiddio'n llwyddiannus yn Ysgol Gwynfryn ac yn elwa ar berthnasoedd sefydledig, trefniadau arweinyddiaeth a rennir, parhad o ran y cwricwlwm a phrosesau gwella ysgol cyson, credir bod yr opsiwn hwn yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran cefnogi llesiant dysgwyr, cynnal parhad addysgol a sicrhau darpariaeth addysgol Gymraeg gynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'n cael effaith ar y gymuned leol. Mae ysgolion yn aml yn ganolfannau cymunedol pwysig a byddai cau Ysgol Carwe yn golygu colli ased addysgol a chymunedol gwerthfawr.

Byddai angen ystyried yr effaith ar y Cylch Meithrin, sydd wedi'i leoli yn yr ysgol ar hyn o bryd. Gallai cau'r ysgol beryglu hyfywedd y Cylch yn y dyfodol os na ellir dod o hyd i adeilad arall. Gallai hyn leihau'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar leol sydd ar gael a golygu goblygiadau i deuluoedd yn yr ardal.

Gallai'r cynnig hefyd effeithio ar hunaniaeth gymunedol, y defnydd o gyfleusterau lleol a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymunedol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Byddai'r cynnig yn golygu bod y disgyblion yn teithio i ysgol arall yn barhaol. Gan fod disgyblion eisoes wedi trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn yn dilyn y penderfyniad i beidio ag ailagor Ysgol Carwe oherwydd cyflwr strwythurol yr adeilad, mae llawer o deuluoedd eisoes yn gyfarwydd â'r trefniadau teithio presennol.

Serch hynny, byddai cau'r ysgol yn ffurfioli'r angen i'r teithio barhau a gallai arwain at amseroedd teithio hirach i rai disgyblion nag y byddent wedi'u hwynebu wrth fynychu eu hysgol leol. Byddai angen asesu'r effaith yn erbyn polisïau'r cyngor ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

Er y byddai'r opsiwn hwn yn dileu'r angen am oddeutu £1.2 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i fynd i'r afael â'r materion strwythurol ac iechyd a diogelwch sylweddol sy'n effeithio ar adeilad Ysgol Carwe, a byddai'n sicrhau mynediad at adeilad sy'n addas i'r diben, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer dysgu, gellir cyflawni'r manteision hyn drwy'r opsiwn a ffefrir i raddau helaeth wrth gynnal mwy o barhad i ddysgwyr, teuluoedd a staff.

Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gau Ysgol Carwe yn barhaol a cholli darpariaeth addysgol yn y gymuned. Mae'r ysgol wedi chwarae rhan bwysig yn hanesyddol fel sefydliad addysgol ac ased cymunedol gwerthfawr. Byddai ei chau felly yn cael effaith sylweddol ar gydlyniant cymunedol, hunaniaeth leol a bywyd cymdeithasol a diwylliannol yr ardal.

Yn wahanol i'r opsiwn a ffefrir, gellid gwasgaru dysgwyr ar draws sawl ysgol sy'n derbyn yn hytrach na'u chadw gyda'i gilydd o fewn eu cymuned ffederal bresennol. Byddai hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o darfu ar grwpiau cyfeillgarwch sefydledig, rhwydweithiau cymorth a pharhad addysgol. Gallai hefyd leihau parhad o ran trefniadau arweinyddiaeth, llywodraethu, cyflwyno'r cwricwlwm, cymorth llesiant a gwella ysgol sydd eisoes wedi'u sefydlu drwy'r ffederasiwn ac sy'n cael eu cydnabod mewn modd cadarnhaol gan Estyn.

Byddai'r opsiwn hefyd yn golygu colli'r manteision sy'n gysylltiedig â chadw disgyblion yn y trefniadau ffederal presennol, lle maent eisoes yn elwa ar berthnasoedd sefydledig, disgwyliadau a rennir, cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd a phrosesau gwella ysgol ar y cyd. Gan fod y disgyblion eisoes wedi cael eu haddysgu'n llwyddiannus yn Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025, credir mai prin yw'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo dysgwyr i amrywiaeth o ysgolion amgen o'u cymharu â'r parhad a gynigir gan yr opsiwn a ffefrir.

Gallai'r cynnig gael effaith andwyol ar gynaliadwyedd tymor hir y Cylch Meithrin sy'n gweithredu o safle'r ysgol ar hyn o bryd a'i hyfywedd yn y dyfodol. Gallai hyn leihau darpariaeth blynyddoedd cynnar leol, dewis y rhieni a mynediad at lwybr gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg sefydledig yn y gymuned.

Er y gellid cynnal safonau addysgol o dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'n darparu'r un cyfleoedd â'r opsiwn a ffefrir o ran cynnal parhad i ddysgwyr, cefnogi llesiant, gwarchod perthnasoedd addysgol sefydledig ac adeiladu ar y trefniadau gwella ysgol ac arweinyddiaeth ffederal presennol. O ganlyniad, er bod yr opsiwn hwn yn cynnig manteision ariannol a gweithredol, credir bod yr anfanteision addysgol, cymunedol a gofal plant yn drech na'r manteision. Felly, credir bod yr opsiwn yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran cefnogi llesiant dysgwyr, cadw parhad addysgol, cadw cysylltiadau cymunedol a sicrhau darpariaeth addysgol Gymraeg gynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Opsiwn Amgen 5 – Cau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae'n lleihau gwariant cyfalaf drwy ddileu'r angen am oddeutu £1.2m o fuddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i fynd i'r afael â'r diffygion strwythurol a'r pryderon iechyd a diogelwch yn Ysgol Carwe.	Byddai cau Ysgol Carwe yn arwain at golli ased cymunedol ac ysgol leol hirsefydlog.
Mae'n darparu ateb cynaliadwy ar ôl i Ysgol Carwe orfod cau ym mis Medi 2025 oherwydd pryderon ynghylch diogelwch yr adeilad.	Efallai y bydd tarfu ar rai disgyblion neu y byddant yn poeni wrth bontio i Ysgol Gwynfryn.
Mae'n galluogi'r ddarpariaeth addysgol i barhau yn y ffederasiwn presennol, gan sicrhau parhad arweinyddiaeth, polisïau a chyflwyno'r cwricwlwm.	Pellter ac amser teithio hirach ar gyfer rhai disgyblion.
Mae'n galluogi adnoddau i gael eu canolbwyntio ar addysgu a dysgu yn hytrach nag atgyweiriadau mawr i adeiladau a rhwymedigaethau cynnal a chadw parhaus.	Posibilrwydd y bydd angen addasiadau neu welliannau i'r adeilad yn Ysgol Gwynfryn i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol.
Mae'n rhoi mynediad i ddisgyblion at grŵp cyfoedion mwy ac amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol.	Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn canfod bod cau'r ysgol yn golygu colli hunaniaeth a threftadaeth leol.
Byddai'r arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol yn helpu i leddfu'r pwysau cyllidebol cyffredinol y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hwynebu. Byddai cyllid nifer y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol newydd gyda'r disgybl a thrwy hynny wella cyllideb yr ysgol honno.	Efallai y gellid effeithio ar weithgareddau cymunedol a oedd yn gysylltiedig ag Ysgol Carwe yn flaenorol.
Mae'n gwella effeithlonrwydd staffio, defnyddio adnoddau a rheoli'r ysgolion ar draws y ffederasiwn.	Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cyfleoedd	Bygythiadau
Ailgyfeirio arbedion yn sgil atgyweiriadau cyfalaf a gwaith cynnal a chadw parhaus tuag at wella'r ddarpariaeth addysgol a deilliannau disgyblion.	Gwrthwynebiad posibl gan rieni, trigolion a rhanddeiliaid cymunedol.
Cryfhau cynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn y tymor hir.	Pryderon cymunedol ynghylch colli ysgol bentref a'r effaith ar hyfywedd yr ardal yn y dyfodol.
Gwella cyfleoedd cwricwlaidd, chwaraeon, diwylliannol ac allgyrsiol drwy niferoedd disgyblion uwch.	Heriau yn ymwneud â chludiant neu gostau uwch sy'n gysylltiedig â threfniadau teithio disgyblion.
Gwella cydweithio rhwng disgyblion, staff a theuluoedd o fewn un gymuned ysgol.	Gallai cynnydd yn nifer y disgyblion roi pwysau ar yr adeilad ac adnoddau os bydd twf yn y dyfodol yn fwy na'r rhagolygon.
Edrych ar ddefnyddiau amgen ar gyfer safle Ysgol Carwe yn y dyfodol a allai barhau i fod o fudd i'r gymuned leol.	Cyhoeddusrwydd negyddol neu effaith ar yr enw da sy'n gysylltiedig â'r cynnig i gau'r ysgol.
Creu model addysg mwy gwydn a chynaliadwy o safbwynt ariannol ar gyfer y dyfodol.	Effaith emosiynol ar ddisgyblion, teuluoedd a chyn-ddisgyblion sydd â chysylltiadau cryf â'r ysgol.
	Bydd angen i'r Cylch Meithrin presennol sy'n byw yn Ysgol Carwe adleoli.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Nid yw'r cynnig yn cael ei gyflwyno o ganlyniad i bryderon ynghylch safonau addysgol. Daeth arolygiad Estyn o Ysgol Carwe ym mis Tachwedd 2024 i'r casgliad nad oedd angen cymryd camau dilynol a nododd amrywiaeth o gryfderau mewn perthynas ag arweinyddiaeth, cydweithio ar draws y ffederasiwn, agweddau disgyblion at ddysgu ac ansawdd profiadau'r dysgwyr.
Byddai'r cynnig yn galluogi disgyblion o Ysgol Carwe i barhau â'u haddysg yn Ysgol Gwynfryn, sef ysgol sydd eisoes yn rhan o'r un ffederasiwn. Ers mis Medi 2025, mae disgyblion o Ysgol Carwe wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn yn dilyn y penderfyniad i beidio ag ailagor yr ysgol oherwydd pryderon sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch. O ganlyniad, mae disgyblion eisoes wedi sefydlu perthynas gadarnhaol â staff a chyfoedion, wedi addasu i arferion yr ysgol ac wedi cael mynediad at y cwricwlwm yn Ysgol Gwynfryn. O ganlyniad, mae'r risgiau addysgol sy'n gysylltiedig fel arfer â chau ysgol a throsglwyddo'r disgyblion yn cael eu lleihau'n sylweddol.

Byddai'r cynnig yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus a byddai'n darparu parhad o ran arweinyddiaeth, trefniadau llywodraethu, cyflwyno'r cwricwlwm, gofal, cymorth ac arweiniad, a phrosesau gwella ysgol. Cydnabu Estyn y diwylliant cryf o gydweithio ar draws y ffederasiwn gan nodi bod staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddarparu profiadau cyson i ddysgwyr. Disgwylir i'r parhad hwn helpu i sicrhau bod disgyblion yn parhau i gael mynediad at brofiadau dysgu o ansawdd uchel a gwneud cynnydd priodol.

Byddai'r cynnig yn rhoi mynediad i ddysgwyr at grwpiau cyfoedion mwy a chymuned ysgol ehangach. Mae hyn yn debygol o gynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, trafodaeth, gwaith tîm, cymorth gan gyfoedion a rhyngweithio cymdeithasol. Gall carfanau mwy hefyd wella cyfleoedd ar gyfer llais disgyblion, cyfrifoldebau arwain, cyfranogiad mewn chwaraeon, gweithgareddau diwylliannol a phrofiadau allgyrsiol. Yn ogystal, byddai mynediad at dîm staff mwy yn cefnogi'r gwaith o rannu arbenigedd a chyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys.

Mae'r carfanau mwy o ddisgyblion yn Ysgol Gwynfryn hefyd yn debygol o ddarparu cyfleoedd gwell ar gyfer dysgu ar y cyd, llais disgyblion, datrys problemau mewn grwpiau a phrofiadau dysgu dilys. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru drwy alluogi dysgwyr i weithio'n effeithiol gydag eraill, datblygu sgiliau cyfathrebu a chymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith cymuned yr ysgol.

Nododd Estyn feysydd i'w datblygu ymhellach mewn perthynas â darpariaeth rhifedd ar gyfer disgyblion hŷn, effaith adborth ar waith disgyblion a'r angen i gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella. Disgwylir i'r cynnig gryfhau capasiti arweinyddiaeth ar draws y ffederasiwn drwy leihau nifer y safleoedd ysgol o dri i ddau. Byddai hyn yn lleihau'r gofynion gweithredol sy'n gysylltiedig â rheoli a chynnal y ddarpariaeth ar draws sawl safle ac yn galluogi arweinwyr i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar weithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau dysgwyr. Yn benodol, byddai mwy o gapasiti arweinyddiaeth yn helpu i ddatblygu prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella ymhellach, yn cryfhau'r gwaith o fonitro addysgu a dysgu, yn cefnogi dysgu proffesiynol i staff ac yn galluogi arweinwyr i ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd gan Estyn a hyrwyddo gwelliannau parhaus mewn safonau ar draws y ffederasiwn.

Byddai'r cynnig hefyd yn dileu'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r materion strwythurol sylweddol sy'n effeithio ar Ysgol Carwe ac yn sicrhau bod y dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn amgylchedd dysgu diogel, addas a chynaliadwy. Byddai hyn yn golygu bod modd i gapasiti arweinyddiaeth ac adnoddau barhau i ganolbwyntio ar wella deilliannau i ddysgwyr yn hytrach na rheoli heriau yn ymwneud â'r adeilad.

Er y gallai unrhyw gynnig i gau ysgol greu ansicrwydd i ddysgwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach, ystyrir bod y risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo'r disgyblion yn llai yn yr achos hwn oherwydd bod y disgyblion eisoes wedi trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn ac mae'r ddwy ysgol yn gweithredu o fewn yr un strwythur ffederal. Byddai trefniadau priodol yn parhau i fod ar waith i gefnogi llesiant, cynnydd a chynhwysiant dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynnig gael effaith niwtral i gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg. Disgwylir y bydd y safonau addysgol yn cael eu cynnal drwy barhau â'r trefniadau ffedereiddio presennol, ac mae'r dysgwyr yn debygol o elwa ar gael mynediad at grwpiau cyfoedion mwy, profiadau dysgu ehangach a chyfleoedd gwell i gymryd rhan. Disgwylir i'r cynnig hefyd gryfhau capasiti arweinyddiaeth drwy alluogi arweinwyr i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar

hunanwerthuso, gwella'r ysgol a chodi safonau ar draws strwythur ffederasiwn mwy cynaliadwy.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Yr effaith fwyaf fyddai colli Ysgol Carwe fel ased cymunedol ac addysgol lleol. Efallai y bydd llawer o drigolion yn ystyried yr ysgol yn rhan bwysig o hunaniaeth a threftadaeth y gymuned, yn enwedig lle mae cenedlaethau o deuluoedd lleol wedi mynychu'r ysgol. Felly gallai cau'r ysgol arwain at deimladau o golled a phryder ynghylch dyfodol y gymuned leol.

Fodd bynnag, byddai'r cynnig yn sicrhau bod addysg yn parhau yn y ffederasiwn a byddai'n lleihau'r angen am oddeutu £1.2 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i fynd i'r afael â'r diffygion strwythurol difrifol yn Ysgol Carwe. Gallai'r cynnig hefyd ddarparu cyfleoedd i ystyried defnyddiau amgen ar gyfer y safle yn y dyfodol a allai barhau i fod o fudd i'r gymuned leol. Byddai ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid lleol yn hanfodol i helpu i liniaru effaith cau'r ysgol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Byddai'r cynnig yn arwain at newidiadau i drefniadau teithio disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe ar hyn o bryd. Byddai angen i rai disgyblion deithio'n bellach i fynychu Ysgol Gwynfryn, gan arwain at amseroedd teithio hirach. Byddai dysgwyr cymwys yn cael eu cefnogi yn unol â Pholisi'r Cyngor ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Er y gallai mwy o deithio gael effaith ar rai teuluoedd, byddai trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn yn sicrhau mynediad parhaus at addysg cyfrwng Cymraeg yn y ffederasiwn. Hefyd byddai angen ystyried effaith trefniadau teithio ar gyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol ac ar arferion teuluol.

Y rheswm dros ffafrio'r opsiwn hwn

- Mae'n mynd i'r afael â'r pryderon sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch a oedd wedi atal Ysgol Carwe rhag ailagor ym mis Medi 2025 ac yn darparu ateb tymor hir i faterion sy'n effeithio ar safle'r ysgol.
- Mae'n lleihau tua £1.2 miliwn o wariant cyfalaf a fyddai ei angen i wneud yr adeilad yn ddiogel ac yn weithredol, gan ddefnyddio adnoddau cyhoeddus mewn modd mwy cynaliadwy.
- Mae'n darparu model ariannol gynaliadwy o ddarpariaeth addysgol sy'n sicrhau bod adnoddau yn cydweddu'n well â niferoedd disgyblion a'r galw yn y dyfodol.
- Mae'n ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus, gan fod disgyblion o Ysgol Carwe wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025, gan leihau'r risgiau addysgol sy'n gysylltiedig fel arfer â chynigion i gau ysgol a throsglwyddo'r disgyblion.
- Mae'n sicrhau bod trefniadau arweinyddiaeth, llywodraethu, cyflwyno'r cwricwlwm, gofal, cymorth ac arweiniad, a gwella ysgol yn parhau drwy'r strwythur ffederasiwn presennol.
- Mae'n adeiladu ar y cryfderau a nodwyd gan Estyn, gan gynnwys cydweithio effeithiol ar draws y ffederasiwn, dysgu proffesiynol a rennir a phrofiadau addysgol cyson i ddysgwyr.

- Mae'n cryfhau capasiti arweinyddiaeth drwy leihau nifer y safleoedd ysgol yn y ffederasiwn o dri i ddau, gan alluogi arweinwyr i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar hunanwerthuso, cynllunio gwella, addysgu a dysgu, datblygu'r cwricwlwm a chodi safonau.
- Mae'n cefnogi gallu'r ffederasiwn i fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n deillio o arolygiad Estyn, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â hunanwerthuso, cynllunio gwella a gwelliant parhaus.
- Mae'n rhoi mynediad i ddisgyblion at grwpiau cyfoedion mwy, gan gefnogi dysgu ar y cyd, datblygiad cymdeithasol, llais disgyblion a chyfleoedd arweinyddiaeth.
- Mae'n gwella mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cwricwlaidd, diwylliannol, chwaraeon ac allgyrsiol a allai fod yn anoddach i'w cynnal mewn ysgol fach iawn.
- Mae'n galluogi defnyddio arbenigedd arweinyddiaeth, addysgu a chymorth yn fwy effeithiol ar draws y ffederasiwn, gan gefnogi darpariaeth addysgol o ansawdd uchel a gwell gwydnwch trefniadaethol.
- Mae'n cefnogi cynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn y tymor hir ac yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer gwella a thwf yn y dyfodol.
- Mae'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd dysgu diogel, addas a chynaliadwy gan alluogi adnoddau a chapasiti arweinyddiaeth i barhau i ganolbwyntio ar wella deilliannau i ddysgwyr.

Dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol, megis sefydlu ysgolion â mwy nag un safle

Mae'r ystod o opsiynau a ystyriwyd ynglŷn â dyfodol Ysgol Carwe wedi'u hystyried ac fe'u hamlinellir yn y ddogfen gynnig. Mae pob opsiwn wedi'i asesu, gyda chrynodeb o'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) a rhesymau dros ffafrio neu beidio yr opsiynau sydd wedi'u cynnwys.

Mae'r tabl canlynol yn dangos bod lleoedd gwag ar gael yn yr ysgolion cynradd o amgylch Ysgol Carwe sy'n dangos na fyddai cadw adeilad Ysgol Carwe fel ysgol â mwy nag un safle yn gost-effeithiol. Ni fyddai trefniant ysgol â mwy nag un safle yn cael ei ystyried yn briodol yn yr ardal hon gan na fyddai nifer y disgyblion yn cyfiawnhau'r cymhlethdod a'r gost ychwanegol, felly byddai'r dull hwn yn aneffeithlon ac ni fyddai'n darparu buddion addysgol neu ariannol. Ni fyddai creu ysgol â mwy nag un safle yn datrys y problemau sylfaenol y mae Ysgol Carwe yn eu hwynebu, yn enwedig mewn perthynas â'r pryderon iechyd a diogelwch ynghylch materion strwythurol difrifol adeilad yr ysgol a orfododd yr ysgol i beidio ag ailagor ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2025. Gan fod angen tua £1.2m o fuddsoddiad cyfalaf i sicrhau bod adeilad yr ysgol yn cyrraedd y safon dderbyniol, mae wedi cael ei gwestiynu, o gofio'r hinsawdd bresennol, a yw hyn yn rhoi gwerth am arian o ran cynaliadwyedd adeilad yr ysgol yn y tymor hir.

Ysgol	Ysgol Carwe	Ysgol Gymunedol Trimsaran	Ysgol Pum Heol	Ysgol Pontiets	Ysgol Mynyddygarreg	Cyfanswm
Capasiti 2025/2026	118	242	120	78	61	619
Nifer ar y gofrestr CYBLD 2026	58	172	63	21	27	341
Nifer y lleoedd gwag	60	70	57	57	34	221
% y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r 1% agosaf)	50.8%	28.9%	47.5%	73.1%	55.7%	35.7%

Dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill

Mae'r amrywiaeth o opsiynau ynglŷn â dyfodol Ysgol Carwe wedi'u hystyried yn ofalus. Mae'r opsiwn hwn wedi'i asesu, gyda chrynodeb o'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) a rhesymau dros beidio â ffafrio'r opsiwn hwn wedi'u cynnwys.

Ystyriwyd a ellid cyflawni amcanion yr adolygiad drwy drefniadau amgen, gan gynnwys clystyru, cydweithio neu ffedereiddio ag ysgolion lleol eraill.

Mae Ysgol Carwe eisoes yn rhan o ffederasiwn llwyddiannus ag Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Ponthenri, sydd wedi galluogi'r ysgolion i weithio'n agos gyda'i gilydd, rhannu arweinyddiaeth, arbenigedd ac adnoddau, a darparu cyfleoedd addysgol ehangach i'r dysgwyr.

Dangoswyd effeithiolrwydd y trefniadau hyn pan nad oedd yr ysgol yn gallu ailagor ym mis Medi 2025 oherwydd y materion strwythurol difrifol a nodwyd yn Ysgol Carwe. Drwy'r trefniadau ffedereiddio sefydledig, cafwyd proses bontio ddi-dor a symudodd y dysgwyr i Ysgol Gwynfryn heb fawr o darfu ar eu haddysg a'u llesiant.

Er y gallai clystyru, cydweithio neu ffedereiddio ddarparu manteision addysgol a threfniadaethol, ni fyddai'r dulliau gweithredu hyn yn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a nodwyd drwy'r adolygiad. Yn benodol, ni fyddent yn datrys y problemau difrifol sy'n gysylltiedig â chyflwr adeilad Ysgol Carwe nac yn dileu'r angen am oddeutu £1.2m o fuddsoddiad cyfalaf i wneud yr atgyweiriadau a'r gwelliannau angenrheidiol.

Hefyd, gan fod yr ysgol eisoes yn gweithredu'n llwyddiannus mewn ffederasiwn, mae'r manteision sy'n gysylltiedig â chydweithio'n agosach eisoes yn cael eu gwireddu i raddau helaeth. O ganlyniad, er bod modelau cydweithio eraill wedi cael eu hystyried, ni fyddent yn darparu ateb tymor hir i'r heriau yn ymwneud â chyflwr ystad yr ysgol, cynaliadwyedd ariannol a defnydd effeithlon o adnoddau a daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiynau amgen hyn yn bodloni amcanion yr adolygiad yn llawn ac ni chawsant eu datblygu ymhellach.

Dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol megis y posibiliad o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol

Mae'r Awdurdod Lleol yn annog y defnydd o adeiladau ysgol fel adnoddau cymunedol neu addysgol, lle bo hynny'n briodol, i gynorthwyo i gynhyrchu incwm. Ystyrir a ellid cadw adeilad presennol yr ysgol a'i ddefnyddio'n llawnach fel adnodd cymunedol neu addysgol.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei defnyddio gan y Cylch Meithrin yn llawn amser, mae'n darparu clwb brecwast bob dydd ac mae'r Mudiad Meithrin yn cynnal y clwb ar ôl ysgol. Fodd bynnag, ni fu llawer o ddefnydd cymunedol ehangach o'r adeilad y tu hwnt i'r gweithgareddau addysgol a gofal plant hyn.

Yn dilyn nodi problemau strwythurol difrifol a'r penderfyniad dilynol na allai'r ysgol ailagor ym mis Medi 2025, roedd yn rhaid i'r ysgol a'r Cylch Meithrin symud. Symudwyd y dysgwyr i Ysgol Gwynfryn a throsglwyddodd y Cylch Meithrin ei ddarpariaeth i Neuadd Carwe.

Er yr ystyriwyd cadw'r adeilad at ddibenion cymunedol neu addysgol, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r diffygion strwythurol sy'n effeithio ar y safle a byddai angen buddsoddiad cyfalaf o tua £1.2m o hyd i wneud yr atgyweiriadau a'r gwelliannau angenrheidiol.

O ystyried y lefel gymharol isel o ddefnydd ehangach gan y gymuned, y cyfleusterau lleol amgen sydd ar gael, a'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ac atgyweirio'r adeilad, daethpwyd i'r casgliad na fyddai gwneud defnydd llawnach o'r safle presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol yn darparu ateb cynaliadwy neu gost-effeithiol ac na fyddai'n bodloni amcanion yr adolygiad.

Casgliad yr Arfarniad Opsiynau Amgen

Ar sail yr arfarniad o'r holl opsiynau amgen a ystyriwyd, mae'r Awdurdod Lleol wedi dod i'r casgliad mai'r opsiwn a ffefrir yw cau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion presennol yn ffurfiol i Ysgol Gwynfryn, a throsglwyddo dalgylch presennol Ysgol Carwe i ddalgylch Ysgol Gymunedol Trimsaran ar gyfer derbyn i ysgolion yn y dyfodol. Byddai unrhyw drefniadau ysgol amgen yn parhau i gyd-fynd â dewis rhieni a Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Nododd yr arfarniad, er bod sawl opsiwn amgen yn cynnig rhai manteision, nad oedd yr un ohonynt yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch sy'n effeithio ar adeilad Ysgol Carwe, yr angen am swm sylweddol o tua £1.2 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf, a'r heriau cynaliadwyedd tymor hir sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth addysgol ar y safle. Ers mis Medi 2025, mae'r disgyblion wedi cael eu haddysgu'n llwyddiannus yn Ysgol Gwynfryn o dan y trefniadau ffedereiddio presennol, gan roi tystiolaeth y gellir cynnal parhad o ran addysg, cymorth llesiant, arweinyddiaeth, cyflwyno'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn effeithiol. Mae'r opsiwn a ffefrir yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus, yn lleihau gwariant cyfalaf, yn gwella'r defnydd effeithlon o adnoddau addysgol ac yn cryfhau cynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn y tymor hir. Mae hefyd yn galluogi'r disgyblion presennol i aros gyda'i gilydd yn eu cymuned ysgol sefydledig yn Ysgol Gwynfryn, gan roi eglurder ar gyfer derbyn i ysgolion yn y dyfodol drwy ailddynodi'r dalgylch fel ei fod

yn rhan o ddalgylch Ysgol Gymunedol Trimsaran. Byddai unrhyw drefniadau ysgol amgen yn parhau i gyd-fynd â dewis rhieni a Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Ar ôl ystyried yr holl opsiynau amgen a chanlyniadau'r dadansoddiadau SWOT, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod yr opsiwn hwn yn darparu'r ateb mwyaf effeithiol, cynaliadwy ac addysgol fuddiol i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

4. Y Cynnig – Cau Ysgol Carwe

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Carwe ar 31 Rhagfyr 2027, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn o 1 Ionawr 2028.

Nid yw'r dyddiad gweithredu arfaethedig yn benderfyniad terfynol ac mae yn fater i'w ymgynghori arno. Wrth i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ystyried y cynnig, gofynnodd aelodau am ystyriaeth a fyddai, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, yn cael ei weithredu ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2027/28 gan y gallai hyn fod yn fwy priodol.

Felly, mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu barn ynghylch a ddylai'r gweithrediad ddigwydd ar 31 Rhagfyr 2027, ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2027/28, neu ar ddyddiad priodol arall. Wrth ddod i unrhyw benderfyniad terfynol, bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys buddiannau dysgwyr, parhad addysgol a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol, yn cael eu hystyried.

Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud naill ai ar y cynnig i roi'r gorau i'r ysgol nac, os yw'r cynnig yn mynd rhagddo, ar y dyddiad gweithredu priodol.

Mae Ysgol Gwynfryn yn Ysgol Gynradd Gymunedol categori 3 (cyfrwng Cymraeg) 4-11 yn Heol y Meinciau, Pontiets, Llanelli, SA15 5SN, tua 2.8 milltir o Ysgol Carwe. Felly, byddai disgyblion yn trosglwyddo i ysgol o'r un cyfrwng iaith (Cyfrwng Cymraeg) a chategori (Cynradd Gymunedol).

Mae disgyblion Ysgol Carwe eisoes yn gyfarwydd iawn ag Ysgol Gwynfryn, ar ôl bod yn rhan o ffederasiwn gyda'r ysgol ers blynyddoedd lawer. Hefyd, ers cau adeilad Ysgol Carwe dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r disgyblion wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn o ddydd i ddydd, gan olygu eu bod hyd yn oed yn fwy cyfarwydd â'r ysgol, ei staff a'r gymuned ysgol ehangach.

Byddai dalgylch presennol Ysgol Carwe yn trosglwyddo i ddalgylch Ysgol Gymunedol Trimsaran ac yn uno â'r dalgylch hwnnw. Bydd disgyblion na fyddent wedi cofrestru i fynychu Ysgol Carwe erbyn 31 Rhagfyr 2027 yn mynychu Ysgol Gymunedol Trimsaran. Byddai unrhyw drefniadau ysgol amgen yn parhau i gyd-fynd â dewis rhieni a Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

Efallai y bydd rhai rhieni disgyblion Ysgol Carwe yn dymuno dewis ysgol arall yn lle Ysgol Gwynfryn. Mae'n bwysig pwysleisio bod rhieni'n cadw'r hawl i fynegi eu dewis ar gyfer unrhyw ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos fel Ysgol Gymunedol Trimsaran, Ysgol Ponthenri, Ysgol Pontiets, Ysgol Pum Heol ac Ysgol Mynyddygarreg. Nid yw mynegi dewis ar gyfer ysgol yn rhoi sicrwydd y caiff plentyn le yn yr ysgol

honno. Bwriad cynnwys ysgol a ffefrir yn y ddogfen hon yw cefnogi cynllunio mewn perthynas â chapasiti, cludiant a pharhad addysg, ond nid yw'n cyfyngu ar ddewis rhieni. Bydd penderfyniadau terfynol ar leoliadau ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisi derbyn yr awdurdod lleol a dewis rhieni, yn amodol ar y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol a ddewiswyd. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ac yn parchu hawl rhieni i ddewis ysgol amgen.

4.1 Y Rhesymau dros y Cynnig

Mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn. Dyma'r rhesymau dros y cynnig:

Manteision Addysgol i'r Disgyblion

- Byddai'r disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn yn elwa ar fod yn rhan o gymuned ysgol fwy gyda mwy o gyfleoedd i ryngweithio â phlant o oedran tebyg. Mae grwpiau blwyddyn mwy yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud ffrindiau a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol a pherthnasoedd gwaith cydweithredol mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae a gweithgareddau allgyrsiol. Gall cael eich addysgu ochr yn ochr â charfan fwy o gyfoedion gefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm, hyder a gwydnwch. Mae disgyblion hefyd yn fwy tebygol o gael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau llais disgyblion, prosiectau grŵp a rolau arweinyddiaeth, gan eu helpu i ddatblygu sgiliau rhyngbersonol a dinasyddiaeth pwysig sy'n cefnogi eu datblygiad y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Bydd y disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn yn cael cyfleoedd addysgol a dysgu ehangach gan fod yr amgylchedd ysgol mwy yn Ysgol Gwynfryn yn darparu cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu a gweithgareddau ar y cyd. Gall niferoedd disgyblion uwch hwyluso amrywiaeth ehangach o waith grŵp, prosiectau addysgol a gweithgareddau trawsgwricwlaidd sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae'r trefniadau hyn yn cyd-fynd yn agos â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru drwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n effeithiol gydag eraill, datrys problemau ar y cyd, rhannu syniadau a dysgu o safbwyntiau gwahanol. Gall amgylchedd dysgu mwy hefyd gynnig mwy o hyblygrwydd wrth drefnu profiadau dysgu a galluogi disgyblion i gael mynediad at amrywiaeth ehangach o ddulliau addysgu a phrofiadau dysgu.
- Gallai trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carwe i Ysgol Gwynfryn gynyddu eu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, chwaraeon a diwylliannol gan fod poblogaeth ysgol fwy yn gallu cefnogi rhaglen ehangach o weithgareddau allgyrsiol, ymweliadau addysgol, cystadlaethau chwaraeon, digwyddiadau diwylliannol a gweithgareddau Cymraeg. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig o ran cefnogi datblygiad personol, llesiant a hyder plant a'u cyfranogiad ym mywyd yr ysgol. Gallai disgyblion gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon tîm, cerddoriaeth, drama, gweithgareddau'r Urdd, cynghorau ysgol, ymweliadau addysgol a rhaglenni cyfoethogi ehangach. Mae cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau arwain, hunan-barch, gwaith tîm a hyder cymdeithasol wrth gefnogi disgyblion i ddatblygu diddordebau a thalentau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Gall y niferoedd disgyblion uwch hefyd ei gwneud hi'n haws trefnu timau chwaraeon a grwpiau diwylliannol, gan

gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gynrychioli eu hysgol a chymryd rhan mewn profiadau nad ydynt bob amser yn bosibl mewn lleoliad ysgol llai.

- Bydd disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn yn elwa ar fod yn rhan o ffederasiwn sefydledig lle mae trefniadau arweinyddiaeth brofiadol eisoes ar waith. Byddai'r cynnig yn galluogi arweinwyr i sicrhau bod eu hamser a'u hadnoddau yn canolbwyntio ar welliant addysgol a deilliannau disgyblion yn hytrach na rheoli'r heriau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw adeilad ysgol sy'n ddiffygiol yn strwythurol a gweithredu ar draws sawl safle. Byddai'r disgyblion yn parhau i elwa ar arbenigedd tîm staff mwy sy'n cydweithio i rannu arferion gorau a chefnogi addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Mae staff yn gallu manteisio ar amrywiaeth ehangach o brofiadau, gwybodaeth ac arbenigedd, sy'n gallu gwella'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm a chefnogi cynnydd academaidd a llesiant disgyblion. Byddai llai o ofynion rheoli adeiladau a safleoedd hefyd yn cynyddu capasiti arweinyddiaeth i ganolbwyntio ar flaenoriaethau gwella ysgol, dysgu proffesiynol, hunanwerthuso ac ymateb i argymhellion a nodwyd drwy brosesau arolygu. Disgwylir i hyn gael effaith gadarnhaol ar safonau addysgol yn y tymor hwy.
- Byddai trosglwyddo disgyblion i Ysgol Gwynfryn yn sicrhau eu bod yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwynfryn, gan gynnal parhad o ran y ddarpariaeth iaith a chefnogi nodau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Yn bwysig ddigon, mae'r disgyblion eisoes wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn yn llwyddiannus ers mis Medi 2025 yn dilyn cau adeilad Ysgol Carwe oherwydd materion strwythurol sylweddol. O ganlyniad, mae disgyblion eisoes wedi sefydlu perthynas gadarnhaol â staff a chyfoedion, wedi addasu i arferion yr ysgol ac wedi parhau â'u haddysg yn ddi-dor. Byddai'r cynnig yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus, gan ddarparu sicrwydd i ddisgyblion, rhieni a staff. Byddai hefyd yn sicrhau bod dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn adeilad sy'n ddiogel, yn addas ac yn gynaliadwy, gan ganiatáu i adnoddau a chapasiti arweinyddiaeth barhau i ganolbwyntio ar addysgu, dysgu a llesiant disgyblion yn hytrach na gofynion o ran cynnal a chadw ac ailddatblygu'r adeilad.

Manteision Strategol a Gweithredol

- Byddai'r cynnig yn darparu ateb tymor hir cynaliadwy ar ôl nodi diffygion strwythurol sylweddol ym Mloc 3 yn adeilad Ysgol Carwe. Nid oedd yr ysgol yn gallu ailagor ym mis Medi 2025 oherwydd pryderon iechyd a diogelwch, a daeth ymchwiliadau dilynol i'r casgliad y byddai angen dymchwel yr adeilad yr effeithir arno ac adeiladu un newydd. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i ailddatblygu'r safle ac wedi penderfynu, o ystyried gweithrediad llwyddiannus y ddarpariaeth addysgol yn Ysgol Gwynfryn, na fyddai ailadeiladu'r llety yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau cyhoeddus. Byddai'r cynnig felly yn darparu sicrwydd ynghylch dyfodol darpariaeth addysgol ac yn dileu'r angen i fuddsoddi cyllid cyfalaf sylweddol mewn safle y mae heriau strwythurol sylweddol yn effeithio arno.
- Byddai'r cynnig yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus o fewn y ffederasiwn presennol. Ers mis Medi 2025, mae disgyblion Ysgol Carwe wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn ac wedi parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn ddi-dor. Byddai tynnu un safle ysgol

o'r ffederasiwn yn creu strwythur trefniadaethol symlach a mwy cynaliadwy. Gallai trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu ganolbwyntio ar gefnogi addysgu, dysgu a gwella ysgol ar draws llai o safleoedd, gan helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. Byddai hyn yn darparu mwy o sefydlogrwydd trefniadaethol ac yn cefnogi cynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn y tymor hir.

- Mae'n anochel bod rheoli addysg ar draws sawl safle ysgol yn creu gofynion gweithredol ychwanegol ar gyfer arweinwyr, llywodraethwyr a staff. Byddai'r cynnig yn lleihau'r gofynion hyn drwy ddileu'r angen i reoli safle sydd â phroblemau strwythurol sylweddol a lle mae angen gwaith ailddatblygu sylweddol. Byddai lleihau nifer y safleoedd gweithredol yn caniatáu i arweinwyr neilltuo mwy o amser i weithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgwyr, gan gynnwys datblygu'r cwricwlwm, addysgu a dysgu, datblygu staff, hunanwerthuso a chynllunio gwella'r ysgol. Byddai'r cynnig hefyd yn cefnogi gallu'r ffederasiwn i ymateb i argymhellion sy'n deillio o weithgarwch arolygu yn y dyfodol ac yn parhau i ysgogi gwelliannau mewn safonau addysgol ar draws gweddill y safleoedd ysgol.
- Byddai'r cynnig yn gwella effeithlonrwydd gweithredol drwy atgyfnerthu'r ddarpariaeth addysgol ar safleoedd ysgol presennol yn y ffederasiwn. Byddai hyn yn lleihau dyblygu mewn amrywiaeth o weithgareddau gweithredol ac yn golygu bod modd defnyddio staff, adnoddau ac adeiladau yn fwy effeithiol. Gellid rheoli prosesau gweinyddol, cyfrifoldebau rheoli safle, gofynion cynnal a chadw a threfniadau gweithredol o ddydd i ddydd yn fwy effeithlon ar draws llai o safleoedd ysgol. Byddai hyn yn lleihau cymhlethdod ac yn cefnogi dull mwy symlach o ddarparu gwasanaethau addysg. Byddai'r cynnig hefyd yn darparu mwy o wydnwch drwy sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd ysgol sefydledig a chynaliadwy sydd eisoes yn llwyddo i ddarparu ar gyfer cyn-ddysgwyr Ysgol Carwe.
- Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod ei ystad ysgolion yn parhau i fod yn ddiogel, yn gynaliadwy ac yn addas i'r diben. Mae'r cynnig yn cefnogi'r amcan hwn drwy fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig ag adeilad sydd â diffygion strwythurol sylweddol ac sydd angen gwaith ailddatblygu sylweddol. Yn hytrach na buddsoddi cyllid cyfalaf sylweddol mewn adeilad newydd, byddai'r cynnig yn galluogi'r Awdurdod i ystyried defnyddiau amgen yn y dyfodol ar gyfer safle Ysgol Carwe yn unol â'i bolisïau yn ymwneud ag adeiladau addysgol diangen. Mae'r dull gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o reoli asedau cyhoeddus yn effeithiol ac yn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol tymor hir.
- Byddai cau Ysgol Carwe yn cael gwared ar nifer o leoedd gwag yn yr ardal, gan helpu'r Awdurdod Lleol i leihau capasiti dros ben ac i gysoni'r ddarpariaeth â'r galw, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Manteision Ariannol

- Byddai cau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn yn dileu'r angen am tua £1.2m o fuddsoddiad cyfalaf i fynd i'r afael â'r diffygion strwythurol sylweddol a sicrhau bod yr adeilad yn cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch. Byddai lleihau y gwariant hwn yn caniatáu i'r awdurdod lleol neilltuo cyllid cyfalaf cyfyngedig i flaenoriaethau addysg eraill ledled y sir, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle gallant gyflawni'r budd mwyaf i ddysgwyr.

- Gallai buddsoddi £1.2m mewn ysgol sydd â nifer gymharol fach o ddisgyblion olygu gwneud defnydd llai effeithlon o arian cyhoeddus na defnyddio'r capasiti presennol yn Ysgol Gwynfryn.
- Byddai cadw Ysgol Carwe nid yn unig yn golygu bod angen buddsoddiad cyfalaf ymlaen llaw ond byddai hefyd yn arwain at gostau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu a chynnal a chadw adeilad sy'n heneiddio. Byddai cau'r ysgol yn dileu gwariant yn y dyfodol sy'n ymwneud â chyfleustodau, gwaith cynnal a chadw arferol, archwiliadau cydymffurfio statudol, atgyweirio adeiladau, glanhau a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r safle. Byddai hyn yn creu arbedion refeniw parhaus y gellid eu hailfuddsoddi mewn darpariaeth addysgol uniongyrchol.
- Byddai trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn yn golygu bod modd cyfuno adnoddau, staff a chyllidebau gweithredol mewn un ysgol, gan greu mwy o effeithlonrwydd ariannol a lleihau dyblygu costau ar draws sawl safle. Byddai hyn yn cryfhau cynaliadwyedd ariannol y ddarpariaeth addysgol o fewn y ffederasiwn yn y tymor hir, gan helpu i sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn canolbwyntio ar wella deilliannau disgyblion yn hytrach na chefnogi adeiladau dros ben neu fynd i'r afael â rhwymedigaethau rheolaidd sy'n gysylltiedig ag adeiladau.

4.2 Manteision ac Anfanteision y cynnig

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, dyma fanteision ac anfanteision posibl y cynnig o'i gymharu â'r status quo:

Manteision	Anfanteision
Byddai cau'r ysgol yn dileu'r angen i wario tua £1.2m ar atgyweiriadau strwythurol hanfodol sydd eu hangen i wneud Ysgol Carwe yn ddiogel ac yn weithredol.	Byddai cau'r ysgol yn arwain at golli sefydliad lleol pwysig a allai chwarae rhan mewn hunaniaeth a chydlyniant cymunedol.
Byddai gweithredu o un safle ysgol yn lleihau costau parhaus o ran yr adeilad a materion gweithredol, gan ganiatáu i adnoddau gael eu defnyddio'n fwy effeithlon.	Byddai rhai plant yn wynebu teithiau hirach i'r ysgol, a allai effeithio ar arferion dyddiol a chyfranogiad mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.
Byddai dod â disgyblion at ei gilydd ar un safle yn golygu bod modd defnyddio staff, adnoddau ac arbenigedd yn fwy effeithiol a lleihau dyblygu.	Efallai y bydd colli'r ysgol yn cael ei ystyried gan drigolion fel rhywbeth negyddol a gallai greu pryderon am gynaliadwyedd y gymuned leol yn y dyfodol.
Gallai'r disgyblion elwa ar grwpiau cyfoedion mwy, amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd arweinyddiaeth ysgol.	Costau cludiant i'r Awdurdod Lleol pe bai disgyblion sy'n gymwys i gael cludiant yn dewis trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn.
Gan fod y ddwy ysgol eisoes wedi'u ffedereiddio, byddai disgyblion yn wynebu proses bontio fwy hwylus gyda	Er bod y trefniant ffedereiddio wedi lleddfu hyn, efallai y bydd rhai disgyblion yn ei chael hi'n anodd addasu i amgylchedd ysgol newydd a grwpiau cyfoedion mwy.

dulliau addysgol, polisïau ac arweinyddiaeth gyson.	
Bydd disgyblion yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol sy'n derbyn.	Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a bod yr ysgol yn cau, gallai hyn gael effaith ar wasanaethau lleol. Byddai cau'r ysgol hefyd yn arwain at golli cysylltiadau â nifer o sefydliadau a grwpiau cymunedol.
	Byddai'n rhaid cynnal a chwblhau Proses Statudol ar gyfer y newidiadau arfaethedig. Gallai hyn greu ansicrwydd i staff a disgyblion ynghylch dyfodol yr ysgol wrth i'r broses Trefniadaeth Ysgolion fynd rhagddi dros gyfnod o amser.
	Bydd y pellterau teithio yn cynyddu ac yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd.

4.3 Rheoli Risg

Mae'r risgiau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn, a'r ffactorau rheoli, wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

Risg		**Rheoli Risg**
1.	Ansicrwydd i staff, disgyblion a theuluoedd ynghylch dyfodol yr ysgol yn ystod y broses ymgynghori a gwneud penderfyniadau.	Sicrhau cyfathrebu rheolaidd a thryloyw â staff, disgyblion, rhieni, a rhanddeiliaid ynghylch datblygiadau a phenderfyniadau allweddol drwy gydol y broses. Darparu cyfleoedd ar gyfer adborth ac ymgysylltu.
2.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i fwrw ymlaen â'r cynnig.	Cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion a'r gweithdrefnau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), gan gynnwys ymgynghoriad cynhwysfawr ac asesiadau effaith trylwyr.
3.	Tarfu ac effaith emosiynol newid amgylchedd ysgol, yn enwedig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sydd ar adegau pontio pwysig.	Ystyried yr angen am gynlluniau pontio ar gyfer yr holl ddisgyblion yr effeithir arnynt. Mae Ysgol Gwynfryn wedi'i nodi fel yr ysgol sy'n derbyn. Sicrhau cydweithrediad agos rhwng staff a theuluoedd er mwyn i'r broses drosglwyddo ddigwydd mewn modd cefnogol. Darparu cymorth bugeiliol neu arbenigol ychwanegol lle bo angen.
4.	Cyfyngiadau capasiti yn Ysgol Gwynfryn, a allai effeithio ar faint y dosbarthiadau, adnoddau, neu ansawdd yr addysg.	Asesu'r capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen yn Ysgol Gwynfryn yn gynnar. Cynllunio ar gyfer mân addasiadau neu adnoddau ychwanegol yn ôl yr angen i gefnogi'r broses o integreiddio'n effeithiol heb gyfaddawdu ar safonau.
5.	Mwy o bellteroedd teithio i rai disgyblion, a allai godi pryderon am amser, diogelwch a chost teithio.	Adolygu ac addasu trefniadau cludiant i gydymffurfio â pholisïau cludiant ysgol yr awdurdod lleol. Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cymwys a sicrhau bod mesurau diogelwch teithio ar waith.

6.	Ansicrwydd staff ynghylch cyflogaeth yn y dyfodol a'r risg o ddileu swyddi.	Cefnogi staff drwy gynnal ymgynghoriad ffurfiol yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol.
7.	Effaith negyddol bosibl ar gydlyniant cymunedol a hunaniaeth leol oherwydd y cynnig i gau'r ysgol.	Edrych ar gyfleoedd i gadw defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol lle bo hynny'n bosibl.
8.	Risg o wasgaru disgyblion gan arwain at golli rhwydweithiau cyfoedion a chefnogaeth gymdeithasol.	Y cynnig yw symud y disgyblion i Ysgol Gwynfryn er mwyn ceisio atal disgyblion rhag cael eu gwasgaru. Annog grwpiau cymorth gan gyfoedion a chynnal sianeli cyfathrebu rhwng y rheiny a arferai fod yn gyd-ddisgyblion lle bo hynny'n bosibl.
9.	Byddai angen buddsoddiad cyfalaf i ymgymryd â'r addasiadau angenrheidiol yn yr ysgol sy'n derbyn.	Byddai'r Awdurdod Lleol yn ystyried amrywiaeth o opsiynau cyllido i gefnogi unrhyw waith cyfalaf angenrheidiol. Byddai gwaith dichonoldeb pellach a chostau manwl yn cael ei wneud i egluro maint y gwelliannau angenrheidiol a chadarnhau a ellir sicrhau cyllid digonol.

4.4 Asesiad o'r cynnig i gau Ysgol Carwe

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r cynnig i gau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn.

Cau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae'n lleihau gwariant cyfalaf drwy ddileu'r angen am oddeutu £1.2m o fuddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i fynd i'r afael â'r diffygion strwythurol a'r pryderon iechyd a diogelwch yn Ysgol Carwe.	Byddai cau Ysgol Carwe yn arwain at golli ased cymunedol ac ysgol leol hirsefydlog.
Mae'n darparu ateb cynaliadwy ar ôl i Ysgol Carwe orfod cau ym mis Medi 2025 oherwydd pryderon ynghylch diogelwch yr adeilad.	Efallai y bydd tarfu ar rai disgyblion neu y byddant yn poeni wrth bontio i Ysgol Gwynfryn.
Mae'n galluogi'r ddarpariaeth addysgol i barhau yn y ffederasiwn presennol, gan sicrhau parhad arweinyddiaeth, polisïau a chyflwyno'r cwricwlwm.	Pellter ac amser teithio hirach ar gyfer rhai disgyblion.
Mae'n galluogi adnoddau i gael eu canolbwyntio ar addysgu a dysgu yn hytrach nag atgyweiriadau mawr i adeiladau a rhwymedigaethau cynnal a chadw parhaus.	Posibilrwydd y bydd angen addasiadau neu welliannau i'r adeilad yn Ysgol Gwynfryn i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol.

Mae'n rhoi mynediad i ddisgyblion at grŵp cyfoedion mwy ac amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol.	Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn canfod bod cau'r ysgol yn golygu colli hunaniaeth a threftadaeth leol.
Byddai'r arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol yn helpu i leddfu'r pwysau cyllidebol cyffredinol y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hwynebu. Byddai cyllid nifer y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol newydd gyda'r disgybl a thrwy hynny wella cyllideb yr ysgol honno.	Efallai y gellid effeithio ar weithgareddau cymunedol a oedd yn gysylltiedig ag Ysgol Carwe yn flaenorol.
Mae'n gwella effeithlonrwydd staffio, defnyddio adnoddau a rheoli'r ysgolion ar draws y ffederasiwn.	Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Ailgyfeirio arbedion yn sgil atgyweiriadau cyfalaf a gwaith cynnal a chadw parhaus tuag at wella'r ddarpariaeth addysgol a deilliannau disgyblion.	Gwrthwynebiad posibl gan rieni, trigolion a rhanddeiliaid cymunedol.
Cryfhau cynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn y tymor hir.	Pryderon cymunedol ynghylch colli ysgol bentref a'r effaith ar hyfywedd yr ardal yn y dyfodol.
Gwella cyfleoedd cwricwlaidd, chwaraeon, diwylliannol ac allgyrsiol drwy niferoedd disgyblion uwch.	Heriau yn ymwneud â chludiant neu gostau uwch sy'n gysylltiedig â threfniadau teithio disgyblion.
Gwella cydweithio rhwng disgyblion, staff a theuluoedd o fewn un gymuned ysgol.	Gallai cynnydd yn nifer y disgyblion roi pwysau ar yr adeilad ac adnoddau os bydd twf yn y dyfodol yn fwy na'r rhagolygon.
Edrych ar ddefnyddiau amgen ar gyfer safle Ysgol Carwe yn y dyfodol a allai barhau i fod o fudd i'r gymuned leol.	Cyhoeddusrwydd negyddol neu effaith ar yr enw da sy'n gysylltiedig â'r cynnig i gau'r ysgol.
Creu model addysg mwy gwydn a chynaliadwy o safbwynt ariannol ar gyfer y dyfodol.	Effaith emosiynol ar ddisgyblion, teuluoedd a chyn-ddisgyblion sydd â chysylltiadau cryf â'r ysgol.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Nid yw'r cynnig yn cael ei gyflwyno o ganlyniad i bryderon ynghylch safonau addysgol. Daeth arolygiad Estyn o Ysgol Carwe ym mis Tachwedd 2024 i'r casgliad nad oedd angen cymryd camau dilynol a nododd amrywiaeth o gryfderau mewn perthynas ag arweinyddiaeth, cydweithio ar draws y ffederasiwn, agweddau disgyblion at ddysgu ac ansawdd profiadau'r dysgwyr.

Byddai'r cynnig yn galluogi disgyblion o Ysgol Carwe i barhau â'u haddysg yn Ysgol Gwynfryn, sef ysgol sydd eisoes yn rhan o'r un ffederasiwn. Ers mis Medi 2025, mae disgyblion o Ysgol Carwe wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn yn

dilyn y penderfyniad i beidio ag ailagor yr ysgol oherwydd pryderon ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch. O ganlyniad, mae disgyblion eisoes wedi sefydlu perthynas gadarnhaol â staff a chyfoedion, wedi addasu i arferion yr ysgol ac wedi cael mynediad at y cwricwlwm yn Ysgol Gwynfryn. O ganlyniad, mae'r risgiau addysgol sy'n gysylltiedig fel arfer â chau ysgol a throsglwyddo'r disgyblion yn cael eu lleihau'n sylweddol.

Byddai'r cynnig yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus a byddai'n darparu parhad o ran arweinyddiaeth, trefniadau llywodraethu, cyflwyno'r cwricwlwm, gofal, cymorth ac arweiniad, a phrosesau gwella ysgol. Cydnabu Estyn y diwylliant cryf o gydweithio ar draws y ffederasiwn gan nodi bod staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddarparu profiadau cyson i ddysgwyr. Disgwylir i'r parhad hwn helpu i sicrhau bod disgyblion yn parhau i gael mynediad at brofiadau dysgu o ansawdd uchel a gwneud cynnydd priodol.

Byddai'r cynnig yn rhoi mynediad i ddysgwyr at grwpiau cyfoedion mwy a chymuned ysgol ehangach. Mae hyn yn debygol o gynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, trafodaeth, gwaith tîm, cymorth gan gyfoedion a rhyngweithio cymdeithasol. Gall carfanau mwy hefyd wella cyfleoedd ar gyfer llais disgyblion, cyfrifoldebau arwain, cyfranogiad mewn chwaraeon, gweithgareddau diwylliannol a phrofiadau allgyrsiol. Yn ogystal, byddai mynediad at dîm staff mwy yn cefnogi'r gwaith o rannu arbenigedd a chyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys.

Mae'r carfanau mwy o ddisgyblion yn Ysgol Gwynfryn hefyd yn debygol o ddarparu cyfleoedd gwell ar gyfer dysgu ar y cyd, llais disgyblion, datrys problemau mewn grwpiau a phrofiadau dysgu dilys. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru drwy alluogi dysgwyr i weithio'n effeithiol gydag eraill, datblygu sgiliau cyfathrebu a chymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith cymuned yr ysgol.

Nododd Estyn feysydd i'w datblygu ymhellach mewn perthynas â darpariaeth rhifedd ar gyfer disgyblion hŷn, effaith adborth ar waith disgyblion a'r angen i gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella. Disgwylir i'r cynnig gryfhau capasiti arweinyddiaeth ar draws y ffederasiwn drwy leihau nifer y safleoedd ysgol o dri i ddau. Byddai hyn yn lleihau'r gofynion gweithredol sy'n gysylltiedig â rheoli a chynnal y ddarpariaeth ar draws sawl safle ac yn galluogi arweinwyr i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar weithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau dysgwyr. Yn benodol, byddai mwy o gapasiti arweinyddiaeth yn helpu i ddatblygu prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella ymhellach, yn cryfhau'r gwaith o fonitro addysgu a dysgu, yn cefnogi dysgu proffesiynol i staff ac yn galluogi arweinwyr i ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd gan Estyn a hyrwyddo gwelliannau parhaus mewn safonau ar draws y ffederasiwn.

Byddai'r cynnig hefyd yn dileu'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r materion strwythurol sylweddol sy'n effeithio ar Ysgol Carwe ac yn sicrhau bod y dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn amgylchedd dysgu diogel, addas a chynaliadwy. Byddai hyn yn golygu bod modd i gapasiti arweinyddiaeth ac adnoddau barhau i ganolbwyntio ar wella deilliannau i ddysgwyr yn hytrach na rheoli heriau yn ymwneud â'r adeilad.

Er y gallai unrhyw gynnig i gau ysgol greu ansicrwydd i ddysgwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach, ystyrir bod y risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo'r disgyblion yn llawer llai yn yr achos hwn oherwydd bod y disgyblion eisoes wedi trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn ac mae'r ddwy ysgol yn gweithredu o fewn yr un strwythur ffederal. Byddai trefniadau priodol yn parhau i fod ar waith i gefnogi llesiant, cynnydd a chynhwysiant dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynnig gael effaith niwtral i gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg. Disgwylir y bydd y safonau addysgol yn cael eu cynnal drwy barhau â'r trefniadau ffedereiddio presennol, ac mae'r dysgwyr yn debygol o elwa ar gael mynediad at grwpiau cyfoedion mwy, profiadau dysgu ehangach a chyfleoedd gwell i gymryd rhan. Disgwylir i'r cynnig hefyd gryfhau capasiti arweinyddiaeth drwy alluogi arweinwyr i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar hunanwerthuso, gwella ysgolion a chodi safonau ar draws strwythur ffederasiwn mwy cynaliadwy.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Yr effaith fwyaf fyddai colli Ysgol Carwe fel ased cymunedol ac addysgol lleol. Efallai y bydd llawer o drigolion yn ystyried yr ysgol yn rhan bwysig o hunaniaeth a threftadaeth y gymuned, yn enwedig lle mae cenedlaethau o deuluoedd lleol wedi mynychu'r ysgol. Felly gallai cau'r ysgol arwain at deimladau o golled a phryder ynghylch dyfodol y gymuned leol.

Fodd bynnag, byddai'r cynnig yn sicrhau bod addysg yn parhau yn y ffederasiwn a byddai'n lleihau angen am oddeutu £1.2 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i fynd i'r afael â'r diffygion strwythurol difrifol yn Ysgol Carwe. Gallai'r cynnig hefyd ddarparu cyfleoedd i ystyried defnyddiau amgen ar gyfer y safle yn y dyfodol a allai barhau i fod o fudd i'r gymuned leol. Byddai ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid lleol yn hanfodol i helpu i liniaru effaith cau'r ysgol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Byddai'r cynnig yn arwain at newidiadau i drefniadau teithio disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe ar hyn o bryd. Byddai angen i rai disgyblion deithio'n bellach i fynychu Ysgol Gwynfryn, gan arwain at amseroedd teithio hirach. Byddai dysgwyr cymwys yn cael eu cefnogi yn unol â Pholisi'r Cyngor ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Er y gallai mwy o deithio gael effaith ar rai teuluoedd, byddai trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn yn sicrhau mynediad parhaus at addysg cyfrwng Cymraeg yn y ffederasiwn. Hefyd byddai angen ystyried effaith trefniadau teithio ar gyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol ac ar arferion teuluol.

Y rheswm dros ffafrio'r opsiwn hwn

- Mae'n mynd i'r afael â'r pryderon sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch a oedd wedi atal Ysgol Carwe rhag ailagor ym mis Medi 2025 ac yn darparu ateb tymor hir i faterion sy'n effeithio ar safle'r ysgol.

- Mae'n lleihau tua £1.2 miliwn o wariant cyfalaf a fyddai ei angen i wneud yr adeilad yn ddiogel ac yn weithredol, gan ddefnyddio adnoddau cyhoeddus mewn modd mwy cynaliadwy.
- Mae'n darparu model ariannol gynaliadwy o ddarpariaeth addysgol sy'n sicrhau bod adnoddau yn cydweddu'n well â niferoedd disgyblion a'r galw yn y dyfodol.
- Mae'n ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus, gan fod disgyblion o Ysgol Carwe wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025, gan leihau'r risgiau addysgol sy'n gysylltiedig fel arfer â chynigion i gau ysgol a throsglwyddo'r disgyblion.
- Mae'n sicrhau bod trefniadau arweinyddiaeth, llywodraethu, cyflwyno'r cwricwlwm, gofal, cymorth ac arweiniad, a gwella ysgolion yn parhau drwy'r strwythur ffederasiwn presennol.
- Mae'n adeiladu ar y cryfderau a nodwyd gan Estyn, gan gynnwys cydweithio effeithiol ar draws y ffederasiwn, dysgu proffesiynol a rennir a phrofiadau addysgol cyson i ddysgwyr.
- Mae'n cryfhau capasiti arweinyddiaeth drwy leihau nifer y safleoedd ysgol yn y ffederasiwn o dri i ddau, gan alluogi arweinwyr i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar hunanwerthuso, cynllunio gwella, addysgu a dysgu, datblygu'r cwricwlwm a chodi safonau.
- Mae'n cefnogi gallu'r ffederasiwn i fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n deillio o arolygiad Estyn, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â hunanwerthuso, cynllunio gwella a gwelliant parhaus.
- Mae'n rhoi mynediad i ddisgyblion at grwpiau cyfoedion mwy, gan gefnogi dysgu ar y cyd, datblygiad cymdeithasol, llais disgyblion a chyfleoedd arweinyddiaeth.
- Mae'n gwella mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cwricwlaidd, diwylliannol, chwaraeon ac allgyrsiol a allai fod yn anoddach i'w cynnal mewn ysgol fach iawn.
- Mae'n galluogi defnyddio arbenigedd arweinyddiaeth, addysgu a chymorth yn fwy effeithiol ar draws y ffederasiwn, gan gefnogi darpariaeth addysgol o ansawdd uchel a gwell gwydnwch trefniadaethol.
- Mae'n cefnogi cynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn y tymor hir ac yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer gwella a thwf yn y dyfodol.
- Mae'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd dysgu diogel, addas a chynaliadwy gan alluogi adnoddau a chapasiti arweinyddiaeth i barhau i ganolbwyntio ar wella deilliannau i ddysgwyr.

Mae'r tabl isod yn crynhoi sut y bydd yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carwe yn cael sylw pe bai'r opsiwn a ffefrir yn mynd rhagddo:

Yr Her Allweddol	**Sut fyddai'r opsiwn a ffefrir yn mynd i'r afael â'r her allweddol**
Diffygion strwythurol sylweddol a phryderon iechyd a diogelwch Nodwyd diffygion strwythurol sylweddol mewn rhan o adeilad yr ysgol, gan olygu	Byddai'r cynnig yn darparu ateb parhaol a chynaliadwy i'r problemau o ran yr adeilad sy'n effeithio ar Ysgol Carwe. Byddai ffurfioli trosglwyddo'r disgyblion i

nad oedd yr ysgol yn gallu ailagor ym mis Medi 2025 oherwydd pryderon iechyd a diogelwch.	Ysgol Gwynfryn yn sicrhau bod dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn amgylchedd diogel ac addas heb yr angen am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol i godi adeilad newydd yn Ysgol Carwe.
Gofynion Buddsoddiad Cyfalaf Uchel Byddai angen tua £1.2m i ddymchwel yr adeilad yr effeithir arno ac adeiladu un newydd, sy'n fuddsoddiad mewn ysgol sydd eisoes â heriau yn ymwneud â'r adeilad.	Byddai'r cynnig yn dileu'r angen am oddeutu £1.2 miliwn o wariant cyfalaf ac yn caniatáu i adnoddau cyfalaf cyfyngedig gael eu cyfeirio tuag at flaenoriaethau addysgol ehangach ar draws y sir. Byddai hefyd yn dileu rhwymedigaethau cynnal a chadw yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r adeilad yr effeithir arno.
Cyflwr ac Addasrwydd yr Adeilad Mae sgoriau Cyflwr ac Addasrwydd y ddwy ysgol yn Radd C, sy'n dangos bod angen gwelliannau mawr a bod agweddau ar yr adeilad yn cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth addysgol.	Byddai'r cynnig yn sicrhau bod disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn adeilad sy'n ddiogel, yn addas ac yn gynaliadwy. Er yr aseswyd bod gan Ysgol Gwynfryn Gyflwr Gradd C ac Addasrwydd Gradd B, bydd gwaith cynnal a chadw'r adeilad a wnaed yn yr ysgol yn ddiweddar yn darparu amgylchedd mwy cynaliadwy ar gyfer y ddarpariaeth addysgol yn y dyfodol.
Cynaliadwyedd y ddarpariaeth yn y tymor hir Mae'r cyfuniad o faterion strwythurol, gofynion buddsoddi a nifer uchel o leoedd gwag yn codi cwestiynau am gynaliadwyedd cynnal darpariaeth addysgol ar y safle yn y tymor hir.	Byddai'r cynnig yn creu model darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg mwy cynaliadwy drwy ffurfioli trefniadau sydd eisoes wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus ers mis Medi 2025 a sicrhau bod adnoddau yn parhau i ganolbwyntio ar ddysgwyr yn hytrach na gwaith adfer adeiladau ar raddfa fawr.
Nifer uchel o leoedd gwag Mae gan yr ysgol 60 o leoedd gwag, sef 51% o'i chapasiti, sy'n golygu bod tua hanner y lleoedd sydd ar gael heb eu llenwi.	Byddai'r cynnig yn tynnu lleoedd gwag o'r ystad ysgolion ac yn cyfrannu at amcan yr Awdurdod Lleol o wella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol yn unol â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.
Data Dalgylchoedd Mae nifer sylweddol o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Carwe yn mynychu ysgolion eraill, sy'n dangos patrwm tymor hir lle mae rhieni yn dewis darpariaeth amgen.	Byddai'r cynnig yn rhesymoli'r ddarpariaeth addysgol yn yr ardal ac yn ailddynodi'r dalgylch fel ei fod yn rhan o Ysgol Gymunedol Trimsaran, gan greu trefniadau derbyn cliriach yn y dyfodol wrth sicrhau bod y disgyblion presennol

	yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwynfryn.
Nifer isel o ddisgyblion Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Carwe 58 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae'n gweithredu fel ysgol gynradd gymharol fach â charfanau grwpiau blwyddyn bach.	Byddai'r cynnig yn galluogi disgyblion i gael mynediad at amgylchedd ysgol mwy yn Ysgol Gwynfryn, gan ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, rhyngweithio â chyfoedion, grwpiau cyfeillgarwch, gweithgareddau llais disgyblion a chyfranogiad allgyrsiol.
Heriau addysgu oedran cymysg Mae nifer fach y disgyblion yn golygu bod rhaid i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg a gall hynny gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â chyfoedion a dysgu ar y cyd.	Byddai disgyblion yn elwa ar grwpiau cyfoedion mwy o faint a mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, trafodaeth, gwaith tîm, arweinyddiaeth disgyblion a chyfranogiad allgyrsiol. Byddai carfanau mwy hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm Cymru.
Capasiti arweinyddiaeth Mae gweithredu ar draws sawl safle ysgol yn creu gofynion ychwanegol ar amser arweinyddiaeth ac mae'n gallu lleihau capasiti ar gyfer gwaith gwella'r ysgol.	Byddai'r cynnig yn lleihau nifer y safleoedd yn y ffederasiwn o dri i ddau, gan olygu bod modd i amser arweinyddiaeth ac arbenigedd ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar addysgu, dysgu, hunanwerthuso, gwella'r ysgol a chodi safonau.
Nifer y lleoedd gwag a ragwelir yn y dyfodol Mae'r rhagolygon yn dangos y bydd nifer y lleoedd gwag yn parhau i fod yn uchel yn ystod y blynyddoedd nesaf, er bod nifer y disgyblion yn parhau i fod yn gymharol sefydlog.	Byddai'r cynnig yn atal ysgol â llawer o leoedd gwag yn y tymor hir rhag parhau i weithredu a byddai'n caniatáu i'r ddarpariaeth gael ei chynnig yn fwy effeithlon o adeiladau presennol mewn mannau eraill yn y ffederasiwn.

4.5 Sut y gellid helpu rhieni a dysgwyr i ymgysylltu â'r ysgolion amgen ac unrhyw gyfleusterau a gynigir ganddynt

Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Carwe yn mynd rhagddo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod trefniadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda ar waith i gefnogi rhieni a disgyblion i fanteisio'n effeithiol ar yr ysgol amgen i sicrhau proses bontio hwylus.

O ganlyniad i'r materion strwythurol difrifol a nodwyd yn Ysgol Carwe yn ystod haf 2025, cafodd y disgyblion eu symud i Ysgol Gwynfryn o fis Medi 2025 o dan y trefniadau ffedereiddio presennol. Gwnaed hyn yn llwyddiannus, gan alluogi'r disgyblion i barhau â'u haddysg heb fawr o darfu.

Bydd yr Awdurdod Lleol a'r ysgol yn parhau i weithio'n agos gyda disgyblion, rhieni a staff i sicrhau bod dysgwyr yn teimlo wedi'u hintegreiddio'n llawn i gymuned yr ysgol

ac yn gallu cael mynediad at yr amrywiaeth llawn o gyfleoedd addysgol, bugeiliol ac allgyrsiol sydd ar gael.

Bydd anghenion unigol yn cael eu rheoli drwy gydweithio â'r pennaeth a'r Ymgynghorydd Cymorth Addysg yn yr ysgol sy'n derbyn gan sicrhau bod y trefniadau mwyaf priodol ar waith i sicrhau bod rhieni a disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgolion amgen.

O ystyried bod y disgyblion eisoes wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025, rhagwelir y bydd unrhyw broses bontio bellach sy'n deillio o'r cynnig hwn yn fach, ac y bydd perthnasoedd, arferion a threfniadau cymorth presennol yn helpu i sicrhau parhad a sefydlogrwydd i ddysgwyr a'u teuluoedd.

Os bydd rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol arall heblaw Ysgol Gwynfryn, bydd angen iddynt ddilyn y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion, sydd i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

5. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Sir ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:

5.1 A fydd gan ddarpariaeth yr ysgol arall ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cystal, man lleiaf, ar gyfer niferoedd disgyblion presennol yr ysgol a’r niferoedd a ragwelir?

Yr opsiwn a ffefrir, os caiff ei gymeradwyo, yw i'r disgyblion drosglwyddo i Ysgol Gwynfryn o 1 Ionawr 2028.

Cyfanswm capasiti Ysgol Gwynfryn ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yw 95 gyda nifer derbyn o 12.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal adolygiad o gapasiti Ysgol Gwynfryn ac wedi cynnwys gofod ystafell ddosbarth a ddynodwyd yn wreiddiol ar gyfer defnydd arall ac wedi'i adfer fel ystafell ddosbarth ychwanegol. Felly, gellir diwygio capasiti Ysgol Gwynfryn i 119. Rydym yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru am addasiad dros dro i'r ffigur hwn ac i ddiwygio niferoedd derbyn y ddwy ysgol i adlewyrchu eu bod yn cael eu haddysgu ar un safle.

Mae'r tabl canlynol yn dangos effaith y cynnig ar grwpiau blwyddyn yn yr ysgol sy'n derbyn pe bai pob disgybl sydd ar gofrestr Ysgol Carwe ar hyn o bryd yn trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn yn seiliedig ar ffigurau CYBLD 2026.

CYBLD 2026	Meithrin	Derbyn	Bl. 1	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 5	Bl. 6	Cyfanswm
Ysgol Carwe	4	7	8	8	11	3	10	7	**58**
Ysgol Gwynfryn	4	5	6	9	12	7	5	12	**60**
Cyfanswm	**8**	**12**	**14**	**17**	**23**	**10**	**15**	**19**	**118**

Mae'r tabl blaenorol yn dangos bydd gan Ysgol Gwynfryn ddigon o gapasiti ar gyfer niferoedd disgyblion presennol yr ysgol a'r niferoedd a ragwelir.

Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd cyfunol y disgyblion yn seiliedig ar amcanestyniadau pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu a bod yr holl ddisgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn.

	CYBLD 2026	Amcanestyniad 2027*	Amcanestyniad 2028*	Amcanestyniad 2029*	Amcanestyniad 2030*	Amcanestyniad 2031*
Ysgol Carwe	58	59	58	63	60	60
Ysgol Gwynfryn	60	57	61	62	58	58
Cyfanswm	**118**	**116**	**119**	**125**	**118**	**118**

*gan gynnwys disgyblion meithrin

Mae'r tabl yn awgrymu y byddai gan Ysgol Gwynfryn ddigon o gapasiti ar gyfer y niferoedd disgyblion cyfunol a ragwelir.

Mae'r tabl isod yn dangos y niferoedd disgyblion cyfunol yn Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn ym mis Ionawr 2027 a 2028 yn seiliedig ar amcanestyniadau CYBLD 2026 sy'n dangos lle gallai'r nifer derbyn fod yn uwch na 14 (8 i Ysgol Gwynfryn a 6 i Ysgol Carwe) mewn sawl grŵp blwyddyn, pe bai pob disgybl o Ysgol Carwe yn dewis trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn.

Amcanestyniadau CYBLD 2026		Meithrin	Derbyn	Bl1	Bl2	Bl3	Bl4	Bl5	Bl6	Cyfanswm
Ysgol Carwe	**2027**	4	7	8	8	8	11	3	10	**59**
Ysgol Gwynfryn	**2027**	4	5	9	6	9	12	7	5	**57**
Cyfanswm		**8**	**12**	**17**	**14**	**17**	**23**	**10**	**15**	**116**
Ysgol Carwe	**2028**	4	7	9	8	8	8	11	3	**58**
Ysgol Gwynfryn	**2028**	4	5	9	9	6	9	12	7	**61**
Cyfanswm		**8**	**12**	**18**	**17**	**14**	**17**	**23**	**10**	**119**

Os cymeradwyir y cynnig i gau'r ysgol, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn a'r Corff Llywodraethu i gefnogi cyfnod pontio hwylus i bob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo. Cydnabyddir os bydd pob disgybl, neu'r mwyafrif, yn dewis symud i'r ysgol dderbyn arfaethedig, y gallai nifer y disgyblion fod yn fwy na nifer derbyn a chapasiti presennol yr ysgol am gyfnod dros dro.

Os bydd hyn yn digwydd, bydd yr Awdurdod Lleol yn prosesu unrhyw geisiadau yn unol â'i Bolisi Derbyn i Ysgolion a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael i bob disgybl a bydd yn buddsoddi mewn adeiladau neu adnoddau ychwanegol os oes angen. Byddai unrhyw gyfleusterau newydd a ddarperir yn bodloni neu'n rhagori ar ansawdd amgylchedd presennol yr ysgol.

Er bod ysgol amgen benodol yn cael ei chynnig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae teuluoedd yn cadw'r hawl i fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol. Gall rhieni ddewis ysgol wahanol ar gyfer eu plentyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos fel Ysgol Gymunedol Trimsaran, Ysgol Pum Heol, Ysgol Pontiets ac Ysgol Mynyddygarreg, a gallai hyn effeithio ar y niferoedd disgyblion a ragwelir yn y ddogfen hon. O ganlyniad, gall argaeledd cyffredinol lleoedd ar draws ysgolion fod yn wahanol i'r hyn a ddisgwylir ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y dull a ddefnyddir i ragweld nifer y disgyblion yn seiliedig ar gyfartaledd treigl o ddisgyblion rhwng 5 ac 8 oed mewn ysgolion cynradd. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw newidiadau sydyn yn nifer y disgyblion gymryd sawl blwyddyn i gael eu hadlewyrchu'n llawn yn y data. Mewn ysgolion gyda nifer llai o ddisgyblion, gall hyd yn oed mân newidiadau gael effaith gymharol fwy ar amcanestyniadau. Felly, dylid ystyried yr amcanestyniadau o nifer y disgyblion a gyflwynir yma fel amcangyfrif yn hytrach na'r union ffigurau.

Tai cymdeithasol

Mae gwybodaeth a gafwyd gan Adran Dai'r Awdurdod Lleol yn dangos nad oes unrhyw ddatblygiadau tai cymdeithasol wedi'u cynllunio ar hyn o bryd yn nalgylch Ysgol Carwe na'r dalgylchoedd cyfagos y disgwylir iddynt greu cynnydd yn y galw am leoedd ysgol gynradd yn ystod y blynyddoedd nesaf. O ganlyniad, nid yw twf tai cymdeithasol wedi'i nodi fel ffactor a fyddai'n cael effaith sylweddol ar yr amcanestyniadau disgyblion a nodir yn y ddogfen hon.

Datblygu Tai
Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (Ebrill 2026)

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried effaith bosibl datblygiadau tai arfaethedig yn nalgylch Ysgol Carwe. Mae gwybodaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn dangos y rhagwelir y bydd y safleoedd datblygu perthnasol yn darparu oddeutu 66 o anheddau â deiliadaeth o ddau neu fwy o bobl. Gan ddefnyddio methodoleg niferoedd disgyblion y Cyngor, amcangyfrifir y bydd y datblygiadau hyn yn arwain at oddeutu dau ddisgybl blynyddoedd cynnar a 26 o ddisgyblion oedran cynradd. Er bod hyn yn golygu twf posibl yn y boblogaeth oedran ysgol yn y dyfodol, nid yw'n newid asesiad cyffredinol y cynnig yn sylweddol.

Wrth ystyried y galw am leoedd ysgol yn y dyfodol, mae'n bwysig cydnabod y patrymau presennol o ran dewis rhieni yn y dalgylch. Mae'r data cyfredol yn dangos bod tua 120 o ddisgyblion oedran cynradd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Carwe eisoes yn mynychu ysgolion heblaw Ysgol Carwe. Mae hyn yn dangos bod cyfran sylweddol o deuluoedd sy'n byw yn y dalgylch yn dewis darpariaeth addysgol amgen er eu bod yn byw yn y dalgylch. O ganlyniad, ni ellir tybio y byddai'r holl ddisgyblion yn sgil datblygiadau tai yn y dyfodol yn mynychu Ysgol Carwe neu unrhyw ysgol ddalgylch olynol.

Mae lleoliad daearyddol y datblygiad tai arfaethedig hefyd yn ystyriaeth berthnasol. Mae'r datblygiad yn ardal Ffos Las, sydd ar ymyl dalgylch presennol Ysgol Carwe ac yn agos at ddalgylch Ysgol Gymunedol Trimsaran. O ganlyniad, efallai y bydd gan drigolion yn y dyfodol gysylltiadau cymdeithasol, cymunedol a chludiant â chymunedau ac ysgolion cyfagos. Mae patrymau hanesyddol dewis rhieni yn yr ardal ehangach yn dangos nad agosrwydd yn unig sy'n pennu'r ysgolion y mae disgyblion yn eu mynychu o reidrwydd ac, felly, dylid trin nifer y disgyblion a ragwelir fel uchafswm damcaniaethol yn hytrach na chynnydd sicr yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol benodol.

Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai'r datblygiad gyfrannu at gynnydd yn nifer y plant oedran cynradd sy'n byw yn y dalgylch dros amser, ni fyddai'r nifer amcangyfrifedig, sef 26 o ddisgyblion oedran cynradd, yn ddigonol, ar ei ben ei hun, i newid yn sylfaenol yr amgylchiadau sydd wedi arwain at y cynnig hwn. Hefyd, mae disgyblion o Ysgol Carwe wedi mynychu Ysgol Gwynfryn yn llwyddiannus ers mis Medi 2025 ac mae'r cynnig yn ceisio ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes ar waith. O ganlyniad, er bod yr Awdurdod Lleol wedi ystyried twf tai yn y dyfodol, nid yw o'r farn y byddai nifer y disgyblion a ragwelir o'r datblygiadau a nodwyd yn newid yn sylweddol y casgliadau y daethpwyd iddynt ynghylch darparu addysg yn yr ardal yn y tymor hir.

Mae adolygiad o'r datblygiadau tai presennol a'r rhai arfaethedig yn nalgylch Ysgol Gwynfryn yn dangos bod disgwyl lefel gymedrol o dwf preswyl yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r datblygiad mwyaf ar hen safle'r Black Horse Inn, lle disgwylir i 25 annedd arall gael eu hadeiladu rhwng 2027 a 2031, gyda phum annedd eisoes wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2026. Disgwylir 20 o anheddau eraill yn Heol Pisgwydd, lle mae caniatâd cynllunio wedi'i roi. Disgwylir i'r datblygiad ddigwydd rhwng 2027 a 2030. Yn ogystal, mae caniatâd cynllunio ar gyfer naw annedd arall ar dir ger 1 Heol Glyndŵr, a disgwylir i'r rhain gael eu cwblhau rhwng 2028 a 2031. Gyda'i gilydd, gallai'r datblygiadau hyn ddarparu tua 54 o anheddau ychwanegol yn y dalgylch dros gyfnod y cynllun.

Amcangyfrifir bod gan ddau safle ychwanegol, sef Parc Mansant a thir y tu ôl i Brynderi, gapasiti o 12 annedd a saith annedd yn y drefn honno. Fodd bynnag, ar hyn o bryd credir bod y ddau safle yn annhebygol o gael eu datblygu, gan nad yw'r naill safle na'r llall wedi'i ddyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd yr anheddau hyn yn cael eu cyflawni yn ystod y cyfnod asesu.

Gallai'r twf tai arfaethedig yn y dalgylch greu galw ychwanegol am leoedd ysgol yn Ysgol Gwynfryn dros amser. Fodd bynnag, credir bod lefel ddisgwyliedig y datblygiad yn un y gellir ei rheoli a disgwylir iddo gael ei gyflawni'n raddol dros nifer o flynyddoedd yn hytrach na thrwy un cynllun tai ar raddfa fawr. O ganlyniad, mae unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n deillio o'r datblygiadau hyn yn debygol o ddigwydd yn raddol, gan ganiatáu i'r ysgol a'r Cyngor fonitro'r galw am leoedd a chynllunio yn unol â hynny.

Mae cyflawni'r datblygiadau tai hyn hefyd yn darparu tystiolaeth o gynaliadwyedd tymor hwy Ysgol Gwynfryn fel ysgol sy'n derbyn. Gallai'r twf disgwyliedig yn y boblogaeth leol gefnogi niferoedd disgyblion yn y dyfodol a helpu i gynnal hyfywedd darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. O ganlyniad, credir bod y twf tai a ragwelir yn y dalgylch yn darparu cyd-destun cadarnhaol i'r cynnig ac mae'n awgrymu bod Ysgol Gwynfryn mewn sefyllfa dda i ddarparu ar gyfer y galw am leoedd ysgol yn y dyfodol a grëir gan ddatblygiadau preswyl lleol.

Yn gyffredinol, er bod y twf tai a gynllunnir wedi'i ystyried yn ofalus fel rhan o'r broses asesu, nid yw'r datblygiadau disgwyliedig yn nalgylch Ysgol Carwe yn cael eu hystyried yn ddigonol i newid y rhesymeg dros y cynnig yn sylweddol. Mewn cyferbyniad, disgwylir i'r twf preswyl arfaethedig yn nalgylch Ysgol Gwynfryn gefnogi cynaliadwyedd yr ysgol sy'n derbyn yn y tymor hir a chryfhau ei gallu i ateb y galw am addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn y dyfodol.

5.2 A fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn ofalus ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau nad yw disgyblion anabl dan anfantais a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i alluogi mynediad cyfartal i addysg.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd y dysgwyr yn trosglwyddo o Ysgol Carwe i Ysgol Gwynfryn, sydd â Chynllun Hygyrchedd sefydledig. Fodd bynnag, os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r ysgol ar gyfer dysgwr, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn unol â phrosesau sefydledig trefniadaeth ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin.

Fodd bynnag, dylid nodi bod y disgyblion wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 ar ôl i Ysgol Carwe gau oherwydd y problemau strwythurol difrifol a nodwyd yn adeilad yr ysgol yn ystod gwyliau'r haf. O ganlyniad, byddai unrhyw addasiadau sydd eu hangen ar gyfer dysgwyr eisoes wedi'u sefydlu.

Ar y cyfan mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y bydd y cynnig yn cynnal, a bod ganddo'r potensial i wella, mynediad ar gyfer dysgwyr anabl, gan sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 a chefnogi amgylcheddau dysgu cynhwysol a hygyrch i bawb.

5.3 A yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un iaith ac (os yw'n berthnasol) cymeriad crefyddol dynodedig

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae Ysgol Gwynfryn, ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg Categori 3, wedi'i nodi fel y ddarpariaeth ysgol amgen i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe ar hyn o bryd.

Ar ôl nodi problemau strwythurol difrifol yn Ysgol Carwe yn ystod haf 2025, mae'r disgyblion wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025, gan sicrhau parhad addysg cyfrwng Cymraeg heb fawr o darfu ar ddysgwyr.

Felly, mae'r cynnig yn cynnal mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i'r dysgwyr yr effeithir arnynt ac yn cefnogi ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gan nad yw'r ysgolion wedi'u dynodi fel rhai sydd â chymeriad crefyddol, ni fyddai unrhyw effaith ar argaeledd addysg seiliedig ar ffydd sy'n deillio o'r cynnig.

5.4 Cynigion eraill ynghylch ad-drefnu ysgolion

Mae'r Cyngor yn cynnal proses statudol ar wahân ar hyn o bryd mewn perthynas â chynnig i gau Ysgol Pontiets. Pe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r cynnig hwnnw'n cael ei weithredu o 1 Ionawr 2028. Mae'r Cyngor wedi ystyried a yw cynnig Ysgol Pontiets a'r cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Carwe yn gynigion cysylltiedig o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2026.

Barn y Cyngor yw na fyddai gweithredu neu beidio â gweithredu cynnig Ysgol Pontiets yn atal nac yn tanseilio'r broses o weithredu'r cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Carwe yn effeithiol. Yn unol â hynny, nid yw'r cynigion yn cael eu hystyried yn gynigion cysylltiedig at ddibenion y Cod.

6. Yr ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), ceir manylion isod am yr ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y byddai disgyblion am drosglwyddo iddynt o bosibl, ynghyd â manylion yr ysgolion derbyn arfaethedig.

Enw'r Ysgol		**Ysgol Gwynfryn**	**Ysgol Gymunedol Trimsaran**	**Ysgol Pum Heol**	**Ysgol Pontiets**	**Ysgol Mynyddygarreg**
Lleoliad yr Ysgol		Heol y Meinciau, Pontiets, SA15 5SN	Heol Waun y Clun, Trimsaran, SA17 4BE	Heol Hen, Pump-hewl, SA15 5EZ	Heol Llanelli, Pontiets, SA15 5UB	Mynyddygarreg, Cydweli, SA17 4RL
Ystod Oedran		4-11	3-11	4-11	4-11	4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		C	C	C	C	C
Categori Iaith		3 – Cyfrwng Cymraeg	3 – Cyfrwng Cymraeg	3 – Cyfrwng Cymraeg	3 – Cyfrwng Cymraeg	3 – Cyfrwng Cymraeg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2026)	**Meithrin**	4	18	1	2	1
	Derbyn – B.6	56	154	62	19	26
	Cyfanswm	60	172	63	21	27
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	**Ionawr 2025**	56	194	77	24	28
	Ionawr 2024	59	197	87	26	34
	Ionawr 2023	62	206	97	28	39

yn flaenorol (gan gynnwys Meithrin) (CYBLD)	**Chwefror 2022**	57	209	99	34	38
Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (ac eithrio Meithrin) (yn seiliedig ar ddata CYBLD 2026)	**Ionawr 2027**	53	155	67	19	25
	Ionawr 2028	57	150	69	20	26
	Ionawr 2029	58	144	65	17	25
	Ionawr 2030	54	147	63	18	26
	Ionawr 2031	54	144	64	19	24
Capasiti Meithrin 25/26		10	32	15	9	7
Capasiti Derbyn - B.6 25/26		85	210	105	69	54
Cyfanswm Capasiti 25/26		95	242	120	78	61
Capasiti Meithrin 26/27		10	32	15	9	7
Capasiti Derbyn - B.6 26/27		85	210	105	74	54
Cyfanswm Capasiti 26/27		95	242	120	83	61
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2025/26)		£5,268	£5,466	£5,728	£8,180	£6,059
Cyllideb Ysgol (2025/26)		£295,000	£1,041,000	£441,000	£196,000	£170,000
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2026/27)		£5,518	£5,984	£5,855	£9,017	£6,298
Cyllideb Ysgol (2026/27)		£331,000	£990,000	£369,000	£189,000	£170,000
Canlyniad Arolygiad Estyn		Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2024)	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2025)	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2026)	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2017)	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2023)
Categori Cyflwr Adeilad (2024)		B	B	B	A	B
Addasrwydd Adeilad yr Ysgol		B	B	B	B	B

6.1 Effaith y cynnig ar ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, disgwylir i'r effaith fwyaf fod ar Ysgol Gwynfryn, a nodwyd fel yr ysgol amgen yn lle Ysgol Carwe. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gwynfryn, sy'n cael ei ystyried yn gadarnhaol gan y bydd yn helpu i wella cynaliadwyedd yr ysgolion.

Fodd bynnag, dylid nodi bod Ysgol Gwynfryn wedi bod yn darparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Carwe ers mis Medi 2025 ar ôl nodi problemau strwythurol difrifol yn Ysgol Carwe yn ystod haf 2025, a oedd yn atal yr ysgol rhag ailagor. O ganlyniad, mae'r disgyblion eisoes wedi symud i Ysgol Gwynfryn ac maent wedi llwyddo i addasu i'w

hamgylchedd dysgu newydd, gwneud ffrindiau a chael eu hintegreiddio i gymuned ehangach yr ysgol. Cefnogwyd y broses hon gan y trefniadau ffedereiddio hirsefydlog rhwng Ysgol Carwe, Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Ponthenri, a oedd yn golygu bod llawer o ddisgyblion, staff a theuluoedd eisoes yn gyfarwydd â'i gilydd cyn adleoli.

Er y byddai'r cynnig, pe bai'n cael ei weithredu, yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes ar waith, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd angen capasiti ychwanegol o bosib yn Ysgol Gwynfryn i gefnogi'r ddarpariaeth addysg i bob dysgwr yn y tymor hir.

Disgwylir mai bychan fydd yr effaith ar ysgolion eraill y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt, gan na ddisgwylir i'r cynnig arwain at newidiadau i niferoedd disgyblion, patrymau derbyn i ysgolion neu'r ddarpariaeth addysgol yn yr ysgolion hyn.

Mae gan rieni yr hawl i fynegi ffafriaeth ar gyfer yr ysgol y mae eu plentyn yn ei mynychu. Fodd bynnag, nid yw mynegi ysgol a ffefrir yn rhoi sicrwydd o le yn yr ysgol honno. Efallai y bydd rhai rhieni disgyblion yn Ysgol Carwe yn dewis gwneud cais am ysgolion amgen heblaw Ysgol Gwynfryn fel yr ysgolion derbyn a enwir. O ganlyniad, efallai y bydd ysgolion cyfagos eraill fel Ysgol Gymunedol Trimsaran, Ysgol Pum Heol, Ysgol Pontiets ac Ysgol Mynyddygarreg ac o bosibl ysgolion ymhellach i ffwrdd, hefyd yn gweld rhywfaint o effaith yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Yn gyffredinol, nid yw'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio yn cael ei ystyried yn negyddol, gan fod gan yr ysgolion hyn rywfaint o gapasiti lleoedd gwag ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol.

6.2 Effaith y cynnig ar y staff

Nid yw'r penderfyniad i gynnig cau ysgol byth yn cael ei wneud ar chwarae bach, ac mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yn llawn yr effaith y gall cynigion o'r fath ei chael ar y staff sy'n gweithio yn Ysgol Carwe a'r ysgolion derbyn arfaethedig.

Un o brif flaenoriaethau'r Awdurdod Lleol yw lleihau tarfu a chefnogi staff ysgol drwy unrhyw gyfnod o newid pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei allu i lleihau dileu swyddi yn orfodol yn unol â'r Polisi Dileu Swyddi / Staff Gormodol Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr holl gyfleoedd adleoli posibl o fewn y rhwydwaith ysgolion ehangach a'r awdurdod lleol, cynnig dileu swyddi yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar lle bo hynny'n briodol, a gweithio'n agos gydag undebau llafur drwy gydol y broses.

Fodd bynnag, er y bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i adleoli staff yr effeithir arnynt, ni ellir diystyru'r posibilrwydd o ddileu swyddi. Pan nad yw adleoli yn ymarferol, bydd proses deg a thryloyw yn cael ei dilyn, a rhoddir cefnogaeth i'r rheiny yr effeithir arnynt.

Mae'r Awdurdod Lleol yn deall y gallai hyn greu ansicrwydd i staff a'u teuluoedd, ac mae wedi ymrwymo i gyfathrebu'n glir, a darparu diweddariadau amserol a mynediad at wasanaethau cymorth drwy gydol y broses. Bydd tîm Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol y broses.

Byddai unrhyw newidiadau yn yr ysgol sy'n derbyn yn cael eu rheoli trwy ei gorff llywodraethu, yn unol â rheoliadau staffio ysgolion a pholisïau Adnoddau Dynol, a byddent hefyd yn destun ymgynghoriad priodol â staff yr effeithir arnynt ac undebau.

6.3 Effaith y cynnig ar gymuned leol Carwe

Mae asesiad o'r effaith ar y gymuned wedi'i gynnal, gan ddefnyddio'r adborth a ddarparwyd gan yr ysgol. Mae'r asesiad wedi'i gynnwys yn Atodiad A a bydd yn cael ei ddiweddaru yn dilyn y broses ymgynghori i adlewyrchu unrhyw adborth sy'n dod i law.

Mae Ysgol Carwe yn falch o'i chysylltiadau lleol cryf â'r gymuned, gan gynnwys y bartneriaeth â'r Cylch Meithrin sydd wedi'i leoli'n llawn amser yn yr ysgol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai leihau apêl y pentref i deuluoedd ifanc, o bosibl gan gyflymu gostyngiad yn y boblogaeth ac effeithio ar wasanaethau ac amwynderau lleol.

Gallai'r cynnig olygu goblygiadau i weithrediad y Cylch Meithrin yn y dyfodol a oedd yn defnyddio adeilad Ysgol Carwe yn flaenorol. Yn dilyn cau adeilad yr ysgol ym mis Medi 2025 oherwydd materion strwythurol sylweddol, symudodd y Cylch Meithrin i Neuadd Carwe, gan alluogi'r ddarpariaeth i barhau i wasanaethu plant a theuluoedd lleol. Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Carwe yn mynd rhagddo, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn yr ardal. Pe na bai'r Cylch Meithrin yn gallu sicrhau adeilad addas yn y tymor hir ac o ganlyniad yn mynd yn anghynaladwy, gallai hyn leihau mynediad lleol at ofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar Gymraeg ac effeithio ar drefniadau pontio sefydledig i addysg statudol. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys Mudiad Meithrin a darparwyr blynyddoedd cynnar, i ystyried trefniadau amgen i sicrhau mynediad parhaus at ddarpariaeth briodol i blant tair oed.

Os gwneir penderfyniad i gau'r ysgol, bydd Adran Addysg yr Awdurdod Lleol yn gweithio ar y cyd â'r Adran Gwasanaethau Plant, y Cylch Meithrin perthnasol a'r Mudiad Meithrin i archwilio a nodi opsiynau llety amgen posibl ar gyfer y ddarpariaeth Cylch Meithrin yr effeithir arnynt. Er y bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r broses hon, bydd y penderfyniad terfynol ynghylch unrhyw leoliad yn y dyfodol a hyfywedd ariannol gweithredu o safle amgen yn gorwedd ar y Cylch Meithrin a'r Mudiad Meithrin unigol. Wrth ddod i benderfyniad, bydd angen i'r Cylch Meithrin ystyried goblygiadau adleoli'n ofalus, gan gynnwys ymrwymiadau refeniw parhaus fel taliadau cyfleustodau, costau cynnal a chadw ac atgyweirio, yswiriant, ac unrhyw dreuliau gweithredol eraill sy'n gysylltiedig â'r adeilad newydd, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Byddai cau'r ysgol yn effeithio ar allu disgyblion i gerdded neu feicio oherwydd mwy o bellter a phryderon diogelwch ffyrdd, gan leihau cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol bob dydd. Fodd bynnag, mae'r ysgolion derbyn yn cynnig amrywiaeth o glybiau chwaraeon a chlybiau ar ôl ysgol i liniaru hyn. Byddai angen cludiant ysgol ar ddisgyblion cymwys. Ni ragwelir unrhyw effeithiau ar wasanaethau cludiant disgyblion os yw'r cynigion yn cael eu gweithredu.

Fodd bynnag, dylid nodi bod y disgyblion wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 ar ôl i adeilad Ysgol Carwe gau oherwydd y problemau strwythurol difrifol a nodwyd yn adeilad yr ysgol yn ystod gwyliau'r haf. O ganlyniad, mae'r trefniadau cludiant eisoes wedi'u sefydlu, ac mae disgyblion a theuluoedd wedi addasu i'r trefniadau teithio diwygiedig. Felly, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'n annhebygol o arwain at unrhyw effaith ychwanegol ar ddysgwyr y tu hwnt i'r trefniadau sydd eisoes ar waith.

7. Yr Effaith ar ansawdd a safonau addysg

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar ansawdd a safonau addysg yn yr ysgol, gan ystyried meysydd arolygu perthnasol Estyn. Nodir y rhain yn yr adran ganlynol.

Cafodd Ysgol Carwe ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2024. Roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn nad oedd angen mesurau dilynol mewn perthynas â'r ysgol hon.

Roedd yr argymhellion fel a ganlyn:

A1 Sicrhau ystod lawn o weithgareddau rhifedd i'r disgyblion hynaf sy'n cynnig her briodol iddynt wneud cynnydd hyd eithaf eu gallu.
A2 Sicrhau bod adborth gan athrawon yn cefnogi'r disgyblion i wella eu gwaith.
A3 Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Cafodd Ysgol Gwynfryn ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2024. Roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn nad oedd angen mesurau dilynol mewn perthynas â'r ysgol hon.

Roedd yr argymhellion fel a ganlyn:

A1 Sicrhau ystod lawn o weithgareddau rhifedd i'r disgyblion hynaf sy'n cynnig her briodol iddynt wneud cynnydd hyd eithaf eu gallu.
A2 Sicrhau bod adborth gan athrawon yn cefnogi'r disgyblion i wella eu gwaith.
A3 Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

7.1 Yr effaith debygol ar addysgu a dysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar ansawdd addysgu a dysgu. Mae Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn eisoes yn gweithredu fel rhan o ffederasiwn caled hirsefydlog ag Ysgol Ponthenri, gan rannu strwythur arweinyddiaeth cyffredin, corff llywodraethu a chyfeiriad strategol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn y ddwy ysgol eisoes yn elwa ar ymagwedd gyffredin at ddylunio'r cwricwlwm, addysgu a dysgu.
Mae athrawon ar draws y ffederasiwn yn gweithio ar y cyd i gynllunio a chyflwyno cwricwlwm cyffredin. O ganlyniad, mae dysgwyr yn Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn eisoes yn cael mynediad at ddarpariaeth gyson o ran y cwricwlwm ac yn elwa ar ddulliau addysgegol, cynllunio'r cwricwlwm a threfniadau asesu ar y cyd. Byddai'r cynnig felly yn ffurfioli'r trefniadau addysgol presennol yn hytrach na chyflwyno newidiadau i brofiadau dysgu disgyblion.

Hefyd mae'n rhaid nodi bod disgyblion Ysgol Carwe wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn am y flwyddyn ddiwethaf. O ganlyniad, mae dysgwyr eisoes wedi profi amgylchedd dysgu, arferion a darpariaeth cwricwlwm yr ysgol, ac wedi cael cyfleoedd i ddatblygu perthynas waith gadarnhaol â staff a chyfeillgarwch â'u cyfoedion. Mae hyn yn debygol o leihau tarfu a chefnogi parhad mewn dysgu, llesiant ac ymgysylltiad disgyblion pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Ar ôl gweithredu'r cynnig, byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn pedwar dosbarth sy'n cynnwys tua 27 o ddysgwyr, o gymharu â'r trefniant presennol o dri dosbarth sy'n cynnwys 18 o ddisgyblion. Byddai hyn yn galluogi'r disgyblion i ddysgu ochr yn ochr â nifer uwch o gyfoedion o oedran a chyfnod datblygiad tebyg, gan gynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, trafodaeth, cymorth gan gyfoedion a datrys problemau mewn grwpiau. Mae'r carfanau mwy hefyd yn debygol o gefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm a sgiliau cymdeithasol, wrth ddarparu cyfleoedd ehangach ar gyfer gwneud ffrindiau, rhyngweithio cymdeithasol a her academaidd gadarnhaol.

Mae'r cynnig yn debygol o wella mynediad at gyfleoedd allgyrsiol a chyfoethogi. Gall niferoedd disgyblion uwch gefnogi mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, perfformiadau, ymweliadau addysgol, cyfleoedd arweinyddiaeth disgyblion a digwyddiadau cystadleuol, gan gyfrannu'n gadarnhaol at hyder a llesiant disgyblion a datblygu eu sgiliau ehangach.

Mae Estyn yn nodi bod athrawon a chynorthwywyr addysgu yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol sy'n hybu dysgu'n briodol yn Ysgol Carwe ac yn Ysgol Gwynfryn. Mae cyflymder da i weithgareddau dysgu ac maent yn bwrpasol, gan alluogi disgyblion i ymgysylltu'n llwyddiannus â'u gwaith a gwneud cynnydd priodol.

Mae tystiolaeth o'r arolygiad hefyd yn tynnu sylw at gryfder y ffederasiwn wrth hyrwyddo dysgu ar y cyd a dysgu annibynnol. Ar draws yr ysgolion, mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd mewn parau a grwpiau, gan eu helpu i drafod syniadau, datrys problemau a datblygu eu sgiliau cyfathrebu. Yn ogystal, mae disgyblion iau yn elwa ar amgylcheddau dysgu ysgogol sy'n hyrwyddo annibyniaeth, gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu'n barhaus â gweithgareddau dysgu.

Mae Estyn yn nodi bod athrawon yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol drwy ymweliadau addysgol, ymwelwyr a gweithgareddau sy'n hyrwyddo diwylliant, treftadaeth a hunaniaeth Cymru. Mae'r cwricwlwm hefyd yn helpu disgyblion i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i wneud dewisiadau bywyd gwybodus ac iach.

Yn gyffredinol mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar addysgu a dysgu. O ystyried y trefniadau ffederal presennol, y cwricwlwm a rennir a'r ffaith bod disgyblion Ysgol Carwe eisoes wedi cael eu haddysgu'n llwyddiannus yn Ysgol Gwynfryn am gyfnod estynedig, mae tystiolaeth gref y bydd parhad dysgu yn cael ei gynnal. Mae'r grwpiau cyfoedion mwy, yr amrywiaeth ehangach o gyfleoedd a'r trefniadau staffio cynaliadwy yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu disgyblion a'u datblygiad ehangach.

7.2 Yr effaith debygol ar ofal, cymorth ac arweiniad

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar lesiant, gofal, cymorth neu arweiniad disgyblion. Mae disgyblion Ysgol Carwe wedi cael eu haddysgu ar safle Ysgol Gwynfryn am y flwyddyn ddiwethaf ac felly maent eisoes yn gyfarwydd â'r amgylchedd dysgu, arferion dyddiol a chymuned yr ysgol. Mae'r disgyblion wedi cael cyfleoedd i ddatblygu perthynas â staff a chyfoedion, sy'n debygol o leihau tarfu a chefnogi parhad o ran eu llesiant a'u hymgysylltiad pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Mae gan y ffederasiwn drefniadau sefydledig a chyson ar gyfer hyrwyddo llesiant disgyblion, cefnogi datblygiad personol a sicrhau trefniadau diogelu effeithiol. Mae'r trefniadau hyn yn gweithredu ar draws y tair ysgol ac yn helpu i sicrhau dull cyson o gefnogi dysgwyr ac ymateb i'w hanghenion unigol.

Mae perthnasoedd gwaith cryf rhwng staff a disgyblion yn nodwedd o'r ddwy ysgol. Mae Estyn yn nodi bod y disgyblion yn elwa ar berthynas gefnogol ag oedolion a bod athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus ac yn annog agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Gan fod disgyblion eisoes yn mynychu safle Ysgol Gwynfryn, disgwylir i unrhyw ofynion pontio sy'n weddill fod yn fach. Serch hynny, byddai'r ysgol yn parhau i weithio'n agos gyda disgyblion a theuluoedd i sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu datrys yn brydlon a bod cymorth priodol ar gael lle bo angen.

Mae'r niferoedd disgyblion uwch yn Ysgol Gwynfryn hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gwneud ffrindiau a chyfranogiad mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau ysgol. Gall hyn gyfrannu'n gadarnhaol at hyder disgyblion, eu hymdeimlad o berthyn a'u llesiant cyffredinol.

Yn gyffredinol, mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar ofal, cymorth ac arweiniad. Mae'r perthnasoedd sefydledig, parhad y ddarpariaeth, y trefniadau llesiant cyson ar draws y ffederasiwn a'r ethos cefnogol sy'n amlwg yn y ddwy ysgol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr.

7.3 Yr effaith debygol ar arwain a gwella

Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gapasiti arweinyddiaeth a gallu'r ffederasiwn i sicrhau gwelliant parhaus. Mae Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn eisoes yn gweithredu o fewn ffederasiwn sefydledig dan arweinyddiaeth un pennaeth a chorff llywodraethu. O ganlyniad, ni fyddai'r cynnig yn arwain at unrhyw darfu ar drefniadau arweinyddiaeth presennol, blaenoriaethau strategol na phrosesau gwella ysgol.

Pe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r cynnig yn lleihau nifer y safleoedd y mae'r pennaeth yn gyfrifol amdanynt o dri i ddau. Mae hyn yn debygol o gynyddu capasiti arweinyddiaeth drwy leihau gofynion gweithredol a galluogi mwy o ffocws ar weithgareddau arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys hunanwerthuso, datblygu'r cwricwlwm, cynllunio gwella'r ysgol, datblygu staff a gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r ffederasiwn eisoes yn elwa ar systemau sefydledig ar gyfer cydweithio, hunanwerthuso a chynllunio gwella. Byddai'r cynnig yn golygu bod modd defnyddio arbenigedd ac amser arweinyddiaeth yn fwy effeithiol ar draws llai o safleoedd, gan gryfhau gallu'r ffederasiwn i fonitro perfformiad, gwerthuso'r effaith ac ysgogi gwelliant parhaus.

Byddai cyfrifoldebau arwain yn parhau i gael eu cefnogi drwy'r strwythur ffederal sefydledig, gan sicrhau parhad, sefydlogrwydd a threfniadau llywodraethu effeithiol. Mae lleihau nifer y safleoedd yn y ffederasiwn yn debygol o wella gwydnwch trefniadaethol a darparu mwy o gyfleoedd i arweinwyr weithio'n uniongyrchol gyda staff i wella addysgu, dysgu a deilliannau disgyblion.

Mae Estyn yn nodi bod y pennaeth a'r tîm rheoli yn cael dylanwad cadarnhaol ar bob un o'r tair ysgol drwy greu cymuned ofalgar a chydweithio'n effeithiol ar draws y ffederasiwn. Mae Estyn yn nodi bod staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ar draws yr ysgolion ffederal, gan helpu i sicrhau bod profiadau'r disgyblion yn gyson a chefnogi gwelliant parhaus. Mae'r trefniadau arweinyddiaeth a chydweithredol sefydledig hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu'r cynnig yn llwyddiannus

Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff. Mae'r ffederasiwn eisoes yn darparu sylfaen gref ar gyfer cydweithio proffesiynol, deialog broffesiynol a rhannu ymarfer effeithiol. Byddai'r trefniadau hyn yn parhau i gefnogi datblygiad staff ac yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol a blaenoriaethau gwella cenedlaethol.

Byddai'r cynnig hefyd yn helpu i drefnu staff, arweinyddiaeth ac adnoddau ariannol yn fwy effeithiol. Byddai crynhoi'r ddarpariaeth ar draws dau safle ysgol yn hytrach na thri yn sicrhau bod yr arbenigedd a'r adnoddau presennol yn cael yr effaith fwyaf posibl, wrth leihau aneffeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â chynnal darpariaeth ar wahân ar gyfer nifer fach iawn o ddisgyblion.

Drwy gyfuno niferoedd disgyblion ar draws dau safle, byddai'r cynnig yn cyfrannu at fodel mwy cynaliadwy o ddarpariaeth addysg ac yn cryfhau hyfywedd y ffederasiwn yn y tymor hir. Byddai hyn yn gwella capasiti'r ffederasiwn i ymateb yn effeithiol i heriau yn y dyfodol, niferoedd disgyblion newidiol a blaenoriaethau addysgol sy'n datblygu.

Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth a gwella'r ysgol. Disgwylir y bydd mwy o gapasiti arweinyddiaeth, gwell gwydnwch trefniadaethol, defnydd mwy effeithlon o adnoddau a ffocws cryfach ar weithgareddau gwella strategol yn cryfhau gallu'r ffederasiwn i gynnal darpariaeth o ansawdd uchel a sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

7.4 Effaith y cynnig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Nid oes disgwyl i'r cynnig gael effaith negyddol ar grwpiau agored i niwed o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn eisoes yn gweithredu o fewn yr un ffederasiwn, ac mae staff yn cydweithio ar draws yr ysgolion ac yn rhannu systemau sefydledig ar gyfer cefnogi llesiant, cynnydd a chynhwysiant dysgwyr.

Mae cyfathrebu effeithiol a pherthnasoedd proffesiynol cryf eisoes yn bodoli ar draws y ffederasiwn, gan gefnogi parhad y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr agored i niwed. O ganlyniad, byddai'r cynnig yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn sefydledig yn hytrach na chyflwyno newidiadau i'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae gan bedwar dysgwr Gynllun Datblygu Unigol, ac mae pob un o'r rhain eisoes yn mynychu safle Ysgol Gwynfryn. O ganlyniad, mae'r cynnig yn annhebygol o arwain at unrhyw darfu ar eu dysgu, eu trefniadau cymorth neu eu mynediad at ddarpariaeth arbenigol. Byddai rhaglenni cymorth, targedau ac ymyriadau presennol yn parhau i gael eu gweithredu a'u hadolygu fel rhan o brosesau ysgol arferol.

Mae Estyn yn nodi bod ffocws y ffederasiwn ar gefnogi llesiant disgyblion yn gryfder amlwg ac yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth drwyadl o'u hemosiynau a'u perthnasoedd. Mae'r adroddiad arolygiad hefyd yn tynnu sylw at drefniadau effeithiol yr ysgol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn cydweithio i nodi anghenion disgyblion yn gynnar, darparu cymorth priodol a chynnal cynlluniau clir sy'n llywio addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Mae'r strwythur ffederal sefydledig yn darparu mynediad at amrywiaeth ehangach o gymorth ac arbenigedd staff nag a fyddai fel arfer ar gael mewn un ysgol fach iawn. Mae hyn yn cryfhau gallu'r ysgol i nodi ac ymateb i anghenion dysgwyr yn effeithiol ac i ddarparu cymorth priodol i ddisgyblion sy'n agored i niwed.

Yn gyffredinol mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae parhad y ddarpariaeth sydd eisoes wedi'i sefydlu drwy'r ffederasiwn, y ffaith bod disgyblion Ysgol Carwe eisoes yn cael eu haddysgu ar safle Ysgol Gwynfryn, a'r cymorth llesiant ac ADY effeithiol a nodwyd gan Estyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn parhau i dderbyn cymorth priodol ac yn cyflawni deilliannau cadarnhaol.

Mae disgyblion Ysgol Carwe wedi bod yn mynychu safle Ysgol Gwynfryn am y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r trefniadau cludiant presennol eisoes wedi'u sefydlu. O ganlyniad, ni ragwelir y bydd y cynnig yn creu rhwystrau ychwanegol i bresenoldeb neu fynediad at addysg i ddysgwyr sy'n agored i niwed.

Yn ôl data CYBLD Ionawr 2026, roedd 20.7% (12) o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ac roedd gan 6.9% (4) o'r disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol a nodwyd. Gan fod disgyblion o Ysgol Carwe wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 ar ôl darganfod problemau strwythurol difrifol yn adeilad yr ysgol, mae'r newid i'r ddarpariaeth amgen eisoes wedi digwydd.

Mae'r dysgwyr wedi cael y cyfle i ymgartrefu yn eu hamgylchedd addysgol newydd a sefydlu perthynas gadarnhaol â'u cyfoedion a'r staff. Lle bo angen, mae trefniadau cymorth dysgu ychwanegol, bugeiliol a llesiant priodol wedi'u rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr unigol, gan sicrhau parhad y ddarpariaeth a lleihau unrhyw effaith andwyol sy'n deillio o adleoli'r disgyblion.

Bydd yr Awdurdod Lleol a'r ysgol yn parhau i fonitro a chefnogi anghenion pob dysgwr, yn enwedig y rhai a allai fod yn fwy agored i newid, i sicrhau eu bod yn parhau i ffynnu a gwneud cynnydd yn eu haddysg.

Roedd 7 (11.7%) o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gwynfryn yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Yn ogystal, yn ôl CYBLD 2026 roedd gan 4% (6.7%) o ddisgyblion ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

(Mae cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Bob Disgybl Ysgol (UPFSM) wedi lleihau'r angen canfyddedig i rai teuluoedd cymwys wneud cais am Brydau Ysgol Am Ddim sy'n gysylltiedig â budd-daliadau . Gan fod gan bob disgybl oedran cynradd bellach yr hawl i gael pryd ysgol am ddim beth bynnag yw incwm yr aelwyd, efallai na fydd rhai rhieni a gofalwyr yn cydnabod y manteision ychwanegol sy'n gysylltiedig â chofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim, megis bod yn gymwys ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol a dyrannu cyllid sy'n gysylltiedig ag amddifadedd i ysgolion. O ganlyniad, efallai na fydd y ffigurau ar gyfer cofrestru am brydau ysgol am ddim yn adlewyrchu'n llawn nifer y disgyblion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd sylfaenol.)

7.5 Effaith y cynnig ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn ofalus effaith bosibl y cynnig ar ddisgyblion o gefndiroedd economaidd difreintiedig. Mae data CYBLD ar gyfer Medi 2026 yn dangos bod tua 20.7% (12 disgybl) sy'n mynychu Ysgol Carwe yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (eFSM), a ddefnyddir yn gyffredin fel dangosydd o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar gyrhaeddiad addysgol y dysgwyr hyn. Ers mis Medi 2025, mae pob disgybl o Ysgol Carwe wedi cael eu haddysgu yn Ysgol Gwynfryn yn dilyn cau adeilad Ysgol Carwe oherwydd diffygion strwythurol sylweddol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae dysgwyr wedi parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, cymorth lles, darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Prydau Ysgol am Ddim, a chyfleoedd addysgol ehangach yn ddi-dor. Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd ers yr adleoli wedi nodi unrhyw rwystrau i ddysgu neu gyfranogi i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd dysgwyr cymwys yn parhau i dderbyn cludiant am ddim o gartref i'r ysgol yn unol â Pholisi Trafnidiaeth Cartref i Ysgol y Cyngor, gan helpu i liniaru unrhyw rwystrau posibl sy'n gysylltiedig â theithio a hygyrchedd gwledig. Bydd disgyblion hefyd yn cadw mynediad at Brydau Ysgol Am Ddim, cymorth Grant Hanfodion Ysgol, gwasanaethau lles a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau addysgol drwy alluogi disgyblion i barhau i ddysgu mewn amgylchedd ysgol ehangach, gan elwa o grŵp cyfoedion ehangach, cyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol ehangach, a mynediad at ystod ehangach o adnoddau addysgol a gwasanaethau cymorth. Mae'r fformiwla ariannu ar gyfer ysgolion hefyd yn cynnwys ffactor amddifadedd yn seiliedig ar gymhwysedd prydau ysgol am ddim, gan sicrhau bod adnoddau yn parhau i gael eu cyfeirio tuag at gefnogi dysgwyr difreintiedig.

Ar ôl ystyried dangosyddion amddifadedd ar lefel disgyblion, proffil economaidd-gymdeithasol y cymunedau dan sylw, a gweithrediad llwyddiannus y trefniadau presennol ers mis Medi 2025, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y cynnig yn debygol o effeithio'n andwyol ar gyrhaeddiad addysgol plant o gefndiroedd economaidd difreintiedig. Bydd monitro presenoldeb, lles a chanlyniadau cyrhaeddiad, gan gynnwys canlyniadau disgyblion eFSM, yn cael ei gynnal i sicrhau nad oes unrhyw grŵp o ddisgyblion yn profi anfantais anghymesur o ganlyniad i'r cynnig.

Ceir rhagor o fanylion am yr asesiad a'i ganfyddiadau yn yr Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon sydd i'w gweld yn Atodiad C. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar bwyntiau allweddol os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.

7.6 Materion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Mae materion cydraddoldeb sy'n codi o'r cynnig wedi'u hasesu drwy'r Asesiad Effaith Integredig, sy'n cynnwys ystyried effeithiau ar unigolion a grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ni chanfu'r asesiad unrhyw dystiolaeth y byddai'r cynnig yn arwain at effeithiau andwyol ar unrhyw grŵp nodweddiadol gwarchodedig. Ers mis Medi 2025, mae disgyblion o Ysgol Carwe wedi cael eu haddysgu yn Ysgol Gwynfryn ar ôl cau adeilad yr ysgol oherwydd materion strwythurol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae disgyblion wedi parhau i gael mynediad at ddarpariaeth addysgol, cymorth bugeiliol a gweithgareddau ysgol ehangach, gan ddarparu tystiolaeth o allu'r ysgol sy'n derbyn i ddiwallu anghenion dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd ac amgylchiadau.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac anableddau. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad at gymorth yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddai'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod trefniadau cymorth presennol, ymyriadau arbenigol, addasiadau rhesymol a gofynion hygyrchedd yn parhau i gael eu bodloni. Gall amgylchedd yr ysgol ehangach hefyd ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr elwa o ystod ehangach o adnoddau, cyfleusterau, profiadau dysgu a gwasanaethau cymorth arbenigol.

Roedd yr asesiad hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar ddysgwyr a allai fod yn fregus oherwydd cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol, anabledd, gwledigrwydd, anghenion iaith neu amgylchiadau personol eraill. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol penodol. Byddai dysgwyr yn parhau i gael mynediad at gymorth lles, trefniadau diogelu, gwasanaethau cymorth addysgol ac, lle bo'n gymwys, cludiant am ddim o gartref i'r ysgol a Phrydau Ysgol am ddim.

Byddai'r cynnig yn cynnal darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddai dysgwyr yn parhau i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a byddai'n cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol mewn amgylchedd addysgol Cymraeg. Daeth yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg i'r

casgliad nad oedd unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi, yn amodol ar weithredu'r mesurau lliniaru a amlinellir yn yr asesiad hwnnw.

Ystyriwyd hefyd yr effaith bosibl ar staff. Gall y cynnig arwain at newidiadau staffio, gan gynnwys y potensial ar gyfer adleoli neu ddiswyddo, yn dibynnu ar anghenion staffio yn y dyfodol. Byddai unrhyw oblygiadau o'r fath yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor, gan sicrhau bod staff yr effeithir arnynt yn cael eu hymgynghori a'u cefnogi'n briodol trwy gydol y broses.

Mae'r mesurau lliniaru a nodwyd drwy'r asesiad yn cynnwys cynnal trefniadau cymorth ADY presennol, mynediad parhaus at wasanaethau lles a chymorth bugeiliol, darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â pholisi'r Cyngor, ymgysylltu parhaus â dysgwyr a theuluoedd drwy gydol y broses bontio, a monitro parhaus o ganlyniadau dysgwyr i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

Yn gyffredinol, daeth yr asesiad i'r casgliad nad oes disgwyl i'r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw grŵp nodweddion gwarchodedig a bod mesurau lliniaru priodol ar gael i fynd i'r afael â phryderon posibl. Ceir rhagor o fanylion am yr asesiad a'i ganfyddiadau yn yr Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon sydd i'w gweld yn Atodiad C. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar bwyntiau allweddol os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.

7.7 Gallu pennaeth/corff llywodraethu yr ysgol i fodloni eu gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf 2021 ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr ym mhob rhan o'r continwwm addysg 3-16.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar allu'r pennaeth a'r corff llywodraethu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan y Cwricwlwm i Gymru. Mae Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn eisoes yn gweithredu o fewn ffederasiwn sefydledig ac yn rhannu dull cyffredin mewn perthynas â dylunio, cynllunio, cyflwyno ac asesu o ran y cwricwlwm. O ganlyniad, mae disgyblion ar hyn o bryd yn cael cwricwlwm cyson ar draws y ddwy ysgol.

Byddai'r cynnig felly yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes wedi'u sefydlu. Gan fod disgyblion o Ysgol Carwe wedi cael eu haddysgu ar safle Ysgol Gwynfryn am y flwyddyn ddiwethaf, mae tystiolaeth glir y gellir cynnal parhad o ran cyflwyno'r cwricwlwm, addysgu a dysgu.

Mae'r ddwy ysgol yn elwa ar strwythur staffio cynaliadwy ac arferion cydweithio sefydledig ar draws y ffederasiwn. Mae'r trefniadau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer deialog broffesiynol, datblygu'r cwricwlwm a rhannu arbenigedd, gan gryfhau capasiti'r ysgol i gyflawni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol.

Mae'r carfanau mwy o ddisgyblion yn Ysgol Gwynfryn hefyd yn debygol o gynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, trafodaeth, cymorth gan gyfoedion a chyfranogiad disgyblion, gan helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, meddwl yn feirniadol a gwaith tîm.

Mae Estyn yn nodi bod yr athrawon yn Ysgol Gwynfryn yn darparu profiadau dysgu ysgogol sy'n bachu dychymyg disgyblion ac yn helpu bron bob disgybl i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r arolygwyr hefyd yn nodi bod yr amrywiaeth

eang o brofiadau a ddarperir ar gyfer disgyblion iau yn hybu eu sgiliau dysgu annibynnol yn hynod effeithiol a bod yr athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu.

Mae'r cwricwlwm yn cael ei gyfoethogi drwy ymweliadau addysgol, ymwelwyr a phrofiadau sy'n hyrwyddo hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru, gan helpu i ddarparu amrywiaeth eang a diddorol o gyfleoedd dysgu i ddysgwyr.

Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gapasiti'r ysgol i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Disgwylir i'r trefniadau ffederal sefydledig, y strwythur staffio cynaliadwy, parhad darpariaeth y cwricwlwm a mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio gefnogi'r gwaith o gyflwyno a datblygu profiadau dysgu o ansawdd uchel i bob disgybl.

8. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gan fod yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig hwn neu sy'n cael eu heffeithio ganddo yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal ac mae wedi'i gynnwys yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth penodol sy'n dod i law.

8.1 Sut mae'r cynnig yn ffurfio rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd)

Mae Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig â'r targedau yn WESP yr Awdurdod Lleol er ei fod yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n nodi gweledigaeth ddeng mlynedd (2022-2032) i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – Cymraeg 2050. Byddai'r cynnig yn cynnal argaeledd darpariaeth Gymraeg.

Mae'r cynnig yn cynnwys trosglwyddo dysgwyr o un ysgol cyfrwng Cymraeg i'r llall a fyddai'n cadw cyfleoedd addysgol cyfrwng Cymraeg ac, os caiff ei reoli'n effeithiol, gallai gryfhau cynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Trwy gydgrynhoi disgyblion mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ehangach, mae'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu nifer y disgyblion a gwytnwch.

Ceir ystyriaeth bellach o effaith y cynnig ar y Gymraeg yn yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori hon sydd i'w weld yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar bwyntiau allweddol os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.

8.2 Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. Os mai lleihau'r ddarpariaeth y bydd, nodwch pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau

Byddai'r cynnig yn cynnal argaeledd darpariaeth Gymraeg. Mae Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn ill dau yn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Byddai hyn yn sicrhau y byddai mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gadw. Mae Asesiad Effaith cychwynnol ar y Gymraeg wedi'i gynnal ac mae wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.

Bydd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe ar hyn o bryd yn parhau i gael y cyfle i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy drosglwyddo i Ysgol Gwynfryn, sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Mae hyn yn sicrhau y gellir cynnal parhad addysg cyfrwng Cymraeg, ac y gall dysgwyr barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm Cymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) yr Awdurdod Lleol.

Bydd y cynnig yn atgyfnerthu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion sydd â mwy o gapasiti, staffio ac adnoddau. Mae hyn yn debygol o gryfhau ansawdd a chynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg, gan roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg ar draws ystod ehangach o gyd-destunau, yn yr ystafell ddosbarth a thrwy weithgareddau allgyrsiol.

I grynhoi, er y byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Carwe yn dod i ben, mae'r cynnig yn cynnal ac yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ehangach. Mae'n sicrhau mynediad parhaus, yn hyrwyddo cynnydd mewn dysgu Cymraeg, ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd a thwf hirdymor y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol ag amcanion WESP.

9 Cyllid

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn nodi bod yn rhaid cynnal dadansoddiad o effaith ariannol debygol y cynigion os cânt eu gweithredu.

9.1 Costau refeniw/rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, o leiaf, ac a yw'r cyllid refeniw/rheolaidd angenrheidiol ar gael (gan gynnwys costau staffio, cynnal a chadw adeiladau a chludiant ychwanegol)

Y costau refeniw rheolaidd y dylid eu hystyried fel arfer dros gyfnod o dair blynedd, o leiaf, yw'r costau blynyddol parhaus sy'n parhau ar ôl gweithredu'r cynnig, yn hytrach na chostau ymgynghori, cyfreithiol neu gyfalaf untro.

Ar gyfer cynnig i gau ysgol gynradd a throsglwyddo'r disgyblion i ysgol dderbyn gyfagos, byddai'r prif gostau refeniw rheolaidd fel arfer yn cynnwys:

1. Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Hon fyddai'r gost barhaus fwyaf sylweddol fel arfer.

- Gwasanaethau cludiant dyddiol dan gontract.

- Costau hebrwng lle bo angen.
- Cludiant ychwanegol ar gyfer dysgwyr ADY os ydynt yn gymwys.
- Rhagdybiaethau o ran tanwydd, cerbydau newydd a chwyddiant contractau.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r costau cludiant sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynnig yn seiliedig ar brisiau cyfredol a lleoliad presennol y disgyblion ac wrth dybio y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn.

2. Costau Staffio Ychwanegol yn yr Ysgol sy'n Derbyn

Pan fo nifer y disgyblion yn cynyddu'n ddigonol fel bod angen:

- Staff addysgu ychwanegol.
- Cynorthwywyr addysgu.

Byddai'r costau hyn yn cael eu cynnwys dim ond os bydd twf disgyblion yn sbarduno gofynion staffio ychwanegol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, byddai'r costau hyn yn cael eu cydbwyso gan gyllid ychwanegol fesul disgybl y mae'r ysgol yn ei dderbyn ar gyfer y disgyblion sy'n trosglwyddo.

3. Cymorth ADY ychwanegol

Pan fo angen y canlynol ar ddisgyblion sy'n trosglwyddo:

- Cymorth dysgu arbenigol.
- Cymorth ymddygiad.
- Cludiant arbenigol neu therapïau a ariennir gan yr awdurdod.

Dim ond ar ôl cael gwybod pa ysgol(ion) y mae disgyblion unigol yn debygol o drosglwyddo iddi/iddynt y gellid cyfrifo'r costau hyn. Gallai'r rhain arwain at arbedion hefyd, os oes cymorth ychwanegol eisoes ar gael yn yr ysgol sy'n derbyn ac nad oes angen ei gynyddu.

4. Costau cynnal safle cynyddol yn yr ysgol sy'n derbyn

Mae'n anodd meintioli'r rhain fel costau ychwanegol ac maent yn tueddu i fod yn weddol fach o gymharu â'r arbedion sy'n deillio o gau ysgol oherwydd bod yr ysgol sy'n derbyn eisoes yn wynebu'r costau sefydlog hyn, megis:

- Cyfleustodau (trydan, nwy, dŵr).
- Costau glanhau.
- Costau arlwyo.
- Trwyddedau a chymorth TGCh.

5. Parhau i gynnal a chadw adeiladau ar y safle sydd wedi cau (os caiff ei gadw)

Os nad yw'r hen adeilad ysgol yn cael ei waredu ar unwaith, gallai'r costau refeniw parhaus gynnwys:

- Diogelwch.
- Yswiriant.
- Gwaith cynnal a chadw sylfaenol.
- Cyfleustodau sydd eu hangen i gynnal a chadw'r adeilad.
- Cynnal a chadw tiroedd.

Mae'r costau hyn yn parhau nes bod yr adeilad yn cael ei waredu, ei drosglwyddo i'r gymuned, neu nes bod defnydd amgen yn cael ei wneud ohono.

6. Cymorth o ran Asedau Cymunedol neu Gyfleusterau a Rennir

Os bydd y Cyngor yn cadw rhan o'r safle at ddefnydd cymunedol:

- Rheoli'r adeilad.
- Cyfraniadau cyfleustodau.
- Cytundebau lefel gwasanaeth.
- Trefniadau cymorth prydlesu cymunedol.

7. Cynnydd o ran chwyddiant

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn disgwyl i gynigion ystyried costau yn y dyfodol yn hytrach na gwerthoedd y flwyddyn bresennol yn unig. Felly, dylai rhagolygon fel arfer ganiatáu ar gyfer:

- Chwyddiant cludiant.
- Dyfarniadau cyflog.
- Chwyddiant ynni.
- Cynnydd o ran contractau.

Ar gyfer y cynnig hwn, gellir amcangyfrif costau rheolaidd a refeniw parhaus fel a ganlyn:

Cost Refeniw Rheolaidd	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3**	**Cyfanswm**
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol	£93,100	£95,893	£98,770	£287,763
Staff Ychwanegol* - amcangyfrifir bod dau athro ychwanegol @ £67,567 yr un	£135,134	£139,188	£143,363	£417,685
Costau cynnal safle sydd wedi cau	£4,000	£4,120	£4,244	£12,364
Cyfanswm costau rheolaidd	£232,234	£239,201	£246,377	£717,812

** Yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol unigol a symudiadau posibl disgyblion / dewis rhieni*

Yn achos cau ysgol gynradd fach, cludiant yw'r unig gost reolaidd newydd yn aml, ac mae'r cynnig cyffredinol yn dal i greu arbediad refeniw blynyddol net.

9.2 A yw'r cynigion yn rhan o Raglen Fuddsoddi'r awdurdod lleol o dan y fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac felly'n cyfrannu at ddarpariaeth ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac at well rheolaeth strategol ar yr ystad ysgolion

Nid yw'r cynnig i gau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn yn rhan o raglen buddsoddi strategol yr Awdurdod Lleol ar gyfer yr 21ain ganrif. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu byddai'n arwain at ostyngiad yn yr ystad ysgolion ac yn gwella ei rheolaeth strategol. Mae adolygu maint a hyfywedd yr ystad ysgolion wedi'i nodi fel blaenoriaeth gorfforaethol i'r Awdurdod Lleol fel rhan o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2024.

9.3 Costau cyfalaf cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw gyllid cyfalaf ar gyfer y cynnig ar hyn o bryd.

9.4 Maint unrhyw arbedion net arfaethedig pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu (gan ystyried costau refeniw, cludiant a chyfalaf ysgolion) ac a gaiff unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd eu cadw yng nghyllideb ysgolion yr awdurdod lleol?

Dylid nodi, pan fydd ysgol yn cau, mae'n annhebygol iawn na fydd costau cludiant ychwanegol. Mae hyn oherwydd, trwy ddiffiniad, mae cau ysgol yn debygol o olygu y bydd plant yn preswylio ymhellach i ffwrdd o'u hysgol dalgylch ac felly'n gymwys i gael trafnidiaeth o dan Bolisi Trafnidiaeth Ysgol y Cyngor. Ar ben hynny, dylid nodi bod cyllideb y Cyngor ar gyfer cludiant ysgol ar wahân ac yn wahanol i'r gyllideb a ddirprwywyd i ysgolion.

Bydd arbedion refeniw sy'n deillio o gau'r ysgol fel arfer yn cael eu hailddosbarthu yn ôl i'r gyllideb ysgolion gyffredinol ond gallant hefyd fod yn arbedion uniongyrchol i gyllideb gyffredinol y Cyngor.

Mae cyllidebau ysgolion yn seiliedig i raddau helaeth ar niferoedd disgyblion. Mewn ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn isel, nid yw'r **cyllid fesul disgybl** yn ddigonol fel arfer i'r ysgol barhau i fod yn hyfyw o safbwynt gweithredol. Lle mae nifer y disgyblion yn isel, mae costau sefydlog, a chostau (megis staffio) nad ydynt yn cynyddu neu'n lleihau yn unol â nifer y disgyblion, yn ffurfio cyfran lawer uwch o gostau cynnal yr ysgol. Mae'r fformiwla gyllido felly yn cynnwys taliadau atodol megis taliadau ysgol fach a thaliadau atodol lleoedd gwag. Mae'r fformiwla felly yn cydnabod yr hyn sydd ei angen ar ysgol fach i weithredu gyda'r lleiafswm staffio sy'n briodol ac i dalu costau gweithredol. Mae'r taliadau atodol yn golygu bod y gost gyfartalog fesul disgybl wrth redeg ysgol lai yn fwy o gymharu ag ysgolion mwy.

Mae'r arbedion refeniw sy'n deillio o gau'r ysgol yn ymwneud â'r taliadau atodol sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb yr ysgol yn unig. Mae hyn oherwydd bod y cyllid fesul disgybl yn cael ei drosglwyddo gyda disgyblion i'w hysgol newydd. Mae hyn yn helpu'r ysgol sy'n derbyn i ddod yn fwy sefydlog a chynaliadwy yn ariannol.

Fodd bynnag, mae'r arbedion refeniw fel arfer yn cael eu dychwelyd i gyllideb gyffredinol yr ysgolion a'u hailddosbarthu ar draws y rhwydwaith ar ffurf cyllid i bob ysgol. Mae cyllideb ddirprwyedig yr ysgolion yn cynnwys cyllid fesul disgybl a thaliadau atodol i gefnogi lle na fyddai cyllid fesul disgybl yn ddigonol i ddiwallu anghenion sylfaenol yr ysgol. Felly mae taliadau atodol yn lleihau'r cyllid fesul disgybl sydd ar gael i bob ysgol arall, sy'n golygu bod y cyllid ychwanegol sydd ei angen ar gyfer ysgolion llai yn effeithio ar holl ysgolion yr Awdurdod.

Yn seiliedig ar y dyraniadau cyllid gwreiddiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27, mae'r arbedion refeniw blwyddyn lawn yn sgil cau Ysgol Carwe fel a ganlyn:

Tâl atodol	**Swm**
Tâl atodol ysgol fach	£0
Tâl Atodol Lleoedd Gwag	£1,127
Tâl Atodol Ffederasiwn	£12,000
Ardrethi Annomestig	£4,819
Cyfanswm	**£17,946**

Bydd y cyllid ar sail niferoedd disgyblion yn cael ei drosglwyddo gyda disgyblion i'w hysgol dderbyn.

Os nad yw ysgol yn cau ar 31 Mawrth, bydd dyraniad y flwyddyn gyntaf ar sail pro rata.

Mae enghraifft yn seiliedig ar flwyddyn lawn Ysgol Carwe yn seiliedig ar niferoedd disgyblion ar gyfer blwyddyn ariannol 26/27 fel a ganlyn:

Cyllid	
Cyllid fesul disgybl ar gyfer Ysgol Carwe - £4,951 y disgybl	£287,141
Cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (Amddifadedd, Plant sy'n Derbyn Gofal a Chynlluniau Datblygu Unigol)	£41,656
Cyfanswm	**£328,797**

Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, bydd y wybodaeth ariannol ddiweddaraf yn cael ei darparu pan fydd ar gael.

Mae'r cyllid hwn yn sicrhau bod modd talu unrhyw gostau refeniw ychwanegol a ddaw i ran yr ysgol sy'n derbyn, megis ar gyfer staff ychwanegol, a allai fod yn gysylltiedig â niferoedd disgyblion. Mae hefyd yn cefnogi sefydlogrwydd a chynaliadwyedd cyllideb yr ysgol sy'n derbyn os na fydd costau ychwanegol.

Os bydd Ysgol Carwe yn cau, bydd y balans, boed yn warged neu'n ddiffyg, yn trosglwyddo'n ôl i'r Adran Addysg.

Mae arbedion eraill yn deillio o gau'r ysgol ar wahân i gyllideb yr ysgolion, ac maent yn cynnwys arbedion corfforaethol yn sgil gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog i ysgolion o achos ôl troed ysgolion llai. Er bod rhai o'r rhain, megis Cymorth Adnoddau Dynol, Addysg a Gwasanaethau Cymorth ADY, Gwasanaeth Cerdd, Glanhau a Chynnal a Chadw Tiroedd yn anodd eu meintioli, gellir cyfrifo eraill.

Roedd Arolwg Cyflwr Adeiladau 2025 ar gyfer Ysgol Carwe yn rhagweld gwariant cynnal a chadw wedi'i gyfalafu o £2,058,271.00 dros gyfnod o bum mlynedd. Byddai hyn yn arwain at arbediad i'r Cyngor pe bai'r ysgol yn cau.

Mae'r Gwasanaeth Arlwyo yn darparu clwb brecwast (£12,654) i ddisgyblion a gwasanaeth cinio (£33,074) am gyfanswm cost flynyddol i'r Awdurdod Lleol o £45,728. Er bod hyn yn cael ei wrthbwyso gan y grant gan Lywodraeth Cymru o £18,641 i ddarparu prydau bwyd, mae arbediad net i'r gwasanaeth, ac felly i'r Cyngor o £27,087. Bydd grant Llywodraeth Cymru o £18,641 ar gyfer prydau bwyd yn symud gyda'r disgyblion i'w hysgol newydd. Mae'n annhebygol y bydd costau ychwanegol o ran darparu'r prydau bwyd yn yr ysgolion hynny, felly bydd cost net darparu'r gwasanaeth yn lleihau yn yr ysgol sy'n derbyn. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon ar wahân i gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgolion.

9.5 A fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffyg cyllidebol heb y cynigion;

Mae pob ysgol yn cael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod 70% o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail niferoedd disgyblion.

Mae'r tablau isod yn dangos sefyllfa ariannol hanesyddol a phresennol yr ysgol a'r hyn a ragwelir.

Balans diwedd blwyddyn	**(gwarged / diffyg) £**
2021/22	£40,829 (Gwarged)
2022/23	£24,996 (Gwarged)
2023/24	£35,868 (Gwarged)
2024/25	£15,680 (Gwarged)
2025/26	£4,706 (Gwarged)

2026/27

Swm cyllid yr ysgol	£346,743
Nifer y disgyblion (cyllid yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2026)	58
Cyllid fesul disgybl	£5,978
Cyllid prif ffrwd cyfartalog (ysgol gynradd) fesul disgybl	£5,969
Gwarged / diffyg rhagolwg Mawrth 2027 ym mis Mehefin 2026	£23,143 diffyg

Mae'r wybodaeth uchod yn dangos bod yr ysgol wedi cynnal gwarged yn y gyllideb ers 2020/21. Fodd bynnag, mae lefel y gwarged wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac roedd y balans terfynol wedi gostwng i £4,706 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhagweld cyllideb diffyg o £23,143 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/2027. Mae'r diffyg rhagamcanedig hwn yn dangos bod sefyllfa ariannol yr ysgol wedi dod yn fwyfwy heriol. Mae risg y gallai'r diffyg gynyddu ymhellach dros amser, gan roi pwysau ychwanegol ar allu'r ysgol i gynnal sefyllfa ariannol gynaliadwy heb ymyrraeth bellach.

Roedd gan Ysgol Gwynfryn warged o £48,525 yn y gyllideb ar ddiwedd blwyddyn 2024/25 ac ar hyn o bryd mae ganddi warged o £15,825 yn y gyllideb ar gyfer diwedd blwyddyn 2025/26. Byddai hyn yn gwella gyda chyllid ychwanegol ar sail nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo.

Dylid cydnabod bod taliadau atodol yn lleihau'r cyllid fesul disgybl sy'n cael effaith anfanteisiol ar bob ysgol fwy, ac felly yn effeithio ar fwy o ddisgyblion. Mae taliadau atodol uwch i ysgolion bach yn eu galluogi i bennu cyllideb gytbwys, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu balans. Mae cyfaddawd amlwg rhwng balans yr ysgol h.y. gwarged/diffyg a lefel y tâl atodol a roddir.

9.6 A fyddai'r enillion (derbyniadau cyfalaf) o werthu safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu'r broses o reoli lleoedd ysgolion yn effeithiol.

Fel rheol, o ganlyniad i Raglen Moderneiddio Addysg y Cyngor ac yn dilyn proses statudol ofynnol gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys yr holl asesiadau effaith priodol: cymuned, cludiant, y Gymraeg ac ati), bydd safleoedd ysgolion y nodwyd nad oes eu hangen mwyach at ddibenion addysg yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored, oni bai bod angen yr adeilad / safle diangen a'i fod yn cael ei gadw at ddefnydd corfforaethol mewnol neu fel arall ei drosglwyddo i'r gymuned.

Os gwneir y penderfyniad i gau Ysgol Carwe, gwneir asesiad i nodi unrhyw angen corfforaethol posibl am y safle. Os nodir angen o'r fath yna bydd yr ysgol yn cael ei throsglwyddo i'r adran berthnasol drwy broses feddiannu. Pan nad yw'n ofynnol cadw'r safle yn gorfforaethol, mewn rhai amgylchiadau efallai y byddai'n briodol ystyried defnydd cymunedol parhaus i gynnwys grwpiau gwirfoddol, elusennol a mentrau cymdeithasol.

Gellid cymeradwyo defnydd o'r fath os oes angen clir a nodwyd am y defnydd arfaethedig yn yr ardal a lle mae cynllun busnes priodol yn cael ei baratoi sy'n dangos hyfywedd y defnydd amgen ac a allai gefnogi adferiad economaidd gwledig yr ardal.

Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu safle diangen fel arfer yn cael eu clustnodi i'w defnyddio yn y dyfodol yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysgol yn y sir.

10 Tir ac Adeiladau

10.1 Manylion am unrhyw waith trosglwyddo neu waredu tir neu adeiladau a allai fod ei angen o ganlyniad i'r cynigion

Mae Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddai Ysgol Carwe yn mynd yn ddiangen. Yn gyffredinol, bydd ysgolion y nodwyd nad oes eu hangen mwyach at ddibenion addysgol yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored, oni bai bod angen yr adeilad / safle gwag a'i gadw at ddefnydd corfforaethol mewnol neu fel arall ei drosglwyddo i'r gymuned os yn briodol. Mae posibilrwydd y gallai'r Cylch Meithrin ddefnyddio'r adeilad unwaith eto.

10.2 A yw'r ysgol neu'r ysgolion dan sylw yn destun unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynigion effeithio arnynt

Mae Adran Gyfreithiol yr Awdurdod Lleol wedi adolygu dogfennau'r Gofrestrfa Tir a'r gweithredoedd swyddogol ac, o'r dogfennau sydd wedi'u hadolygu ar hyn o bryd, nid ydynt yn credu y bydd y cynnig i gau Ysgol Carwe yn effeithio ar unrhyw ymddiriedolaethau neu fuddiannau elusennol.

10.3 Ansawdd yr adeiladau yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni

Mae ansawdd yr adeilad a'r cyfleusterau yn Ysgol Gwynfryn ar hyn o bryd o'r un safon â'r rhai yn Ysgol Carwe o ran cyflwr, addasrwydd a'r cyfleusterau sydd ar gael. Er yr aseswyd bod gan Ysgol Gwynfryn Gyflwr Gradd C ac Addasrwydd Gradd B, bydd gwaith cynnal a chadw'r adeilad a wnaed yn yr ysgol yn ddiweddar yn darparu amgylchedd mwy cynaliadwy ar gyfer y ddarpariaeth addysgol yn y dyfodol. Mae manylion y sgoriau cyflwr ac addasrwydd ar gyfer pob adeilad ysgol yn cael eu dangos yn y tabl canlynol.

	Ysgol Carwe	**Ysgol Gwynfryn**
Cyflwr yr Adeilad	Gradd C - Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.	Gradd C - Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.
Addasrwydd Adeilad yr Ysgol	Gradd C - Gwael, caiff dulliau addysgu eu llesteirio/effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol	Gradd B – Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi cyflawni'r cwricwlwm mewn rhai meysydd.

10.4 Gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sy'n angenrheidiol i sicrhau y gellir darparu lle i'r plant sy'n cael eu trosglwyddo yn y ddarpariaeth amgen

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn a'i Chorff Llywodraethu i sicrhau ei bod yn gallu darparu ar gyfer pob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo. Cydnabyddir, pe bai'r holl ddisgyblion presennol neu


rai o'r disgyblion yn dewis trosglwyddo, y byddai'r ysgol sy'n derbyn ychydig dros ei chapasiti presennol a'i nifer derbyn mewn rhai grwpiau blwyddyn. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw gostau cyfalaf ar hyn o bryd.

11 Teithio a Chludiant

Dengys CYBLD 2026 fod gan Ysgol Carwe 58 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Y cynnig yw cau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn. Mae Ysgol Carwe ar y B4317 yng Ngharwe ac mae Ysgol Gwynfryn ar Heol y Meinciau (y B4309) ym Mhontiets. Mae tua 2.8 milltir (4.5 cilometr) rhwng y ddwy ysgol ar hyd y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r daith rhwng yr ysgolion fel arfer yn cymryd tua 6 i 10 munud mewn cerbyd, yn dibynnu ar y traffig, amodau'r ffordd a'r adeg o'r dydd. Mae'r pellter cymharol fyr rhwng y ddwy ysgol wedi galluogi disgyblion o Ysgol Carwe i fynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 heb gael effaith fawr ar amseroedd teithio cyffredinol, ac mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y gellir parhau i gynnal mynediad at y ddarpariaeth addysgol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Mae'r map canlynol yn dangos lleoliad y ddwy ysgol.



11.1 Newidiadau i drefniadau teithio dysgwyr a hygyrchedd y ddarpariaeth

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe ar hyn o bryd yn parhau i gael mynediad at eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn, sydd tua 2.8 milltir o hen safle Ysgol Carwe. Mae'r daith rhwng y ddwy ysgol fel arfer yn cymryd tua 6 munud mewn cerbyd, er y gallai'r amseroedd teithio amrywio yn dibynnu ar y traffig, y tywydd a'r adeg o'r dydd. Yn bwysig ddigon, mae'r disgyblion eisoes wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 yn dilyn cau adeilad Ysgol Carwe

oherwydd pryderon sylweddol ynghylch y strwythur ac iechyd a diogelwch. O ganlyniad, mae'r trefniadau teithio sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn eisoes wedi'u sefydlu ac mae'r dysgwyr a'r teuluoedd wedi cael cyfle i addasu iddynt.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi'i fodloni y byddai'r cynnig yn cynnal hygyrchedd i addysg cyfrwng Cymraeg, gan fod Ysgol Gwynfryn hefyd yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg Categori 3. Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael mynediad at y Cwricwlwm i Gymru, cymorth bugeiliol, darpariaeth ddysgu ychwanegol, gweithgareddau allgyrsiol a gwasanaethau cymorth arbenigol drwy'r trefniadau ffedereiddio presennol. Felly, byddai'r cynnig yn ffurfioli trefniant sydd eisoes wedi gweithio'n llwyddiannus ers cyfnod hir.

Yn unol â Pholisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor, darperir cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n byw mwy na'r pellter cerdded statudol (dwy filltir ar hyn o bryd) o'u hysgol gynradd ddalgylch ddynodedig. O ganlyniad, byddai cludiant am ddim ar gael i unrhyw ddysgwyr cymwys sy'n trosglwyddo i'w dalgylch newydd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim.

Er y bydd rhai dysgwyr a oedd yn cerdded i Ysgol Carwe yn flaenorol bellach yn dibynnu ar gludiant ysgol neu gael eu cludo gan eu rhieni o bosib, mae'r pellter cymharol fyr rhwng Carwe a Phontiets yn golygu bod hygyrchedd cyffredinol i addysg yn parhau i fod yn dda. Nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn creu rhwystr i fynediad addysgol ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro presenoldeb, prydlondeb a llesiant dysgwyr i sicrhau bod y trefniadau teithio yn parhau i fod yn effeithiol ac nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gyfranogiad mewn addysg. Bydd sylw arbennig yn parhau i gael ei roi i ddysgwyr sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol lle gallai fod angen trefniadau cludiant unigol.

Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol ar drefniadau teithio dysgwyr neu hygyrchedd i ddarpariaeth addysgol, yn enwedig gan fod disgyblion eisoes wedi addasu'n llwyddiannus i'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd.

11.2 Llwybrau Cerdded, Olwyno a Beicio

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd annog teithio llesol a chefnogi cyfleoedd i ddysgwyr gerdded, olwyno neu feicio i'r ysgol lle mae hyn yn ddiogel ac yn ymarferol. Felly, ystyriwyd y llwybrau teithio llesol sydd ar gael rhwng Carwe ac Ysgol Gwynfryn ac addasrwydd y llwybrau hynny.

Mae Ysgol Carwe ar y B4317 yng Ngharwe ac mae Ysgol Gwynfryn ar Heol y Meinciau (y B4309) ym Mhontiets. Mae'r llwybr rhwng y ddau leoliad tua 2.8 milltir o hyd ac mae'n dilyn rhannau o'r rhwydwaith priffyrdd lleol. Er bod cerdded a beicio yn darparu manteision iechyd, llesiant ac amgylcheddol cydnabyddedig, mae'r pellter dan sylw a natur y llwybr yn golygu bod teithio llesol yn annhebygol o fod yn opsiwn ymarferol bob dydd i lawer o ddisgyblion oedran cynradd.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi gofyn am asesiadau manwl o'r llwybr gan yr Uned Drafnidiaeth a rhoddir ystyriaeth i ffactorau gan gynnwys palmentydd, cyfleusterau

croesi, maint y traffig, lled y ffyrdd, goleuadau, gweledegdd a diogelwch cyffredinol y llwybr. Bydd yr asesiad hwn yn llywio dealltwriaeth yr Awdurdod o addasrwydd cyfleoedd teithio llesol sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

Cydnabyddir efallai na fydd rhai disgyblion a oedd yn byw o fewn pellter cerdded i Ysgol Carwe bellach yn gallu cerdded yn rhesymol i'r ysgol bob dydd. O ganlyniad, efallai y bydd llai o gyfleoedd teithio llesol i rai dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r newid hwn eisoes wedi digwydd ers i ddisgyblion ddechrau mynychu Ysgol Gwynfryn ym mis Medi 2025 ac mae teuluoedd wedi addasu yn unol â hynny.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i ystyried cyfleoedd i gefnogi teithio llesol lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys y defnydd posibl o fannau casglu dynodedig o ran cludiant a allai ganiatáu i rai disgyblion barhau i gerdded rhan o'u taith lle gellir gwneud hyn yn ddiogel.

Er y bydd llai o gyfleoedd teithio llesol o bosib o gymharu â'r trefniadau blaenorol yn Ysgol Carwe, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod yn rhaid i ddiogelwch cyffredinol dysgwyr barhau i fod yn brif ystyriaeth a bydd trefniadau cludiant addas yn parhau i gael eu darparu lle bo angen.

11.3 Yr Effaith ar Deithiau ac Amseroedd Teithio

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r disgyblion yn parhau i deithio rhwng ardal Carwe ac Ysgol Gwynfryn ym Mhontiets. Mae'r ddwy ysgol tua 2.8 milltir oddi wrth ei gilydd ar hyd y rhwydwaith ffyrdd a'r amser teithio fel arfer fydd tua 6 munud o dan amodau traffig arferol. Gallai hyd y daith amrywio yn dibynnu ar y traffig lleol, y tywydd a'r adeg o'r dydd.

Byddai'r cynnig yn arwain at deithiau dyddiol hirach i rai dysgwyr o gymharu â theithio i Ysgol Carwe pan oedd yn gweithredu o'i safle gwreiddiol. Fodd bynnag, mae'r disgyblion eisoes wedi wynebu'r patrymau teithio hyn ers mis Medi 2025 ac felly mae'n drefniant sefydledig yn hytrach na threfniant newydd.

Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod y mae disgyblion wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn wedi nodi pryderon mewn perthynas â phresenoldeb, prydlondeb, llesiant dysgwyr na mynediad at addysg sy'n deillio o'r trefniadau teithio diwygiedig. Mae gweithrediad llwyddiannus y trefniadau hyn yn arwydd ei bod yn debygol y bydd modd i ddysgwyr a theuluoedd ddygymod â'r trefniadau tymor hir arfaethedig.

Bydd yr effaith ar deuluoedd unigol yn amrywio yn ôl lleoliad y cartref a'r dull o deithio a ffefrir. Er y gallai rhai amseroedd teithio gynyddu ychydig, mae'r pellter cymharol fyr dan sylw yn golygu nad yw'r effaith gyffredinol yn cael ei hystyried yn ormodol o gymharu â llawer o deithiau o'r cartref i'r ysgol a wneir mewn mannau eraill yn y sir.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod y gall trefniadau teithio effeithio ar gyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol a digwyddiadau ysgol ehangach. Fodd bynnag, mae'r profiad a gafwyd ers mis Medi 2025 wedi dangos bod disgyblion wedi parhau i gymryd rhan yn llwyddiannus ym mywyd yr ysgol yn Ysgol Gwynfryn.

Yn gyffredinol, er bod y pellter teithio yn cynyddu o'i gymharu â mynediad at addysg yng Ngharwe, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod amseroedd teithio yn parhau i fod yn rhesymol ac na fyddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar allu dysgwyr i gael mynediad at ddarpariaeth addysgol.

11.4 Newidiadau mewn Trefniadau Teithio ar gyfer Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod trefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ddiogel, yn briodol ac yn ymatebol i amgylchiadau unigol. Felly, rhoddwyd ystyriaeth arbennig i effaith bosibl y cynnig ar y dysgwyr hyn.

Yn ôl data CYBLD 2026, mae Anghenion Dysgu Ychwanegol a nodwyd gan oddeutu 6.9% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe. Mae'r dysgwyr hyn eisoes wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 ac felly maent wedi profi'r trefniadau teithio sy'n gysylltiedig â'r cynnig am gryn amser.

Byddai trefniadau cymorth priodol sydd eisoes ar waith yn parhau ar ôl gweithredu'r cynnig. Bydd gofynion cludiant yn parhau i gael eu hasesu ar sail unigol a, lle bo angen, bydd trefniadau cludiant arbenigol, cymorth i deithwyr neu addasiadau rhesymol eraill yn parhau i gael eu darparu yn unol ag anghenion y dysgwyr.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio'n agos gyda theuluoedd, staff ysgol a gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod y ddarpariaeth cludiant yn parhau i fod yn addas a bod unrhyw anghenion newidiol yn cael eu diwallu'n briodol. Bydd Cynlluniau Datblygu Unigol presennol yn parhau i lywio penderfyniadau ynghylch trefniadau cymorth.

Gan fod disgyblion ag ADY eisoes wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i Ysgol Gwynfryn, ni ragwelir y bydd y cynnig yn creu heriau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chludiant y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes wedi'u hwynebu a'u rheoli drwy'r trefniadau presennol.

Hefyd, bydd dysgwyr yn parhau i elwa ar gael mynediad at systemau cymorth sefydledig, arbenigedd ac adnoddau addysgol ehangach sydd ar gael yn yr ysgol sy'n derbyn a'r ffederasiwn.

Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y gellir gweithredu'r cynnig heb effaith andwyol ar ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ar yr amod bod trefniadau cludiant a chymorth unigol priodol yn parhau.

11.5 Ystyriaethau o ran Cydraddoldeb a Hygyrchedd

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried goblygiadau'r cynnig yn unol â'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac wedi asesu'r effaith bosibl ar ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg drwy Ysgol Gwynfryn a byddent yn cadw mynediad at y cwricwlwm, gwasanaethau cymorth arbenigol, gofal bugeiliol a chyfleoedd addysgol

ehangach sydd ar gael yn yr ysgol. Felly, mae'r cynnig yn cynnal hygyrchedd addysgol wrth barhau â threfniadau sefydledig sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus ers mis Medi 2025.

Rhoddwyd sylw arbennig i ddisgyblion ag anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud lle bo angen a bod trefniadau cludiant yn cael eu teilwra i amgylchiadau unigol i gefnogi mynediad cyfartal at addysg.

Ni ddisgwylir i'r cynnig greu rhwystrau i ddysgwyr ar sail anabledd, hil, crefydd, rhyw, oedran neu unrhyw nodwedd warchodedig arall. Mae'r trefniadau cynhwysiant presennol yn y ffederasiwn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cefnogi dysgwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd ac amgylchiadau.

Er y bydd angen i rai teuluoedd deithio ymhellach o bosib, bydd cymorth cludiant cymwys yn parhau i gael ei ddarparu yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. Bydd y cymorth hwn yn helpu i leihau unrhyw effaith anghymesur ar y rhai y gallai newidiadau mewn trefniadau teithio effeithio'n andwyol arnynt.

Felly, credir bod y cynnig yn gydnaws â dyletswyddau cydraddoldeb yr Awdurdod Lleol ac ni ddisgwylir iddo leihau hygyrchedd i wasanaethau addysg neu gymorth.

Ar y cyfan, mae'r Awdurdod Lleol yn credu y bydd dysgwyr yn parhau i gael mynediad teg a chyfartal at ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

11.6 Costau Cludiant a Goblygiadau Teithio Ehangach

Disgwylir i weithredu'r cynnig gynyddu costau cludiant o'r cartref i'r ysgol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddysgwyr yn derbyn cludiant ysgol i Garwe o dan bolisi cludiant ysgol yr Awdurdod, er bod bws gwennol pwrpasol yn cludo dysgwyr o un man codi yng Ngharwe i ac o ysgol Gwynfryn o ganlyniad i gau adeilad ysgol Carwe dros dro ar hyn o bryd. Bydd y trefniant hwn yn parhau ar gyfer y rhai sydd wedi'u cofrestru yn ysgol Carwe ar hyn o bryd yn ogystal â brodyr a chwiorydd y gwyddys eu bod wedi gwneud cais am le yn ysgol Carwe erbyn y dyddiad cau Cost y trefniant hwn ar hyn o bryd yw £36,100 y flwyddyn.

Yn ogystal, byddai nifer o ddisgyblion sy'n mynychu ysgol Trimsaran ar hyn o bryd ond sy'n byw yn nalgylch Carwe yn cael hawl i gludiant i ysgol Trimsaran. Mae amcangyfrifon cyfredol yn dangos y byddai'r gost o ddarparu'r cludiant hwn oddeutu £57,000 y flwyddyn, er y bydd costau gwirioneddol yn dibynnu ar ddewis rhieni, nifer y disgyblion terfynol a threfniadau caffael trafnidiaeth. Gall costau cludo ychwanegol gael eu codi pan fydd dysgwyr sy'n mynychu ysgol Pontiets o'r tu allan i'r dalgylch yn trosglwyddo i ysgolion y byddai ganddynt hawl i gludo iddynt.

Er bod gwariant ar gludiant yn ymrwymiad refeniw parhaus, rhaid ei ystyried ochr yn ochr â'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol, yr amcangyfrifir ei fod tua £1.2 miliwn, a fyddai fel arall yn angenrheidiol i fynd i'r afael â'r diffygion strwythurol sylweddol sy'n effeithio ar adeilad Ysgol Carwe.

Gallai'r cynnig hefyd arwain at oblygiadau teithio ehangach i deuluoedd, gan gynnwys teithio i ddigwyddiadau ysgol, cyfarfodydd ymgynghori, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd ymgysylltu â rhieni. Fodd bynnag, mae'r patrymau teithio hyn eisoes wedi'u sefydlu yn ystod y cyfnod y mae disgyblion wedi mynychu Ysgol Gwynfryn ac nid ydynt yn ofyniad newydd sy'n deillio o'r cynnig yn unig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall mwy o symudiadau cerbydau gyfrannu at effeithiau amgylcheddol drwy allyriadau carbon ychwanegol. Serch hynny, mae'r pellter cymharol fyr rhwng Carwe a Phontiets yn golygu bod disgwyl i unrhyw gynnydd mewn allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio fod yn fach.

Lle bo'n bosibl, bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda darparwyr cludiant ac ysgolion i nodi trefniadau cludiant effeithlon ac annog cyfleoedd teithio cynaliadwy lle bo'n ymarferol ac yn ddiogel gwneud hynny.

Ar y cyfan, er y bydd y cynnig yn arwain at gostau cludiant parhaus a rhai goblygiadau teithio ehangach i deuluoedd, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod yr effeithiau hyn yn gymesur ac yn rhesymol pan fyddant yn cael eu cydbwyso â'r manteision addysgol, ariannol a strategol sy'n gysylltiedig â sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir.

12 Trefniadau Derbyn

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweinyddu'r broses dderbyn i Ysgol Gwynfryn neu unrhyw un ysgol arall a gynhelir gan Sir Gaerfyrddin yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion yr Awdurdod Lleol a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Yr Adran Addysg a Hamdden,
Cyngor Sir Caerfyrddin,
Adeilad 3,
Heol Spilman,
Caerfyrddin,
SA31 1LE

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n ofynnol i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid gyflwyno cais am le ysgol yn Ysgol Gwynfryn, neu ysgol arall o'u dewis yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â threfniadau derbyn ysgolion presennol y Cyngor. Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn dileu'r gofyniad i wneud cais drwy'r broses dderbyn arferol.

12.1 Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd


Yn 11 oed, mae plant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Rhaid cyflwyno cais ar gyfer yr ysgol uwchradd a ffefrir, gan nad oes trosglwyddiad awtomatig o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn ystod tymor yr hydref o flwyddyn olaf yr ysgol gynradd, bydd teuluoedd yn derbyn hysbysiad sy'n cynnwys gwybodaeth am bob ysgol uwchradd yn y sir a manylion ar sut i wneud cais.

Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Gellir cyflwyno ceisiadau am unrhyw ysgol uwchradd yn y sir. Mae'r cais yn seiliedig ar gartref y plentyn ac nid yr ysgol gynradd a fynychwyd.

12.2 Y Dalgylch


Y Dalgylch Presennol

Mae'r map isod yn dangos dalgylch presennol Ysgol Carwe.




Y Dalgylch (yn dilyn newidiadau 2027)

Mae'r map canlynol yn dangos sut y bydd y dalgylch yn cael ei ddiwygio ym mis Medi 2027 yn seiliedig ar adolygiad diweddar dalgylch eang yr Awdurdod Lleol.



Y Dalgylch Arfaethedig

Os cymeradwyir y cynnig, bydd dalgylch Ysgol Carwe yn cael ei ailddynodi yn nalgylch Ysgol Gymunedol Trimsaran fel y dangosir isod.



12.3 Trefniadau Pontio

Os caiff y cynnig ei weithredu, bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio'n agos gydag Ysgol Gwynfryn i sicrhau bod pob disgybl yn cael cymorth priodol. Mae'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe ar hyn o bryd eisoes wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 ar ôl i adeilad Ysgol Carwe gau ac, erbyn y dyddiad gweithredu arfaethedig, byddant wedi cwblhau blwyddyn academaidd lawn yn yr ysgol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r dysgwyr wedi dod yn gyfarwydd ag amgylchedd yr ysgol, arferion, staff, gwasanaethau cymorth a'u grwpiau cyfoedion, ac wedi parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn ddi-dor. O ganlyniad, mae llawer o'r trefniadau pontio sy'n gysylltiedig â throsglwyddo i ysgol arall eisoes wedi'u cyflawni'n llwyddiannus.

Ar gyfer disgyblion newydd sy'n ymuno yn y blynyddoedd nesaf, bydd rhaglen bontio gynhwysfawr yn parhau i gael ei darparu. Bydd hyn yn cynnwys ymweliadau ysgol, sesiynau ymgyfarwyddo a chyfleoedd i ddisgyblion gwrdd â staff a'u grwpiau cyfoedion cyn y broses dderbyn. Bydd rhieni a gofalwyr yn cael eu gwahodd i fynychu sesiynau gwybodaeth ac ymgysylltu i drafod trefniadau a chodi unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Rhoddir sylw arbennig o hyd i gefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dysgwyr eraill sy'n agored i niwed drwy ddatblygu cynlluniau pontio unigol a, lle bo angen, parhau â threfniadau cymorth priodol. Bydd llesiant a chymorth bugeiliol yn parhau i fod ar gael i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu ymgartrefu'n gyflym a chymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn parhau i gynnal trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu a rheoli gwybodaeth addysgol, llesiant a chymorth i sicrhau parhad dysgu a bod anghenion pob disgybl yn cael eu nodi a'u diwallu o'r adeg dderbyn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau profiad pontio cadarnhaol i ddysgwyr sy'n ymuno ag Ysgol Gwynfryn yn y dyfodol wrth gynnal y cymorth sydd eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer cyn-ddisgyblion Ysgol Carwe.

13 Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).

Â phwy yr ymgynghorir?

Bydd dolen i'r Ddogfen Ymgynghori yn cael ei darparu i'r rhanddeiliaid canlynol (fel y pennir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026):

Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid:

- Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt
- Darpar ddisgyblion, lle bo'n bosibl
- Disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt

- Yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sy’n mynychu ysgolion cynradd y mae dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i’r ysgol uwchradd yr effeithir arni;

Staff ac arweinyddiaeth yr ysgol:

- Aelodau staff ysgolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion
- Aelodau staff unrhyw ysgol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni
- Cyrff llywodraethu ysgolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion
- Cyrff llywodraethu unrhyw ysgol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni

Awdurdodau lleol a'r llywodraeth:

- Awdurdod cynhaliol ar gyfer yr ysgolion yr effeithir arnynt, gan gynnwys timau trafnidiaeth a phriffyrdd perthnasol
- Awdurdodau lleol cyfagos ac unrhyw awdurdod lleol arall y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt
- Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth DDdY arbenigol, unrhyw awdurdod lleol sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli dysgwyr ag ADY yn y ddarpariaeth
- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol o'r Senedd ac Aelodau Seneddol ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan yr ysgolion
- Estyn
- Gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol
- Medr (yn achos cynigion sy’n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion)

Grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr:

- Undebau athrawon ac undebau staff sy’n cynrychioli staff yn yr ysgolion dan sylw
- Cynghorau cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan yr ysgolion
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arni
- Sefydliadau addysg bellach sy’n gwasanaethu'r ardal (yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd)

Darpariaeth blynyddoedd cynnar ac ADY:

- Darparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin
- Sefydliadau ambarél cenedlaethol sy'n cefnogi darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys:
    - NDNA Cymru
    - Clybiau Plant Cymru

- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- PACEY Cymru
- Chwarae Cymru
- Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cyrff iechyd neu sefydliadau trydydd sector perthnasol (yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth DDdY/ADY)

Darpariaeth Gymraeg:

- Comisiynydd y Gymraeg (yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg)
- Mentrau Iaith perthnasol

Ymgynghori â Disgyblion

Bydd disgyblion yn cael copi o Ddogfen Ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc.

Hefyd, bydd cyfle i ddisgyblion (y Cyngor Ysgol o leiaf) yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir gan Swyddog Awdurdod Lleol neu drwy arolwg ar-lein pwrpasol.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r Adroddiad Ymgynghori a gyflwynir i'r Cabinet i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Cam 1. Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 10 Tachwedd 2026 ac yn dod i ben ar 22 Rhagfyr 2026.

Gallwch gyflwyno'ch sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig neu ddarparu awgrymiadau eraill.

Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Ystyried eich sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau, mynegi eich barn neu ddarparu opsiynau eraill i'w hystyried erbyn 22 Rhagfyr 2026 fan bellaf drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: AROLWG SNAP
- Anfon neges e-bost i: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

- Ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad canlynol: Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP

- Neu lenwi copi papur o'r ffurflen ymateb (Atodiad D) a'i dychwelyd at Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP neu anfon copi wedi'i sganio drwy e-bost i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Nodwch mai dim ond drwy un dull cyfathrebu y mae angen i chi gyflwyno'ch ymateb.

Bydd sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol. Gall ymgyngoreion gofrestru eu bod yn dymuno cael gwybod pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi drwy lenwi a chyflwyno'r ffurflen ymateb yn Atodiad D.

Bydd Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Cam 2. Cyfnod Gwrthwynebu o ran yr Hysbysiad Statudol

Os bydd Cabinet y Cyngor Sir yn penderfynu parhau â'r cynnig, rhaid cyhoeddi "Hysbysiad Statudol".

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad hefyd ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu neu gefnogi i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin. Gall ymgyngoreion gofrestru eu bod yn dymuno cael gwybod pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi drwy anfon e-bost i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk.

Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad.

Cam 3. Penderfyniad

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newid arfaethedig yn mynd yn ei flaen. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu

gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Cyngor Sir a chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad.

Amserlen a ragwelir ar gyfer gweithdrefnau statudol

Pe bai Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i gau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn, byddai'r amserlen a ragwelir fel a ganlyn:

Disgrifiad	**Hyd**
Ymgynghoriad Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.	O leiaf42 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 20 diwrnod ysgol) **10 Tachwedd 2026 - 22 Rhagfyr 2026**
Adroddiad Ymgynghori Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. NEU fel arall, daw'r cynnig i ben.	**Mehefin 2027** Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol
Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig:	
Hysbysiad Statudol Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol.	**Mehefin 2027 - Gorffennaf 2027** O leiaf 28 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 15 diwrnod ysgol a heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi)
Adroddiad Gwrthwynebu Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.	**Hydref 2027** Cyn pen 7 diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad y penderfyniad.
Penderfyniad	**Hydref 2027**

Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig.	Bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 16 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu
Os bydd y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r cynnig, bydd Ysgol Carwe yn cau.	**31 Rhagfyr 2027**

Cynnig i gau Ysgol Carwe

Atodiadau

Rhaid eu darllen ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Asesiadau Effaith

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal i asesu effeithiau'r cynigion ar gymuned Carwe. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn Atodiad A. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth perthnasol sy'n dod i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal i asesu effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth perthnasol sy'n dod i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae Asesiad Effaith Integredig cychwynnol wedi'i gynnal i'n helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn Atodiad C.

Rhaid darllen yr holl asesiadau effaith sydd yn yr atodiadau ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr asesiadau i gyd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar adegau allweddol yn ôl yr angen.

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Y Pwnc: Y cynnig i gau Ysgol Carwe a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad Effaith Cymunedol wrth ystyried cynigion i roi'r gorau i ysgol. Pwrpas yr asesiad yw nodi effeithiau posibl y cynnig ar y gymuned leol ac ystyried unrhyw fesurau a allai liniaru effeithiau andwyol.

Mae Ysgol Carwe wedi bod ar gau ers mis Medi 2025 ar ôl nodi materion strwythurol sylweddol a oedd yn gwneud adeilad yr ysgol yn anaddas ar gyfer defnydd addysgol parhaus. Ers hynny, mae disgyblion a oedd yn mynychu Ysgol Carwe yn flaenorol wedi mynychu Ysgol Gwynfryn tra'n aros ar gofrestr Ysgol Carwe.

Mae'r Asesiad Effaith Gymunedol hwn yn ystyried effeithiau tebygol y cynnig i gau Ysgol Carwe ar ddysgwyr, teuluoedd, sefydliadau cymunedol, gwasanaethau lleol a'r gymuned Carwe ehangach. Mae'r asesiad wedi'i lywio gan dystiolaeth o'r, gwybodaeth ddemograffig, data ysgolion ac ystyried cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol sydd ar gael yn yr ardal.

1. **Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol a disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill y tu allan i'r dalgylch:**

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill a pha ysgolion y maent yn eu mynychu.

Blwyddyn	**Nifer y Disgyblion**	**Yn y dalgylch**	**Y tu allan i'r dalgylch**	**Yn y dalgylch mewn ysgolion eraill***
CYBLD 2026	58	37	21	120*
Ysgolion eraill *Bancffosfelen, Porth Tywyn, Cross Hands, Dewi Sant, Ffwrnes, Gwenllian, Gwynfryn, Tre Ioan, Llangynnwr, Llechyfedach, Model, Mynyddygarreg, Myrddin, Nantgaredig, Hen Heol, Parc y Tywyn, Pen-bre, Ponthenri, Pontiets, Pontyberem, Pum Heol, Parc Waundew, Stebonheath, Swiss Valley, Trimsaran, y Bedol, y Castell				

Mae Ysgol Carwe yn gwasanaethu pentref Carwe a'r ardal wledig gyfagos. Ym mis Medi 2026, roedd 58 o ddisgyblion ar gofrestr yn yr ysgol. O'r disgyblion hyn, roedd 37 yn byw o fewn dalgylch yr ysgol a mynychodd 21 yr ysgol o'r tu allan i'r dalgylch trwy ddewis rhieni.

Yn ogystal, mynychodd 120 o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Carwe ysgolion amgen. Mae hyn yn dangos bod tua 76.4% o ddisgyblion oedran cynradd sy'n byw yn y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion heblaw Ysgol Carwe trwy ddewis rhieni.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos, er bod Ysgol Carwe wedi parhau i chwarae rôl addysgol bwysig yn y gymuned, mae cysylltiadau addysgol rhwng teuluoedd ac ysgolion cyfagos eisoes wedi'u sefydlu. Mae'r data'n awgrymu bod rôl yr ysgol fel prif ddarparwr addysg i blant sy'n byw yn y dalgylch wedi lleihau dros amser.

Ar ben hynny, mae'r holl ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025. O ganlyniad, mae'r trawsnewidiad addysgol sy'n gysylltiedig â'r cynnig eisoes wedi digwydd ac mae disgyblion wedi sefydlu o fewn yr ysgol sy'n derbyn.

Er nad yw data'r dalgylch yn adlewyrchu'n llawn arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol ehangach ysgol yn ei chymuned, mae'n dangos bod y cynnig yn annhebygol o effeithio'n sylweddol ar fynediad addysgol i'r mwyafrif o blant sy'n byw yn y dalgylch.

2. **Gwybodaeth am gyfran y dysgwyr sydd ar hyn o bryd o fewn trothwyon ar gyfer darpariaeth cludiant ysgol (2 filltir ar gyfer ysgol gynradd a 3 milltir ar gyfer ysgol uwchradd) sy'n mynychu'r ysgol a sut y bydd y cynnig yn effeithio arnynt;**

Nid oes unrhyw ddisgyblion yn derbyn cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar hyn o bryd i Ysgol Carwe.

Ar ôl cau adeilad yr ysgol ym mis Medi 2025, sefydlwyd trefniadau trafnidiaeth i hwyluso trosglwyddo disgyblion i Ysgol Gwynfryn.

Gan fod y trefniadau presennol wedi'u sefydlu ac yn gweithredu'n effeithiol, nid yw'r Awdurdod Lleol yn rhagweld unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar drafnidiaeth sy'n deillio o'r cynnig.

- ***Unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol neu wasanaethau y mae'r ysgol yn eu darparu:***

3. Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio (ar gyfer pob dull o drafnidiaeth) sy'n gysylltiedig â mynychu Ysgol arall o'r un categori iaith;

Mae Ysgol Gwynfryn wedi'i lleoli tua 2.8 milltir o Ysgol Carwe ac mae'n darparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

Gellir cwblhau'r daith rhwng Carwe ac Ysgol Gwynfryn yn gyffredinol o fewn tua phump i ddeg munud ar y ffordd. Er nad yw dysgwyr bellach yn mynychu ysgol sydd wedi'i lleoli yn y pentref ei hun, mae'r pellter dan sylw yn parhau i fod yn gymharol fyr ac mae'n debyg i deithiau a wneir gan lawer o ddysgwyr sy'n mynychu ysgolion gwledig ledled Sir Gaerfyrddin.

Ers mis Medi 2025, mae disgyblion wedi teithio i Ysgol Gwynfryn bob dydd ac nid oes unrhyw dystiolaeth bod trefniadau teithio wedi effeithio'n negyddol ar bresenoldeb, prydlondeb na mynediad at addysg.

Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai fod yn well gan rhai deuluoedd yr hwylustod o gael ysgol yn y pentref, mae'r pellter cymharol fyr i Ysgol Gwynfryn yn lliniaru'n sylweddol unrhyw effaith andwyol sy'n gysylltiedig â theithio.

Lle bo'n bosibl, bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth a rennir.

4. Effaith ar iechyd a lles e.e., os byddai dysgwyr yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol;

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod ysgolion yn cyfrannu'n sylweddol at iechyd a lles plant a phobl ifanc trwy gyfleoedd addysgol, rhyngweithio cymdeithasol, gweithgarwch corfforol a chefnogaeth emosiynol.

Gall y cynnig leihau cyfleoedd i rai dysgwyr gerdded neu feicio'n annibynnol i'r ysgol oherwydd y pellter cynyddol sy'n gysylltiedig â theithio i Ysgol Gwynfryn. Gall teithio llesol gefnogi iechyd corfforol a lles emosiynol ac felly mae'n ystyriaeth bwysig.

Fodd bynnag, mae disgyblion wedi mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 ac wedi llwyddo i addasu i'r newid mewn trefniadau. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod lles disgyblion wedi cael ei effeithio'n andwyol gan y trosglwyddiad.

Mae dysgwyr yn parhau i gael mynediad at gwricwlwm eang, trefniadau cymorth lles, gweithgareddau chwaraeon a chyfleoedd allgyrsiol. Mae'r ysgol dderbyn hefyd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu â grŵp cyfoedion ehangach a chymryd rhan mewn ystod ehangach o brofiadau addysgol a chymdeithasol.

Er y gall colli ysgol o fewn y pentref fod ag arwyddocâd emosiynol i rai unigolion, mae'r trefniadau trosglwyddo llwyddiannus sydd eisoes ar waith a pharhad y ddarpariaeth addysgol yn lleihau'n sylweddol y tebygolrwydd o unrhyw effaith andwyol sylweddol ar les y dysgwyr.

5. Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau yn eu cael ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus;

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith sylweddol ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal.

Mae'r gwaith o drosglwyddo disgyblion i Ysgol Gwynfryn eisoes wedi digwydd ac mae trefniadau trafnidiaeth cysylltiedig wedi'u sefydlu. Ni ddisgwylir y bydd angen seilwaith neu wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ychwanegol o ganlyniad i'r cynnig.

Mae'r Awdurdod Lleol felly o'r farn y byddai effaith y cynnig ar ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn ddibwys.

6. Gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach;

Efallai y bydd cau Ysgol Carwe yn cyflwyno rhai ystyriaethau diogelwch cymunedol, yn enwedig mewn perthynas â'r defnydd o safle yr ysgol yn y dyfodol.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, gall adeiladau'r ysgol aros yn wag am gyfnod hyd nes y bydd penderfyniadau ynghylch defnydd yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall adeiladau gwag weithiau fod yn agored i fandaliaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol, tresmasu neu dipio anghyfreithlon.

Fodd bynnag, byddai trefniadau rheoli a diogelwch priodol yn cael eu gweithredu lle bo angen a byddai'r defnydd o'r safle yn y dyfodol yn cael ei ystyried trwy brosesau rheoli asedau'r Cyngor.

Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi nad yw'r adeilad wedi gweithredu fel ysgol ers mis Medi 2025. O ganlyniad, mae llawer o'r goblygiadau ymarferol sy'n gysylltiedig ag absenoldeb adeilad ysgol weithredol eisoes wedi'u profi a'u rheoli'n llwyddiannus.

O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y gellir rheoli unrhyw oblygiadau diogelwch cymunedol yn briodol ac maent yn annhebygol o fod yn bryder hirdymor sylweddol

7. Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu lletya neu'n eu darparu;

Yn hanesyddol, darparodd Ysgol Carwe ystod o wasanaethau a chyfleusterau yn ogystal â'i swyddogaeth addysgol sylfaenol.

Roedd y rhain yn cynnwys darpariaeth clybiau brecwast, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd ar gyfer cynnwys rhieni ac ymgysylltu â'r gymuned. Roedd yr ysgol hefyd yn lletya'r Cylch Meithrin lleol, gan ddarparu cysylltiad pwysig rhwng y blynyddoedd cynnar ac addysg statudol.

Ar ôl cau adeilad yr ysgol, symudodd y Cylch Meithrin yn llwyddiannus i Neuadd Carwe ac mae'n parhau i weithredu o fewn y pentref. Mae hyn yn dangos bod cyfleusterau amgen ar gael i gefnogi gwasanaethau cymunedol.

Er y byddai'r cynnig yn arwain at gau'r ysgol yn barhaol, mae llawer o'r gwasanaethau a oedd yn gysylltiedig â'r ysgol eisoes wedi addasu'n llwyddiannus i drefniadau amgen. Felly, ystyrir bod yr effaith ar wasanaethau cymunedol yn gymharol gyfyngedig.

8. Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen y gall dysgwyr eu mynychu

Ar hyn o bryd mae Ysgol Gwynfryn yn darparu amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau i ddisgyblion a theuluoedd, gan gynnwys clwb brecwast dyddiol, gweithgareddau allgyrsiol drwy'r Urdd a darpariaeth ar ôl ysgol posibl yn y dyfodol trwy ddarparwr allanol. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal cysylltiadau cryf â sefydliadau cymunedol lleol, gan gynnwys grwpiau cymunedol, sefydliadau chwaraeon, mannau addoli a sefydliadau ieuenctid, sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyfleusterau cymunedol fel neuadd y pentref, clwb rygbi a chapeli ac eglwysi lleol yn rheolaidd ar gyfer perfformiadau, gwasanaethau a digwyddiadau cymdeithasol. Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu i gefnogi ymgysylltu â'r

gymuned ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o brofiadau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Yn ogystal â'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr ysgol ei hun, mae Ysgol Gwynfryn yn cynnal partneriaethau cryf gyda sefydliadau cymunedol lleol gan gynnwys capeli ac eglwysi, y clwb rygbi lleol, neuadd bentref, llyfrgell a grwpiau Sgowtiaid. Mae'r partneriaethau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn perfformiadau, gweithgareddau chwaraeon, gwasanaethau a digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned ehangach ac yn helpu i gefnogi ymgysylltiad â'r gymuned y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

9. Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a dysgwyr â'r ysgolion amgen neu sefydliadau addysg eraill ac unrhyw gyfleusterau y gallant eu cynnig:

Y cynnig yw i gau Ysgol Carwe a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gwynfryn. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses statudol a gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn y pen draw, byddai cymorth yn parhau i gael ei ddarparu i ddisgyblion a'u rhieni drwy gydol y broses. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod disgyblion o Ysgol Carwe eisoes wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 ar ôl cau adeilad Ysgol Carwe. Erbyn y dyddiad gweithredu arfaethedig, bydd dysgwyr wedi cwblhau blwyddyn academaidd lawn yn Ysgol Gwynfryn a byddant wedi dod yn gyfarwydd ag amgylchedd yr ysgol, arferion, staff, gwasanaethau cymorth a'u grwpiau cyfoedion.

O ganlyniad, mae llawer o'r gweithgareddau pontio sy'n gysylltiedig fel arfer â throsglwyddo ysgol eisoes wedi digwydd. Mae disgyblion wedi cael cyfle i ddatblygu cyfeillgarwch, cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol a chael eu hintegreiddio'n llawn i fywyd beunyddiol yr ysgol. Yn yr un modd, mae rhieni a gofalwyr wedi cael cyfleoedd i ymgysylltu â'r ysgol, mynychu digwyddiadau ysgol, cyfathrebu â staff a dod yn gyfarwydd â gweithdrefnau a disgwyliadau'r ysgol.

Bydd yr Awdurdod Lleol ac Ysgol Gwynfryn yn parhau i gefnogi disgyblion a theuluoedd drwy gydol y broses ymgynghori a thu hwnt. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu parhaus, cyfleoedd i rieni godi cwestiynau neu bryderon, a lles parhaus a chefnogaeth fugeiliol i ddysgwyr lle bo angen. Bydd sylw arbennig yn parhau i gael ei roi i ddysgwyr agored i niwed a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i sicrhau bod trefniadau cymorth priodol yn parhau i fod ar waith.

Ar gyfer unrhyw ddisgyblion newydd sy'n ymuno ag Ysgol Gwynfryn yn y blynyddoedd i ddod, bydd yr ysgol yn parhau i weithredu ei threfniadau pontio sefydledig, gan gynnwys ymweliadau ysgol, gweithgareddau ymgyfarwyddo, ymgysylltu â rhieni a chymorth wedi'i deilwra lle bo angen, i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu integreiddio'n llwyddiannus yng nghymuned yr ysgol.

Os bydd rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol arall heblaw Ysgol Gwynfryn, bydd angen iddynt ddilyn y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion sydd i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin.

10 P'un a yw'r ysgol yn ganolbwynt go iawn o fywyd cymunedol ai peidio, a ddefnyddir at ddibenion eraill fel cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, a chyfarfodydd eraill a fyddai'n dod i ben neu'n cael eu lleihau gan eu bod yn ofynnol i symud i rywle arall

Mae ysgolion yn aml yn cyflawni rôl o fewn cymunedau gwledig sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i ddarparu addysg. Maent yn aml yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, hunaniaeth gymunedol a gweithgarwch lleol. Gall presenoldeb ysgol gyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad o le, cydlyniant a chynaliadwyedd cymuned.

Yn hanesyddol, mae Ysgol Carwe wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd cymuned Carwe. Dros genedlaethau lawer, mae'r ysgol wedi gwasanaethu teuluoedd lleol ac wedi dod yn gysylltiedig yn agos â hanes a hunaniaeth y pentref. I lawer o drigolion, mae'r ysgol yn cynrychioli sefydliad cymunedol gwerthfawr ac yn rhan bwysig o fywyd y pentref.

Er nad oedd yr ysgol yn cael ei defnyddio'n helaeth ar gyfer nifer fawr o ddigwyddiadau cymunedol ffurfiol, ni ddylid mesur ei chyfraniad at fywyd cymunedol yn unig gan nifer yr archebion allanol. Roedd yr ysgol yn darparu cyfleoedd dyddiol ar gyfer rhyngweithio rhwng dysgwyr, rhieni, gofalwyr, staff ac aelodau o'r gymuned ehangach. Cyfrannodd y rhyngweithiadau rheolaidd hyn yn gadarnhaol at gydlyniant cymdeithasol ac yn helpu i gynnal perthnasoedd cymunedol cryf.

Roedd digwyddiadau ysgol, perfformiadau, gweithgareddau codi arian, achlysuron chwaraeon a dathliadau yn darparu cyfleoedd i aelodau o'r gymuned ehangach ddod at ei gilydd a chymryd rhan ym mywyd y pentref. Roedd yr ysgol hefyd yn cefnogi cysylltiadau rhwng cenedlaethau ac yn gweithredu fel symbol gweladwy o barhad cymunedol a buddsoddiad mewn cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd colli Ysgol Carwe felly yn cael ei ystyried gan rai trigolion fel newid sylweddol. Gall cau ysgol bentref gael effaith emosiynol a gall arwain at bryderon ynghylch cynaliadwyedd a hunaniaeth hirdymor y gymuned.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod yr effeithiau ymarferol sy'n gysylltiedig â cholli'r ysgol fel sefydliad addysgol gweithredol eisoes wedi digwydd ar ôl cau'r adeilad ym mis Medi 2025. Ers hynny, mae'r gweithgarwch dyddiol a oedd yn bodoli o amgylch yr ysgol o'r blaen wedi dod i ben ac mae'r gymuned wedi addasu i'r newid hwn.

Ar ben hynny, mae Carwe yn parhau i elwa o amrywiaeth o asedau a chyfleusterau cymunedol. Mae Neuadd Carwe yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gymuned ac mae bellach yn gartref i'r Cylch Meithrin lleol. Mae'r pentref hefyd yn elwa o gyfleusterau hamdden, darpariaeth chwaraeon a sefydliadau cymunedol sy'n parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chyfranogiad cymunedol.

Er na all y cyfleusterau hyn ddisodli arwyddocâd symbolaidd ysgol bentref yn llawn, maent yn parhau i gefnogi bywyd cymunedol ac yn helpu i gynnal cyfleoedd i breswylwyr ymgysylltu â'i gilydd. O ganlyniad, er y byddai'r cynnig yn arwain at golli

ased cymunedol sylweddol, mae presenoldeb cyfleusterau cymunedol amgen yn lleihau'r effaith gyffredinol.

Ar y cyd, mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol gymedrol ar hunaniaeth a chydlyniant cymunedol, yn bennaf oherwydd pwysigrwydd hanesyddol a symbolaidd yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r effaith hon yn cael ei liniaru gan argaeledd parhaus cyfleusterau cymunedol eraill a'r ffaith nad yw'r ysgol wedi gweithredu o'r pentref ers mis Medi 2025.

11 A fydd colli'r ysgol, ac o bosibl teuluoedd, yn cael effaith niweidiol ar economi ehangach y gymuned ai peidio;

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ystyried a allai terfynu ysgol gael effaith niweidiol ar yr economi leol a chynaliadwyedd ehangach y gymuned.

Mae gwybodaeth ddemograffig yn dangos bod gan Carwe broffil poblogaeth gymharol ifanc, gyda thua 24% o drigolion o dan 18 oed. Mae hyn yn awgrymu bod gwasanaethau i blant a theuluoedd yn parhau i fod yn rhan bwysig o seilwaith a hunaniaeth y gymuned.

Gall ysgolion gyfrannu at economïau lleol mewn sawl ffordd. Maent yn darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol, yn cynhyrchu gwariant ar nwyddau a gwasanaethau ac yn cyfrannu at atyniad ardal i deuluoedd sy'n ystyried adleoli. Gallant hefyd gefnogi hyfywedd gwasanaethau cymunedol a chyfrannu at ganfyddiadau ehangach o gynaliadwyedd cymunedol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall colli ysgol yn barhaol leihau atyniad y pentref i rai darpar deuluoedd â phlant oedran ysgol. Mewn cymunedau gwledig, mae presenoldeb ysgol bentref yn aml yn cael ei ystyried yn ffactor cadarnhaol wrth ystyried ble i fyw.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod cau adeilad Ysgol Carwe ym mis Medi 2025 wedi arwain at symudiad sylweddol o'r boblogaeth neu ddirywiad economaidd o fewn y gymuned. Mae teuluoedd yn parhau i fyw yn y dalgylch ac mae darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn Ysgol Gwynfryn. Mae argaeledd parhaus darpariaeth addysgol yn agos at Carwe yn lliniaru'n sylweddol yr effeithiau economaidd posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Yn ogystal, mae llawer o'r ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar weithgarwch economaidd lleol a newid poblogaeth, gan gynnwys argaeledd tai, cyfleoedd cyflogaeth, cysylltiadau trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau, yn parhau i fod yn ddigyfnewid.

Mae'r Awdurdod Lleol felly o'r farn, er y gall y cynnig gael effaith anuniongyrchol gymedrol ar ganfyddiadau o gynaliadwyedd cymunedol, mae'n annhebygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar yr economi leol ehangach.

12 Effaith gyffredinol cau ar y gymuned leol:

Byddai'r cau arfaethedig ar Ysgol Carwe yn cynrychioli cau sefydliad addysgol hirsefydlog yn ffurfiol a cholli ased cymunedol gwerthfawr. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yn llawn arwyddocâd y cynnig hwn a chryfder y teimlad a allai fodoli o fewn rhannau o'r gymuned ynghylch dyfodol yr ysgol.

Yn hanesyddol, mae Ysgol Carwe wedi gwneud cyfraniad pwysig i fywyd y pentref trwy ei darpariaeth addysgol, cefnogaeth i deuluoedd lleol a chyfraniad at hunaniaeth gymunedol. Mae'r ysgol wedi gwasanaethu cenedlaethau o blant ac wedi ffurfio rhan bwysig o wead cymdeithasol a diwylliannol y gymuned.

Byddai'r cynnig yn anochel yn arwain at golli'r ysgol fel sefydliad cymunedol gweladwy a gall rhai trigolion gael ei ystyried fel cyfrannu at leihau gwasanaethau lleol a seilwaith cymunedol. Mae canfyddiadau o'r fath yn ddealladwy o ystyried y rôl bwysig y mae ysgolion yn aml yn ei chwarae mewn cymunedau gwledig.

Serch hynny, mae'n bwysig ystyried y cynnig yng nghyd-destun yr amgylchiadau presennol. Mae adeilad yr ysgol wedi bod ar gau ers mis Medi 2025 ac mae disgyblion wedi mynychu Ysgol Gwynfryn trwy gydol y cyfnod hwn. Mae llawer o'r effeithiau ymarferol sy'n gysylltiedig ag absenoldeb ysgol yn y pentref felly eisoes wedi digwydd ac mae'r gymuned eisoes wedi addasu i'r newidiadau hyn.

Mae'r disgyblion wedi integreiddio'n llwyddiannus i'r ysgol sy'n derbyn ac yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, cymorth lles a chyfleoedd allgyrsiol. Mae'r trefniadau trafnidiaeth presennol wedi gweithredu'n llwyddiannus ac mae gwasanaethau cymunedol allweddol, gan gynnwys y Cylch Meithrin lleol, yn parhau i weithredu yn y pentref trwy ddarpariaeth amgen.

Mae'r pentref yn parhau i elwa o amrywiaeth o asedau cymunedol gan gynnwys Neuadd Carwe, cyfleusterau hamdden, clybiau chwaraeon a sefydliadau cymunedol. Mae'r cyfleusterau hyn yn parhau i ddarparu cyfleoedd i breswylwyr gyfarfod, cymryd rhan mewn gweithgareddau a chynnal cysylltiadau cymunedol.

Felly, mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd y cynnig yn cael rhywfaint o effaith andwyol ar hunaniaeth gymunedol a chanfyddiadau o gynaliadwyedd lleol. Fodd bynnag, gan ystyried yr holl ffactorau, gan gynnwys trosglwyddo dysgwyr yn llwyddiannus, argaeledd parhaus darpariaeth addysgol a chadw cyfleusterau cymunedol eraill, ystyrir nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar gynaliadwyedd hirdymor y gymuned.

13 Pa effaith y gallai cau ei chael ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol:

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau eraill yn y gymuned.

Er y gall ysgolion gefnogi ystod o weithgareddau a gwasanaethau cymunedol drwy ddarparu llety a chyfleusterau, mae'r profiad ar ôl cau adeilad yr ysgol yn dangos y gellir gweithredu trefniadau amgen yn llwyddiannus lle bo angen.

Enghraifft nodedig yw adleoli'r Cylch Meithrin lleol i Neuadd Carwe. Mae'r trawsnewidiad hwn wedi galluogi darpariaeth blynyddoedd cynnar i barhau o fewn y gymuned ac yn dangos bod llety amgen ar gael ar gyfer gwasanaethau cymunedol pwysig.

Mae argaeledd parhaus cyfleusterau cymunedol yn y pentref yn helpu i sicrhau bod grwpiau a sefydliadau lleol yn gallu parhau â'u gweithgareddau hyd yn oed yn absenoldeb adeilad yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r Awdurdod yn rhagweld y bydd y cynnig yn arwain at golli gwasanaethau lleol pwysig.

14 A fyddai cau yn annog teuluoedd â phlant oedran ysgol i adael y gymuned neu'n atal teuluoedd ifanc rhag symud i'r gymuned:

Mae presenoldeb ysgol leol yn aml yn cael ei ystyried yn ffactor pwysig mewn penderfyniadau ynghylch ble mae teuluoedd yn dewis byw. Mae ysgolion yn cyfrannu at ganfyddiadau o gynaliadwyedd cymunedol a gallant ddylanwadu ar atyniad ardal i breswylwyr presennol a darpar drigolion.

Mae proffil demograffig cymharol ifanc Carwe yn awgrymu bod gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn parhau i fod yn bwysig i'r gymuned. Cydnabyddir felly y gallai rhai trigolion fod yn pryderu y gallai terfynu Ysgol Carwe yn barhaol leihau atyniad y pentref i deuluoedd.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bod cau adeilad yr ysgol dros dro ers mis Medi 2025 wedi arwain at golli poblogaeth neu newidiadau sylweddol mewn patrymau preswylio. Ar ben hynny, mae darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn lleol drwy Ysgol Gwynfryn.

Er y gall rhai darpar deuluoedd roi gwerth ar fyw mewn pentref sy'n cynnwys ei ysgol ei hun, mae llawer o ffactorau yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch tai ac adleoli. Mae argaeledd darpariaeth addysgol gerllaw, mynediad at wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth, argaeledd tai a chysylltiadau trafnidiaeth i gyd yn cyfrannu at benderfyniadau o'r fath.

Mae'r Awdurdod Lleol felly o'r farn, er y gallai fod rhywfaint o effaith canfyddiadol yn gysylltiedig â'r cynnig, mae'n annhebygol o arwain at nifer sylweddol o deuluoedd sy'n gadael y gymuned neu atal teuluoedd newydd rhag symud i'r ardal.

15 Os darperir llety, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, lle byddent yn cael eu darparu pe bai'n cau:

Yn hanesyddol, roedd Ysgol Carwe yn darparu llety ar gyfer gweithgareddau addysgol, cymunedol a chymorth. Wrth ystyried y cynnig, mae'r Awdurdod wedi asesu argaeledd llety amgen yn y gymuned.

Mae Neuadd Carwe yn darparu cyfleuster cymunedol sefydledig a ddefnyddir yn dda sy'n gallu darparu ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae adleoli'r Cylch Meithrin lleol yn dangos ei addasrwydd fel lleoliad amgen ar gyfer gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Mae cyfleusterau hamdden a chymunedol eraill sydd wedi'u lleoli yn y pentref hefyd yn darparu cyfleoedd i weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r ysgol gynt barhau lle bo hynny'n briodol.

Er efallai na fydd gan leoliadau amgen yr un arwyddocâd hanesyddol neu gyfarwyddrwydd ag adeilad yr ysgol ei hun, mae eu hargaeledd parhaus yn lleihau'n sylweddol yr effaith bosibl sy'n deillio o golli'r ysgol fel lleoliad.

16 P'un a fydd cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu ehangach yn cael eu gwella pe bai ysgol yn cau:

Mae cymuned Carwe yn elwa o nifer o asedau a chyfleusterau cymunedol presennol yn y pentref a'r ardal gyfagos. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynigion penodol wedi'u nodi i wella'r cyfleusterau hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnig. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol ynghylch dyfodol safle Ysgol Carwe ac unrhyw gyfleoedd a allai godi i gefnogi darpariaeth gymunedol yn yr ardal. Byddai unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch defnyddio neu waredu'r safle yn cael eu hystyried ar wahân yn unol â gweithdrefnau rheoli asedau'r Cyngor. Yn ogystal, mae Ysgol Gwynfryn wedi sefydlu cysylltiadau ag ystod o gyfleusterau cymunedol lleol, gan gynnwys neuadd y pentref, clwb rygbi, llyfrgell, capeli ac eglwysi, sy'n parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau addysgol, hamdden a chymdeithasol.

Gall y cynnig ddarparu cyfleoedd ar gyfer mwy o ddefnydd o gyfleusterau cymunedol presennol o fewn Carwe.

Mae'r defnydd cynyddol o Neuadd Carwe yn dilyn cau adeilad yr ysgol yn dangos sut y gall cyfleusterau cymunedol addasu i amgylchiadau newidiol a pharhau i ddarparu gwasanaethau a chyfleoedd pwysig i breswylwyr.

Er na ellir tybio y bydd cau'r ysgol yn arwain yn uniongyrchol at welliannau i gyfleusterau eraill, efallai y bydd cyfleoedd i gryfhau rôl asedau cymunedol presennol trwy fwy o ddefnydd a chyfranogiad cymunedol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned leol ynghylch unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â safle'r ysgol a seilwaith cymunedol ehangach. Gall yr ymgysylltiad hwn helpu i nodi ffyrdd y gall cyfleusterau cymunedol barhau i gefnogi anghenion lleol yn y dyfodol.

Casgliad

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y rôl bwysig y mae Ysgol Carwe wedi'i chwarae yn y gymuned dros nifer o flynyddoedd ac yn cydnabod y byddai'r cynnig yn arwain at golli ased cymunedol gwerthfawr a hanesyddol.

Mae'r asesiad wedi nodi y gallai'r cynnig gael effeithiau andwyol mewn perthynas â hunaniaeth gymunedol, canfyddiadau o gynaliadwyedd a cholli ysgol yn y pentref. Mae'r effeithiau hyn yn fwyaf amlwg mewn perthynas â rôl hanesyddol yr ysgol fel canolbwynt i deuluoedd lleol a'i chyfraniad at gydlyniant cymunedol.

Fodd bynnag, mae'r asesiad hefyd wedi canfod bod llawer o'r effeithiau ymarferol sy'n gysylltiedig fel arfer â chau ysgol eisoes wedi digwydd ar ôl cau adeilad yr ysgol ym mis Medi 2025. Mae dysgwyr wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i Ysgol Gwynfryn, mae trefniadau trafnidiaeth wedi'u sefydlu, mae'r ddarpariaeth addysgol yn parhau yn lleol ac mae gwasanaethau cymunedol allweddol wedi addasu'n llwyddiannus.

Mae Carwe yn cadw ystod o gyfleusterau cymunedol pwysig, gan gynnwys Neuadd Carwe, cyfleusterau hamdden a sefydliadau cymunedol, sy'n parhau i gefnogi rhyngweithio cymdeithasol a chyfranogiad cymunedol.

Ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol, mae'r Awdurdod Lleol yn dod i'r casgliad, er y byddai'r cynnig yn cael rhywfaint o effaith andwyol ar y gymuned, mae'r effeithiau hyn yn cael eu lliniaru gan y trefniadau sydd eisoes ar waith ac nid ydynt yn cael eu hystyried yn debygol o effeithio'n sylweddol ar gynaliadwyedd, hyfywedd neu wydnwch hirdymor cymuned Carwe.

Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

1. Cyflwyniad a Phwrpas

Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn yn ystyried effeithiau tebygol y cynnig canlynol gan yr Awdurdod Lleol:

I newid darpariaeth addysg gynradd yn ardal Carwe, ward Llangyndeyrn, gan gynnwys cau Ysgol Carwe o 31 Rhagfyr 2027 ymlaen, gyda disgwyl i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Gwynfryn, Heol Y Meinciau, Pontiets, Llanelli, SA15 5SN o 1 Ionawr 2028 ymlaen.

Mae'r Asesiad yn cael ei baratoi i edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar yr egwyddor o drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg. Paratowyd yr asesiad yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) Llywodraeth Cymru 2026 (001/2026), Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Fframwaith Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin, a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

2. Methodoleg a Sylfaen Dystiolaeth

Mae'r Asesiad yn cael ei baratoi i edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Paratowyd yr asesiad yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) Llywodraeth Cymru 2026 (001/2026), Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Fframwaith Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin, a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Prif ddiben yr asesiad yw nodi, profi a rheoli'r effeithiau ar:

- gyfleoedd dysgwyr, teuluoedd, staff a'r gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg;
- parhad, ansawdd a hygyrchedd addysg cyfrwng Cymraeg;
- defnydd cymdeithasol ac anffurfiol o'r Gymraeg;
- cynaliadwyedd rhwydweithiau cymunedol a diwylliannol Cymraeg lleol;
- yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- targedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022–2032.

Mae'r asesiad yn gwahaniaethu rhwng cynnal lle mewn ysgol sy'n cynnig addysg Gymraeg a chynnal yr ecosystem iaith lawn. Mae'r ecosystem honno'n cynnwys patrymau defnydd rhwng cyfoedion, perthynas yr ysgol â rhieni, gweithgareddau'r Urdd, cysylltiadau cymunedol, cyfleoedd teuluol, a hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi.

3. Cyd-destun:

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effeithiau tebygol y cynnig i gau Ysgol Carwe, trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn, a gweithredu'r newidiadau cysylltiedig i'r dalgylch, fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori statudol.

Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn rhan o ffederasiwn sy'n cynnwys Ysgol Ponthenri. Mae adroddiadau Estyn 2024 yn nodi bod y staff yn defnyddio Cymraeg llafar safonol yn gyson, yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod eang o gyd-destunau, ac yn hyrwyddo balchder yn niwylliant a dwyieithrwydd Cymru. Mae'r ddwy ysgol yn darparu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg megis Clwb yr Urdd, chwaraeon yr Urdd, eisteddfodau ac ymweliadau addysgol sy'n cefnogi defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

Ers Medi 2025 mae disgyblion Ysgol Carwe wedi bod yn mynychu safle Ysgol Gwynfryn. O ganlyniad, mae rhai o effeithiau'r cynnig eisoes yn cael eu profi'n ymarferol ac mae hynny'n berthnasol wrth asesu'r effaith ar y Gymraeg.

4. Asesiad Effaith y Gymraeg (Tabl 1)

Mae'r adran hon yn asesu'r cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), yn benodol y Safonau Llunio Polisïau (Safonau 88–93), Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), a Safonau Gweithredol (Safonau 127–135).

Dylid nodi y bydd yr Asesiad Effaith y Gymraeg yn cael ei ddiweddaru yn rheolaidd er mwyn sicrhau ystyriaeth gydwybodol. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu ar gamau allweddol y broses statudol, gan gynnwys ar ôl ymgynghori a chyn penderfynu, i sicrhau bod unrhyw faterion neu adborth sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn llawn.

Byddwn yn cynnwys data, tystiolaeth, mewnwelediad ac adborth o ymchwil ac ymgynghoriadau mewnol a'r ymgynghoriad cyhoeddus wrth ddilyn y broses honno.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
Defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn yr ysgol (cyfarchiad, arwyddion, arferion, cyfathrebu cyffredinol)	Mae'r ddwy ysgol yn hyrwyddo defnydd dyddiol o'r Gymraeg ac mae Estyn yn nodi bod staff yn modelu iaith safonol a bod disgyblion yn defnyddio geirfa briodol ac yn dangos balchder yn eu dwyieithrwydd. Gall y cynnig gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg gyda grŵp ehangach o gyfoedion. Fodd bynnag, mae risg y gall cysylltiad llai uniongyrchol â chymuned Carwe leihau rhai cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn lleol.	Positif gyda risg negyddol fach	• Hyrwyddo defnydd dyddiol o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. • Datblygu mentrau llais dysgwyr drwy'r Gymraeg. • Cynyddu cyfleoedd rhyngweithio rhwng cyfoedion drwy weithgareddau cyfrwng Cymraeg.	• Cydweithio gyda phartneriaid cymunedol er mwyn cynnal gweithgareddau Cymraeg yn ardal Carwe lle bo'n ymarferol. Adeiladu ar berthnasau gwaith gyda sefydliadau megis y Mentrau Iaith a'r Urdd. • Mapio partneriaid cymunedol eraill a allai gynnig cefnogaeth bellach wrth hyrwyddo'r Gymraeg. • Monitro defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan ddisgyblion Carwe ar ôl gweithredu'r cynnig.	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
Safonau a darpariaeth gyfredol y Gymraeg	Mae adroddiadau Estyn yn dangos bod darpariaeth Gymraeg gref yn bodoli yn y ddwy ysgol. Mae staff yn modelu Cymraeg llafar o safon uchel ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo treftadaeth a hunaniaeth Gymreig yn effeithiol.	Positif	Cefnogi staff drwy ddysgu proffesiynol parhaus i gryfhau hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg a darparu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r safonau cyfredol. Monitro ac adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg drwy hunanwerthuso a chynllunio gwella ysgolion, gan sicrhau aliniad â'r disgwyliadau statudol. Sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob dysgwr, gyda gwahaniaethu a chefnogaeth briodol lle bo angen.	• Monitro cynnydd ieithyddol disgyblion. • Sicrhau cymorth ychwanegol i ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ieithyddol.	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
Cyfleoedd ar ôl ysgol a chyfoethogi (cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog)	Mae'r ddwy ysgol yn darparu gweithgareddau megis Clwb yr Urdd, chwaraeon yr Urdd a gweithgareddau cyfoethogi cyfrwng Cymraeg. Mae Gwynfryn hefyd yn cymryd rhan mewn eisteddfodau lleol ac yn darparu mynediad at gymorth trochi lle bo angen.	Positif gyda risg negyddol fach.	Defnyddio gweithgareddau ar ôl ysgol a gweithgareddau cyfoethogi i ddarparu cyd-destunau dilys, pleserus ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, gan gefnogi defnydd iaith anffurfiol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Cynyddu argaeledd clybiau, gweithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, er mwyn ehangu cyfleoedd i ddysgwyr. Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel yr Urdd, Menter Iaith a darparwyr lleol i gyfoethogi'r ddarpariaeth allgyrsiol	• Adolygu trefniadau cludiant. • Sicrhau nad yw disgyblion Carwe yn cael eu heithrio rhag gweithgareddau ar ôl ysgol.	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
			drwy gyfrwng y Gymraeg. Hyrwyddo gweithgareddau cyfoethogi cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddisgyblion a theuluoedd i annog cyfranogiad ac ymgysylltiad parhaus. Sicrhau bod cyfleoedd ar ôl ysgol a chyfoethogi yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, trwy gynllunio a chymorth priodol.		
Cyfleoedd cymunedol (cymorth i rieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach)	Mae Ysgol Gwynfryn yn gweithio gyda nifer o sefydliadau cymunedol lleol, gan gynnwys capeli, eglwysi, y clwb rygbi, llyfrgell a neuadd y pentref. Mae'r	Risg negyddol	Darparu gwybodaeth ddwyieithog, arweiniad a chyfleoedd ymgysylltu i rieni a gwarcheidwaid, gan	• Datblygu cynllun ymgysylltu cymunedol ar gyfer Carwe.	Positif gyda risg fach negyddol

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
	Gymraeg yn rhan o'r gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, gall cau Ysgol Carwe leihau gwelededdd sefydliadol y Gymraeg yn y gymuned honno. Mae'r asesiad ehangach hefyd yn amlygu'r angen i ystyried pellteroedd teithio ychwanegol a sut y gallai hyn gynyddu amser teithiau i ddisgyblion.		gefnogi hyder wrth ddeall a chefnogi addysg Gymraeg. Cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned drwy'r Gymraeg, gan gynnwys sesiynau gwybodaeth, gweithdai neu ddigwyddiadau anffurfiol lle bo hynny'n briodol. Cryfhau partneriaethau gyda sefydliadau cymunedol lleol e.e. Menter Iaith, yr Urdd a gwasanaethau cymorth i ymestyn cyfleoedd Cymraeg y tu hwnt i'r lleoliad ysgol. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau a	• Defnyddio cyfleusterau lleol amgen fel lleoliadau ar gyfer gweithgareddau Cymraeg. • Ymchwilio'r ffactorau teithio ac amser teithiau ymhellach er mwyn canfod camau lliniaru penodol.	

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
			chyfathrebu sy'n wynebu'r gymuned, gan atgyfnerthu ei gweledeedd fel iaith fyw o fewn y gymuned. Sicrhau bod cyfleoedd ymgysylltu â'r gymuned yn gynhwysol ac yn hygyrch, gan alluogi teuluoedd o bob cefndir i gymryd rhan ac ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Gymraeg.		
Cefnogaeth i gyfranogiad diwylliannol Cymru (Urdd, Mentrau Iaith, eisteddfodau, treftadaeth)	Mae'r ddwy ysgol yn hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau'r Urdd, eisteddfodau ac ymweliadau addysgol Cymraeg. Mae Estyn hefyd yn nodi bod y cwricwlwm yn adlewyrchu treftadaeth a diwylliant Cymru yn effeithiol.	Positif	Cryfhau a ffurfioli partneriaethau gyda'r Urdd, Menter Iaith lleol a sefydliadau diwylliannol Cymraeg i gynyddu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol cyfrwng Cymraeg.	Defnyddio digwyddiadau a pherfformiadau ysgol fel cyfleoedd dilys i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a magu hyder y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
			Ymgorffori diwylliant, treftadaeth a hunaniaeth Gymreig yn gyson ar draws y cwricwlwm a bywyd ysgol ehangach, gan gynnwys drwy Eisteddfodau, dathliadau a phrosiectau treftadaeth leol. Sicrhau bod gweithgareddau diwylliannol Cymraeg yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, trwy addasu a chymorth priodol.		
Aliniad â CSCA a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru	Mae'r cynnig yn cefnogi parhad addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cyd-fynd ag amcanion CSCA Sir Gaerfyrddin a Cymraeg 2050 drwy gynnal darpariaeth Gymraeg a hyrwyddo	Positif	Datblygu a gweithredu fframwaith trochi Cymraeg strwythuredig ar gyfer Dysgu Sylfaen, gan gynnwys arferion llafaredd, patrymau	Adolygu'r asesiad yn rheolaidd wrth i dystiolaeth newydd ddod i law. Cynnig sesiynau ymgysylltu Cymraeg	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
	defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.		iaith a dilyniant geirfa gyson. Darparu dysgu proffesiynol wedi'i dargedu i staff ar addysgeg trochi a chaffael iaith. Defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar chwarae, gweledol a phrofiad i atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws arferion dyddiol. Sicrhau bod trochi a darpariaeth ddwyieithog yn cael ei ddarparu trwy ddulliau cynhwysol, hygyrch, gan gynnwys cymorth gweledol, modelu ac ailadrodd. Darparu cymorth a monitro wedi'i dargedu i ddysgwyr sydd ag ADY i sicrhau	i'r teulu i gynyddu hyder a defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.	

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
			bod datblygiad y Gymraeg yn cael ei gefnogi'n briodol.		
Yr egwyddor o beidio â thrîn y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yr holl wasanaethau a chyfathrebiadau sy'n wynebu'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal.	Bydd yr holl weithgareddau ymgynghori, cyfathrebu a darparu gwasanaethau yn parhau i gael eu cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg.	Positif	Sicrhau bod y fersiwn sy'n addas i blant ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal a chefnogi dewisiadau iaith disgyblion. Ymgorffori adborth a gasglwyd gan blant a phobl ifanc yn y broses ymgynghori, gan sicrhau bod eu barn yn cael eu hystyried yn briodol.	Defnyddio iaith syml, delweddau a chyd-destunau cyfarwydd i annog ymgysylltu a galluogi dysgwyr i fynegi eu barn yn hyderus. Hwyluso cyfleoedd i ddisgyblion drafod y cynnig yn Gymraeg, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn prosesau cyfranogol a democrataidd.	Positif

5. Safonau'r Gymraeg (Tabl 2)

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith y cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), gan gynnwys y Safonau Llunio Polisi (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83), a'r Safonau Gweithredol (127–135).

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg	**Ydy – effaith gadarnhaol.**	**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (CSCA) 2022–2032**, Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi'r farn hon yn cynnwys dogfennau polisi strategol cenedlaethol a lleol perthnasol, yn enwedig Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (CSCA) 2022–2032, yn enwedig canlyniadau sy'n ymwneud â throchi cynnar, dilyniant, a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.	**Positif:** Mae'r cynnig yn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gaffael a defnyddio'r Gymraeg drwy drochi cynnar a llwybrau dilyniant clir, gan gefnogi defnydd mwy cyson o'r Gymraeg ar draws cyd-destunau dysgu, cymdeithasol a chymunedol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae unrhyw heriau tymor byr posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo yn cael eu lliniaru trwy weithredu fesul cam, cyfathrebu clir â theuluoedd a chefnogaeth barhaus i ddysgwyr a staff.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
Yr egwyddor o beidio â thrîn y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob gwasanaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r cynnig, a thrwy hynny atgyfnerthu cydraddoldeb ieithyddol a chydymffurfio â gofynion statudol.	Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015; dogfennaeth ymgynghori ddwyieithog; a sefydlu trefniadau cydymffurfio â Safonau Cymreig Awdurdod Lleol. *(Safonau Llunio Polisi 88–93)*	**Positif:** Mae'r cynnig yn atgyfnerthu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol drwy sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob gwasanaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, yn unol â Safonau'r Gymraeg. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae'r cynnig yn cynnal ac yn cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog, gan liniaru unrhyw risg o driniaeth anghyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.
Safonau Llunio Polisïau – ystyriaeth gydwybodol o'r Gymraeg	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn cael effaith uniongyrchol ar y Safonau Llunio Polisïau drwy ystyried yn benodol yr effaith ar y Gymraeg, asesu cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a nodi mesurau lliniaru i wella canlyniadau cadarnhaol.	Yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn, sydd wedi'i gwblhau wrth ddatblygu'r cynnig er mwyn nodi effeithiau, mesurau lliniaru a chyfleoedd i wella'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd yr asesiad effaith yn cael ei ddiweddaru wrth i dystiolaeth ychwanegol cael ei	**Positif:** Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu gan roi sylw penodol i'r Gymraeg, gyda chefnogaeth Asesiad Effaith ar y Gymraeg sy'n nodi effeithiau, mesurau lliniaru a chyfleoedd i wella'r defnydd o'r Gymraeg, yn unol â gofynion statudol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae ystyried effeithiau'r Gymraeg yn gynnar yn lliniaru'r risg o effeithiau andwyol anfwriadol.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
	Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn yn dangos bod ystyriaeth gydwybodol wedi'i roi i'r Gymraeg yn unol â **Safonau Llunio Polisi 88–93**, gan gynnwys ystyriaeth benodol o sut mae'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r egwyddor o drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg.	gyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori. Y **ddogfen ymgynghori statudol** sy'n ystyried effaith y cynnig ar y Gymraeg ac sy'n cynnwys trefniadau ymgysylltu dwyieithog. Aliniad â **Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2026**, sy'n gofyn am ystyriaeth benodol o'r Gymraeg wrth ddatblygu cynigion addysg. **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) Sir Gaerfyrddin 2022–2032**, sy'n darparu'r fframwaith strategol sy'n llywio'r cynnig.	

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		Polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys *Cymraeg 2050* a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, sy'n sail i'r disgwyliadau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.	
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau – gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn Gymraeg	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod yr holl wasanaethau, cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal, gan atgyfnerthu cydymffurfiaeth a chynnal cydraddoldeb ieithyddol. Bydd yr holl drefniadau ymgynghori a chyfathrebu yn parhau i gydymffurfio â'r **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83),** gan sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn	Rheoliadau **Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**, yn enwedig y **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83),** sy'n gosod gofynion statudol ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal. **Dogfen ymgynghori statudol** sy'n cadarnhau bod yr holl ddeunyddiau ymgynghori, gweithgareddau cyfathrebu ac	**Positif:** Mae'r cynnig yn cynnal ac yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod yr holl wasanaethau, gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal, gan gefnogi cydraddoldeb a hygyrchedd ieithyddol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae trefniadau darparu gwasanaethau dwyieithog yn cael eu gwella, ac ni ragwelir unrhyw ostyngiad yn y ddarpariaeth Gymraeg.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
	cael eu darparu i safon gyfartal ac nad ydynt yn cael eu lleihau o ganlyniad i'r cynnig.	ymgysylltu yn cael eu darparu yn ddwyieithog. **Trefniadau cydymffurfio Safonau'r Gymraeg sefydledig Cyngor Sir Caerfyrddin**, gan gynnwys gohebiaeth ddwyieithog, cyhoeddiadau ac arferion ymgysylltu â'r cyhoedd.	
Safonau Gweithredol – defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn cefnogi'r Safonau Gweithredol drwy gryfhau cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rolau proffesiynol, yn enwedig drwy fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dysgu proffesiynol wedi'i dargedu a datblygu capasiti'r gweithlu yn raddol.	Trefniadau datblygu'r gweithlu Cyngor Sir Caerfyrddin, gan gynnwys mynediad at hyfforddiant Cymraeg a dysgu proffesiynol yn unol â'r Safonau Gweithredol (Safonau 127–135). Aliniad â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Sir Gaerfyrddin 2022–2032, yn enwedig	**Positif:** Mae'r cynnig yn cefnogi mwy o ddefnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff drwy ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, gyda chefnogaeth gweithredu fesul cam a dysgu proffesiynol wedi'i dargedu, a thrwy hynny gryfhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae unrhyw bwysau posibl sy'n gysylltiedig â mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn cael eu lliniaru drwy

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		canlyniadau sy'n ymwneud â chryfhau'r gweithlu cyfrwng Cymraeg a defnydd mewnol o'r Gymraeg.	weithredu'n raddol, cynllunio'r gweithlu a mynediad at ddatblygiad proffesiynol.

6. Cyd-destun leithyddol Cymunedol

Proffil leithyddol

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn un o brif gadarnleoedd y Gymraeg yng Nghymru. Roedd 72,838 o bobl 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg yn 2021, sy'n cyfateb i 39.9% o boblogaeth y sir. Er bod hyn yn cynrychioli'r bedwaredd ganran uchaf yng Nghymru, mae hefyd yn cynrychioli gostyngiad o 5,210 o siaradwyr Cymraeg ers Cyfrifiad 2011, sef y gostyngiad pwynt canran mwyaf ymhlith holl awdurdodau lleol Cymru.

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws Sir Gaerfyrddin, gyda phwysau nodedig mewn trefi trefol ac ôl-ddiwydiannol. Er bod Sir Gaerfyrddin yn cadw cyfran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol, mae'r gyfran ymhlith grwpiau oedran iau wedi gostwng, gan dynnu sylw at bwysigrwydd trochi cynnar a chryfhau llwybrau iaith Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r cymunedau hyn.

Mae data Cyfrifiad 2021 hefyd yn dangos gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg, gan bwysleisio pwysigrwydd ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg ymhlith y genhedlaeth nesaf.

Mae ardaloedd Carwe, Pontiets a'r cymunedau cyfagos yn rhan o ardal lle mae'r Gymraeg yn parhau i chwarae rhan amlwg ym mywyd cymunedol a diwylliannol. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg, cylchoedd meithrin, gweithgareddau'r Urdd, capeli, clybiau chwaraeon a sefydliadau cymunedol lleol yn cyfrannu at gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw o fewn y gymuned.

Mae Adroddiad Estyn Ysgol Gwynfryn (Tachwedd 2024) yn nodi bod 37.8% o ddisgyblion oedran ysgol statudol Ysgol Gwynfryn yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod staff yn defnyddio iaith lafar safonol yn gyson a bod disgyblion yn defnyddio'r dafodiaith leol ac yn dangos balchder yn eu dwyieithrwydd.

Er nad yw data penodol ar gyfer dalgylch Carwe ar gael yn yr adroddiad Estyn oherwydd niferoedd bach, mae'r arolygiad yn dangos yr un patrwm cadarnhaol, gyda staff yn hyrwyddo defnydd dyddiol o'r Gymraeg a disgyblion yn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn llwyddiannus.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai ysgolion cyfrwng Cymraeg yw'r prif fecanwaith ar gyfer cynnal a datblygu defnydd y Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc yn yr ardal. O ganlyniad, mae parhad addysg cyfrwng Cymraeg yn ffactor allweddol wrth gefnogi amcanion Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.

7. Risgiau a Lliniaru

Risg	Lliniaru
Llai o weledd y Gymraeg yng Ngharwe	Datblygu cynllun gweithgareddau Cymraeg cymunedol. Cryfhau cysylltiadau â sefydliadau cymunedol (Menter Iaith, Yr Urdd); hyrwyddo cyfoethogi'r Gymraeg a chyfleoedd ymgysylltu â theuluoedd; creu cyfleoedd rheolaidd, dilys i ddisgyblion a theuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
Gwanhau ymdeimlad o berthyn ymhlith teuluoedd Carwe	Cynnal digwyddiadau a gweithgareddau yn y gymuned.
Rhwystrau cludiant i weithgareddau ar ôl ysgol	Adolygu trefniadau cludiant a monitro cyfranogiad.
Effaith ar bontio o'r Cylch Meithrin	Datblygu trefniadau pontio ffurfiol.
Cyfranogiad anghyfartal mewn gweithgareddau Cymraeg	Monitro cyfranogiad a gweithredu lle bo angen.
Diffyg tystiolaeth am effeithiau cymdeithasol tymor hir	Casglu tystiolaeth drwy'r ymgynghoriad a monitro ôl-weithredu.

8. Monitro a Gwerthuso

Bydd camau lliniaru a nodir yn yr asesiad hwn yn cael eu monitro drwy brosesau gwella Awdurdod Lleol ac ysgolion sefydledig ac adborth ymgynghori, gydag addasiadau yn cael eu gwneud lle bo angen i wneud y mwyaf o'r effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Bydd monitro parhaus yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys y Safonau Llunio Polisïau (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83) a'r Safonau Cyflenwi Gweithredol (127-135), gyda chamau cywiro wedi'u cymryd lle bo angen.

9. Mecanweithiau gwella parhaus:

Mae'r cynnig hwn yn dangos ystyriaeth gydwybodol glir i Gôd Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg, a bydd yr awdurdod lleol yn monitro canlyniadau'r Gymraeg drwy gydol dylunio, adeiladu a gweithredu, gan adolygu tystiolaeth yn flynyddol a mireinio camau gweithredu.

10. Casgliad a Chrynodeb

Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, asesir y bydd y cynnig yn cynnal parhad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion Ysgol Carwe. Mae'r dystiolaeth gan Estyn yn dangos bod darpariaeth Gymraeg, modelu iaith a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu wedi'u sefydlu'n gadarn ar draws y ffederasiwn.

Gall y cynnig greu cyfleoedd cadarnhaol drwy gyfuno profiadau, arbenigedd staff, gweithgareddau'r Urdd a chyfleoedd cymdeithasol drwy'r Gymraeg. Fodd bynnag, nodwyd effeithiau negyddol posibl mewn perthynas â cholli presenoldeb sefydliadol Cymraeg yng nghymuned Carwe, gwanhau cysylltiadau lleol, mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol, cludiant a phontio o'r Cylch Meithrin.

Ni ellir dod i gasgliad terfynol ar faint yr effeithiau cymunedol hyn nes bod barn disgyblion, rhieni, staff a'r cymunedau wedi'i dadansoddi. Yn amodol ar weithredu'r mesurau lliniaru, cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg a monitro'r canlyniadau, asesir ar hyn o bryd fod yr effaith addysgol ar y Gymraeg yn debygol o fod yn niwtral i bositif, ond bod risg negyddol weddilliol i weledd a defnydd cymunedol y Gymraeg yn ardal Carwe.

Bydd yr asesiad yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac eto cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Felly, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys gofynion **Safonau Llunio Polisïau 88–93** a **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1–83**, yn amodol ar y mesurau lliniaru a'r trefniadau monitro a amlinellir uchod.

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu ar gamau allweddol y broses statudol, gan gynnwys ar ôl ymgynghori a chyn penderfynu, i sicrhau bod unrhyw faterion neu adborth sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn llawn.

Atodiad C – Asesiad Effaith Integredig

Adroddiad Drafft Asesiad Effaith Integredig – Cynnig i gau Ysgol Carwe.

Asesiad Effaith Integredig Cyngor Sir Caerfyrddin

<table>
<tr><td colspan="4">MANYLION Y CYNNIG</td></tr>
<tr><td>Gwasanaeth ac Adran:</td><td>Cwblhawyd gan</td><td>Dyddiad yr asesiad cychwynnol:</td><td>Gorffennaf 2026</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Addysg a Gwasanaethau Plant</td><td rowspan="2">Y Rhaglen Moderneiddio Addysg</td><td>Fersiwn rhif:</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu:</td><td>Yn dilyn y cyfnod ymgynghori</td></tr>
<tr><td>Beth yw'r cynnig sydd i'w asesu?</td><td colspan="3">Cynnig i gau Ysgol Carwe o 31 Rhagfyr 2027 a throsglwyddo'r disgyblion presennol yn ffurfiol i Ysgol Gwynfryn o 1 Ionawr 2028. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys ailddynodi dalgylch presennol Ysgol Carwe fel ei fod yn rhan o ddalgylch Ysgol Gymunedol Trimsaran.

Mae'r cynnig yn dilyn cau adeilad Ysgol Carwe ym mis Medi 2025 ar ôl i ddiffygion strwythurol sylweddol gael eu nodi ym Mloc 3 yr ysgol. Daeth ymchwiliadau dilynol i'r casgliad na allai Bloc 3 barhau i gael ei ddefnyddio'n ddiogel ac y byddai angen ei ddymchwel.</td></tr>
<tr><td>Ar bwy fydd y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol?</td><td colspan="3">Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe ar hyn o bryd
Rhieni a gofalwyr y disgyblion hyn
Staff ysgol yn Ysgol Carwe
Corff Llywodraethu'r Ffederasiwn
Staff a disgyblion Ysgol Gwynfryn
Disgyblion yn y dyfodol sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Carwe
Cymuned Carwe
Cylch Meithrin a darpariaeth blynyddoedd cynnar cysylltiedig
Ysgolion eraill yn yr ardal leol</td></tr>
</table>

Wrth i chi gwblhau'r asesiad, gofynnir i chi nodi'r holl ffynonellau tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at ddata a dogfennau eraill ac ati a'u cwblhau trwy hyperddolenni

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) PUM FFORDD O WEITHIO ***(gelwir hyn yn egwyddor datblygu cynaliadwy hefyd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu fod y Cyngor yn ystyried sut mae unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn sylfaen)***		
Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw: '... bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.'		
Ffyrdd o Weithio	**Sut mae'r cynnig yn dangos ei fod wedi ystyried hyn?**	**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**
Tymor Hir **Cydbwyso anghenion tymor byr â rhai tymor hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol**	Mae'r cynnig yn darparu ateb tymor hir i broblem sylweddol yn ymwneud ag adeilad yn sgil nodi diffygion strwythurol ym Mloc 3 Ysgol Carwe. Yn dilyn ymchwiliadau penderfynwyd na allai'r adeilad barhau i gael ei ddefnyddio'n ddiogel ac y byddai angen ei ddymchwel. Amcangyfrifir mai cost ailgodi'r adeilad fydd oddeutu £1.2 miliwn, yn ychwanegol at gostau dymchwel. O ystyried bod disgyblion wedi mynychu Ysgol Gwynfryn yn llwyddiannus ers mis Medi 2025 drwy'r trefniadau ffedereiddio presennol, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn na fyddai ailgodi'r adeilad yn Ysgol Carwe yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau cyfalaf cyfyngedig. Mae'r cynnig yn sicrhau mynediad parhaus at addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchedd diogel ac yn cefnogi amcan y Rhaglen Moderneiddio Addysg o gynnal ystad ysgolion gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn ogystal â mynd i'r afael â methiant strwythurol adeilad yr ysgol, mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ystyriaethau	**Arolwg Strwythurol** **Argymhelliad i ddymchwel yr adeilad** **Amcangyfrifon costau cyfalaf** **Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg:** Yn nodi amcanion ar gyfer rhwydweithiau ysgolion cynaliadwy a gwella safonau addysgol.

	cynaliadwyedd hirdymor ehangach. Ar hyn o bryd mae Ysgol Carwe yn gweithredu gyda thua 50.8% o gapasiti dros ben ac mae rhagamcanion yn dangos bod lleoedd dros ben sylweddol yn debygol o barhau am y dyfodol rhagweladwy. Ar ben hynny, dim ond 37 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, tra bod 120 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion amgen. Mae hyn yn dangos bod y cynnig nid yn unig yn mynd i'r afael â materion llety uniongyrchol ond hefyd yn cefnogi defnydd effeithlon a chynaliadwy o adnoddau addysgol ledled y sir. Felly, mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at amcan y Rhaglen Moderneiddio Addysg o leihau capasiti dros ben a chynnal ystad ysgol gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.	
Atal **Atal problemau rhag digwydd neu waethygu**	Mae'r cynnig yn ceisio atal risgiau yn y dyfodol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, ansicrwydd ynghylch yr adeilad a rhwymedigaethau cyfalaf yn y dyfodol. Heb ymyrraeth, byddai angen buddsoddiad sylweddol i godi adeilad yn lle'r un sy'n cael ei ddymchwel a symud y ddarpariaeth yn ôl i safle Ysgol Carwe. Mae'r cynnig yn lleihau'r ansicrwydd pellach i ddisgyblion, rhieni a staff drwy ffurfioli'r trefniadau addysgol sydd eisoes wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus yn Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025. Felly, mae'r cynnig yn atal problemau a nodwyd o ran yr adeilad rhag gwaethygu wrth sicrhau parhad addysg i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.	**Asesiad Iechyd a Diogelwch** **Adroddiadau strwythurol** **Asesiadau risg**

Integreiddio **Cydnabod perthnasoedd a rhyngddibyniaeth â nodau llesiant eraill ac amcanion meysydd gwasanaeth a phartneriaid eraill.**	Mae'r cynnig yn dangos integreiddio drwy gydnabod y berthynas rhwng darpariaeth addysgol, rheoli asedau, cyllid cyhoeddus, addysg cyfrwng Cymraeg a llesiant cymunedol. Mae'r cynnig yn cefnogi Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor, y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, y Cwricwlwm i Gymru a'r Amcanion Llesiant. Byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnal drwy Ysgol Gwynfryn a byddai'r cynnig yn caniatáu i gyllid cyfalaf cyfyngedig flaenoriaethu darpariaeth addysgol gynaliadwy ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'r cynnig hefyd yn cysylltu â phrosesau cynllunio cludiant, cynllunio cymunedol a rheoli asedau ynghylch defnyddio safle Ysgol Carwe yn y dyfodol. Mae'r cynnig hefyd yn cefnogi dyheadau Cwricwlwm Cymru drwy alluogi dysgwyr i elwa o grwpiau cyfoedion mwy, mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu cydweithredol, llais disgyblion, cyfleoedd arweinyddiaeth a phrofiadau cyfranogiad ehangach. Yn ogystal, byddai lleihau nifer y safleoedd gweithredol o fewn y ffederasiwn o dri i ddau yn cryfhau gallu arwain ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau gwella ysgolion, gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy weithgarwch arolygu Estyn.	**Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg:** Yn nodi amcanion ar gyfer rhwydweithiau ysgolion cynaliadwy a gwella safonau addysgol. **Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026):** Yn gofyn am ystyried lleoedd gwag a'r effaith ar y gymuned. **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg:** Yn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg barhau ac yn cefnogi Cymraeg 2050. **Y Polisi Cludiant:** Cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys er mwyn cynnal hygyrchedd. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned:** Yn tynnu sylw at y cysylltiadau â sefydliadau a gwasanaethau lleol. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Cwricwlwm Cymru** Mae'r cynnig yn cefnogi dyheadau Cwricwlwm Cymru.
Cydweithio **Wedi'i gyflawni drwy weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol eraill (sector cyhoeddus, preifat neu**	Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu drwy waith ar y cyd rhwng Gwasanaethau Eiddo, Gwasanaethau Addysg, Trefniadaeth Ysgolion, Cyllid, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Cludiant, y corff llywodraethu, arweinyddiaeth y ffederasiwn ac aelodau etholedig.	Trafodaethau cychwynnol â Phennaeth Ysgol Carwe, cynrychiolwyr o'r Corff Llywodraethu ac Aelodau Lleol. **Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026):** Yn gosod gofynion statudol ar gyfer

wirfoddol) i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir	Mae symud y disgyblion yn llwyddiannus o Ysgol Carwe i Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 yn dangos gwaith partneriaeth effeithiol rhwng yr holl bartïon. Bydd y broses ymgynghori statudol yn caniatáu cydweithio pellach â rhieni, disgyblion, staff, undebau llafur, Estyn a rhanddeiliaid cymunedol.	ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. **Dogfen Ymgynghori:** Bydd yn amlinellu sut y gall rhanddeiliaid ymateb i'r cynnig a chyflwyno gwrthwynebiadau. **Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg:** Wedi'i ddatblygu ar y cyd ar draws meysydd gwasanaeth i sicrhau rhwydweithiau ysgolion cynaliadwy. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned:** Yn cynnwys adborth gan yr ysgol. **Adroddiadau Strwythurol**
Cynnwys **Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt**	Mae'r cynnig wedi cael ei lywio drwy drafodaethau ag arweinwyr ysgol, llywodraethwyr ac aelodau etholedig. Mae proses ymgynghori ffurfiol wedi'i sefydlu yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac mae'n darparu cyfleoedd i'r holl randdeiliaid fynegi eu barn drwy arolygon, gohebiaeth a chyfarfodydd ymgynghori. Bydd llais y disgyblion yn cael ei nodi drwy ddeunyddiau ymgynghori a sesiynau ymgysylltu sy'n briodol i'w hoedran, gan sicrhau bod plant y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniad.	**Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026):** Yn gosod gofynion statudol ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid. **Dogfen Ymgynghori:** Bydd yn amlinellu sut y gall rhanddeiliaid ymateb i'r cynnig a chyflwyno gwrthwynebiadau. **Dogfen Ymgynghori i Ddisgyblion** **Gwaith ymgysylltu a gynllunnir fel rhan o'r ymgynghoriad:** Arolwg ar-lein, ymatebion drwy e-bost, ffurflenni papur, a sesiynau ymgysylltu â disgyblion. **Ymrwymiad i gyhoeddi Adroddiad Ymgynghori:** Yn sicrhau bod adborth yn cael ei ystyried cyn gwneud penderfyniadau. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?

1. Tymor Hir	Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwynfryn ac yn monitro llesiant, presenoldeb a deilliannau addysgol disgyblion. Bydd cyfleoedd ar gyfer y defnydd o safle Ysgol Carwe yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn unol â pholisi'r Cyngor, a bydd unrhyw fuddsoddiad angenrheidiol yn Ysgol Gwynfryn yn cael ei ystyried i gefnogi anghenion addysgol yn y dyfodol.
2. Atal	Mae'r cynnig yn cael gwared â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r adeilad ysgol sy'n ddiffygiol yn strwythurol ac yn atal ansicrwydd pellach ynghylch y ddarpariaeth addysgol yn y dyfodol. Bydd cyfathrebu a chymorth parhaus yn cael eu darparu i ddisgyblion, staff a theuluoedd drwy gydol y broses, a bydd cymorth ychwanegol ar gael i ddysgwyr agored i niwed lle bo angen.
3. Integreiddio	Mae'r cynnig yn cefnogi amcanion y Rhaglen Moderneiddio Addysg, y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Amcanion Llesiant y Cyngor. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio ar draws gwasanaethau i sicrhau bod ystyriaethau addysgol, cludiant, cymunedol a llesiant yn cael eu hystyried drwy gydol y broses weithredu.
4. Cydweithio	Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio'n agos gydag arweinwyr ysgol, llywodraethwyr, staff, undebau llafur, sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid eraill i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynnig. Bydd trefniadau cydweithio sydd eisoes wedi'u sefydlu drwy'r ffederasiwn yn helpu i gynnal parhad i ddisgyblion a staff.
5. Cynnwys	Bydd cyfleoedd i randdeiliaid gymryd rhan drwy gydol y broses ymgynghori drwy gyfarfodydd, arolygon ac ymatebion ysgrifenedig. Bydd gweithgareddau llais disgyblion yn sicrhau bod barn y dysgwyr yn cael ei hystyried, a bydd adborth i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi a'i ystyried cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud.

CYDRADDOLDEBAU ***(mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol: dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau)***		
Nodweddion Gwarchodedig	**A yw'r cynnig yn effeithio ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig?**	**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**

Oedran	Mae'r cynnig yn cael effaith uniongyrchol ar ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Carwe ar hyn o bryd, eu rhieni/gofalwyr a staff yr ysgol. Credir y bydd yr effaith ar ddisgyblion yn fach oherwydd bod y disgyblion eisoes wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025. Mae grwpiau ffrindiau, arferion addysgol a threfniadau cymorth presennol eisoes wedi'u sefydlu. Efallai y bydd staff yn wynebu ansicrwydd ynghylch trefniadau cyflogaeth yn y dyfodol os bydd y cynnig yn mynd rhagddo. Gall y cynnig hefyd gael effaith gadarnhaol ar blant trwy fwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, grwpiau cyfeillgarwch mwy, cyfranogiad gwell mewn gweithgareddau allgyrsiol, cyfleoedd arweinyddiaeth disgyblion ehangach a mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu cydweithredol. Gall y profiadau hyn gyfrannu'n gadarnhaol tuag at hyder, lles a datblygiad personol disgyblion.	Data CYBLD (2026) yn dangos bod 58 o ddisgyblion ar y gofrestr. Proffil staffio Data Presenoldeb
Anabledd	Ni ragwelir unrhyw effaith andwyol anghymesur. Mae gan Ysgol Gwynfryn Gynllun Hygyrchedd sefydledig ac mae disgyblion sydd angen cymorth ADY eisoes wedi llwyddo i gael mynediad at ddarpariaeth yno ers mis Medi 2025. Bydd unrhyw addasiadau rhesymol angenrheidiol yn parhau i gael eu gwneud yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.	Mae gan Ysgol Gwynfryn gynllun hygyrchedd. Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol. Cynllun Datblygu Unigol

	Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol drwy ddarparu mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleusterau, adnoddau a gwasanaethau cymorth. Mae tystiolaeth o'r cyfnod ers mis Medi 2025 yn dangos bod dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol eisoes wedi llwyddo i gael mynediad at ddarpariaeth yn Ysgol Gwynfryn. Mae'r trefniadau cymorth presennol, ymyriadau arbenigol, mesurau hygyrchedd a systemau cymorth lles eisoes wedi'u sefydlu ac yn gweithredu'n llwyddiannus. Mae hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth gref bod y cynnig yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar ddysgwyr ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol.	
Ailbennu rhywedd	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn ymwneud â hunaniaeth rhywedd nac yn cynnwys newidiadau a fyddai'n effeithio ar unigolion sy'n mynd neu wedi mynd drwy broses ailbennu rhywedd. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai effeithiau negyddol yn gysylltiedig â'r cynnig o ran y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â straen posibl yn ymwneud ag addasu i amgylcheddau cymdeithasol newydd lle gallai arferion cynhwysiant fod yn wahanol.	Nid yw natur y cynnig (cau ysgol a throsglwyddo'r disgyblion) yn gysylltiedig â'r nodwedd hon. Cadarnhau gyda'r ysgol a yw hyn yn effeithio ar unrhyw ddisgyblion / staff?
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Nid yw'r nodwedd warchodedig hon yn uniongyrchol berthnasol i ddisgyblion. Dim effaith benodol ar staff wedi'i nodi. Gallai'r cynnig arwain at newidiadau i drefniadau cyflogaeth ar gyfer staff, gan gynnwys y potensial ar gyfer prosesau adleoli neu	Cwmpas y cynnig wedi'i gyfyngu i ddarpariaeth ysgol.

	ddileu swyddi. Fodd bynnag, byddai'r effeithiau hyn yn berthnasol waeth beth yw statws priodasol neu bartneriaeth sifil unigolyn ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n briod neu bobl mewn partneriaeth sifil. Byddai unrhyw oblygiadau staffio sy'n deillio o'r cynnig yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor.	
Hil	Gallai'r cynnig effeithio ar ddisgyblion a theuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol gan y gallai eu hanghenion diwylliannol neu ieithyddol fod yn llai cyfarwydd i'r ysgol amgen. Bydd yr effaith hon yn cael ei lliniaru drwy sicrhau bod yr ysgol sy'n derbyn yn gwbl barod i gefnogi'r holl ddisgyblion a'u hanghenion unigol. I bob pwrpas mae proffil ethnigrwydd Ysgol Carwe yn debyg i Ysgol Gwynfryn, gan mai disgyblion Gwyn Prydeinig sydd gan y ddwy ysgol i raddau helaeth iawn. Yn Ysgol Carwe Gwyn Prydeinig yw 56 o'r 58 o ddisgyblion (96.6%). Y disgyblion eraill yw un disgybl o ethnigrwydd Affricanaidd (1.7%) ac un disgybl o ethnigrwydd Sipsi Prydeinig (1.7%). Mewn cymhariaeth, yn Ysgol Gwynfryn Gwyn Prydeinig yw 57 o'r 60 o ddisgyblion (95.0%), ac mae'r disgyblion eraill yn cynnwys dau ddisgybl o ethnigrwydd Tsieineaidd neu Brydeinig Tsieineaidd (3.3%) ac un disgybl o ethnigrwydd Gwyn ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall (1.7%). Er bod y grwpiau ethnig penodol a gynrychiolir ychydig yn wahanol rhwng y ddwy ysgol, mae'r ddau leoliad yn cael eu nodweddu gan boblogaeth disgyblion Gwyn Prydeinig	Mae adroddiad Estyn ar gyfer Ysgol Gwynfryn yn cadarnhau bod athrawon a staff yn trin disgyblion yn gyfartal. Polisïau cydraddoldeb Datganiadau cynhwysiant ysgolion

	yn bennaf, gyda chyfran fach o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Felly, mae cyfansoddiad ethnig cyffredinol y ddwy ysgol yn debyg fwy neu lai. Mae'r data'n awgrymu y byddai'r disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Carwe i Ysgol Gwynfryn yn parhau i gael mynediad at addysg mewn cymuned ysgol sy'n adlewyrchu proffil demograffig tebyg i'r hyn a geir ar hyn o bryd. Nid oes disgwyl i'r cynnig arwain at unrhyw effaith andwyol uniongyrchol ar ddisgyblion ar sail hil neu ethnigrwydd. Byddai disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n mynychu Ysgol Carwe ar hyn o bryd yn ymuno â chymuned ysgol sydd eisoes yn cynnwys disgyblion o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig a lle byddai polisïau, gweithdrefnau a threfniadau o ran y cwricwlwm sydd â'r nod o hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn berthnasol. Ni fyddai'r cynnig yn newid hawl disgyblion i gefnogaeth, cyfranogiad, neu fynediad at gyfleoedd addysgol ar sail eu hil neu eu hethnigrwydd. Cydnabyddir hefyd fod ysgolion yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo dealltwriaeth a pharch rhwng pobl o gefndiroedd gwahanol. Er bod gan y ddwy ysgol nifer gymharol fach o ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol, mae gan Ysgol Gwynfryn rywfaint o amrywiaeth ethnig yn ei phoblogaeth disgyblion. Gallai hyn roi cyfleoedd i ddisgyblion ryngweithio â phlant o amrywiaeth ehangach o gefndiroedd a dysgu ochr yn ochr â nhw, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddiwylliannol yn unol â nodau'r Cwricwlwm i Gymru. Fel yn achos pob disgybl y mae'r cynnig yn effeithio arno,	

	bydd profiadau a barn unigol disgyblion a theuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori. Bydd adborth a gyflwynir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i nodi a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol i sicrhau nad yw'r cynnig yn rhoi unrhyw ddisgybl neu grŵp o ddisgyblion dan anfantais ar sail hil neu ethnigrwydd. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, nid oes unrhyw effaith negyddol sylweddol ar unigolion sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon wedi'i nodi. Mae adroddiadau arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn yn dangos bod y ddwy ysgol yn hyrwyddo amgylcheddau dysgu cynhwysol, gofalgar a chefnogol. Mae Estyn yn nodi bod y pennaeth a'r tîm rheoli yn cael dylanwad cadarnhaol ar y ddwy ysgol drwy greu "cymuned ofalgar", lle mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn dangos mwynhad yn eu gwersi. Yn ôl yr adroddiad, drwy gydweithio agos ar draws y ffederasiwn, a thrwy'r gofal a gynigir i'r disgyblion, mae'r holl staff yn ymgorffori arwyddair y ffederasiwn, sef "law yn llaw y daw llwyddiant". Mae Estyn hefyd yn nodi bod yr athrawon yn darparu profiadau dysgu ysgogol sy'n datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu a bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddylanwadu ar eu dysgu. Mae'r adroddiadau hefyd yn nodi bod bron pob disgybl yn datblygu perthynas gadarnhaol â staff a'u cyfoedion a bod yr ysgolion yn rhoi pwyslais cryf ar gymorth a llesiant disgyblion. Awgryma'r canfyddiadau hyn fod y ddwy ysgol yn meithrin amgylcheddau lle mae disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cefnogi a lle mae cydraddoldeb, cynhwysiant a pherthnasoedd cadarnhaol	

	yn rhan annatod o ethos yr ysgol. O ganlyniad, byddai disgwyl i ddisgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt barhau i ddysgu mewn amgylchedd gofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo parch at eraill ac yn cefnogi llesiant pob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir ethnig neu o ran hil. Mae'r integreiddio llwyddiannus o ddisgyblion Ysgol Carwe yn Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 yn darparu tystiolaeth bellach bod dysgwyr yn parhau i gael mynediad at amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol. Mae canfyddiadau arolygiad Estyn yn tynnu sylw at y diwylliant gofalgar a pharchus ar draws y ffederasiwn ac yn dangos bod y ddwy ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn weithredol. Mae'r ddwy ysgol yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.	
Crefydd/Cred	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn newid mynediad at addysg ar sail crefydd neu gred ac nid yw'n effeithio ar ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Byddai'r disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn yn parhau i gael mynediad at yr un cwricwlwm statudol a chyfleoedd addysgol. Nid yw'r cynnig yn cyfyngu ar allu disgyblion, rhieni, gofalwyr neu staff i ymarfer neu fynegi eu crefydd neu eu credoau. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar unigolion o unrhyw grŵp ffydd neu grŵp cred penodol, na'r rheiny heb grefydd na chred.	Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cymunedol heb gymeriad crefyddol dynodedig.

	Gallai'r cynnig effeithio ar ddisgyblion a theuluoedd sydd â chredoau crefyddol penodol, gan y gallai eu crefydd a'u harferion fod yn llai cyfarwydd i'r ysgol amgen. Bydd yr effaith hon yn cael ei lliniaru drwy sicrhau bod yr ysgol sy'n derbyn yn gwbl barod i gefnogi'r holl ddisgyblion a'u hanghenion unigol.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Effaith fach bosibl ar rieni sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth oherwydd newidiadau i drefniadau teithio. Mae mesurau lliniaru yn cynnwys cyfathrebu clir a chymorth o ran cludiant. Bydd staff beichiog, y rhai ar gyfnod mamolaeth, neu'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith yn cael mynediad at gyngor ac arweiniad Adnoddau Dynol parhaus drwy gydol y broses weithredu. Bydd enw person cyswllt Adnoddau Dynol yn cael ei nodi ar gyfer ymholiadau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth.	Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn amlinellu'r polisi cludiant a'r mesurau cymorth. Polisi Staffio
Cyfeiriadedd Rhywiol	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar fynediad at addysg, gwasanaethau cymorth neu gyfleoedd ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Carwe yn parhau i dderbyn addysg mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a byddent yn cadw mynediad at yr un cwricwlwm a threfniadau cymorth statudol. Disgwylir i'r ysgol sy'n derbyn barhau i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn unol â deddfwriaeth berthnasol a pholisïau ysgol. Nid oes	Mae'r cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion a throsglwyddo disgyblion yn unig.

	unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar ddisgyblion, rhieni, gofalwyr neu staff o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol.	
Rhyw	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn newid mynediad at addysg, lleoedd ysgol, gwasanaethau cymorth na chyfleoedd addysgol ar sail rhyw. Byddai pob disgybl sy'n trosglwyddo o Ysgol Carwe yn parhau i gael mynediad at yr un cwricwlwm, cymorth llesiant a darpariaeth addysgol waeth beth fo'i ryw. Gallai'r cynnig arwain at newidiadau i drefniadau cyflogaeth ar gyfer staff Ysgol Carwe, gan gynnwys y potensial ar gyfer adleoli, lleihau oriau gwaith neu ddileu swyddi. Mae'r proffil staffio cyfredol yn dangos mai menywod yw'r holl staff a gyflogir yn yr ysgol. O ganlyniad, byddai unrhyw effeithiau cyflogaeth sy'n deillio o'r cynnig yn disgyn yn anghymesur ar fenywod. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n anghymesur ar staff o un rhyw. Nid yw'r cynnig wedi'i ddatblygu oherwydd rhyw y gweithwyr yr effeithir arnynt, ac nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Byddai unrhyw oblygiadau staffio yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor, gan gynnwys ystyried cyfleoedd adleoli, mesurau cymorth a gofynion ymgynghori.	Mae'r cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion a throsglwyddo disgyblion yn unig. Proffil staffio

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?

1. Oedran	Darparu cymorth pontio a chyfathrebu clir i ddisgyblion a rhieni, gan gynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo â'r ysgol sy'n derbyn. Cynnig gofal bugeiliol ychwanegol i ddisgyblion iau i leddfu pryder yn ystod y newid.
2. Anabledd	Sicrhau bod yr ysgol sy'n derbyn yn gallu diwallu anghenion disgyblion ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol trwy addasiadau rhesymol priodol, trefniadau hygyrchedd a darpariaeth trafnidiaeth lle bo angen. Dylid datblygu cynlluniau pontio unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion wedi'u nodi i gefnogi parhad dysgu, lles a mynediad at wasanaethau cymorth. Dylid ystyried addasrwydd cyfleusterau, adnoddau a darpariaeth arbenigol yr ysgol sy'n derbyn i sicrhau bod disgyblion yn gallu parhau i gael mynediad at addysg ar sail deg.
3. Ailbennu rhywedd	Cadw cyfrinachedd a sicrhau bod polisïau cynhwysol yn cael eu cynnal. Darparu hyfforddiant i staff ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth i atal gwahaniaethu a meithrin amgylchedd cynhwysol.
4. Priodas a Phartneriaeth Sifil	Cynnal sianeli cyfathrebu hyblyg ar gyfer rhieni a staff i ddarparu ar gyfer amgylchiadau teuluol.
5. Hil	Parhau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr ysgol sy'n derbyn. Monitro am unrhyw broblemau posibl a darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth ddiwylliannol i gynnal perthynas gadarnhaol.
6. Crefydd/Cred	Sicrhau bod unrhyw arferion crefyddol neu ofynion deietegol yn parhau i gael eu parchu yn yr ysgol sy'n derbyn. Cyfathrebu â rhieni i gadarnhau'r trefniadau.
7. Beichiogrwydd a mamolaeth	Cynnig opsiynau ymgysylltu hyblyg i rieni/staff sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth, megis cyfarfodydd rhithwir a dyddiadau cau estynedig ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad. Sicrhau bod polisïau staff yn cefnogi absenoldeb mamolaeth a hyblygrwydd o ran dychwelyd i'r gwaith.
8. Cyfeiriadedd Rhywiol	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff i gynnal amgylchedd cynhwysol ac atal gwahaniaethu. Sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio yn cael eu gorfodi.

9. Rhyw	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff i gynnal amgylchedd cynhwysol ac atal gwahaniaethu. Sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio yn cael eu gorfodi. Darparu cymorth adnoddau dynol i'r holl staff y mae'r cynnig yn effeithio arnynt. Gwneir pob ymdrech i gael gwaith arall iddynt. Sicrhau mynediad cyfartal i'r holl gyfleusterau heb ystyried rhyw. Monitro ar gyfer gwahaniaethau ar sail rhywedd o ran cyrhaeddiad a chyfranogiad.

Y GYMRAEG ***(mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r effaith bositif neu negyddol y gall cynnig ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)***			
Gofyniad	**A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau canlynol?**	**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**	**A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau positif neu negyddol?**
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	Cynhaliwyd Asesiad Effaith Iaith Gymraeg unigol a gellir ei ddarllen yn llawn yn Atodiad B. Ydy. Bydd disgyblion yn parhau i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gwynfryn, sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3.	Mae'r papur cynnig yn cadarnhau bod y ddwy ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Atodiad B) yn nodi bod y cynnig yn cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg.	Effaith gadarnhaol: Bydd disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn grŵp cyfoedion mwy. Efallai y bydd disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol drwy ryngweithio â nifer uwch o gyfoedion sy'n siarad Cymraeg a thrwy gymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau addysgol, chwaraeon, diwylliannol ac allgyrsiol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.
Dim trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	Cynhaliwyd Asesiad Effaith Iaith Gymraeg unigol a gellir ei ddarllen yn llawn yn Atodiad B.	Mae'r ddwy ysgol yn gweithredu o dan Safonau'r Gymraeg.	Effaith niwtral: Cynnal y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddysgu a chyfathrebu yn bennaf yn Gymraeg.

	Nid yw'r cynnig hwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Drwy Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg y cyngor a thrwy weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i holl ddisgyblion Sir Gaerfyrddin a'n cymunedau ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd. Mae'r cynnig yn cefnogi amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg drwy gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg Categori 3 a sicrhau parhad addysg cyfrwng Cymraeg. Felly,		

	mae'r cynnig yn cefnogi ymrwymiad ehangach y Cyngor tuag at Gymraeg 2050 a chynyddu cyfleoedd i ddisgyblion a chymunedau ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.		

DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i ni, wrth wneud penderfyniadau strategol, ystyried sut allai ein penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sydd ynghlwm wrth anfanteision economaidd-gymdeithasol. Mae anghydraddoldeb o ran canlyniadau yn ymwneud ag unrhyw wahaniaethau mesuradwy mewn canlyniadau rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddeall safbwyntiau ac anghenion y rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd)	
Gofyniad	
Pa dystiolaeth sydd gennych chi am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?	Mae data CYBLD 2026 yn dangos bod tua 20.7% (12 disgybl) sy'n mynychu Ysgol Carwe yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, felly gallai cyfran o'r dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Felly, mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr a theuluoedd a allai fod yn fwy agored i newidiadau mewn darpariaeth addysgol, trefniadau teithio neu fynediad at wasanaethau cymorth. Nid yw'r cynnig yn cael ei gyflwyno o ganlyniad i ffactorau economaidd-gymdeithasol, lefelau amddifadedd, safonau addysgol neu ddiffygion yng nghyllideb yr ysgolion. Yn hytrach, mae'n deillio o'r diffygion strwythurol sylweddol a nodwyd ym Mloc 3 adeilad Ysgol Carwe, a oedd yn golygu nad oedd yr ysgol yn gallu ailagor ym mis Medi 2025. Daeth ymchwiliadau dilynol i'r casgliad y byddai angen dymchwel y bloc yr effeithir arno ac y byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i ddarparu adeilad newydd. Felly, cyflwr yr adeilad a chynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol yn y tymor hir oedd prif ysgogydd y cynnig.

	Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried proffil economaidd-gymdeithasol y cymunedau a wasanaethir gan Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn gan ddefnyddio data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2025. Mae dalgylch Ysgol Carwe yn cynnwys Llangyndeyrn 1, y Glyn a Thrimsaran 2. Mae'r ardaloedd hyn yn y safleoedd rhwng 614 a 1,095 yn genedlaethol ac yn y categorïau 30-50% mwyaf amddifad neu 50% lleiaf amddifad. Mae dalgylch Ysgol Gwynfryn yn cynnwys Llangyndeyrn 1 a Llangyndeyrn 2, sydd yn safle 942 a safle 862 yn genedlaethol ac mae'r ddau yn y categori 30-50% mwyaf amddifad. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu, er bod y cymunedau a wasanaethir gan y ddwy ysgol yn wynebu rhywfaint o anfantais economaidd-gymdeithasol, nad ydynt ymhlith y cymunedau mwyaf amddifad yng Nghymru. Mae data MALlC yn dangos nad yw amddifadedd yn y cymunedau hyn wedi'i grynhoi mewn un ardal. Yn benodol, mae plant sy'n byw yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is perthnasol yn wynebu lefelau amrywiol o amddifadedd incwm, gan amrywio o 31.9% yn Llangyndeyrn 1 i 41.5% yn Nhrimsaran 2. Mae dangosyddion amddifadedd cyflogaeth hefyd yn gymharol uchel mewn rhai rhannau o'r dalgylch. Mae hyn yn dangos y gallai cyfran o deuluoedd wynebu pwysau ariannol a gallant fod yn fwy agored i gostau ychwanegol neu rwystrau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau. Mae'r ffactor amddifadedd mwyaf arwyddocaol a nodwyd yn ymwneud â mynediad at wasanaethau. Mae safleoedd perthnasol MALlC o ran mynediad at wasanaethau yn dangos heriau hygyrchedd gwledig sylweddol ar draws y ddwy gymuned ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu natur wledig yr ardal ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd trefniadau cludiant, mynediad at gyfleusterau lleol a chysylltedd wrth asesu effaith unrhyw gynnig sy'n effeithio ar y ddarpariaeth addysgol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi rhoi sylw arbennig i'r mater hwn wrth ystyried y cynnig. Ers mis Medi 2025, mae'r holl ddisgyblion a oedd gynt yn mynychu Ysgol Carwe wedi cael eu haddysg yn Ysgol Gwynfryn o dan y trefniadau dros dro ar ôl i adeilad Ysgol Carwe gau. Mae'r dysgwyr wedi parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, cymorth llesiant, darpariaeth ddysgu ychwanegol a chyfleoedd allgyrsiol yn ddi-dor. Felly, mae'r broses bontio eisoes wedi digwydd yn ymarferol ac mae'r teuluoedd wedi addasu i'r trefniadau cludiant sydd ar waith ar hyn o bryd. Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd ers mis Medi 2025 yn dangos bod y dysgwyr wedi wynebu rhwystrau

	sylweddol i gael mynediad at addysg o ganlyniad i'r trefniadau adleoli dros dro. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod hyn yn darparu tystiolaeth bwysig wrth asesu effaith economaidd-gymdeithasol debygol y cynnig, gan y byddai'r cynnig i bob pwrpas yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus. Er y gall datblygiadau tai yn yr ardal ehangach gynhyrchu disgyblion ychwanegol yn y dyfodol, mae data dewisiadau rhieni presennol yn dangos bod cyfran sylweddol o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch bresennol eisoes yn mynychu ysgolion amgen. O ganlyniad, mae twf tai yn y dyfodol yn unig yn annhebygol o fynd i'r afael â'r heriau cynaliadwyedd sylfaenol sy'n gysylltiedig â darpariaeth addysgol yn Ysgol Carwe. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried y twf tai a ragwelir ond nid yw'n ystyried ei fod yn newid yn sylweddol y casgliadau a gyrhaeddwyd ynghylch darparu darpariaeth addysgol yn y tymor hir yn yr ardal. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi ystyried yr effaith bosibl ar deuluoedd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Carwe a allai wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol ynghyd â byw mewn ardal wledig, anabledd, anghenion dysgu ychwanegol neu fynediad cyfyngedig at wasanaethau. Rhoddwyd sylw arbennig i'r potensial i drefniadau cludiant greu rhwystrau i gymryd rhan mewn addysg, gweithgareddau ysgol neu ymgysylltu â rhieni. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd dysgwyr cymwys yn parhau i dderbyn cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn unol â Pholisi'r Cyngor ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Bydd disgyblion yn parhau i gael mynediad at Brydau Ysgol am Ddim, cymorth o ran y Grant Hanfodion Ysgol, darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, cymorth llesiant a phob gwasanaeth arall y maent yn gymwys i'w gael ar hyn o bryd. Ni ragwelir y bydd yr hawl addysgol na'r cymorth a ddarperir yn llai o ganlyniad i'r cynnig. Ar ôl ystyried dangosyddion anfantais ar lefel disgybl, gan gynnwys hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim, ynghyd â thystiolaeth ardal o MALIC 2025, tystiolaeth o'r broses lwyddiannus i adleoli disgyblion dros dro ers mis Medi 2025, a'r mesurau lliniaru sydd ar gael, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y cynnig yn debygol o arwain at effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Mae'r prif fater economaidd-gymdeithasol a nodwyd yn ymwneud â mynediad gwledig at wasanaethau a chludiant yn hytrach na mynediad at addysg ei hun.

	Mae'r materion hyn wedi llywio'r cynnig a'r mesurau lliniaru cysylltiedig.
A ydych wedi ymgysylltu â'r rheiny y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt?	Ydyn. Cyn datblygu'r cynnig, cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol â'r Pennaeth, cynrychiolwyr o'r Corff Llywodraethu a'r Aelodau Lleol i ystyried y diffygion strwythurol sylweddol a nodwyd yn adeilad Ysgol Carwe, y goblygiadau i ddyfodol yr ysgol, a'r opsiynau posibl oedd ar gael i'r Awdurdod Lleol. Llywiodd y trafodaethau hyn y gwaith o ddatblygu'r cynnig gan sicrhau bod pryderon ac amgylchiadau lleol yn cael eu deall yn gynnar. Mae'r cynnig hefyd wedi cael ei lywio gan brofiad disgyblion, staff a theuluoedd ers symud dysgwyr dros dro i Ysgol Gwynfryn ym mis Medi 2025. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae'r Awdurdod Lleol, tîm arweinyddiaeth y ffederasiwn a staff yr ysgol wedi cydweithio i sicrhau parhad addysg, darpariaeth llesiant a chymorth i ddysgwyr. Os bydd y cynnig yn mynd ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol, cynhelir ymarfer ymgynghori statudol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i rieni, gofalwyr, disgyblion, staff, llywodraethwyr, undebau llafur, Estyn, Comisiynydd y Gymraeg, sefydliadau cymunedol ac ymgyngoreion rhagnodedig eraill fynegi eu barn. Bydd modd cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys arolygon ar-lein, ymatebion drwy e-bost, gohebiaeth ysgrifenedig a gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ymgynghorir â dysgwyr drwy ddeunyddiau a sesiynau ymgysylltu sy'n briodol i'w hoedran i sicrhau bod eu barn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad. Bydd Adroddiad Ymgynghori, sy'n crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law ac ymateb yr Awdurdod Lleol, yn cael ei gyhoeddi cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ynghylch cam nesaf y cynnig.
A ydych wedi ystyried cymunedau a lleoedd o ddiddordeb?	Ydyn. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned (Atodiad A o'r cynnig) yn ystyried yr effaith ar bentref Carwe. Nid yw'r ysgol yn cael ei defnyddio'n helaeth gan y gymuned ar hyn o bryd ond mae ar gael i'w defnyddio. Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau cadarnhaol â'r gymuned ac yn croesawu ymwelwyr o sefydliadau lleol. O'r 58 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch, mae 120 yn mynychu ysgolion eraill a dim ond 37 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol.

	Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod Ysgol Carwe wedi gwasanaethu fel ased addysgol a chymunedol pwysig yng Ngharwe yn y gorffennol ac felly mae wedi ystyried effaith bosibl y cynnig ar y gymuned leol, sefydliadau lleol a'r ddarpariaeth addysgol yn yr ardal yn y dyfodol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn nodi y gall ysgolion chwarae rôl bwysig wrth gefnogi hunaniaeth gymunedol, cydlyniant cymunedol, rhyngweithio cymdeithasol a defnydd y Gymraeg mewn cymunedau gwledig . Felly, ystyriwyd effaith tynnu darpariaeth addysgol o safle Ysgol Carwe a'r goblygiadau posibl i'r gymuned ehangach. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi ystyried nodweddion economaidd-gymdeithasol yn yr ardal leol gan ddefnyddio data MALIC 2025. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y cymunedau y mae Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn yn eu gwasanaethu yn wynebu lefelau cymedrol o amddifadedd yn gyffredinol ond bod heriau yn ymwneud â mynediad at wasanaethau yn effeithio arnynt yn benodol. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu natur wledig y cymunedau ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd cludiant a hygyrchedd wrth ystyried effeithiau posibl ar deuluoedd a dysgwyr. Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i: • Yr effaith ar deuluoedd sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Carwe. • Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. • Trefniadau cludiant a hygyrchedd. • Heriau o ran cael mynediad at wasanaethau mewn cymunedau gwledig a nodwyd drwy ddata MALIC. • Defnydd cymunedol o safle'r ysgol. • Defnyddio safle Ysgol Carwe yn y dyfodol. • Cydlyniant cymunedol a chyfleoedd o ran y Gymraeg. • Ailddynodi'r dalgylch fel ei fod yn rhan o ddalgylch Ysgol Gymunedol Trimsaran. Er y byddai cau'r ysgol yn arwain at golli ased cymunedol hirsefydlog, mae disgyblion eisoes wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i Ysgol Gwynfryn ac yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng

	Cymraeg yn ddi-dor. O ganlyniad, credir bod yr effaith addysgol ar ddysgwyr yn llawer llai.
Beth yw prif effeithiau'r cynnig?	Prif effaith y cynnig yw cau Ysgol Carwe yn ffurfiol a throsglwyddo'r dysgwyr yn barhaol i Ysgol Gwynfryn, y mae disgyblion eisoes wedi bod yn ei mynychu ers mis Medi 2025 ar ôl i adeilad yr ysgol gau. Y prif effeithiau economaidd-gymdeithasol a nodwyd yw: • Y goblygiadau teithio a hygyrchedd i deuluoedd sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Carwe. • Effeithiau posibl ar gymunedau gwledig lle mae mynediad at wasanaethau eisoes wedi'i nodi fel her drwy dystiolaeth MALIC. • Colli ased cymunedol pwysig yng Ngharwe. • Effeithiau posibl ar weithgareddau cymunedol a gefnogwyd yn flaenorol drwy ddefnyddio safle'r ysgol. • Goblygiadau staffio sy'n gysylltiedig â'r cynnig. • Effeithiau posibl ar deuluoedd sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau yn lleihau arwyddocâd yr effeithiau hyn. Mae disgyblion eisoes wedi mynychu Ysgol Gwynfryn yn llwyddiannus ers mis Medi 2025 ac mae'r dysgu wedi parhau yn ddi-dor. Mae'r trefniadau cludiant presennol eisoes wedi'u sefydlu, ac mae dysgwyr cymwys yn parhau i dderbyn cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Mae'r dysgwyr yn parhau i gael mynediad at Brydau Ysgol am Ddim, darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, cymorth llesiant a gwasanaethau addysgol eraill. Felly, ni ddisgwylir i'r cynnig greu effeithiau economaidd-gymdeithasol newydd sylweddol ond yn hytrach mae'n ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus.
Sut gellid gwella'r cynnig fel ei fod yn lleihau anghydraddoldebau	Gellid gwella'r cynnig drwy ddarparu cymorth ychwanegol i deuluoedd sy'n wynebu caledi economaidd, megis: • Parhau i ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys.

canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?	• Monitro deilliannau presenoldeb, cyrhaeddiad a llesiant ar gyfer cyn-ddisgyblion Ysgol Carwe. • Monitro deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim a dysgwyr eraill sy'n agored i niwed. • Sicrhau mynediad parhaus at Brydau Ysgol Am Ddim a chymorth o ran y Grant Hanfodion Ysgol. • Cynnal darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a threfniadau pontio. • Monitro effaith trefniadau cludiant ar deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd a nodwyd drwy MALIC fel rhai sy'n wynebu lefelau uwch o amddifadedd o ran mynediad at wasanaethau. • Cefnogi teuluoedd a allai wynebu rhwystrau i ymgysylltu oherwydd natur wledig yr ardal, hygyrchedd neu anfantais economaidd-gymdeithasol. • Cynnal cyfleoedd ymgynghori a chyfathrebu parhaus i'r holl randdeiliaid. • Monitro ar ôl gweithredu i nodi unrhyw effeithiau annisgwyl a chymryd camau cywiro lle bo angen. Gan fod y dysgwyr eisoes wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025, mae llawer o anghydraddoldebau posibl sy'n gysylltiedig â symud ysgol eisoes wedi'u lliniaru drwy'r trefniadau presennol. Serch hynny, bydd monitro parhaus yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw grŵp yn wynebu anfantais anghymesur o ganlyniad i'r cynnig. Mae'r fformiwla gyllido ar gyfer ysgolion yn cynnwys ffactor amddifadedd, sydd fel arfer yn defnyddio: Cymhwysedd i gael Prydau Ysgol Am Ddim fel procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol. Pwysolir fesul disgybl cymwys, felly rhoddir mwy o gyllid i ysgolion sydd â chanrannau uwch o ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim. Mae hyn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu i gefnogi disgyblion yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.
Beth yw'r effaith debygol ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a beth yw'r effeithiau pellach o	Mae'r cynnig wedi'i asesu mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Ni chredir bod y cynnig yn debygol o arwain at effaith andwyol anghymesur sylweddol ar unrhyw grŵp nodweddion gwarchodedig. Mae'r cynnig yn deillio o'r materion strwythurol sy'n effeithio ar adeilad yr

ran croestoriadedd?	ysgol yn hytrach na ffactorau yn ymwneud ag unrhyw nodwedd warchodedig. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai rhai unigolion wynebu effeithiau cyfunol sawl nodwedd ac amgylchiad. Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i: • Dysgwyr ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol a allai hefyd fod dan anfantais economaidd-gymdeithasol. • Dysgwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a allai wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chludiant, hygyrchedd a byw mewn ardal wledig. • Teuluoedd sy'n byw mewn cymunedau gwledig lle mae tystiolaeth MALIC yn nodi lefelau cymharol uchel o amddifadedd o ran mynediad at wasanaethau. • Dysgwyr sy'n agored i niwed a allai fod ag angen cymorth ychwanegol yn ystod cyfnodau o newid trefniadaethol. • Dysgwyr sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghenion llesiant. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod yr effeithiau posibl hyn wedi'u lleihau'n sylweddol oherwydd bod disgyblion eisoes wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i Ysgol Gwynfryn a bod trefniadau cymorth eisoes wedi'u sefydlu. Bydd parhau â chludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, cymorth llesiant, Prydau Ysgol am ddim a mathau eraill o gymorth yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw grŵp yn wynebu anfantais anghymesur. Yn gyffredinol, er y gallai rhai unigolion wynebu cyfuniad o ffactorau o ran bod yn agored i niwed sy'n gysylltiedig ag anabledd, anfantais economaidd-gymdeithasol a byw mewn ardal wledig, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y cynnig yn debygol o arwain at anghydraddoldebau sylweddol o ran deilliannau i'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ar yr amod bod y trefniadau cymorth presennol yn parhau a bod eu heffeithiolrwydd yn cael ei fonitro.

HAWLIAU'R PLENTYN *(Yn yr adran hon, mae angen i ni ystyried a yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc).*			
Gofyniad		**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**	**Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?**
A fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith (uniongyrchol neu anuniongyrchol) ar blant a phobl ifanc?	Bydd y cynnig yn cael effaith uniongyrchol ar blant sy'n mynychu Ysgol Carwe ar hyn o bryd, gan y byddai'n ffurfioli'r trefniadau i drosglwyddo'r dysgwyr yn barhaol i Ysgol Gwynfryn. Er y gall newid ysgol effeithio ar ymdeimlad plant o ddiogelwch, eu grwpiau cyfeillgarwch a'u harferion dyddiol, mae'r effaith bosibl yn llawer llai oherwydd bod disgyblion wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 o dan drefniadau dros dro yn dilyn cau adeilad Ysgol Carwe. Felly, mae dysgwyr eisoes yn gyfarwydd ag amgylchedd yr ysgol, staff, arferion a'u grwpiau cyfoedion, ac maent wedi parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, cymorth llesiant a chyfleoedd dysgu ehangach yn ddi-dor. Felly, ni ddisgwylir i'r cynnig arwain at yr un lefel o darfu a fyddai fel arfer yn gysylltiedig â newid ysgol.	Data CYBLD (2025) yn dangos bod 58 o ddisgyblion ar y gofrestr. Erthygl 12 (parchu safbwyntiau'r plentyn): Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i'w farn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser, er enghraifft yn ystod achosion mewnfudo, penderfyniadau am dai neu fywyd cartref y plentyn o ddydd i ddydd. Erthygl 28 (hawl i addysg) Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod am ddim a rhaid i wahanol ffurfiau ar addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plant a'u hawliau. Rhaid i	Datblygu cynllun pontio cynhwysfawr, gan gynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo ag Ysgol Gwynfryn ar gyfer unrhyw ddisgyblion newydd. Mae'r ysgolion eisoes yn rhan o ffederasiwn ac felly gobeithir y bydd hyn yn cefnogi / hwyluso'r broses bontio. Darparu cymorth bugeiliol ychwanegol i ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Sicrhau cyfathrebu clir â rhieni a disgyblion ynghylch amserlenni a threfniadau. Cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gynnal perthynas â chyfoedion drwy weithgareddau ar y cyd cyn symud ysgol. Bydd copi o'r ddogfen ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc yn cael ei roi i'r holl ddisgyblion, lle bydd cyfle i ddisgyblion (y cyngor ysgol o leiaf) gymryd rhan yn y broses. Datblygu cynlluniau pontio unigol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed

	Gallai effeithiau anuniongyrchol gynnwys trefniadau teithio ac effeithiau ar fywyd teuluol; fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn wedi'u sefydlu ac yn gweithio'n llwyddiannus ers mis Medi 2025. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai'r cynnig fod â goblygiadau i'r Cylch Meithrin, a oedd yn flaenorol yn yr ysgol cyn i adeilad yr ysgol gau ym mis Medi 2025. Ers hynny, mae'r Cylch Meithrin wedi gweithredu o'r Neuadd Bentref. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai angen i'r Cylch Meithrin sicrhau llety amgen i'w alluogi i barhau â'i ddarpariaeth. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar yn y gymuned a byddai'n ceisio gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i gefnogi'r gwaith o nodi trefniadau amgen lle bo hynny'n bosibl. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y gymuned	wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. Erthygl 29 (nodau addysg) Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid i addysg annog parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at ei rieni, ei ddiwylliant ei hun a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd. Erthygl 30 (plant o grwpiau lleiafrifol neu frodorol) Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, arferion a chrefydd ei deulu, boed y rhain yn cael eu rhannu gan y mwyafrif o'r bobl yn y wlad lle mae'n byw ai peidio.	neu'n bryderus, yn enwedig y rheiny ag ADY.

	ac yn cydnabod rôl y Cylch Meithrin wrth gefnogi datblygiad plant a throsglwyddo i addysg statudol. Felly, rhoddwyd ystyriaeth i'r effaith bosibl ar ddarpariaeth gofal plant a chyfleoedd Cymraeg i blant iau yn yr ardal. Mae **Erthygl 28 (Hawl i Addysg)** wedi'i hystyried gan fod y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ble y bydd plant yn derbyn eu haddysg. Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu a fydd mynediad at addysg yn cael ei gynnal ac yn nodi y byddai dysgwyr yn parhau i gael mynediad at addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwynfryn neu ysgol arall a ddewisir gan y rhieni drwy'r broses dderbyn. Mae **Erthygl 29 (Nodau Addysg)** wedi'i hystyried oherwydd bod y cynnig yn ceisio rhoi mynediad i ddysgwyr at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol, grwpiau cyfoedion mwy, cyfleusterau gwell a phrofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol ehangach, gan gefnogi datblygiad		

	galluoedd a photensial pob plentyn. Mae **Erthygl 12 (Parch at Farn y Plentyn)** yn berthnasol oherwydd bydd disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn yn ystod y broses ymgynghori. Mae **Erthygl 30 (Plant o Grwpiau Lleiafrifol)** wedi'i hystyried oherwydd bod y cynnig yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r cynnig yn cynnal mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r ddarpariaeth yn Ysgol Gwynfryn.		
A yw'r fenter wedi'i dylunio / chynllunio er budd pennaf plant a phobl ifanc?	Ydy, mae'r fenter wedi'i dylunio i wella deilliannau addysgol drwy drosglwyddo disgyblion i ysgol â mwy o ddisgyblion, lle gall disgyblion ryngweithio â mwy o ddisgyblion yn eu grwpiau blwyddyn a rhannu profiadau. Mae hefyd yn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg barhaus.	Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg sy'n blaenoriaethu addysg gynaliadwy o ansawdd uchel. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg sy'n cadarnhau parhad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Erthygl 3 (budd pennaf y plentyn) Rhaid i fudd pennaf y	Cynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori gan ddefnyddio deunyddiau sy'n briodol i'w hoedran. Darparu cymorth emosiynol a llesiant yn ystod ac ar ôl y broses bontio. Monitro cynnydd a llesiant y disgyblion sy'n trosglwyddo i sicrhau deilliannau cadarnhaol. Cynnal cyfathrebu â rhieni i fynd i'r afael â phryderon yn brydlon.

	Teilwra i heriau allweddol ysgolion unigol Mae **Erthygl 3 (Budd Pennaf y Plentyn)** wedi'i hystyried drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynnig. Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu goblygiadau addysgol, llesiant, hygyrchedd a chymunedol y cynnig ac mae o'r farn, at ei gilydd, bod y cynnig wedi'i fwriadu i gefnogi budd pennaf dysgwyr yn y tymor hir drwy ddarparu mynediad at addysg Gymraeg gynaliadwy, cyfleoedd addysgol ehangach, cyfleusterau gwell a gwasanaethau cymorth gwell. Mae **Erthygl 23 (Plant ag Anableddau)** wedi'i hystyried oherwydd gall y cynnig effeithio ar ddysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried hygyrchedd yr ysgol sy'n derbyn, parhad darpariaeth ddysgu ychwanegol, mynediad at wasanaethau arbenigol a'r angen am drefniadau pontio unigol. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, darperir cymorth	plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar blant. Erthygl 23 (plant ag anabledd) Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas a, chyn belled ag y bo'n bosibl, annibyniaeth a rhan weithgar yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd. Erthygl 31 (hamdden, chwarae a diwylliant) Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.	

	priodol ac addasiadau rhesymol i sicrhau bod dysgwyr ag anableddau yn parhau i gael mynediad at addysg a chymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae **Erthygl 31 (Hamdden, Chwarae a Chyfranogiad mewn Bywyd Diwylliannol)** wedi'i hystyried gan y gallai'r cynnig effeithio ar gyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn yn cael mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd allgyrsiol, chwaraeon a diwylliannol, gan gynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau Cymraeg, gan gefnogi eu hawliau o dan Erthygl 31. Byddai dysgwyr hefyd yn elwa o fwy o fynediad at gyfleoedd chwaraeon, diwylliannol, addysgol ac allgyrsiol sydd ar gael trwy gymuned ysgol ehangach, gan gefnogi cyfleoedd		

	ar gyfer cyfranogiad, hamdden a datblygiad personol.		

Mae DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) A CHARBON SERO NET Adran 6 y ddyletswydd yn datgan bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus "*geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth...ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol". Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol."*

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn cydnabod bod gennym ran bwysig i'w chwarae er mwyn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain a rhoi arweiniad er mwyn annog trigolion, busnesau a sefydliadau eraill i weithredu i leihau eu hôl troed carbon hwythau.

Gofyniad	
A yw'r cynnig yn effeithio ar Fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'r sir?	Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith uniongyrchol sylweddol ar fioamrywiaeth neu gydnerthedd ecosystemau. Byddai cau Ysgol Carwe yn golygu rhoi pwrpas newydd i adeilad ysgol presennol yn y dyfodol, neu ei waredu neu wneud defnydd amgen ohono yn hytrach na chreu datblygiad newydd ac, felly, ni ddisgwylir unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd, newid i ddefnydd y tir nac unrhyw darfu ar ecosystemau. Byddai unrhyw ddefnydd o'r safle yn y dyfodol yn amodol ar ofynion cynllunio, amgylcheddol a bioamrywiaeth perthnasol a byddai angen iddo gydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ers mis Medi 2025, mae disgyblion Ysgol Carwe wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn o dan y trefniadau dros dro ar ôl i adeilad Ysgol Carwe gau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o symudiadau cludiant sy'n gysylltiedig â throsglwyddo dysgwyr eisoes yn digwydd. Byddai'r cynnig felly yn ffurfioli'r trefniadau presennol i raddau helaeth yn hytrach na chynhyrchu gweithgaredd cludiant ychwanegol sylweddol. Er y gallai cludiant ysgol a theithiau mewn

	cerbydau preifat gyfrannu at allyriadau ac arwain at rywfaint o darfu ar gynefinoedd cyfagos, credir bod yr effeithiau hyn yn fach ac eisoes wedi'u sefydlu yn y patrymau teithio presennol. Ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw waith ehangu seilwaith sylweddol, gwaith datblygu na cholli mannau gwyrdd yn Ysgol Gwynfryn fel rhan o'r cynnig. Er y gallai trosglwyddo'r disgyblion yn barhaol arwain at gynnydd cymharol fach yn yr adnoddau a defnyddir a'r gwastraff a gynhyrchir yn yr ysgol sy'n derbyn, disgwylir y bydd rhoi'r gorau i weithgareddau addysgol ar safle Ysgol Carwe yn gwrthbwyso hyn. Hefyd, mae gan Ysgol Gwynfryn drefniadau rheoli ac ailgylchu gwastraff ar waith eisoes i reoli unrhyw gynnydd mewn gwastraff sy'n deillio o'r cynnig yn effeithiol. Yn gyffredinol, credir bod y cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Byddai'r dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg yn yr ardal leol, a byddai'r cynnig yn bennaf yn ffurfioli'r trefniadau sydd wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus ers mis Medi 2025, yn hytrach na chyflwyno gweithgareddau neu ddatblygiadau newydd a fyddai'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd naturiol. Er y credir y bydd yr effaith ar fioamrywiaeth yn niwtral, mae gan y cynnig oblygiadau hefyd mewn perthynas â newid hinsawdd ac allyriadau carbon. Mae gweithredu adeiladau ysgol a'r trefniadau cludiant cysylltiedig yn cyfrannu at ôl troed carbon cyffredinol y Cyngor ac felly'n mae'n ystyriaeth bwysig wrth asesu effeithiau amgylcheddol ehangach y cynnig. Cynhyrchodd Ysgol Carwe, a adeiladwyd yn 1927 ac sy'n cael ei gwresogi gan system olew, 29.12 tunnell o CO_2e yn ystod 2024/25. Arwynebedd llawr yr ysgol yw 1,045.07m² ac mae ganddi 58 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Yn ystod 2024/25, defnyddiodd yr ysgol 116,852.6 kWh o ynni, sy'n cyfateb i 111.8 kWh y metr sgwâr. Fel adeilad ysgol hŷn â nifer gymharol isel o ddisgyblion, gall

	gweithredu'r safle yn barhaus arwain at ddefnydd llai effeithlon o ynni ac ôl troed carbon uwch o gymharu â nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn yr ysgol. O dan y cynnig, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gwynfryn, a adeiladwyd yn 1968 ac sydd hefyd yn cael ei gwresogi gan system olew. Cynhyrchodd Ysgol Gwynfryn 21.58 tunnell o CO_2e yn ystod 2024/25 ac arwynebedd llawr yr ysgol yw 576.87m². Defnyddiodd yr ysgol 87,385 kWh o ynni yn ystod yr un cyfnod, sy'n cyfateb i 151.5 kWh y metr sgwâr. Er bod defnydd ynni fesul metr sgwâr yr ysgol sy'n derbyn yn uwch, mae ei hôl troed carbon cyffredinol yn parhau i fod yn sylweddol is nag un Ysgol Carwe oherwydd ôl troed llai ei hadeilad a'i defnydd mwy cyfunol o'r adeilad/ystafelloedd. Byddai'r cynnig yn golygu bod angen i drefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol barhau i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gwynfryn. Ar sail bws â 53 sedd sy'n gwneud taith unffordd 2.6 milltir arferol, amcangyfrifir bod allyriadau cludiant blynyddol oddeutu 2.56 tunnell o CO_2e. Fodd bynnag, gan fod y trefniadau cludiant hyn wedi bod ar waith i raddau helaeth ers mis Medi 2025, byddai'r cynnig yn ffurfioli patrymau teithio presennol yn hytrach na chreu allyriadau hollol newydd sy'n gysylltiedig â chludiant. Pan ystyrir allyriadau cludiant, disgwylir o hyd y bydd y cynnig yn sicrhau gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau carbon o oddeutu 26.56 tunnell o CO_2e y flwyddyn. Mae hyn yn awgrymu y byddai'r manteision amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chau Ysgol Carwe ac addysgu disgyblion yn yr adeilad presennol yn Ysgol Gwynfryn yn sylweddol fwy na'r allyriadau a gynhyrchir drwy drefniadau cludiant. Felly, gallai'r cynnig wneud cyfraniad cadarnhaol at amcanion datgarboneiddio'r Cyngor drwy gael gwared ar allyriadau sy'n gysylltiedig â gweithredu safle ysgol ar wahân. Hefyd, efallai y bydd modd cyflawni arbedion carbon ychwanegol yn y dyfodol drwy fuddsoddi mewn technoleg pwmp gwres, gwelliannau i ffabrig yr

	adeilad a mesurau effeithlonrwydd ynni eraill a gefnogir drwy gyllid Datblygu a Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru yn Ysgol Gwynfryn. Yn gyffredinol, er y credir bod y cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, rhagwelir y bydd yn cael effaith gadarnhaol mewn perthynas â newid hinsawdd drwy leihau allyriadau carbon blynyddol yn sylweddol. O ganlyniad, nid oes unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd wedi'u nodi a gallai'r cynnig gyfrannu'n gadarnhaol at ymrwymiadau cynaliadwyedd a datgarboneiddio tymor hwy y Cyngor.
A yw'r cynnig yn cael effaith bositif neu negyddol ar ymrwymiad CSC i fod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030?	Gallai'r cynnig gael effaith negyddol fach ar ymrwymiad y Cyngor i gyflawni carbon sero net oherwydd teithio sy'n gysylltiedig â disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gwynfryn. Fodd bynnag, mae'r effaith hon yn debygol o fod yn fach gan fod disgyblion o Ysgol Carwe eisoes wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ers mis Medi 2025 ar ôl i adeilad Ysgol Carwe gau. Felly, mae'r trefniadau cludiant sy'n gysylltiedig â symud y disgyblion eisoes wedi'u sefydlu, a byddai'r cynnig yn ffurfioli patrymau teithio presennol i raddau helaeth yn hytrach na chynhyrchu allyriadau cludiant ychwanegol sylweddol. Gallai'r cynnig hefyd arwain at fanteision amgylcheddol drwy gau gweithgareddau addysgol ar safle Ysgol Carwe, gan ddileu'r angen i weithredu, cynnal a chadw a gwresogi adeilad ysgol ar wahân. Gallai hyn leihau'r defnydd o ynni, gofynion cynnal a chadw ac allyriadau carbon cysylltiedig dros y tymor hwy. Byddai unrhyw ddefnydd o safle Ysgol Carwe yn y dyfodol yn cael ei ystyried ar wahân a byddai'n destun ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd perthnasol. Ar y cyfan, er y gallai fod rhai allyriadau parhaus yn ymwneud â chludiant sy'n gysylltiedig â disgyblion sy'n teithio i Ysgol Gwynfryn, mae'r trefniadau hyn wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus ers mis Medi 2025. O ganlyniad, credir bod y cynnig yn debygol o gael effaith niwtral i ychydig yn gadarnhaol ar uchelgeisiau

	carbon sero net y Cyngor o ystyried y bydd gofynion gweithredol safle Ysgol Carwe yn llai.
A yw'r cynnig yn cael effaith bositif neu negyddol ar sut gall y Cyngor wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd nawr ac yn y dyfodol?	Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar sut gall y Cyngor wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd nawr ac yn y dyfodol. Ers mis Medi 2025, mae disgyblion o Ysgol Carwe wedi bod yn mynychu Ysgol Gwynfryn ar ôl i adeilad Ysgol Carwe gau, sy'n golygu bod cyfuno'r ddarpariaeth addysgol yn y ffederasiwn eisoes wedi digwydd yn ymarferol. Byddai'r cynnig felly yn ffurfioli trefniant sydd eisoes ar waith yn hytrach na chyflwyno patrwm newydd o ran darparu gwasanaethau. Gallai crynhoi'r ddarpariaeth addysgol ar lai o safleoedd gweithredol helpu i leihau'r defnydd cyfan o ynni, gofynion cynnal a chadw ac allyriadau carbon cysylltiedig o gymharu â chynnal a chadw sawl adeilad ysgol. Gallai hyn helpu i ddefnyddio adnoddau mewn modd mwy effeithlon a gwella cynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol yn y tymor hir. Er bod dibyniaeth o hyd ar gludiant ysgol a theithiau mewn cerbyd preifat i rai dysgwyr, mae'r trefniadau teithio hyn wedi'u sefydlu ers mis Medi 2025 ac ni ddisgwylir iddynt gynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r cynnig. O ganlyniad, mae unrhyw allyriadau sy'n gysylltiedig â chludiant yn debygol o adlewyrchu patrymau teithio presennol yn hytrach na deillio'n uniongyrchol o weithredu'r cynnig. Yn gyffredinol, credir bod y cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gallu i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd. Mae'r cynnig yn ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes yn gweithio'n llwyddiannus wrth leihau'r effaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw safle ysgol ar wahân.

DIOGELU DATA ***(Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn cynnwys gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn nodi a lleihau risgiau preifatrwydd prosiect yn gynnar. Yn yr adran hon, mae angen i ni weld a oes angen cwblhau'r asesiad hwn ar gyfer y cynnig. Mae gofynion penodol hefyd ynglŷn â defnyddio trydydd partïon i brosesu data personol ar ran y Cyngor, a rhaid yw cael Cytundeb Prosesu Data sy'n rhwymol yn gyfreithlon ar eu cyfer).***		
A yw'r cynnig yn golygu casglu/defnyddio data personol (gwybodaeth yn ymwneud â pherson y mae modd ei adnabod)?	Ydy	**Os ydy, rhowch wybodaeth am y math o ddata** Gofynnir am gyfeiriadau post os yw ymgyngoreion am gael gwybodaeth am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn aros yn gyfrinachol.
A yw'r cynnig yn gofyn am ddefnyddio technolegau newydd ac yn debygol o arwain at berygl sylweddol i hawliau a rhyddid yr unigolion?	Nac ydy.	**Os 'ydy', rhowch wybodaeth am y math o dechnolegau newydd** Bydd papurau ymgynghori ar gael ar-lein ac fel copi papur yn yr ysgol os oes angen. Bydd ffurflenni ymateb ar gael ar-lein ac fel copi papur yn yr ysgol, os oes angen.
A yw'r cynnig yn golygu bydd trydydd parti yn casglu, yn derbyn, neu fel arall, yn cael mynediad at ddata personol a reolir gan y Cyngor?	Nac ydy	**Os 'ydy', rhowch wybodaeth am beth fydd hyn yn ei olygu**
Os ydych wedi ateb 'ydy' i unrhyw un o'r ystyriaethau hyn, siaradwch â'r Swyddog Diogelu Data i gychwyn Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a/neu drafod a oes angen Cytundeb Prosesu Data.		

GOBLYGIADAU ***(Rhowch ystyriaeth i unrhyw oblygiadau ychwanegol a gwnewch yn siŵr fod y Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth priodol wedi cytuno ar unrhyw oblygiadau sy'n codi, ac y cyfeirir atynt yn fanwl isod)***	
	A oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol y mae angen eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?
1. Cyfreithiol a Rheoli Risg	Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd angen ymgynghori yn unol â'r gweithdrefnau statudol perthnasol yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2026. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 yn nodi mai "prif bwrpas ysgolion yw

	darparu addysg a dylai unrhyw achos dros gau fod yn gadarn ac er budd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal."
2. Cyllid, Caffael, TGCh ac Asedau Ffisegol	**<u>Refeniw Cyllid</u>** Mae sefyllfa ariannol bresennol yr ysgol yn ogystal â'r cyllidebau a ragwelir wedi'u hystyried fel rhan o bapurau'r cynnig. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, a phe chytunid iddynt gael eu rhoi ar waith, yr arbedion refeniw blynyddol disgwyliedig i Ysgol Carwe fyddai £17,946. Yn ogystal, mae arbedion eraill i'r Cyngor o'r gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog a ddarperir i ysgolion fel Adnoddau Dynol, Addysg a Chymorth ADY, TG, Gwasanaeth Cerdd, glanhau, cynnal a chadw eiddo, cynnal a chadw tiroedd ac arlwyo. Roedd Arolwg Cyflwr Adeiladu 2025 ar gyfer Ysgol Carwe yn rhagweld gwariant cynnal a chadw cyfalafol gofynnol o £2,058,271.00 dros gyfnod o bum mlynedd. Byddai hyn yn arwain at arbediad i'r Cyngor pe bai'r ysgol yn cau. Mae'r Gwasanaeth Arlwyo yn darparu clwb brecwast (£12,654) a gwasanaeth cinio (£33,074) i ddisgyblion ar gyfanswm cost flynyddol i'r Awdurdod Lleol o £45,728. Er bod hyn yn cael ei wrthbwyso gan y grant gan Lywodraeth Cymru o £18,641 i ddarparu prydau bwyd, mae arbediad net i'r gwasanaeth, ac felly y Cyngor o £27,087. Bydd grant Llywodraeth Cymru o £18,641 ar gyfer prydau bwyd yn symud gyda'r disgyblion i'w hysgol newydd. Mae'n annhebygol y bydd costau ychwanegol i ddarparu'r prydau bwyd yn yr ysgolion hynny, felly bydd

	cost net darparu'r gwasanaeth yn lleihau yn yr ysgol sy'n derbyn. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon ar wahân i gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgolion. Pe bai'n cael ei gymeradwyo, o ganlyniad, byddai cyfanswm o £328,797 yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn yn unol â chyllid disgyblion. **Cyfalaf Cyllid** Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a phe chytunid iddo gael ei roi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Os nad oes diddordeb corfforaethol neu gymunedol mewn cadw'r adeilad yn unol â'r polisi 'Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid', yna byddai'r adeilad yn cael ei roi ar y farchnad agored a gallai gynhyrchu derbyniad cyfalaf o oddeutu £150,000. **Asedau Ffisegol** Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a phe chytunid iddo gael ei roi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Byddai'r eiddo yn cael ei drosglwyddo i'r Is-adran Eiddo Corfforaethol er mwyn gweithredu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi ynghylch Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Datblygwyd y polisi hwn er mwyn gallu cynnig yr ased i'r gymuned yn gyntaf oll cyn gosod y safle ar y farchnad agored.
3. Staffio	Nid yw'r penderfyniad i gynnig cau ysgol byth yn cael ei wneud ar chwarae bach, ac rydym yn cydnabod yn llawn yr effaith sylweddol y gall cynigion o'r fath ei chael ar y staff sy'n gweithio yno. Ein blaenoriaeth bob amser yw lleihau tarfu a chefnogi ein staff drwy unrhyw gyfnod o newid. Yn unol â'n Polisi Dileu Swyddi / Staff Gormodol Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion, rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i lleihau dileu swyddi yn orfodol. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r holl gyfleoedd adleoli

	posibl o fewn y rhwydwaith ysgolion ehangach a'r awdurdod lleol, cynnig dileu swyddi yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar lle bo hynny'n briodol, a gweithio'n agos gydag undebau llafur drwy gydol y broses. Fodd bynnag, er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i adleoli staff yr effeithir arnynt, ni allwn ddiystyru'n llwyr y posibilrwydd o ddileu swyddi. Pan nad yw adleoli yn ymarferol, byddwn yn dilyn proses deg a thryloyw ac yn cefnogi'r rheiny yr effeithir arnynt. Rydym yn deall yr ansicrwydd y mae hyn yn ei greu i staff a'u teuluoedd, ac rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu'n glir, a darparu diweddariadau amserol a mynediad at wasanaethau cymorth drwy gydol y broses. Bydd ein tîm Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol y broses. Gall y cynnig hefyd ddarparu manteision sefydliadol trwy fwy o allu arweinyddiaeth. Byddai lleihau'r ffederasiwn o dri safle ysgol weithredol i ddau yn caniatáu i arweinwyr ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar addysgu a dysgu, hunanwerthuso, datblygu cwricwlwm, dysgu proffesiynol a blaenoriaethau gwella ysgolion. Disgwylir i hyn gryfhau gwytnwch sefydliadol a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwelliant addysgol parhaus.
4. Marchnata a'r Cyfryngau	Os caiff ei gymeradwyo, bydd angen marchnata'r ymgynghoriad drwy wefan y Cyngor Sir a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid gofynnol.
5. Troseddau ac Anhrefn	Ni ddisgwylir unrhyw oblygiadau.

Atodiad D – Ffurflen Ymateb

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgynghori ar y cynnig i:

- cau Ysgol Carwe o 31 Rhagfyr 2027 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gwynfryn.

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i chi wneud sylwadau ar y cynnig a'r opsiynau eraill, ac awgrymu opsiynau eraill. Mae croeso i ymgyngoreion wneud sylwadau ynghylch y dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol sydd wedi'u nodi gan y cynigydd yn ogystal â'r prif gynnig ac awgrymu dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros ei chau (h.y. yr heriau allweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu y mae'r cynigydd yn ceisio mynd i'r afael â nhw).

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig.
Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

---

1. Ydych chi'n ymateb fel:

☐ Rhiant, gofalwr neu warcheidwad ☐ Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr ☐ Staff

☐ Aelod o'r gymuned ☐ Cyngor Cymuned

☐ Arall: Nodwch _____

2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

3. Teimlwch yn rhydd i rannu unrhyw sylwadau neu resymau dros eich ateb gan gynnwys unrhyw effaith yr ydych yn credu y gallai'r cynnig ei chael (dewisol)

4. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Carwe yn eich barn chi?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill:

5. Yn ôl Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith niweidiol neu'n cael effaith lai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi a fydd yn crynhoi'r materion a nodwyd gan yr ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny.

Hoffech chi gael gwybod am gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori?

☐ Hoffwn ☐ Na hoffwn

Os hoffech chi gael gwybod, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post a dewis iaith (Cymraeg/Saesneg):

Diolch am lenwi'r ffurflen ymateb.

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u llenwi i'r cyfeiriad canlynol:

Mr Owain Lloyd,

Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden,
Neuadd y Sir,
Rhiw'r Castell
Caerfyrddin
SA31 1JP

neu mewn e-bost at RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Neu gallwch lenwi'r ffurflen hon ar-lein: AROLWG SNAP

Dychwelwch eich ymateb erbyn 22 Rhagfyr 2026. Ni fydd ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.